



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2009
Wednesday, 25 November 2009**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
- 22 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
Questions to the Minister for Heritage
- 42 Datganiad am y Cynllun Addysg Uwch ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain
Statement on the Twenty-first Century Higher Education Plan
- 63 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
Questions to the Assembly Commission
- 64 Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Statement by the Right Honourable Peter Hain MP, Secretary of State for Wales
- 93 Araith y Frenhines
The Queen's Speech
- 142 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 151 Dadl Fer: Ar y Trywydd Cywir? Gwasanaethau Trenau yng Ngorllewin Cymru
Short Debate: On the Right Track? Train Services in West Wales

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government

Priorities

Q1 Paul Davies: What are the Minister's priorities for local government in the next six months? OAQ(3)1005(SJL)

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): In addition to supporting local authorities in providing high-quality services that meet local needs, building strong and sustainable communities, and operating in an open and accountable manner, the Assembly Government will work with our partners and stakeholders to help people, businesses and communities tackle the economic downturn.

Paul Davies: Several businesses have made representations to me about potential business rate increases as part of the proposed revaluation. As you know, Minister, this is causing a great deal of concern, particularly given the challenging economic times. My colleagues on this side of the Chamber have raised this matter on several occasions over the last few weeks. Will you confirm when you will be bringing forward a statement on this very important matter?

Brian Gibbons: I am due to have a further round of discussions with Cabinet colleagues on this matter today and tomorrow. Clearly, until we complete that round of discussions, it is difficult to give a definitive date for a final response to the business rates increase.

Jenny Randerson: Full-time students, as you know, do not have to pay council tax. Yet there is a whole group of full-time students, that is, those who are writing up their PhDs and who no longer receive funding—they are studying full-time but are

Blaenoriaethau

C1 Paul Davies: Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer llywodraeth leol dros y chwe mis nesaf? OAQ(3)1005(SJL)

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Yn ogystal â chynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion lleol, adeiladu cymunedau cryf a chynaliadwy, a gweithredu mewn modd agored ac atebol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i helpu pobl, busnesau a chymunedau i fynd i'r afael â'r dirywiad economaidd.

Paul Davies: Mae sawl busnes wedi cwyno wrthyf ynghylch cynnydd posibl mewn trethi busnes fel rhan o'r ymarfer ailbriso arfaethedig. Gwyddoch, Weinidog, fod hyn yn achosi cryn bryder, yn enwedig o ystyried yr amseroedd economaidd heriol sydd ohoni. Mae fy nghydweithwyr yr ochr hon i'r Siambr wedi codi'r mater hwn ar lawer achlysur dros yr ychydig wythnosau diwethaf. A wnewch chi gadarnhau pryd y byddwch yn gwneud datganiad ar y mater pwysig iawn hwn?

Brian Gibbons: Yr wyf i fod i gael trafodaethau pellach gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet ar y mater hwn heddiw ac yfory. Wrth gwrs, nes inni gwblhau'r trafodaethau hynny, mae'n anodd rhoi dyddiad pendant ar gyfer ymateb yn derfynol i'r cynnydd mewn trethi busnes.

Jenny Randerson: Fel y gwyddoch, nid oes rhaid i fyfyrwyr llawn amser dalu'r dreth gyngor. Eto i gyd, mae grŵp cyfan o fyfyrwyr llawn amser, hynny yw, y sawl sy'n ysgrifennu eu gwaith ar gyfer doethuriaeth ac nad ydynt yn cael cyllid bellach—maent yn

not receiving an income—who are not covered by the regulations. In some cases, universities will provide a letter to the local authority and the local authority will accept that letter as evidence that the student is still studying full time. Other local authorities do not do that, which creates a very unfair and uneven situation across Wales. Will you issue some guidance to local authorities on what evidence that a student is still studying full time they should require?

Brian Gibbons: We have had a very interesting exchange of correspondence on this matter, and some of the issues that you have raised in your question were highlighted. You are right; the situation is fairly clear. A full-time student is entitled to that exemption, and if someone feels that he or she is a full-time student, he or she needs to be able to prove that to the satisfaction of the local authority. If he or she is not able to do so, then, clearly, on the grounds of due diligence, the local authority is not in a position to give that person the full concession. Therefore, the situation is fairly clear cut, as things stand. Either someone is or is not a full-time student.

Shared-service Provision

Q2 William Graham: Will the Minister make a statement on shared service provision by local authorities in Wales? OAQ(3)0987(SJL)

Brian Gibbons: Local authorities are involved with a range of projects involving a shared-service approach to delivery. We have provided support to a number of these projects, including shared human resources, training and payroll functions in south-east Wales, shared legal services in west Wales, Wales-wide collaborative procurement arrangements, and joint CCTV arrangements across north Wales.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. You may know that the Cabinet Secretary for Finance and Sustainable Growth of the Scottish

astudio'n llawn amser ond nid ydynt yn cael incwm—nad yw'r rheoliadau'n ymwneud â hwy. Mewn rhai achosion, bydd prifysgolion yn darparu llythyr i'r awdurdod lleol, a bydd yr awdurdod lleol yn derbyn y llythyr hwnnw fel tystiolaeth i ddangos bod y myfyriwr yn dal i astudio'n llawn amser. Nid yw awdurdodau lleol eraill yn gwneud hynny, sy'n creu sefyllfa annheg ac anwastad iawn ledled Cymru. A wnewch chi gyhoeddi arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch pa dystiolaeth y dylent ofyn amdani i ddangos bod myfyriwr yn dal i astudio'n llawn amser?

Brian Gibbons: Yr ydym wedi cyfnewid gohebiaeth ddiddorol iawn ar y mater hwn, a thynnwyd sylw at rai o'r materion yr ydych wedi'u codi yn eich cwestiwn. Yr ydych yn gywir; mae'r sefyllfa'n weddol glir. Mae gan fyfyrwr llawn amser hawl i gael ei eithrio, ac os oes rhywun yn teimlo'i fod yn fyfyrwr llawn amser, mae angen iddo allu profi hynny mewn modd sy'n bodloni'r awdurdod lleol. Os nad yw'n gallu gwneud hynny, yna, ar sail diwydrwydd dyladwy, mae'n amlwg na fydd yr awdurdod lleol mewn sefyllfa i roi'r consesiwn llawn i'r person hwnnw. Felly, mae'r sefyllfa'n eithaf clir ar hyn o bryd. Mae rhywun naill ai yn fyfyrwr llawn amser neu beidio.

Darpariaeth Gwasanaethau a Rennir

C2 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau a rennir gan awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(3)0987(SJL)

Brian Gibbons: Mae awdurdodau lleol yn ymwneud ag ystod o brosiectau sy'n golygu darparu gwasanaethau a rennir. Yr ydym wedi darparu cymorth ar gyfer nifer o'r prosiectau hyn, gan gynnwys prosiectau swyddogaethau adnoddau dynol, hyfforddiant a chyflogres a rennir yn y de-ddwyrain, prosiectau gwasanaethau cyfreithiol a rennir yn y gorllewin, trefniadau caffael cydweithredol Cymru gyfan, a threfniadau teledu cylch cyfyng ar y cyd ledled y gogledd.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weinidog. Efallai eich bod yn gwybod bod yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cyllid a Thwf Cynaliadwy yn Senedd yr Alban wedi dweud

Parliament said yesterday that ‘decisive leadership’ was needed in the public sector if the shared services agenda was to deliver meaningful savings while preserving front-line services, and that ‘there is simply no alternative’ to councils and other public agencies pooling resources in the current economic climate. How will your Government bring that about?

Brian Gibbons: The Assembly Government has been promoting this message since the Beecham review of public services in Wales, so I am pleased to see colleagues in Scotland beginning to share the view that we have taken for a number of years. There are a number of ways in which we are actively doing that. We are doing it through the strategic capital investment fund and through the invest-to-save fund, with £60 million over two years, with a low-interest or no-interest negotiable repayment period. There are a number of avenues available to public bodies in Wales through which they can draw down the necessary support. However, one would have thought that financial pump-priming would not be a key requirement; it surely makes good business sense to deliver these efficiencies regardless of whether or not public support has been given.

Nerys Evans: Today is White Ribbon Day, which has the aim of drawing attention to the prevalence of violence against women. Victims of violence need a variety of services across boundaries. We have heard today that the Home Office is starting to implement its strategy on dealing with violence against women, with plans to introduce lessons on safe relationships in all schools in England. We had a lively debate here a few weeks ago on your strategy on violence against women, in which you pledged to look at the strategy again, taking into account the consultation responses received, to ensure that it is gender specific, works across portfolios, has targets and is measurable, rather than simply being a list of what your department is doing. Can you give us an update on the revised strategy?

ddoe bod angen arweinyddiaeth bendant yn y sector cyhoeddus os oedd yr agenda gwasanaethau a rennir am sicrhau arbedion ystyrlon gan ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, ac nad oedd ‘dim dewis arall’ gan gynghorau ac asiantaethau cyhoeddus eraill sy’n cyfuno adnoddau yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Sut y bydd eich Llywodraeth yn cyflwyno hynny?

Brian Gibbons: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn hyrwyddo’r neges hon ers adolygiad Beecham o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, yr wyf yn falch gweld ein cydweithwyr yn yr Alban yn dechrau rhannu’r farn sy’n farn i ni ers nifer o flynyddoedd. Yr ydym yn gwneud hynny’n weithredol mewn llawer o ffyrdd. Yr ydym yn gwneud hynny drwy’r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol a thrwy’r gronfa buddsoddi i arbed, gyda £60 miliwn dros ddwy flynedd, a chyfnod ad-dalu llog isel neu ddi-log y gellir ei drafod. Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru nifer o lwybrau y gallant eu defnyddio i gael y cymorth angenrheidiol. Fodd bynnag, byddech yn meddwl na fyddai arian iro yn ofyniad allweddol; rhaid ei bod yn gwneud synnwyr da o safbwynt busnes i sicrhau’r arbedion effeithlonrwydd hyn, ni waeth a gafwyd cymorth cyhoeddus ai peidio.

Nerys Evans: Mae’n Ddiwrnod Rhuban Gwyn heddiw. Nod y diwrnod yw tynnu sylw at gyffredinolrwydd trais yn erbyn menywod. Mae ar bobl sy’n dioddef trais angen amrywiaeth o wasanaethau ar draws ffiniau. Clywsom heddiw fod y Swyddfa Gartref yn dechrau gweithredu ei strategaeth ar ymdrin â thrais yn erbyn menywod, gyda chynlluniau i gyflwyno gwersi ar gydberthynas ddiogel ym mhob ysgol yn Lloegr. Cawsom drafodaeth fywiog yma ychydig wythnosau’n ôl ynghylch eich strategaeth ar drais yn erbyn menywod, pan addawsoch edrych ar y strategaeth eto, gan ystyried yr ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad, er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn benodol i rywedd, ei bod yn gweithio ar draws portffolios, bod iddi dargedau ac y gellir ei mesur, yn hytrach na bod yn rhestr yn unig o’r hyn y mae eich adran yn ei wneud. A allwch roi’r manylion diweddaraf inni am y strategaeth ddiwygiedig?

Brian Gibbons: We had hoped to have early sight of the definitive English document. Had that happened, we would have been able to bring forward proposals in the light of it. The report from England is very important, particularly because it covers a number of non-devolved areas. As we want to develop our action plan, we will have to take on board a number of those non-devolved proposals, as well as developing our own devolved proposals in the light of the consultation. That will probably mean a slight delay of another few weeks in the production of our definitive proposals, but I think that they will reflect some of the points announced today in England, and they will take on board many of the substantial points made during the consultation.

Support for Communities

Q3 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for communities? OAQ(3)0994(SJL)

Brian Gibbons: The Welsh Assembly Government has a wide range of policies and programmes that support communities across Wales. Within my portfolio, examples include the Communities First programme, the post office development fund, Communities 2.0, the community asset transfer programme and the community facilities and activities programme.

Janet Ryder: To enable residents to interface fully with Government services, they increasingly need access to broadband and the internet. I am sure that you are aware that many communities in Wales still do not have good broadband access or access to the internet. BT is trialling technology that could sort out those not spots. However, it is not planning to pay for the service. What does your Government plan to do to ensure that people in all communities have access to broadband, which would enable them to run their businesses and to access the latest information and the many services offered through broadband in their locality?

Brian Gibbons: Yr oeddem wedi gobeithio gweld y ddogfen Saesneg derfynol yn fuan. Pe bai hynny wedi digwydd, byddem wedi gallu cyflwyno cynigion yng ngoleuni hynny. Mae'r adroddiad o Loegr yn bwysig iawn, yn enwedig gan ei fod yn ymdrin â nifer o feysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Gan ein bod am ddatblygu ein cynllun gweithredu, bydd yn rhaid inni ystyried nifer o'r cynigion hynny nad ydynt wedi'u datganoli, yn ogystal â datblygu ein cynigion datganoledig ein hunain yng ngoleuni'r ymgynghori. Mae'n debyg y bydd hynny'n golygu ychydig oedi am ychydig wythnosau eto wrth i'n cynigion swyddogol gael eu llunio, ond credaf y byddant yn adlewyrchu rhai o'r pwyntiau a gyhoeddwyd heddiw yn Lloegr, a byddant yn ystyried llawer o'r pwyntiau pwysig a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad.

Cefnogaeth i Gymunedau

C3 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymunedau? OAQ(3)0994(SJL)

Brian Gibbons: Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ystod eang o bolisïau a rhaglenni sy'n cefnogi cymunedau ledled Cymru. Yn fy mhortffolio i, mae enghreifftiau'n cynnwys y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, y gronfa datblygu swyddfeydd post, Cymunedau 2.0, y rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol a'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol.

Janet Ryder: Er mwyn galluogi trigolion i ymwneud yn llawn â gwasanaethau'r Llywodraeth, mae arnynt angen mynediad yn gynyddol i fand eang a'r rhyngwyd. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol nad oes gan lawer o gymunedau yng Nghymru o hyd fynediad da i fand eang neu fynediad i'r rhyngwyd. Mae BT yn treialu technoleg a allai ddatrys problemau'r ardaloedd digyswllt hynny. Fodd bynnag, nid yw'n bwriadu talu am y gwasanaeth. Beth mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod pobl ym mhob cymuned yn gallu cael band eang, a fyddai'n eu galluogi i redeg eu busnesau a chael y wybodaeth ddiweddaraf a'r gwasanaethau niferus a gynigir drwy fand eang yn eu hardal leol?

Brian Gibbons: You make an important point. For the record, I should highlight that 99.8 per cent of people in Wales are now able to access broadband services. That must be the key message. You are right that a fair number of communities are outside that 99.8 per cent. You will be aware that the regional innovative broadband support programme, supported by the Assembly Government, is the key vehicle for addressing not spots. A programme is in place to identify the key not spot areas, and it is important for any areas that do not have access to broadband to register on the Welsh Assembly Government interest site, because that gives us important information as to where we can do the most good for the most people. That is a key message.

We are looking at what BT is doing, and if its pilot work proves fruitful it may have a role in the RIBS programme roll-out to address the remaining places not covered by existing broadband provision.

1.40 p.m.

Mark Isherwood: The largest funding allocation in your social justice budget is to the Communities First programme, which provides support to communities. Noting the findings of the Wales Audit Office report relating in particular to failings in corporate governance, how do you respond to research by the Joseph Rowntree Foundation that shows that more children are living in poverty outside communities designated as disadvantaged than inside them? Children in Wales has said that, at the beginning, there was a need to look at where the worst deprivation was to be found and to try to effectively target resources at those areas, but Communities First has been in place some years, and it is time to move on and be more flexible, moving on from a system in which one family on one side of the street can access services supporting free childcare, but a family across the street in a worse financial position cannot.

Brian Gibbons: Yr ydych yn gwneud pwynt pwysig. At ddiben y cofnod, dylwn dynnu sylw at y ffaith bod 99.8 y cant o bobl yng Nghymru bellach yn gallu cael gwasanaethau band eang. Rhaid mai hynny yw'r neges allweddol. Yr ydych yn iawn i ddweud bod nifer weddol o gymunedau y tu allan i'r ffigur hwnnw o 99.8 y cant. Byddwch yn ymwybodol mai'r rhaglen cymorth band eang arloesol rhanbarthol, a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad, yw'r cyfrwng allweddol i fynd i'r afael ag ardaloedd digyswllt. Mae rhaglen ar waith i nodi'r ardaloedd digyswllt allweddol, ac y mae'n bwysig i ardaloedd nad ydynt yn gallu cael band eang gofrestru ar wefan Llywodraeth y Cynulliad i fynegi diddordeb, gan fod hynny'n rhoi gwybodaeth bwysig inni ynghylch ble y gallwn wneud y lles mwyaf i'r nifer fwyaf o bobl. Mae honno'n neges allweddol.

Yr ydym yn edrych ar yr hyn y mae BT yn ei wneud, ac os bydd ei waith treialu'n llwyddiannus, efallai y bydd ganddo rôl yn y broses o gyflwyno'r rhaglen cymorth band eang arloesol ranbarthol i roi sylw i'r lleoedd ar ôl nad yw'r ddarpariaeth band eang yn eu cynnwys ar hyn o bryd.

Mark Isherwood: Caiff y dyraniad cyllid mwyaf yn eich cyllideb cyfiawnder cymdeithasol ei glustnodi ar gyfer y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n darparu cymorth i gymunedau. I sylwi ar ddarganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ymwneud yn benodol â methiannau mewn gwaith llywodraethu corfforaethol, sut yr ydych yn ymateb i ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree sy'n dangos bod mwy o blant yn byw mewn tlodi y tu allan i gymunedau sydd wedi'u dynodi'n ddifreintiedig nag sy'n byw ynddynt? Mae Plant yng Nghymru wedi dweud bod angen, ar y cychwyn, edrych ble'r oedd yr amddifadedd gwaethaf, a cheisio targedu adnoddau'n effeithiol at yr ardaloedd hynny. Ond y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn gweithredu ers llawer blwyddyn, ac y mae'n bryd symud ymlaen a bod yn fwy hyblyg, gan adael system lle gall un teulu ar un ochr i'r stryd gael gwasanaethau sy'n cynnig cymorth gyda gofal plant di-dâl, ond

lle na teulu ar ochr arall y stryd sydd mewn sefyllfa ariannol waeth wneud hynny.

Brian Gibbons: There is always a tension between addressing the particular problems of areas that have a high concentration of deprivation and disadvantage, and tackling deprivation more generally. There can be no question that disadvantaged people in areas where there is a high concentration of disadvantage face further synergistic disadvantages. Therefore I do not accept for a minute that this targeted focus on areas of multiple disadvantage should be abandoned. We need to continue, and we are determined to do so, through the Communities First outcomes fund, which we hope will lever in other funds through statutory agencies. We also have to recognise that as many as half of all children in deprivation do not live in Communities First areas, and that is why it is important that the emerging child poverty strategies, and money from Cymorth, Sure Start and Flying Start, are targeted at areas that are not necessarily Communities First areas to ensure that those children are catered for through universal provision.

Ann Jones: Will you join me in congratulating Coleg Llandrillo in Rhyl on its Beacon award for widening participation? Do you agree that support for communities has to include further education colleges widening participation and offering courses in basic skills and confidence building for those in communities that have suffered from a lack of funding from local authorities? Will you also welcome the funding for the North Wales Women's Centre, which does excellent work in helping women who have suffered domestic violence? As it is White Ribbon Day, will you join me in congratulating the women's centre on its work? Long may it continue.

Brian Gibbons: I am pleased to have been able to provide financial support to the women's centre in Rhyl in the last few months. I know that it needed bridging funding in order to draw down further grant aid, and I was pleased to provide that because I have been impressed with its work. We visited the centre together, and the staff are

Brian Gibbons: Mae tensiwn bob amser rhwng rhoi sylw i broblemau penodol ardaloedd o anfantais ac amddifadedd dwys a mynd i'r afael ag amddifadedd yn fwy cyffredinol. Nid oes amheuaeth nad yw pobl ddifreintiedig mewn ardaloedd o anfantais ddwys yn wynebu rhagor o anfanfeision synergyddol. Felly, nid wyf yn derbyn am funud y dylid troi cefn ar y ffocws penodol hwn ar ardaloedd o anfantais luosog. Mae angen inni barhau, ac yr ydym yn benderfynol o wneud hynny, drwy gronfa ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf, ac yr ydym yn gobeithio y bydd y gronfa'n denu arian arall drwy asiantaethau statudol. Rhaid inni gydnabod hefyd nad yw cynifer â hanner yr holl blant sydd mewn amddifadedd yn byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, a dyna pam mae'n bwysig i'r strategaethau ar dlodi plant sy'n datblygu, ac arian gan Cymorth, Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg, gael eu targedu at ardaloedd nad ydynt o reidrwydd yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn sicrhau darperu ar gyfer y plant hynny drwy ddarpariaeth gyffredinol.

Ann Jones: A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Coleg Llandrillo yn y Rhyl ar ennill gwobr Beacon am ehangu cyfranogiad? A ydych yn cytuno'i bod yn rhaid i gymorth ar gyfer cymunedau gynnwys colegau addysg bellach sy'n ehangu cyfranogiad, ac sy'n cynnig cyrsiau mewn sgiliau sylfaenol a chyfleoedd i feithrin hyder i'r rheini mewn cymunedau sydd wedi dioddef oherwydd diffyg arian gan awdurdodau lleol? A wnewch chi hefyd groesawu'r arian ar gyfer Canolfan Merched Gogledd Cymru, sy'n gwneud gwaith ardderchog i helpu menywod sydd wedi dioddef trais domestig? Gan ei bod yn Ddiwrnod Rhuban Gwyn, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y ganolfan ar ei gwaith? Hir oes i hynny.

Brian Gibbons: Yr wyf yn falch o fod wedi gallu darparu cymorth ariannol i'r ganolfan merched yn y Rhyl yn yr ychydig fisoedd diwethaf. Gwn fod angen arian pontio ar y ganolfan i gael mwy o gymorth grant, ac yr oeddwn yn falch darparu'r arian hwnnw gan fod gwaith y ganolfan wedi creu argraff araf. Ymwelsom â'r ganolfan gyda'n gilydd,

highly motivated. I am equally pleased to see that it has had the grant funding that it was hoping for, and I am sure that the women's centre will continue to build on its excellent work.

We all realise the transformative potential of education, and we need to send out a strong message that it is never too late to engage with education. If you have missed the boat the first time around, there is always a second chance, and opportunities such as part-time study, foundation apprenticeships and so on, all of which the Assembly Government is promoting. They are part of the wider access agenda, and I am pleased that the Coleg Llandrillo has been able to engage in that agenda with us.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, would you agree that if we are to successfully tackle violence against women we must make a whole range of services accessible to them? Do you also agree that we must address the current postcode lottery in services—not just those focused on domestic violence, but services for victims of all sorts of violence? We particularly need to look at the needs of women in rural areas, who might find it difficult to access services because of issues related to rurality.

Brian Gibbons: You are right, and in the latest round of funding we have provided additional support for mobile facilities for the Dyfed Powys area as a means of providing the type of access that you raised in your question.

Setliad Refeniw Llywodraeth Leol

C4 Gareth Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am setliad refeniw llywodraeth leol? OAQ(3)0980(SJL)

Brian Gibbons: For 2010-11, local authorities in Wales will receive over £4 billion through the local government revenue settlement. That is a net increase of 2.1 per cent, and a gross increase of 3 per cent, on

ac y e'r staff yn frwdfrydig tu hwnt. Yr wyf yr un mor falch o weld ei bod wedi cael yr arian grant yr oedd yn gobeithio'i gael, ac yr wyf yn siŵr y bydd y ganolfan merched yn parhau i adeiladu ar ei gwaith ardderchog.

Yr ydym oll yn sylweddoli potensial trawsnewidiol addysg, ac y mae angen inni gyfleu'r neges gref nad yw byth yn rhy hwyr i ymwneud ag addysg. Os byddwch wedim colli cyfle y tro cyntaf, daw ail gyfle bob amser, a chyfleoedd megis astudiaethau rhan-amser, prentisiaethau sylfaenol, ac yn y blaen, ac y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu hyrwyddo i gyd. Maent yn rhan o'r agenda ar ehangu mynediad, ac yr wyf yn falch bod Coleg Llandrillo wedi gallu ymwneud â'r agenda honno gyda ni.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, a fydddech yn cytuno'i bod yn rhaid inni sicrhau bod ystod lawn o wasanaethau ar gael i fenywod os ydym am fynd i'r afael yn llwyddiannus â thrais yn erbyn menywod? A ydych yn cytuno hefyd ei bod yn rhaid inni roi sylw i'r loteri cod post sy'n bodoli mewn gwasanaethau—nid yn unig y gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar drais domestig, ond gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef pob math o drais? Mae angen inni edrych yn benodol ar anghenion menywod mewn ardaloedd gwledig, y gallai fod yn anodd iddynt gael gwasanaethau oherwydd problemau'n ymwneud â natur wledig yr ardaloedd hynny.

Brian Gibbons: Yr ydych yn iawn, ac yn y rownd ddiweddaraf o ariannu yr ydym wedi darparu cymorth ychwanegol ar gyfer cyfleusterau teithiol yn ardal Dyfed-Powys er mwyn gallu darparu'r math o fynediad yr oeddech yn tynnu sylw ato yn eich cwestiwn.

Local Government Revenue Settlement

Q4 Gareth Jones: Will the Minister make a statement on the local government revenue settlement? OAQ(3)0980(SJL)

Brian Gibbons: Ar gyfer 2010-11, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael dros £4 biliwn drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol. Mae hynny'n gynnydd net o 2.1 y cant, ac yn gynnydd crynswth o 3 y cant, o'i

last year. I will announce my final local government revenue settlement proposals on 8 December.

Gareth Jones: Diolch am yr ateb, Weinidog. Rhaid imi fynegi pryderon sylweddol am y rhagolygon i Gonwy yn y tymor canolig. Mae angen ailedrych ar y ffactorau sy'n ymwneud â natur wledig y sir a'r niferoedd cynyddol o bobl oedrannus. Hoffwn bwysio arnoch i ystyried galwad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am fecanwaith terfyn uchaf, yn ogystal â'r mecanwaith terfyn isaf sy'n bodoli ar hyn o bryd, er mwyn lleddfu tipyn ar y boen yn ystod y wasgfa eithriadol hon ar wario cyhoeddus. A fydddech yn barod i gyfarfod ag aelodau a swyddogion cyngor Conwy i drafod rhai o'r materion hyn?

Brian Gibbons: I have met a number of the senior officers, including the new chief executive, in Conwy. I would be pleased to meet them again, in line with what you suggest. We would have to give serious consideration to your suggestion that there should be a ceiling on increases because the factors that are driving those increases are the number of children in schools and the number of vulnerable older people in the community. If particular local authorities have high numbers of children going to school or an increase in vulnerable older people, I would need to be convinced that the formula should be interfered with so that local authorities that have those increases can get the extra resources to address those needs. If there is a case to be made, let us hear it, but, as I say, we need a needs-based formula, and capping it arbitrarily would undermine the needs-based element of the current distribution formula.

Darren Millar: I have also raised the issue of a ceiling mechanism with you, and you have gone to some length in explaining the factors within the formula that resulted in a lower settlement to Conwy in particular. Gareth Jones rightly pointed out the rurality issues and the demographic challenges that Conwy faces. However, there are other factors that can influence a local authority in terms of its cost base, such as tourism, for example, in places like Conwy and

gymharu â'r llynedd. Byddaf yn cyhoeddi fy nghynigion terfynol ar setliad refeniw llywodraeth leol ar 8 Rhagfyr.

Gareth Jones: Thank you for that answer, Minister. I must express great concern over the prospects for Conwy in the medium term. The factors relating to the county's rurality and the increasing number of older people need to be reconsidered. I urge you to consider the call by Conwy County Borough Council for a ceiling mechanism, as well as the current floor mechanism, to ease the pain a little during this tremendous squeeze on public funding. Would you be prepared to meet with members and officials of Conwy council to discuss some of these matters?

Brian Gibbons: Yr wyf wedi cyfarfod â nifer o'r uwch-swyddogion, gan gynnwys y prif weithredwr newydd, yng Nghonwy. Byddwn yn falch cyfarfod â hwy eto, fel yr awgrymwch. Byddai'n rhaid inni ystyried yn ddifrifol eich awgrym y dylai fod terfyn ar gynnydd, gan mai'r ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwnnw yw nifer y plant mewn ysgolion a nifer y bobl hŷn yn y gymuned sy'n agored i niwed. Os oes gan awdurdodau lleol penodol niferoedd uchel o blant yn mynd i'r ysgol, neu os gwelant gynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n agored i niwed, byddai angen fy argyhoeddi y dylid ymyrryd â'r fformiwla er mwyn i awdurdodau lleol sy'n gweld y cynnydd hwnnw allu cael yr adnoddau ychwanegol i roi sylw i'r anghenion hynny. Os oes achos i'w gyflwyno, gadewch inni ei glywed, ond fel yr wyf yn ei ddweud, mae arnom angen fformiwla'n seiliedig ar anghenion, a byddai ei chapio'n fympwyol yn tanseilio'r elfen yn y fformiwla ddisbarthu bresennol sy'n seiliedig ar anghenion.

Darren Millar: Yr wyf fi hefyd wedi tynnu eich sylw at fater mecanwaith terfyn, ac yr ydych wedi mynd i gryn drafferth i egluro'r ffactorau yn y fformiwla a arweiniodd at setliad is i Gonwy yn arbennig. Tynnodd Gareth Jones sylw'n gywir at broblemau natur wledig y sir a'r heriau demograffig sy'n wynebu Conwy. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill yn gallu dylanwadu ar awdurdod lleol o ran ei sylfaen gostau, megis twristiaeth, er enghraifft, mewn lleoedd megis Conwy a Sir

Denbighshire in north Wales. There is a hidden cost in catering for visitors, whether it is through additional public conveniences, greater wear and tear on highways or in parks and gardens, and so on. Given that tens of thousands of people visit these popular tourist counties in any given year, will you consider introducing into the revenue support grant a formula that would identify the cost associated with tourism, and then speak with the Welsh Local Government Association about that, with a view to ensuring that these costs are recognised through that mechanism in the future?

Brian Gibbons: The formula is regularly revisited as part of the ongoing discussions between us and the Welsh Local Government Association, particularly on the more specialist distribution sub-group. The purpose of those discussions is to ensure that the formula is fully fit for purpose. Local authorities have asked us for some degree of certainty of funding over a number of years, and continually changing the formula yearly is not consistent with the three-year certainty, which local government also wants. Therefore, there are some tensions.

I am not aware that tourism has been suggested, by any side, as an important driver that needs to be considered. It must be considered that tourism is also an important public beneficiary to the local economy, therefore tourism is not just a drain on local resource, but it is also an asset that puts money into people's pockets and has an economic benefit to the community. We need to look at that in the round, and, if there is a case, let us hear it.

1.50 p.m.

Peter Black: Minister, you will know that there has been some controversy for some time about the large number of direct grants paid to local government for specific purposes. In particular, the smaller grants are expensive to administer, overly bureaucratic and do not offer the sort of certainty you just referred to in your answer to Darren Millar. What plans do you have to carry out an overhaul of all of those direct grants to local

Ddinbych yn y gogledd. Mae cost gudd ynghlwm wrth ddarparu ar gyfer ymwelwyr, boed oherwydd cyfleusterau cyhoeddus ychwanegol, mwy o draul ar briffyrdd neu mewn parciau a gerddi, ac yn y blaen. O ystyried bod degau o filoedd o bobl yn ymweld mewn unrhyw flwyddyn benodol â'r siroedd hyn sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid, a wnewch chi ystyried cyflwyno fformiwla yn y grant cynnal refeniw a fyddai'n adnabod y gost sydd ynghlwm wrth dwristiaeth, yna siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am hynny, gyda'r bwriad o sicrhau bod y costau hynny'n cael eu cydnabod drwy'r mecanwaith hwnnw yn y dyfodol?

Brian Gibbons: Ailedrychir ar y fformiwla'n rheolaidd fel rhan o'r trafodaethau parhaus rhyngom ni a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn enwedig yn yr is-grŵp dosbarthu mwy arbenigol. Pwrpas y trafodaethau hynny yw sicrhau bod y fformiwla'n gwbl addas at ei diben. Mae awdurdodau lleol wedi gofyn inni am ryw faint o sicrwydd ynghylch arian dros nifer o flynyddoedd, ac nid yw newid y fformiwla byth a hefyd bob blwyddyn yn gyson â'r sicrwydd tair blynedd y mae llywodraeth leol hefyd am ei gael. Mae yna rai tensiynau, felly.

Ni wn a oes neb wedi awgrymu bod twristiaeth yn sbardun pwysig y mae angen ei ystyried. Rhaid ystyried bod twristiaeth hefyd yn fuddiolwr cyhoeddus pwysig yn yr economi leol, felly, nid treth yn unig ar adnoddau lleol yw twristiaeth, oherwydd mae hefyd yn ased sy'n rhoi arian ym mhocedi pobl, ac y mae o fudd economaidd i'r gymuned. Mae angen inni edrych ar hynny yn ei holl agweddau, ac os oes achos, gadewch inni ei glywed.

Peter Black: Weinidog, byddwch yn gwybod bod cryn anghydfod wedi bod ers tro ynghylch y nifer fawr o grantiau uniongyrchol sy'n cael eu talu i lywodraeth leol at ddibenion penodol. Yn anad dim, mae'r grantiau llai yn ddrud i'w gweinyddu, maent yn or-fiwrocraidd ac nid ydynt yn cynnig y math o sicrwydd yr ydych newydd gyfeirio ato yn eich ateb i Darren Millar. Pa gynlluniau sydd gennych i archwilio'r holl

government, with the objective of reducing them and incorporating them into the revenue support grant?

Brian Gibbons: As you probably know, a significant number of specific grants went into the current revenue support grant. On top of that, we are carrying out an active review of all of those grants, to see whether they can be managed in a more coherent way. To address the precise issue that you raise, we are working with the WLGA to develop an outcome agreement-based approach with local authorities. In return for the outcome agreement, we would envisage that there would be greater accountability for performance on the part of local authorities, but greater flexibility for how they spend the money allocated. That would include looking at grants and hypothecation.

Peter Black: Thank you for that answer. I wish to ask you about a specific grant—the joint working grant—which is due to end in the next 12 months, as announced by the Deputy Minister for Social Services. That grant will not be subsumed into a revenue support grant, but will cease to exist as the money will be directed elsewhere. However, there are a number of key services that are paid for out of that grant, not least child and adolescent mental health services. It also funds joint working with health authorities and so on. When that grant ceases to be paid, will you be looking to replace it in the revenue support grant so that those vital activities carried out by local authorities will not be lost?

Brian Gibbons: It was always envisaged that that would be a pump-priming grant and that it would not persist in perpetuity. I would need to check the detail, but my understanding is that the grant continued for at least one year, if not two years, longer than was initially envisaged. So, that grant has had a fair run, and those local authorities for which it was pump-priming support should have had plenty of notice that that grant was likely to come to an end. You will be aware

grantiau uniongyrchol hynny i lywodraeth leol, gyda'r bwriad o'u lleihau a'u hymgorffori yn y grant cynnal refeniw?

Brian Gibbons: Fel y gwyddoch, mae'n debyg, aeth nifer sylweddol o grantiau penodol i mewn i'r grant cynnal refeniw presennol. At hynny, yr ydym yn gwneud adolygiad gweithredol o'r holl grantiau hynny, i weld a ellir eu rheoli mewn modd mwy cydlynol. Er mwyn rhoi sylw i'r union fater yr ydych yn ei godi, yr ydym yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu dull gweithredu'n seiliedig ar gytundeb ar ganlyniadau gydag awdurdodau lleol. Yn gyfnewid am y cytundeb ar ganlyniadau, byddem yn rhagweld y byddai mwy o atebolrwydd am berfformiad ar ran awdurdodau lleol, ond y byddai mwy o hyblygrwydd o ran y modd y maent yn gwario'r arian a ddyrennir. Byddai hynny'n cynnwys edrych ar grantiau a neilltuo arian.

Peter Black: Diolch am eich ateb. Hoffwn eich holi am grant penodol—y grant ar gyfer cydweithio—y disgwylir iddo ddod i ben yn y 12 mis nesaf, fel y cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Ni fydd y grant hwnnw'n cael ei gynnwys mewn grant cynnal refeniw, ond bydd yn peidio â bodoli gan y bydd yr arian yn cael ei gyfeirio i rywle arall. Fodd bynnag, mae'r grant hwnnw'n talu am nifer o wasanaethau allweddol, ac ymhlith y rhai pwysicaf y mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Mae hefyd yn ariannu cydweithio ag awdurdodau iechyd, ac yn y blaen. Pan fydd y grant hwnnw'n peidio â chael ei dalu, a fyddwch am roi arian arall yn ei le yn y grant cynnal refeniw, fel na chollir y gweithgareddau hanfodol hynny gan awdurdodau lleol?

Brian Gibbons: Rhagwelwyd erioed mai grant iro fyddai'r grant, ac na fyddai'n para am byth. Byddai angen imi wirio'r manylion, ond fy nealltwriaeth i yw bod y grant wedi para o leiaf blwyddyn, os nad dwy flynedd, yn hwy nag a ragwelwyd i ddechrau. Mae'r grant wedi para'n dda, felly, a dylai'r awdurdodau lleol hynny a oedd yn ei gael fod wedi cael digon o rybudd ei fod yn debygol o ddod i ben. Byddwch yn ymwybodol mai'r Mesur Arfaethedig

that the Proposed Social Care Charges (Wales) Measure is one of the beneficiaries of the readjustment of priorities. Overall, the feedback that we have had in response to those proposals is that there is a general welcome for the change of emphasis and that, although it would be very desirable to have the penny and the bun, the overall feeling is that this is a good redirection of money and that people will be able to benefit from it.

Child Poverty

Q5 Christine Chapman: What is the Welsh Assembly Government doing to tackle child poverty in Wales? OAQ(3)1009(SJL)

Brian Gibbons: Tackling child poverty is a top priority for the Assembly Government. On 10 November, the Children and Families (Wales) Measure was passed by the Assembly, and a new child poverty strategy for Wales will be published in 2010 on the back of that Measure. I am also pleased to confirm that, this morning, I launched Child Trust Fund Cymru, which will provide an extra £55 for all children in Wales who were born after 2002 and £100 for those children in receipt of free school meals. I have also announced the extension of the Child Poverty Solutions Wales project, which is a very important tool for public bodies across Wales for tackling child poverty.

Christine Chapman: I welcome the practical steps that have already been taken that you have mentioned today. However, there is more to do. As the children's commissioner said in his recent evidence to the Children and Young People Committee, on which I serve, there are some excellent strategies in Wales that have been put forward by the Welsh Assembly Government, but it is now about delivery. Do you agree with this, Minister? What assurances can you give that the Welsh Assembly Government will continue to take real and sustained action to tackle poverty, particularly in light of the fact that, as a result of the recession, many more children across Wales are now living in families where neither parent is in work?

ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) yw un o'r buddiolwyr i ailaddasu blaenoriaethau. Yn gyffredinol, mae'r adborth a gawsom mewn ymateb i'r cynigion hynny yn dangos bod croeso cyffredinol i'r newid pwyslais, ac mai'r teimlad cyffredinol yw ei fod yn ffordd dda i ailgyfeirio arian ac y bydd pobl yn gallu cael budd ohono, er y byddai'n ddymunol iawn cael y gorau o'r ddau fydd.

Tlodi Plant

C5 Christine Chapman: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru? OAQ(3)1009(SJL)

Brian Gibbons: Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Ar 10 Tachwedd, pasiodd y Cynulliad Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a bydd strategaeth tlodi plant newydd ar gyfer Cymru yn cael ei chyhoeddi yn 2010 o ganlyniad i'r Mesur hwnnw. Yr wyf hefyd yn falch cadarnhau imi lansio Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru y bore yma, a fydd yn darparu £55 yn ychwanegol i bob plentyn yng Nghymru a gafodd ei eni ar ôl 2002, a £100 i'r plant hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim. Yr wyf hefyd wedi cyhoeddi bod prosiect Datrys Tlodi Plant – Cymru yn cael ei ymestyn, sy'n adnodd pwysig iawn i gyrff cyhoeddus ledled Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant.

Christine Chapman: Croesawaf y camau ymarferol sydd wedi'u cymryd eisoes ac wedi'u crybwyll gennych heddiw. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud. Fel y dywedodd y comisiynydd plant yn ei dystiolaeth yn ddiweddar i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yr wyf yn aelod ohono, mae yna rai strategaethau ardderchog yng Nghymru wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y Cynulliad, ond erbyn hyn mae angen gweithredu. A ydych yn cytuno â hyn, Weinidog? Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gymryd camau gweithredu gwirioneddol a chyson i fynd i'r afael â thlodi, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith fod mwy o lawer o blant ledled Cymru bellach yn byw mewn teuluoedd lle nad oes un o'r rhieni'n gweithio oherwydd y dirwasgiad?

Brian Gibbons: It is true that work is the main sustainable way out of poverty for families, and the increase in unemployment must be a cause for concern. We have parameters, which were published earlier this week. There are 32 measuring-success indicators, and of the indicators that are comparable over half have improved; therefore, people will be able to measure the improvement. The only indicator to deteriorate was the number of children living in unemployed families. You are right in saying that that must be a priority if we are to tackle child poverty in the future.

Angela Burns: I wish to follow on from Christine's question. Due to the recession, there are more households without incomes. My concern is that if you add that to the rurality of a number of children, and then the lack of prospects of any new jobs on the horizon for more rural communities, it will be difficult to lift these children out of poverty.

I heard your answer to Mark earlier, when you said that you wanted to ensure that new funds were spent on non-Communities First areas. Are you having ongoing discussions with the Minister for the Economy and Transport—or would it come under your brief—to look at how we can get transport for these children in poor rural areas so that they can go to places and take part in all of the other activities that children do? It is not just money that is the essence of poverty; it is not being able to be part of a gang, being able to go swimming, or just hang out with your mates after school. Many of these children are very isolated as well as being very poor.

Brian Gibbons: I agree. Money is an important element, but the life chances of children are determined by factors other than money. The deprivation of life experiences for young people is broader than just the money in the family pocket. Therefore, I think that you are right. If you look at the child poverty element of the proposed Children and Families (Wales) Measure, you

Brian Gibbons: Mae'n wir mai gwaith yw'r prif ddull cynaliadwy allan o dlodi i deuluoedd, a rhaid bod y cynnydd mewn diweithdra yn achosi pryder. Mae gennym baramedrau a gyhoeddwyd yn gynharach yr wythnos hon. Mae yna 32 o ddangosyddion i fesur llwyddiant, ac o'r dangosyddion y gellir eu cymharu mae mwy na'u hanner wedi gwella; felly, bydd pobl yn gallu mesur y gwelliant. Yr unig ddangosydd a waethygodd oedd nifer y plant sy'n byw mewn teuluoedd di-waith. Yr ydych yn iawn i ddweud ei bod yn rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth os ydym i fynd i'r afael â thlodi plant yn y dyfodol.

Angela Burns: Yr wyf am ddilyn ymlaen o gwestiwn Christine. Oherwydd y dirwasgiad, mae mwy o aelwydydd heb incwm. Fy mhryder i yw y bydd yn anodd codi'r plant dan sylw allan o dlodi, o ychwanegu hynny at y ffaith fod nifer o blant yn byw mewn ardaloedd gwledig, ac o ychwanegu'r diffyg rhagolygon ynghylch unrhyw swyddi newydd ar y gorwel ar gyfer cymunedau mwy gwledig.

Clywais eich ateb i Mark yn gynharach, pan ddywedasoch eich bod am sicrhau bod arian newydd yn cael ei wario ar ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. A ydych yn cael trafodaethau parhaus gyda'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth—neu a fyddai'r mater yn eich briff chi—i edrych ar y modd y gallwn gael cludiant ar gyfer y plant hyn mewn ardaloedd gwledig tlawd er mwyn iddynt allu mynd i leoedd a chymryd rhan yn yr holl weithgareddau eraill y bydd plant yn cymryd rhan ynddynt? Nid diffyg arian yn unig yw hanfod tlodi; mae'n golygu methu â bod yn rhan o griw, a methu â mynd i nofio neu dreulio amser gyda'ch ffrindiau ar ôl yr ysgol. Mae llawer o'r plant hyn yn unig iawn yn ogystal â bod yn dlawd iawn.

Brian Gibbons: Cytunaf. Mae arian yn elfen bwysig, ond caiff cyfleoedd bywyd plant eu pennu gan ffactorau ar wahân i arian. Mae amddifadedd o ran profiadau bywyd i bobl ifanc yn ehangach na'r diffyg arian ym mhoced y teulu. Felly, credaf eich bod yn iawn. O edrych ar yr elfen tlodi plant ym Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), gwelwch ein bod wedi

will see that we identified 13 broad aims that needed to be addressed. The reason why we picked those 13 broad aims was because we recognised the broad front on which we need to advance to tackle child poverty. Every local authority will have to develop its own strategy in the light of that statutory duty. Hopefully, the rural authorities in Wales will be up to the challenge, just as other urban or valley authorities will be up to the challenge.

Bethan Jenkins: Thank you very much, Minister, for the work that you have done on child poverty. However, we must also consider the severity of the problems that lie behind the statistics that we have been given as Assembly Members from the National Statistics bulletin recently. I specifically refer to the rate of teenage pregnancies in under-16s in Wales. As you know, Welsh teenage pregnancy rates currently stand at over eight in 1,000 13 to 15-year-olds, which is higher than in England and has risen almost uninterrupted since 2004. In June, the Welsh Assembly Government announced a new advisory board along with better sex education guidance for schools to deal with these specific issues. While I recognise that this lies within Edwina Hart's portfolio as Minister for Health and Social Services, it has an impact on child poverty targets and progression in Wales. Do you therefore have any updates on progress on this area, and on how the advisory board will work with your department in ensuring that we can tackle this issue head on?

Brian Gibbons: Teenage pregnancies are one of the indicators in the suite of indicators that I referred to in response to Chris Chapman's particular question. You will be able to look at that to see the precise figures. I am sure that the strategy, in relation to teenage pregnancies, pursued by my colleague, Edwina Hart, is very important. However, part of the reason behind a disproportionate number of teenage pregnancies is the lack of broader social opportunities for those young women. While the medical services and so forth are

nodi 13 o nodau bras yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Y rheswm pam y dewiswyd y 13 nod bras hynny oedd ein bod yn cydnabod y ffrynt eang y mae angen inni wneud cynnydd ar ei hyd i fynd i'r afael â thlodi plant. Bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol ddatblygu ei strategaeth ei hun yng ngoleuni'r ddyletswydd statudol honno. Gobeithio y bydd yr awdurdodau gwledig yng Nghymru yn barod am yr her, fel y bydd awdurdodau trefol neu awdurdodau yn y cymoedd yn barod am yr her.

Bethan Jenkins: Diolch yn fawr iawn, Weinidog, am y gwaith yr ydych wedi'i wneud ar dlodi plant. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd ystyried difrifoldeb y problemau y tu ôl i'r ystadegau a roddwyd inni fel Aelodau Cynulliad yn y bwletin Ystadegau Gwladol yn ddiweddar. Cyfeiriaf yn benodol at y gyfradd beichiogrwydd ymhlith merched dan 16 oed yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae cyfraddau beichiogrwydd yn yr ardegau yng Nghymru ar hyn o bryd yn fwy nag wyth o bob 1,000 o bobl ifanc rhwng 13 a 15 oed, sy'n uwch nag yn Lloegr, ac y mae wedi cynyddu'n ddi-dor bron er 2004. Ym mis Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad fwrdd cynghori newydd ynghyd ag arweiniad gwell ar addysg rhyw i ysgolion er mwyn ymdrin â'r materion penodol hyn. Yr wyf yn cydnabod mai rhan o bortffolio Edwina Hart yw hynny fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ond y mae'n effeithio ar dargedau a chynnydd o ran tlodi plant yng Nghymru. Felly, a oes gennych unrhyw newyddion am gynnydd yn y maes hwn, ac am y ffordd y bydd y bwrdd cynghori'n gweithio gyda'ch adran i sicrhau y gallwn fynd i'r afael â'r mater hwn yn uniongyrchol?

Brian Gibbons: Beichiogrwydd yn yr ardegau yw un o'r dangosyddion yn y gyfres o ddangosyddion y cyfeiriais ati wrth ymateb i gwestiwn penodol Chris Chapman. Byddwch yn gallu edrych ar y gyfres honno i weld yr union ffigurau. Yr wyf yn siŵr fod y strategaeth ar feichiogrwydd yn yr ardegau y mae fy nghydweithiwr, Edwina Hart, yn ymwneud â hi yn bwysig iawn. Fodd bynnag, rhan o'r rheswm y tu ôl i nifer anghymesur o achosion o feichiogrwydd yn yr ardegau yw diffyg cyfleoedd cymdeithasol ehangach i'r merched ifanc hynny. Mae'r gwasanaethau

important, the social and cultural environment in which those young people live is crucial. If they have some hope of getting a job or getting into education and making something of their lives, that is just as important as having the services there, should those young people become pregnant.

This is an important matter for the Minister for health, but it is a big challenge for all departments to create that positive cultural view here in Wales that there is a future for young people and let them go for it.

2.00 p.m.

Eleanor Burnham: The Joseph Rowntree Foundation and the Children's Commissioner for Wales constantly challenge you on matters regarding the practical cross-portfolio solutions. My colleagues on the Children and Young People committee have asked some eloquent questions. As members of that committee, we hear some horrifying tales of what is going on. What discussions are you having with your colleagues in Whitehall? If you were to listen to Vince Cable, the Liberal Democrat guru on these matters, you would hear him constantly telling us that we need to simplify the taxation system and raise the threshold that results in the very poorest in our society having to pay a disproportionate amount of tax.

Brian Gibbons: This is not a simple issue. I agree that, for some people who are getting out of unemployment and going into work, the marginal taxation rates can be a massive disincentive to taking up employment opportunities. Indeed, that was a point that was raised by the child poverty expert group in a letter that I received in the last two weeks. We have agreed to write to our colleagues in Westminster on that point. We have suggested to Whitehall that it might be a useful area in which the new expert child poverty commission, which is included in the Child Poverty Bill at Westminster, might undertake some work to address precisely the point that you are raising.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(3)1001(SJL), yn ôl.

meddygol ac yn y blaen yn bwysig, ond mae'r amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol lle mae'r bobl ifanc hynny'n byw hefyd yn hollbwysig. Os oes ganddynt unrhyw obaith cael swydd neu gael addysg a llwyddo yn eu bywydau, mae hynny'r un mor bwysig â sicrhau bod y gwasanaethau yno, pe bai'r bobl ifanc hynny'n beichiogi.

Mae hwn yn fater pwysig i'r Gweinidog dros Iechyd, ond y mae'n her fawr i bob adran greu'r farn ddiwylliannol gadarnhaol honno yma yng Nghymru, sef bod dyfodol i bobl ifanc a gadael iddynt fynd amdani.

Eleanor Burnham: Mae Sefydliad Joseph Rowntree a Chomisiynydd Plant Cymru yn gyson yn eich herio materion yn ymwneud â'r atebion ymarferol ar draws portffolios. Mae fy nghydweithwyr ar y pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi gofyn rhai cwestiynau huawdl. Fel aelodau'r pwyllgor hwnnw, clywn straeon arswydus am yr hyn sy'n digwydd. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda'ch cydweithwyr yn Whitehall? Pe baech yn gwrandao ar Vince Cable, gwrw'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y materion hyn, byddech yn ei glywed yn dweud wrthym yn gyson fod angen inni symleiddio'r system drethu a chodi'r trothwy sy'n golygu bod y bobl dlotaf yn ein cymdeithas yn gorfod talu swm anghymesur o dreth.

Brian Gibbons: Nid yw hwn yn fater syml. Cytunaf y gall y cyfraddau trethu ffiniol, i rai pobl sy'n dod allan o ddiweithdra ac yn mynd i mewn i waith, fod yn ffactor enfawr a allai eu cymell i beidio â manteisio ar gyfleoedd gwaith. Yn wir, yr oedd hwnnw'n bwynt a godwyd gan y grŵp arbenigol ar dlodi plant mewn llythyr a gefais yn ystod y pythefnos diwethaf. Yr ydym wedi cytuno i ysgrifennu at ein cydweithwyr yn San Steffan ar y pwynt hwnnw. Yr ydym wedi awgrymu wrth Whitehall y gallai fod yn faes defnyddiol lle gallai'r comisiwn arbenigol newydd ar dlodi plant, sydd wedi'i gynnwys yn y Mesur ynghylch Tlodi Plant yn San Steffan, wneud ychydig waith i roi sylw i'r union bwynt yr ydych yn ei godi.

The Presiding Officer: Question 6, OAQ(3)1001(SJL), has been withdrawn.

Anti-poverty Initiatives

Q7 Mohammad Asghar: Will the Minister make a statement on anti-poverty initiatives? OAQ(3)0988(SJL)

Brian Gibbons: The Welsh Assembly Government is committed to tackling poverty, and we have a large number of anti-poverty initiatives in place to combat it. We are also undertaking a range of analytical work to support the development, monitoring and evaluation of anti-poverty initiatives in Wales.

Mohammad Asghar: As Christmas approaches, many people will be bracing themselves for the annual holiday spending spree. The Church of England has launched a campaign to help people budget over the Christmas period. That initiative is very timely given that recent indicators suggest that many people will be spending beyond their means, despite the recession. Will the Assembly Government be launching a similar campaign to help people, and especially those who are already in financial difficulties, through the festive season?

Brian Gibbons: In the summer of every year, I dress up as Father Christmas.

The Presiding Officer: Not here, Minister.

Brian Gibbons: I know that it is against the dress code, Presiding Officer. The purpose of donning the robes of Father Christmas is to get the necessary promotional literature in place to promote the Assembly Government's Christmas savings programmes, which we undertake with the credit union movement in Wales. Many of the best credit unions in Wales have Christmas saving clubs, and the work that we do to promote credit unions is along the lines that you are suggesting. We know that the annual percentage rate of credit unions can be as little as one tenth of that of doorstep lenders. Some doorstep lenders have APRs as high as 1,000 per cent. Go to your local credit union and you will not be ripped off. Otherwise, you will not be pleased before Christmas.

Cynlluniau Gwrthdlodi

C7 Mohammad Asghar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau gwrthdlodi? OAQ(3)0988(SJL)

Brian Gibbons: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi, ac y mae gennym nifer fawr o fentrau ar waith yn erbyn tlodi i fynd i'r afael ag ef. Yr ydym hefyd yn ymgymryd ag ystod o waith dadansoddi i gefnogi datblygu, monitro a gwerthuso mentrau yn erbyn yng Nghymru.

Mohammad Asghar: Wrth i'r Nadolig agosáu, bydd llawer o bobl yn ymbaratoi ar gyfer y sbri wario flynyddol dros y gwyliau. Mae Eglwys Loegr wedi lansio ymgyrch i helpu pobl i drefnu eu harian dros gyfnod y Nadolig. Mae'r fenter honno'n amserol iawn o ystyried bod dangosyddion yn ddiweddar yn awgrymu y bydd llawer o bobl yn gwario mwy na'u hincwm, er gwaethaf y dirwasgiad. A fydd Llywodraeth y Cynulliad yn lansio ymgyrch debyg i helpu pobl, yn enwedig pobl sydd eisoes mewn trafferthion ariannol, drwy gyfnod yr ŵyl?

Brian Gibbons: Yn ystod yr haf bob blwyddyn, byddaf yn gwisgo dillad Siôn Corn.

Y Llywydd: Nid yma, Weinidog.

Brian Gibbons: Gwn fod hynny yn erbyn y cod ar gyfer gwisg, Lywydd. Pwrpas gwisgo dillad Siôn Corn yw paratoi'r llenyddiaeth hyrwyddo angenrheidiol i hyrwyddo rhaglenni cynilo Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Nadolig ybyddwn yn eu trefnu gyda'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. Mae gan lawer o'r undebau credyd gorau yng Nghymru glybiau cynilo ar gyfer y Nadolig, ac y mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud i hyrwyddo undebau credyd yn debyg i'r hyn awgrymwch. Gwyddom y gall cyfradd ganrannol flynyddol undebau credyd fod cyn lleied ag un rhan o ddeg o gyfradd benthycwyr stepen drws. Mae gan rai benthycwyr stepen drws gyfraddau canrannol blynyddol mor uchel â 1,000 y cant. Ewch i'ch undeb credyd lleol, ac ni chewch eich twyllo. Neu ni fyddwch yn hapus iawn cyn y

Nadolig.

Mark Isherwood: Santa—sorry; Minister, I know that you agree that to tackle poverty we must tackle the deep-rooted causes and not treat symptoms, whether those relate to addiction, family breakdown, educational failure, being a victim of crime or anything else. You commissioned the report from the Bevan Foundation, ‘Paying the Price of Being Poor’, which focused on the poverty premium, particularly in relation to education, financial services and fuel. A few weeks ago I chaired a conference in north Wales on fuel poverty and financial inclusion, and this issue is top of the agenda for many organisations in the public and third sectors. How do you propose to respond to the recommendations in the report, particularly, in the context of the third sector, the recommendation that the Welsh Government should offer greater support for third sector providers, as trusty organisations, to enable them to offer a package of financial services for customers, including accounts and savings advice?

Brian Gibbons: I dealt with that in part in response to Oscar’s question. We as an Assembly Government are investing a considerable amount of money in promoting credit unions across Wales. Indeed, every part of Wales now has access to a credit union, which was not true before this Assembly Government was established. Two weeks ago, Community Housing Cymru held an event in the Assembly to promote Moneyline, which is a community development financial institution that gives people access to affordable credit through its housing association. Six or seven locations in Wales are piloting that initiative. I understand that CHC would like to see that particular programme being rolled out across Wales once it knows that it is a resilient model. Therefore, there is a lot going on in relation to both what the Assembly Government is doing and through the work of third sector organisations such as the credit unions and through social housing landlords in Wales.

Mark Isherwood: Siôn—mae’n ddrwg gennyf; Weinidog, gwn eich bod yn cytuno’i bod yn rhaid inni fynd i’r afael ag achosion tloidi, sydd wedi gwreiddio’n ddwfn, er mwyn mynd i’r afael â thloidi, a pheidio â thrin symptomau, boed y’n ymwneud â dibyniaeth, y teulu’n chwalu, methiant addysgol, yn ddiodef trosedd, neu unrhyw beth arall. Comisiynwyd yr adroddiad gennych gan Sefydliad Bevan, ‘Paying the Price of Being Poor’, a oedd yn canolbwyntio ar y premiwm tloidi, yn enwedig yng nghyswllt addysg, gwasanaethau ariannol a thanwydd. Rai wythnosau’n ôl, bûm yn cadeirio cynhadledd yn y gogledd ar dlodi tanwydd a chynhwysiant ariannol, ac y mae’r mater hwn ar frig yr agenda gan nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a’r trydydd sector. Sut yr ydych yn bwriadu ymateb i’r argymhellion yn yr adroddiad, yn enwedig, yng nghydestun y trydydd sector, yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gynnig mwy o gymorth i ddarparwyr yn y trydydd sector, fel sefydliadau dibynadwy, i’w galluogi i gynnig pecyn o wasanaethau ariannol i gwsmeriaid, gan gynnwys cyngor am gyfrifon a chynilion?

Brian Gibbons: Ymdriniais â hynny’n rhannol wrth ymateb i gwestiwn Oscar. Fel Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn buddsoddi swm sylweddol o arian mewn hyrwyddo undebau credyd ledled Cymru. Yn wir, mae gan bob rhan o Gymru fynediad i undeb credyd erbyn hyn, ond nid oedd hynny’n wir cyn i’r Llywodraeth hon gael ei sefydlu yn y Cynulliad. Bythefnos yn ôl cynhaliodd Cartrefi Cymunedol Cymru ddigwyddiad yn y Cynulliad i hyrwyddo Moneyline, sef sefydliad ariannol datblygu cymunedol sy’n rhoi mynediad i bobl i gredyd fforddiadwy drwy ei gymdeithas dai. Mae chwech neu saith lleoliad yng Nghymru yn treialu’r fenter honno. Deallaf y byddai Cartrefi Cymunedol Cymru yn hoffi gweld cyflwyno’r rhaglen benodol honno ledled Cymru pan fydd yn gwybod ei bod yn fodel cadarn. Mae llawer yn digwydd, felly, o ran yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud, a thrwy waith sefydliadau’r trydydd sector, megis yr undebau credyd, a thrwy landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru.

Mark Isherwood: The third sector can do many things, and it is not just—although very much including—credit unions. There are many organisations on the ground and charities that can reach out to communities and engage with them directly. You made many references there to housing and housing associations, which I welcome. The recent Homes for All Cymru report talks about the housing crisis getting worse and says that it is not a new crisis, although the economic downturn is making it worse. It adds that the consequences for people's health and wellbeing and the stability of communities in Wales are dire. Given that housing can be a major contributory factor to poor health, educational failure, economic inactivity and a loss of life chances, how are you engaging across departments to recognise that this is one of the key legs on which anti-poverty initiatives must stand?

Brian Gibbons: Housing has to be a big priority. That is one of the reasons why the Deputy Minister for Housing, Jocelyn Davies, and I recently launched a housing debt advice campaign with the third sector—with the Wales Co-operative Centre and the Consumer Credit Counselling Service in Wales. This is a good partnership between the Assembly Government and the third sector to promote debt advice for housing tenants and house owners. We are aware of the home mortgage scheme. Indeed, I had a meeting recently with the Legal Services Commission in Wales, which was positive about an innovative programme that is taking place in Carmarthenshire, through the court system, in which the courts require a full financial audit of those coming before them who are faced with repossession orders and so on. Before any order is given, a full financial audit is undertaken of the financial wellbeing of that person. I understand that that has been outstandingly successful and very few people have ended up losing their homes because of that proactive approach being taken. One of the key elements of that success was the mortgage rescue scheme, which the Assembly Government promotes.

Mark Isherwood: Gall y trydydd sector wneud llawer o bethau, ac nid undebau credyd yn unig sy'n perthyn iddo—er ei fod yn eu cynnwys. Ceir llawer o sefydliadau ar lawr gwlad ynghyd ag elusennau a all estyn llaw i gymunedau ac ymwneud â hwy'n uniongyrchol. Cyfeiriasoch droeon at dai a chymdeithasau tai, ac yr wyf yn croesawu hynny. Mae adroddiad Homes for All Cymru yn ddiweddar yn sôn bod yr argyfwng tai yn gwaethygu, ac y mae'n dweud nad argyfwng newydd ydyw, er bod y dirywiad economaidd yn ei waethygu. Mae'n ychwanegu bod y canlyniadau ar gyfer iechyd a lles pobl a sefydlogrwydd cymunedau yng Nghymru yn enbyd. O ystyried y gall tai fod yn ffactor cyfrannol mawr i afiechyd, methiant addysgol, anweithgarwch economaidd a cholli cyfleoedd bywyd, sut yr ydych yn ymwneud â'ch gilydd ar draws adrannau i gydnabod mai hwn yw un o'r prif ffactorau y mae'n rhaid i fentrau gwrthdlodi gael eu seilio arnynt?

Brian Gibbons: Rhaid i dai fod yn flaenoriaeth fawr. Dyna un o'r rhesymau pam y lansiodd y Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies, a minnau yr ymgyrch cyngor ar ddyledion tai gyda'r trydydd sector yn ddiweddar—gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru a'r Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr yng Nghymru. Mae hon yn bartneriaeth dda rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r trydydd sector i hybu cyngor ar ddyledion i denantiaid tai a pherchnogion tai. Yr ydym yn ymwybodol o'r cynllun morgeisi cartrefi. Yn wir, cefais gyfarfod yn ddiweddar â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru, a oedd yn canmol rhaglen arloesol sydd ar waith yn Sir Gaerfyrddin, drwy'r system llysoedd, lle mae'r llysoedd yn gofyn am archwiliad ariannol llawn o'r rheini ger eu bron sy'n wynebu gorchmynion adfeddiannu, ac yn y blaen. Cyn gwneud unrhyw orchymyn, cynhelir archwiliad ariannol llawn o les ariannol yr unigolyn hwnnw. Deallaf fod hynny wedi bod yn llwyddiannus tu hwnt, ac ychydig iawn o bobl sydd wedi colli eu cartrefi oherwydd y dull gweithredu rhagweithiol sy'n cael ei fabwysiadu. Un o elfennau allweddol y llwyddiant hwnnw oedd y cynllun achub morgeisi y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei hybu.

Mick Bates: I would like to put it on record that I, for one, would welcome the Minister being dressed as Santa in the Chamber.

Minister, I refer you to the Bevan Foundation report, 'Paying the Price of Being Poor', and I welcome the comments that you made regarding the fact that some of the things contained in the report are wholly unacceptable. However, it is the actions that one takes as a result of those recommendations that is critical. I would like to draw your attention to one of the recommendations about fuel, namely the recommendation that asks you to provide a winter fuel payment to families on low incomes. That would be a practical measure to alleviate fuel poverty in Wales, which, as you know, has seen a massive increase. The latest figures show us that there are 20 or so excess winter deaths per day. As you said, that is wholly unacceptable. Will you examine the introduction of a winter fuel payment to families in Wales on low incomes?

Brian Gibbons: I cannot give a specific commitment on the point that you made, but I agree that the Bevan Foundation report was excellent. One of its great strengths was that it had many practical recommendations that were not pie in the sky or aspirational. Many of those recommendations deserve serious further consideration by the Assembly Government. Indeed, we will be taking on that particular piece of work as part of our development of a child poverty strategy in Wales because of the practical nature of most of those recommendations.

2.10 p.m.

I am not able to comment on the specific recommendation that you have raised because that is the responsibility of my colleague, the Minister for Environment, Sustainability and Housing, as it is a fuel poverty matter. However, in the round, it is certainly a solid report and it has made a useful contribution to the debate in Wales.

Mick Bates: Hoffwn gofnodi y byddwn i, o leiaf, yn croesawu gweld y Gweinidog wedi gwisgo fel Siôn Corn yn y Siambr.

Weinidog, fe'ch cyfeiriaf at adroddiad Sefydliad Bevan, 'Paying the Price of Being Poor', a chroesawaf y sylwadau a wnaethoch fod rhai o'r pethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn gwbl annerbyniol. Fodd bynnag, y camau gweithredu a gymerir o ganlyniad i'r argymhellion hynny sy'n bwysig. Hoffwn dynnu eich sylw at un o'r argymhellion am danwydd, sef yr argymhelliad sy'n gofyn ichi ddarparu taliad tanwydd gaeaf newydd i deuluoedd sydd ar incwm isel. Byddai hwnnw'n fesur ymarferol i leddfu tlodi tanwydd yng Nghymru, sydd wedi cynyddu'n aruthrol, fel y gwyddoch. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos inni bod tuag 20 o farwolaethau ychwanegol oherwydd y gaeaf yn digwydd bob dydd. Fel yr oeddech yn ei ddweud, mae hynny'n gwbl annerbyniol. A wnewch chi archwilio'r argymhelliad i gyflwyno taliad tanwydd gaeaf i deuluoedd yng Nghymru sydd ar incwm isel?

Brian Gibbons: Ni allaf roi ymrwymiad penodol ynghylch y pwynt a wnaethoch, ond cytunaf fod adroddiad Sefydliad Bevan yn ardderchog. Un o'i gryfderau mawr oedd ei fod yn cynnwys llawer o argymhellion ymarferol nad oeddent yn freuddwydion gwrrach nac yn rhy uchelgeisiol. Mae llawer o'r argymhellion hynny'n haeddu ystyriaeth bellach ddifrifol gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn wir, byddwn yn ymgymryd â'r darn arbennig hwnnw o waith wrth ddatblygu strategaeth ar dlodi plant yng Nghymru, oherwydd natur ymarferol y mwyafrif o'r argymhellion hynny.

Ni allaf roi sylwadau ar yr argymhelliad penodol yr ydych wedi tynnu sylw ato, gan mai cyfrifoldeb fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yw hynny, oherwydd ei fod yn fater sy'n ymwneud â thlodi tanwydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'n bendant yn adroddiad cadarn ac mae wedi gwneud cyfraniad defnyddiol i'r ddadl yng Nghymru.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 8, OAQ(3)0998(SJL), i'w ateb yn ysgrifenedig. Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ(3)0995(SJL), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 8, OAQ(3)0998(SJL), has been transferred for written answer. Question 9, OAQ(3)0995(SJL), has been withdrawn.

Disabled People

Q10 Sandy Mewies: What support is the Welsh Assembly Government giving to disabled people in Wales? OAQ(3)1022(SJL)

Brian Gibbons: As the Minister responsible, I am committed to ensuring that the Welsh Assembly Government has a leadership role in promoting equality of opportunity for all citizens and ensuring that services and facilities are accessible to disabled people across the whole of Wales.

Sandy Mewies: You responded to my short debate when I raised the problems that people with sight loss face in a variety of circumstances, although they are often overlooked and often feel isolated. Recently, we heard at the Enterprise and Learning Committee about the problems that visually impaired people have when accessing public transport. Minister, can you encourage all our public services to take more account of the needs of people with sight loss and, indeed, of those with other disabilities?

Brian Gibbons: We have very high expectations in that new public buildings provided in Wales have to be tested for access, for example. Equally, in terms of planning guidance and so on, it is important that that work is undertaken as well. We are drawing up a directory of accessible buildings in Wales so that people will be able to interrogate that database and gain a better understanding of what access opportunities are open to them. As part of our single equality scheme, equality of opportunity must include access; if access is impossible, there is no equality of opportunity.

Jonathan Morgan: Minister, over the past three years, the UK Government has spent £7 million per year on upgrading smaller railway stations throughout the UK. In the same period, only £400,000 from that fund has been spent on upgrading smaller railway stations in Wales. There is a large number of

Pobl Anabl

C10 Sandy Mewies: Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhoi i bobl anabl yng Nghymru? OAQ(3)1022(SJL)

Brian Gibbons: Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol, yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gan Lywodraeth y Cynulliad rôl arwain wrth hybu cyfle cyfartal i bob dinesydd ac wrth sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau ar gael yn gyfleus i bobl anabl ledled Cymru gyfan.

Sandy Mewies: Cafwyd ymateb gennych i'm dadl fer pan dynnais sylw at y problemau sy'n wynebu pobl sy'n colli eu golwg mewn amrywiaeth o amgylchiadau, er eu bod yn cael eu hanwybyddu ac yn teimlo'n unig yn aml. Yn ddiweddar, clywsom yn y Pwyllgor Menter a Dysgu am broblemau pobl sydd â nam ar eu golwg wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Weinidog, a allwch annog ein holl wasanaethau cyhoeddus i ystyried yn fanylach anghenion pobl sy'n colli eu golwg, ac yn wir bobl sydd ag anabledau eraill?

Brian Gibbons: Mae gennym ddisgwyliadau uchel iawn yn yr ystyr ei bod yn rhaid i adeiladau cyhoeddus newydd a ddarperir yng Nghymru gael profion mynediad, er enghraifft. Yn yr un modd, mae'n bwysig i'r gwaith gael ei wneud hefyd o ran canllawiau cynllunio, ac yn y blaen. Yr ydym wrthi'n llunio cyfeiriadur o adeiladau cyfleus yng Nghymru er mwyn i bobl allu chwilio'r gronfa ddata honno a chael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran mynediad. Fel rhan o'n cynllun ar gydraddoldeb sengl, rhaid i gyfle cyfartal gynnwys mynediad; os yw mynediad yn amhosibl, nid oes cyfle cyfartal.

Jonathan Morgan: Weinidog, dros y tair blynedd diwethaf mae Llywodraeth y DU wedi gwario £7 miliwn y flwyddyn ar uwchraddio gorsafoedd rheilffyrdd llai o faint ledled y DU. Yn yr un cyfnod, £400,000 yn unig o'r gronfa honno sydd wedi'i wario ar uwchraddio gorsafoedd rheilffyrdd llai o faint

smaller railway stations that are totally inaccessible to people in wheelchairs—I have two in my constituency where, if you are in a wheelchair, it is impossible to use the railway stations to get into Cardiff or to head north towards Caerphilly. What is the Assembly Government doing to liaise with Arriva Trains Wales to ensure that Wales makes a bid to the UK pot of money to upgrade our smaller railway stations?

Brian Gibbons: This is a significant problem. I do not know what you define as ‘smaller railway stations’, but I know that in my constituency, in Port Talbot, the access to the station is a continuing disgrace for precisely those reasons. Indeed, people with a disability can get off the train in Port Talbot and end up stranded on the platform with no way of getting off it because of the poor access. I was pleased to hear Network Rail announce in the last few weeks a massive investment programme in its railway stations across the United Kingdom. It is important that the Assembly Government engages effectively with Network Rail’s programme to improve its railway stations to make sure that access issues are being addressed as a priority, as well as community safety issues. Going back to a previous question, we know that one of the areas where women feel most vulnerable is at railway stations and public transport hubs and, again, I think that that is a key challenge for transport providers in Wales.

yng Nghymru. Ceir nifer fawr o orsafoedd rheilffyrdd llai o faint sy’n gwbl anghyfleus i bobl mewn cadair olwyn—mae gennyf ddwy orsaf reilffordd yn fy etholaeth i lle mae’n amhosibl defnyddio’r gorsafoedd i fynd i mewn i Gaerdydd neu i’r gogledd tua Chaerffili os ydych mewn cadair olwyn. Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gysylltu â Threnau Arriva Cymru i sicrhau bod Cymru’n gwneud cais i gronfa arian y DU i uwchraddio ein gorsafoedd rheilffyrdd llai o faint?

Brian Gibbons: Mae hon yn broblem sylweddol. Ni wn beth yw ‘gorsafoedd rheilffyrdd llai o faint’ yn ôl eich diffiniad chi, ond gwn fod mynediad i’r orsaf yn warth sy’n parhau yn fy etholaeth i ym Mhort Talbot, am yr union resymau hynny. Yn wir, gall pobl sydd ag anabledd adael y trêrn ym Mhort Talbot a’u cael eu hunain yn sownd ar y platfform heb ddim un ffordd i ddod oddi yno oherwydd mynediad gwael. Yr oeddwn yn falch clywed Network Rail yn cyhoeddi rhaglen fuddsoddi enfawr yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf yn ei orsafoedd rheilffyrdd ledled y Deyrnas Unedig. Mae’n bwysig i Lywodraeth y Cynulliad ymwneud yn effeithiol â rhaglen Network Rail i wella’i orsafoedd rheilffyrdd, er mwyn gwneud yn siŵr y rhoir sylw fel mater o flaenoriaeth i broblemau mynediad, yn ogystal â phroblemau diogelwch cymunedol. I ddychwelyd at gwestiwn blaenorol, gwyddom mai un o’r manau lle mae menywod yn teimlo fwyaf agored i niwed yw mewn gorsafoedd rheilffyrdd a chanolfannau cludiant cyhoeddus, ac unwaith eto, credaf fod hynny’n her allweddol i ddarparwyr cludiant yng Nghymru.

Cwestiynau i’r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

Funding for Historic Buildings

Q1 Sandy Mewies: Will the Minister provide an update on the latest announcement of funding for historic buildings in Wales? OAQ(3)0985(HER)

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): I announced on 29 October grant

Cyllid ar gyfer Adeiladau Hanesyddol

C1 Sandy Mewies: A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y cyhoeddiad diwethaf ynghylch cyllid ar gyfer adeiladau hanesyddol yng Nghymru? OAQ(3)0985(HER)

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Cyhoeddais ar 29 Hydref gynigion

offers totalling more than £600,000 for 13 of Wales's most important historic buildings. The grants have been offered to carry out essential repairs and restoration of these buildings and will help ensure their conservation for the enjoyment of future generations.

Sandy Mewies: I know that you are aware that Flint castle, in my constituency, is of historic significance as it was the first castle to be built during Edward I's campaign to conquer Wales. Thankfully, today's visitors are only tourists. Flint castle was recently closed by Cadw, as you will know, because of vandalism. Can you assure me that, in future, Flint castle will be treated by Cadw in a manner that recognises its historic importance and that every effort will be made to promote it as a visitor attraction?

Alun Ffred Jones: Yes, I can give that assurance. The importance that we attach to Flint castle is reflected in its being one of the eight monuments in the Assembly Government's care to be chosen to host activities under the cauldrons and furnaces strand of the cultural Olympiad. I know of your concern about the temporary closure during August. My officials are discussing ways of working in partnership with the town council, the police and other local agencies to raise the monument's profile and to address anti-social behaviour.

David Melding: Recent correspondence from a constituent noted concern about the relative lack of development in Cadw's work compared with that of English Heritage, raising the particular problem that our list is not as advanced. That means that many twentieth-century buildings of great significance have not been included, which means that they are not being adequately protected. In Wales, we do not have the equivalent of English Heritage's online database of listed buildings, which has descriptions and images of such buildings, together with a range of guidance documents for those who own them and want to develop them. Do you agree that, at this time, buildings in England are better protected

grant yn cyfateb i gyfanswm o dros £600,000 ar gyfer 13 o adeiladau hanesyddol pwysicaf Cymru. Mae'r grantiau wedi'u cynnig er mwyn gwneud gwaith atgyweirio ac adfer hanfodol ar yr adeiladau hynny, a bydd yn helpu sicrhau eu bod yn cael eu diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

Sandy Mewies: Gwn eich bod yn ymwybodol fod castell y Fflint, yn fy etholaeth i, o bwys hanesyddol gan mai hwn oedd y castell cyntaf i'w adeiladu yn ystod ymgyrch Edward I i orchfygu Cymru. Yn ffodus, twristiaid yn unig yw'r ymwelwyr heddiw. Fel y gwyddoch, cafodd castell y Fflint ei gau'n ddiweddar gan Cadw oherwydd fandaliaeth. A allwch roi sicrwydd imi y bydd Cadw yn trin castell y Fflint, yn y dyfodol, mewn modd sy'n cydnabod ei bwysigrwydd hanesyddol, ac y gwneir pob ymdrech i'w hyrwyddo fel atyniad i ymwelwyr?

Alun Ffred Jones: Gallaf, gallaf roi'r sicrwydd hwnnw. Adlewyrchir y pwys yr ydym yn ei roi ar gastell y Fflint gan y ffaith ei fod yn un o'r wyth heneb yng ngofal Llywodraeth y Cynulliad a ddewiswyd i gynnal gweithgareddau dan yr elfen crochan a ffwrnais yn yr Olympiad diwylliannol. Gwn am eich pryder ynghylch cau'r castell dros dro yn ystod mis Awst. Mae fy swyddogion wrthi'n trafod ffyrdd i weithio mewn partneriaeth â chyngor y dref, yr heddlu ac asiantaethau lleol eraill i godi proffil yr heneb a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

David Melding: Yr oedd gohebiaeth yn ddiweddar gan etholwr yn nodi pryder am ddiffyg datblygu cymharol yng ngwaith Cadw o'i gymharu â gwaith English Heritage, gan dynnu sylw at broblem benodol, sef nad yw ein rhestr ni mor ddatblygedig â rhestr English Heritage. Mae hynny'n golygu nad yw llawer o adeiladau pwysig iawn o'r ugeinfed ganrif wedi'u cynnwys, sy'n golygu nad ydynt yn cael eu diogelu'n ddigonol. Yng Nghymru, nid oes gennym gronfa ddata ar-lein o adeiladau rhestredig, fel sydd gan English Heritage, sy'n cynnwys disgrifiadau a delweddau o adeiladau o'r fath, ynghyd ag ystod o ddogfennau cyfarwyddyd i'r rhai sy'n berchen arnynt ac sydd am eu datblygu. A ydych yn cytuno bod adeiladau yn Lloegr yn

than those in Wales and that we need to catch up?

Alun Ffred Jones: No, I do not agree.

David Melding: You will need to answer more than that. You can be glib once—

The Presiding Officer: Order. The Minister has chosen to answer in the negative. That is the Minister's choice. If you wish to ask a further supplementary, you could try to e-mail me or catch my eye. I will not allow interventions from a sedentary position to a Minister who is answering questions.

Helen Mary Jones, can you do a bit better than that?

Helen Mary Jones: I can do my best, Presiding Officer.

Weinidog, sawl gwaith yn y Siambr, yr ydym wedi trafod adeiladau sy'n bwysig i'w cymunedau ac sydd o bwys hanesyddol lleol nad ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau Cadw fel y caent eu hamddiffyn yn swyddogol drwy'r broses gofrestru. Yr ydym wedi trafod tafarn Tŷ'r Ynys yn fy etholaeth, a thrist yw clywed y caiff ei ddymchwel yn awr. A fydddech yn fodlon trafod, drwy eich swyddogion, defnyddio ffynonellau gwirfoddol megis y Gronfa Loteri Fawr, i weld a oes modd creu ffynhonnell o arian i amddiffyn yr adeiladau hynny nad ydynt o safon cofrestru ond sydd eto yn bwysig i'w cymunedau?

Alun Ffred Jones: Bu i fy swyddogion ailedrych ar achos cofrestru tafarn Tŷ'r Ynys. O ran eich pwynt am adeiladau sydd o ddiddordeb lleol, cafwyd enghraifft dda iawn o hynny yma yng Nghaerdydd gyda The Vulcan Hotel. I'r graddau hynny, rhaid i gymunedau lleol neu'r rhai sydd â diddordeb yn yr adeiladau dan sylw—sy'n gallu bod o arwyddocâd arbennig yn lleol, ond efallai yn annigonol i gael eu cofrestru—ddod at ei gilydd i ymgyrchu drostynt. Bydd fy swyddogion yn Cadw a chynrychiolwyr rhai o'r cronfeydd eraill y soniasoch atynt yn edrych â chydymdeimlad ar hyrwyddo

cael eu diogelu'n well nag adeiladau yng Nghymru, ar hyn o bryd, a bod angen inni unioni'r sefyllfa?

Alun Ffred Jones: Nac ydwyf, nid wyf yn cytuno.

David Melding: Bydd angen ichi roi mwy o ateb na hynny. Gallwch fod yn dafotrydd unwaith—

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Gweinidog wedi dewis rhoi ateb negyddol. Dewis y Gweinidog yw hynny. Os ydych am ofyn cwestiwn atodol arall, gallech geisio anfon e-bost ataf neu ddal fy llygad. Nid wyf am ganiatáu ymyriadau gan bobl ar eu heistedd i Weinidog sy'n ateb cwestiynau.

Helen Mary Jones, a allwch chi wneud ychydig yn well na hynny?

Helen Mary Jones: Gallaf wneud fy ngorau, Lywydd.

Minister, we have discussed many times in the Chamber buildings that are of importance to their communities and of local historical significance but that do not fit in with the Cadw guidance so that they can be officially protected through the listing system. We have discussed the Island House tavern in my constituency, and it is sad to learn that it is now to be demolished. Would you discuss, through your officials, the use of other voluntary sources, such as the Big Lottery Fund, to see whether it would be possible to create a funding source to protect all those buildings that do not meet the listing criteria but that are important to their communities?

Alun Ffred Jones: My officials revisited the case for listing the Island House tavern. On your point about buildings that are of local interest, a good example of that was found here in Cardiff with The Vulcan Hotel. To that extent, local communities or those who have an interest in the buildings concerned—which can be of particular local significance, but perhaps not enough to be listed—should come together to campaign for them. My officials in Cadw and the representatives of some of the other funds that you mentioned will look sympathetically at work to promote the conservation of some of those buildings

gwaith i warchod rhai o'r adeiladau hynny yr ystyrir eu bod o arwyddocâd lleol.

that are considered to be of local significance.

Artistic Creativity

Creadigrwydd Artistig

Q2 Lorraine Barrett: Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government initiatives aimed at supporting artistic creativity in Wales? OAQ(3)0983(HER)

C2 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at gefnogi creadigrwydd artistig yng Nghymru? OAQ(3)0983(HER)

Alun Ffred Jones: I can think of no better example than the establishment of National Theatre Wales in fulfilment of the 'One Wales' commitment. More than £3 million has been allocated via the Arts Council of Wales to establish that new English-language theatre, whose first programme, launched this month, has received tremendously warm publicity.

Alun Ffred Jones: Ni allaf feddwl am enghraifft well na sefydlu Theatr Genedlaethol Cymru, sy'n cyflawni ymrwymiad 'Cymru'n Un'. Mae dros £3 miliwn wedi'i ddyrannu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru i sefydlu'r theatr Saesneg newydd honno. Mae ei rhaglen gyntaf, a lanswyd y mis hwn, wedi denu sylw caredig iawn.

2.20 p.m.

Lorraine Barrett: I concur with your sentiments about that initiative, and I welcome the funding that went into it. I wanted to ask a question about the fifth anniversary of the Wales Millennium Centre, which is a centre of excellence for artistic creativity. However, I was subsequently contacted by Age Concern Cymru, which asked me to emphasise the importance of the various clubs, societies and classes used by the over-50s to engage in artistic or creative pastimes, which helps to enhance their lives and wellbeing. What support can be given to encourage the various classes or initiatives that cater for the over-50s to help them to develop their artistic creativity?

Lorraine Barrett: Cytunaf â'ch teimladau am y fenter honno, ac yr wyf yn croesawu'r arian a roddwyd iddi. Yr oeddwn am ofyn cwestiwn am ben-blwydd Canolfan Mileniwm Cymru yn bump oed, sy'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer creadigrwydd artistig. Fodd bynnag, cysylltodd Age Concern Cymru â mi wedyn, a gofyn imi bwysleisio pwysigrwydd yr amrywiol glybiau, cymdeithasau a dosbarthiadau y mae pobl dros 50 oed yn eu defnyddio i ymwneud â diddordebau artistig neu greadigol, sy'n helpu gwella eu bywydau a'u lles. Pa gymorth y gellir ei roi i annog yr amrywiol ddosbarthiadau neu fentrau sy'n darparu ar gyfer pobl dros 50 oed i'w helpu i ddatblygu eu creadigrwydd artistig?

Alun Ffred Jones: I recognise the importance of such activity in the lives of many people, including those who are aged over 50. Much of that work is supported by local authorities, and it often happens in conjunction with centres such as the Chapter Arts Centre in Cardiff, which was officially reopened last night. The centre plays an important part in the community life of the local area, and the same is true of many other arts centres throughout Wales. Targeting such audiences is important and is an essential part of their work. That work is often supported by local authorities and the

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau o'r fath ym mywydau llawer o bobl, gan gynnwys pobl dros 50 oed. Mae awdurdodau lleol yn cefnogi llawer o'r gwaith hwnnw, a bydd yn digwydd yn aml ar y cyd â chanolfannau megis Canolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd, a ailagorwyd yn swyddogol neithiwr. Mae'r ganolfan yn bwysig ym mywyd cymunedol yr ardal leol, ac y mae'r un peth yn wir am lawer o ganolfannau celfyddydau eraill ledled Cymru. Mae targedu cynulleidfaoedd o'r fath yn bwysig, ac y mae'n rhan hanfodol o'u gwaith. Bydd

Arts Council of Wales.

awdurdodau lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru yn aml yn cefnogi'r gwaith hwnnw.

Andrew R.T. Davies: Minister, one avenue of creative activity for many older people is adult community learning, which is mainly funded by local authorities and the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. What engagement has your department had with the various other departments of the Welsh Assembly Government to monitor the accessibility of such projects? I have received many representations stating that that avenue of creativity is closing down because of the spending constraints that many local authorities face. Many halls are no longer open and the provision of teachers to deliver such pastimes has been withdrawn. If it is your aspiration as Minister to increase participation in creative activity among older people, what dialogue is under way to understand what is happening, and what support can your department afford?

Alun Ffred Jones: I would be more than happy to receive details of the complaints that you mentioned. I am in constant dialogue with local government. The proposed LCO that is on its way, on a cultural duty, is aimed at ensuring that there is equal provision throughout Wales, or at least that provision is adequately funded through local authorities and in conjunction with all the other bodies that support such activities. That proposed LCO, which we hope will result in a Measure in due course, will ensure that local authorities give due prominence to this type of activity.

Bethan Jenkins: Dros ddwy flynedd yn ôl, pan ddaeth cyllid y Llywodraeth i ben ar gyfer menter gymdeithasol i gefnogi busnesau creadigol, daeth y fenter i ben. Ers hynny, mae'r bobl a oedd ynghlwm wrth y fenter wedi adeiladu gwefan gymunedol ar-lein o'r enw www.cultural-enterprise.com Er hynny, maent eisiau ailsefydlu'r busnes, sy'n rhoi cefnogaeth i fusnesau creadigol ar-lein, ond nid oes digon o help ariannol ar gael iddynt. A fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn gallu rhoi hwb i gwmnïau o'r fath a'r bobl sydd eisiau sefydlu cwmnïau o'r fath yn y

Andrew R.T. Davies: Weinidog, un agwedd ar weithgarwch creadigol i lawer o bobl hŷn yw gweithgarwch dysgu oedolion yn y gymuned, a ariennir yn bennaf gan awdurdodau lleol a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Sut mae eich adran wedi ymwneud ag amrywiol adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad i fonitro hygrychedd prosiectau o'r fath? Yr wyf wedi cael llawer o gwynion fod yr agwedd honno ar weithgarwch creadigol yn dod i ben oherwydd y cyfyngiadau ar wario sy'n wynebu nifer o awdurdodau lleol. Mae nifer o neuaddau bellach wedi cau, ac y mae'r ddarpariaeth athrawon i gyflwyno gweithgarwch o'r fath wedi'i thynnu'n ôl. Os eich dyhead chi, fel Gweinidog, yw cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch creadigol ymhlith pobl hŷn, pa gyfathrebu sydd ar waith i ddeall yr hyn sy'n digwydd, a pha gymorth y gall eich adran ei fforddio?

Alun Ffred Jones: Byddwn yn fwy na bodlon cael manylion am y cwynion y soniech amdanynt. Byddaf yn cyfathrebu'n gyson â llywodraeth leol. Nod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig sydd ar y ffordd, ynghylch dyletswydd ddiwylliannol, yw sicrhau bod darpariaeth gyfartal ledled Cymru, neu o leiaf bod y ddarpariaeth yn cael ei hariannu'n ddigonol drwy awdurdodau lleol ac ar y cyd â'r holl gyreff eraill sy'n cefnogi gweithgareddau o'r fath. Bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig hwnnw a fydd, gobeithio, yn arwain at Fesur maes o law, yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw dyladwy i'r math hwn o weithgarwch.

Bethan Jenkins: More than two years ago, when the Government funding ceased for a social enterprise to support creative businesses, the enterprise itself ceased. Since then, the people involved in the original enterprise have built an online community website called www.cultural-enterprise.com. However, they wish to re-establish the business, which provides support for creative businesses online, but there is insufficient financial assistance available to them. Can the Assembly Government give any assistance to boost such companies and the

maes hwn?

people who wish to set up such companies in this field?

Alun Ffred Jones: Ni wn am yr achos arbennig yr ydych yn cyfeirio ato, ond pe baech yn rhoi mwy o wybodaeth amdano, byddwn yn fodlon rhoi ateb mwy synhwyrol a chyflawn ichi. Os yw'n fenter gymdeithasol neu'n fenter breifat, mae grantiau Llywodraeth ar gael iddynt geisio amdanynt. Os hoffent fwy o arweiniad ar sut i gyflwyno cais, o dderbyn eu manylion, byddem yn fodlon eu cyfeirio at y lle priodol.

Alun Ffred Jones: I do not know of the specific case to which you refer, but if you send me more information on that, I should be happy to give you a fuller and more informed response. If it is a social enterprise or a private enterprise, Government grants are available for which they can bid. If they need more guidance on how to apply, on receiving their details, we would be happy to refer them to the appropriate place.

Jenny Randerson: Minister, many cultural events across Wales rely on a mixture of private sector sponsorship as well as public money. At the moment, private sector sponsorship tends to be thin on the ground. One event that is of great importance to Wales because of its international standing is Artes Mundi. Although it has a good level of private sponsorship, it is not up to the level that it has received before. Are you committed to supporting that event in the future?

Jenny Randerson: Weinidog, mae llawer o ddigwyddiadau diwylliannol ledled Cymru'n dibynnu ar gymysgedd o nawdd gan y sector preifat yn ogystal ag arian cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae nawdd gan y sector preifat yn tueddu i fod yn brin. Un digwyddiad sy'n bwysig iawn i Gymru oherwydd ei statws rhyngwladol yw Artes Mundi. Er bod ganddo lefel dda o nawdd preifat, nid yw cymaint ag y mae wedi ei gael o'r blaen. A ydych wedi ymrwmo i gefnogi'r digwyddiad hwnnw yn y dyfodol?

Alun Ffred Jones: Artes Mundi is an important cultural event that has certainly enhanced the image of Wales abroad. However, as pressures grow, it will have to be considered alongside all the other events and festivals that are under increasing pressure. It is difficult to look ahead without knowing precisely what will happen to our budgets in general and specifically that for the arts. However, there will be pressures and so difficult decisions will have to be made. I do not think that I can give a wholehearted commitment today to the Artes Mundi project, because it is largely financed through the Arts Council of Wales, and it will ultimately be a decision for the arts council to support the project to the level that it is used to, or to enhance that to try to make up the shortfall, as you put it, in private sector support.

Alun Ffred Jones: Mae Artes Mundi yn ddigwyddiad diwylliannol pwysig sy'n bendant wedi gwella delwedd Cymru dramor. Fodd bynnag, wrth i bwysau gynyddu bydd yn rhaid iddo gael ei ystyried ochr yn ochr â'r holl ddigwyddiadau a'r gwyliau eraill sydd dan bwysau cynyddol. Mae'n anodd edrych ymlaen heb wybod beth yn union fydd yn digwydd i'n cyllidebau yn gyffredinol, ac yn arbennig i'r gyllideb ar gyfer y celfyddydau. Fodd bynnag, fe fydd pwysau, a bydd angen gwneud penderfyniadau anodd, felly. Nid wyf yn credu y gallaf roi ymrwymiad llwyr heddiw i brosiect Artes Mundi gan ei fod yn cael ei ariannu'n bennaf drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ac yn y pen draw penderfyniad cyngor y celfyddydau fydd cefnogi'r prosiect ar y lefel y mae wedi arfer â hi, neu godi'r lefel honno i geisio gwneud iawn am y diffyg cymorth, fel yr oeddech yn egluro, gan y sector preifat.

Cyfleusterau Hamdden

C3 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyfleusterau hamdden yng Nghymru? OAQ(3)0976(HER)

Leisure Facilities

Q3 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on the provision of leisure facilities in Wales? OAQ(3)0976(HER)

Alun Ffred Jones: Mae cyfleusterau hamdden fel arfer yn rhan o gyfrifoldebau awdurdodau lleol. Fel rhan o gynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar ymarfer corff, mae grŵp cynghori wedi'i sefydlu sy'n edrych ar y sialensiau sydd ynghlwm wrth sicrhau bod y canolfannau hynny ar gael yn y dyfodol.

Eleanor Burnham: Diolch yn fawr am eich ateb. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod bod pwysau trwm ar ein awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau gogledd Cymru. Yr oeddwn mewn canolfan hamdden yng Nghaerdybi yn ddiweddar i gymryd rhan yn y rhaglen *Pawb a'i Farn*, ac yr oedd y staff yn sôn am y pwysau sydd arnynt i ddarparu gwasanaethau. Gwnaeth eich cyngor chwaraeon asesiad y llynedd, os cofiaf yn iawn, sydd wedi'i gyhoeddi ac a ddaeth i amryw o gasgliadau. Mae rhai cyfleusterau ar ddiwedd eu hoes, heb sôn am angen eu hadnewyddu. Yr ydym hefyd yn cael ein hannog i fyw yn fwy iach, felly a wnewch chi ein helpu drwy ddweud faint o arian sydd ar gael a sut y gallwn wella'r cyfleusterau hyn? Hwyrach y bydd yn rhaid cau rhai ohonynt, ac mae hynny'n pryderu cryn dipyn o bobl ar draws gogledd Cymru.

Alun Ffred Jones: Mater i awdurdodau lleol yw'r cyfleusterau hyn. Os ydym yn sôn am iechyd cyffredinol pobl ac ymarfer corff ac yn y blaen, mae'n bwysig dweud nad mewn canolfannau hamdden yn unig mae hynny'n digwydd. Dim ond un o bob pum person sy'n ymweld â chanolfannau hamdden, felly mae'n amlwg bod pob math o weithgareddau eraill yr un mor bwysig. Fodd bynnag, mater i'r awdurdodau lleol yw hwn yn sicr.

O ran yr asesiad a gyfeiriwyd ato gennyh, yr oedd Cyngor Chwaraeon Cymru yn awyddus i wneud asesiad drwy Gymru, ond credaf mai hanner yr awdurdodau lleol a gymerodd rhan. Yr oeddech yn iawn i ddweud ei fod yn nodi bod llawer o'r cyfleusterau yn 40 neu'n 50 oed erbyn hyn a bod angen eu hadnewyddu neu gael rhai newydd yn eu lle. Mae hynny'n gofyn i awdurdodau lleol gydweithio ac adolygu eu trefniadau.

Mae'n werth nodi nad yw'r darlun mor ddu ag yr ydych yn ei awgrymu. Er enghraifft, er

Alun Ffred Jones: Leisure facilities are usually a part of the responsibility of local authorities. As part of the Welsh Assembly Government's physical activity action plan, a new advisory group has been set up, which is to review the challenges involved in ensuring that those centres are available for the future.

Eleanor Burnham: Thank you for your response. However, you will be aware that there is great pressure on our local authorities, including authorities in north Wales. I was in a leisure centre in Holyhead recently to take part in the *Pawb a'i Farn* programme, and the staff there talked of the pressures on them to provide services. Your sports council carried out an assessment last year, if I recall correctly, which has been published and which came to various conclusions. Some facilities are coming to the end of their lives, never mind needing refurbishment. We are also encouraged to live healthier lifestyles, so will you help us to do that by saying how much funding is available and how we could improve these facilities? Perhaps some of them will have to close, which is a cause of concern to a great many people across north Wales.

Alun Ffred Jones: Such facilities are a matter for local authorities. If we are talking about people's general health and physical exercise and so on, it is important to mention that that does not happen only in leisure centres. Only one person in five visits leisure centres, and so it is evident that all manner of other activities are just as important. However, this is certainly a matter for local authorities.

On the assessment to which that you referred, Sports Council for Wales was keen to undertake an assessment throughout Wales, but I believe only half of all local authorities participated. You were right to say that it had noted that many facilities were 40 or 50 years old by now and in need of refurbishment or replacement. That will require local authorities to work together to review their arrangements.

It is worth noting that the picture is not quite as bleak as you paint it. For instance,

bod 15 pwll nofio wedi cau ers 2003, mae 12 o rai newydd wedi'u codi. Yr hyn sy'n ddi-ddorol ei nodi yw bod 27 pwll nofio preifat wedi codi yn y cyfnod hwnnw, ac mae'r rheiny hefyd yn rhan o'r ddarpariaeth. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol a'r cyngor chwaraeon yn cydweithio i weld a oes modd defnyddio'r ddarpariaeth breifat hefyd fel rhan o'r gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd.

Eleanor Burnham: A yw'n iawn imi gael ail gwestiwn atodol, Lywydd?

Y Llywydd: Yr oedd y cyntaf braidd yn hir, felly byddwch yn gryno, os gwelwch yn dda.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn falch eich bod yn gwrando.

2.30 p.m.

Eleanor Burnham: Deallaf bod angen cymysgedd; mae angen pobl breifat ac mae angen gofyn i'r awdurdodau lleol wella, ond mae argyfwng ofnadwy yn bodoli ar hyn o bryd. O ble yr ydych yn meddwl y bydd yr arian yn dod, a phryd y byddwch yn gallu helpu gydag arian sydd wedi dod o'r loteri yn y gorffennol, ond sydd, ar hyn o bryd, wedi ei arallgyfeirio i Lundain?

Alun Ffred Jones: Yr ydych wedi ateb eich cwestiwn eich hun. Mae'r arian loteri wedi'i gyfyngu, ac felly, mae'r arian ychwanegol a oedd ar gael ar gyfer awdurdodau lleol at ei gilydd wedi peidio â bod. Nid oes arian yn dod i Lywodraeth o'r nefoedd, yn anffodus, ac oherwydd y cyfyngiadau, rhaid i ni ystyried yn fanwl beth yw'r ddarpariaeth, ac a oes modd rhesymoli'r ddarpariaeth honno er mwyn cynnal gwasanaethau. Mater i'r awdurdodau lleol, mewn trafodaethau gyda chyrff fel y cyngor chwaraeon, yw penderfynu ar eu blaenoriaethau.

Joyce Watson: As I am sure you will recall, Minister, I have been involved in the Harlech swimming pool campaign, which successfully fought off the threat of closure earlier this year. Local people secured a deal with Gwynedd Council to run its community pool. However, speaking recently to members of the pool group about the

although 15 swimming pools have closed since 2003, 12 new ones have opened. It is also interesting to note that 27 private swimming pools have been built in that period, and they, too, are part of the provision. It is important that local authorities and the sports council should collaborate to see whether it is also possible to use that private provision as part of the service for the public.

Eleanor Burnham: Is it right for me to have a second supplementary question, Presiding Officer?

The Presiding Officer: The first one was rather long, so please be brief.

Eleanor Burnham: I am pleased that you were listening.

Eleanor Burnham: I understand that we need a mix; we need private providers, and local authorities need to be asked to improve, but we are currently facing a serious crisis. Where do you think the money will come from, and when will you be able to assist with funding that has, in the past, been available from the lottery but is now being redirected to London?

Alun Ffred Jones: You have answered your own question. The lottery funding is limited, so the additional money that was available to local authorities has ceased to exist. Money does not come to the Government from the heavens, unfortunately, and because of these restrictions we must look in detail at the current provision, and whether it is possible to rationalise that provision in a way that sustains services. It is a matter for the local authorities, in discussion with the sports council, to decide their priorities.

Joyce Watson: Fel y cofiwch mae'n sicr, Weinidog, yr wyf wedi bod yn ymwneud ag ymgyrch pwll nofio Harlech, a lwyddodd i wrthsefyll y bygythiad i'w gau yn gynharach eleni. Llwyddodd pobl leol i daro bargaen â Chyngor Gwynedd i redeg ei bwl cymunedol. Fodd bynnag, wrth imi siarad yn ddiweddar ag aelodau o grŵp y pwll

Assembly's free swimming initiative, they said that, as a community pool, rather than a local authority one, Harlech swimming pool might no longer qualify for the free swimming scheme. Will you clarify that? The whole point of the campaign was to preserve a swimming facility that served the whole community, and the group is understandably anxious to know whether it can continue to provide the community benefits that the free swimming scheme delivers.

Alun Ffred Jones: If the pool is taken out of local authority control and becomes a community asset, it will have to be done with some sort of agreement with the local authority. I cannot tell you whether the free swimming scheme would then apply, but I will certainly take this matter up with the sports council and write to you. I would very much hope—and I believe it would be right—that such a provision would be extended to such a community asset if it was transferred out of local authority control.

Paul Davies: Fel y dywedodd Eleanor Burnham, mae annog pobl Cymru i ddefnyddio cyfleusterau hamdden yn hanfodol i helpu i wella iechyd ein cenedl. Drwy annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, bydd mwy o siawns y bydd pobl yn parhau i wneud hynny yn fwy diweddar yn eu bywydau. A all y Gweinidog ddweud beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo defnydd cyfleusterau hamdden ymhlith pobl ifanc?

Alun Ffred Jones: Unwaith eto, mae'r mater hwnnw'n ymwneud yn bennaf â chyfrifoldebau llywodraeth leol. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae cynllun Campau'r Ddraig a'r rhaglen 5x60, sy'n annog ymarfer corff a chwaraeon o wahanol fath i bobl ifanc yn ein hysgolion uwchradd, y tu allan i oriau ysgol, ynddynt eu hunain yn creu arferion da. Un o amcanion y rhaglen 5x60 yw sicrhau bod pobl ifanc nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn gweithgaredd o'r fath yn dod yn aelodau o dimau pêl-droed, pêl-rwyd neu hoci'r ysgol, gan gymryd rhan mewn gwahanol fathau o ymarferion. Yn

ynghylch menter y Cynulliad ar nofio am ddim, dywedent efallai na fydd pwll nofio Harlech yn gymwys mwyach ar gyfer y cynllun nofio am ddim, gan mai pwll cymunedol ydyw yn hytrach na phwll awdurdod lleol. A wnewch chi egluro hynny? Holl bwrpas yr ymgyrch oedd cadw cyfleuster nofio a fyddai'n gwasanaethu'r gymuned gyfan, ac y mae'r grŵp wrth reswm yn awyddus i wybod a all barhau i ddarparu'r manteision cymunedol y mae'r cynllun nofio am ddim yn eu darparu.

Alun Ffred Jones: Os yw'r pwll yn gorffen bod dan reolaeth yr awdurdod lleol ac yn dod yn ased cymunedol, bydd yn rhaid i hynny ddigwydd gyda rhyw fath o gytundeb â'r awdurdod lleol. Ni allaf ddweud wrthy ch a fyddai'r cynllun nofio am ddim yn berthnasol wedyn ai peidio, ond byddaf yn bendant yn codi'r mater hwn gyda'r cyngor chwaraeon ac yn ysgrifennu atoch. Byddwn yn gobeithio'n fawr iawn y byddai darpariaeth o'r fath yn cael ei hystmyn i ased cymunedol o'r fath pe bai'r ased yn cael ei drosglwyddo i reolaeth rhywun heblaw'r awdurdod lleol—a chredaf y byddai hynny'n briodol.

Paul Davies: As Eleanor Burnham said, encouraging the people of Wales to use leisure facilities is crucial if we are to improve the health of our nation. By encouraging young people to take part in leisure activities, there is a greater chance of people continuing with those activities in later life. Can the Minister tell me what the Assembly Government is doing to promote the use of leisure facilities among young people?

Alun Ffred Jones: Once again, that issue falls mainly within the responsibilities of local government. However, as you know, schemes such as Dragon Sport and the 5x60 programme, which encourage physical activity and different sports among secondary school pupils, outside normal school hours, are, in themselves, encouraging good practice. One of the aims of the 5x60 programme is to ensure that young people who do not usually participate in such activities become members of school football, netball and hockey teams, taking part in different sorts of activities. Recently, I

ddiweddar, gwelais y cynllun hwn ar waith yn Nhonyrefail, ac mae'r arwyddion a'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod gwaith ardderchog yn cael ei wneud a'n bod ni yn estyn allan. Wedyn, fel y dywedwch, mae un cam arall, sef cysylltu'r gweithgaredd hwnnw gyda chlybiau y tu allan i'r ysgol, fel bod pobl ar ôl gadael yr ysgol yn dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. Dyna'r her, a dyna pam mae'r cynllun ymarfer corff wedi cael ei fabwysiadu.

Paul Davies: Mae'n hynod o bwysig ein bod yn hyrwyddo'n cyfleusterau hamdden yn effeithiol i bawb yn ein cymunedau. Fel y dywedodd Eleanor Burnham, mewn cyfnod economaidd anodd, mae llywodraeth leol yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ac yr ydym wedi gweld nifer o gyfleusterau hamdden yn cau yn ddiweddar. Mae'n hynod bwysig bod ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal cyn i benderfyniad gael ei wneud i gau unrhyw gyfleusterau hamdden. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa fath o ganllawiau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu darparu i lywodraeth leol ar hyn?

Alun Ffred Jones: Nid wyf yn ymwybodol a oes canllawiau penodol ai peidio. O'm profiad i, mae awdurdodau lleol yn cynnal ymgynghoriadau ar y materion hyn fel arfer, ond gwyddom fod teimladau cryfion. Fodd bynnag, bydd y sialens hon yn ein hwynebu dros y pum mlynedd nesaf, beth bynnag a ddaw. Yr ydych yn iawn i ddweud bod angen sicrhau bod pawb yn y gymuned sy'n defnyddio cyfleusterau o'r fath yn cael cyfle i fynegi barn ac i ddod â chynlluniau amgen gerbron, fel sy'n cael eu trafod yn Harlech, yn ogystal ag yma a thraw ar hyd a lled Cymru.

Janet Ryder: When a county council removes a sporting facility, however big or small, it can cause an outcry, as seen by Denbighshire County Council when it filled in a paddling pool in Cae'r Ddol, Ruthin. That caused a great deal of unhappiness in the community. To replace that facility, Denbighshire County Council tried participatory budgeting in which it allocated £25,000 to the town, invited bids and drew up a short list with a group of people chosen from the community. The bids were then put to the town's residents in a meeting, who

saw this scheme being applied in Tonyrefail, and current signs and evidence suggest that excellent work is being done and that we are reaching out. There is then, as you say, the need to link that activity in with clubs outside schools, so that those who have left school can continue to participate in such activities. That is the challenge, and that is why the physical activity scheme was adopted.

Paul Davies: It is extremely important that we promote our leisure facilities effectively for everyone in our communities. As Eleanor Burnham said, in difficult economic times local authorities have to make difficult decisions and we have recently seen a number of leisure facilities close down. It is very important that full consultation is held before a decision is made to close any leisure facility. Can the Minister tell us what sort of guidance the Assembly Government provides for local government on this issue?

Alun Ffred Jones: I do not know whether or not there is any specific guidance. From my experience, local authorities usually undertake consultations on these issues, but we know that people have strong feelings. However, this challenge will face us for the next five years, whatever happens. You are right to say that there is a need to ensure that all members of the community who use such facilities are given an opportunity to voice an opinion and to propose alternative plans, as have been discussed in Harlech, as well as in some other places across Wales.

Janet Ryder: Pan fydd cyngor sir yn cael gwared â chyfleuster chwaraeon, waeth pa mor fawr neu fach ydyw, gall achosi protest, fel y gwelodd Cyngor Sir Ddinbych pan lenwodd y cyngor bwll padlo yng Nghae'r Ddôl, Rhuthun. Achosodd hynny lawer iawn o anhapusrwydd yn y gymuned. I ddarparu cyfleuster newydd yn lle'r cyfleuster hwnnw, rhoddodd Gyngor Sir Ddinbych gynnig ar gyllidebu cyfranogol, a dyrannu £25,000 i'r dref, gwahodd cynigion a llunio rhestr fer gyda grŵp o bobl a ddewiswyd o'r gymuned. Yna, cyflwynwyd y cynigion i drigolion y

chose the bid that they wanted to see put forward for their park. Minister, do you think that, if councils can make those pockets of money available, it is a good way forward for communities and councils to get involved and to overcome many problems associated with sports facilities? Communities can then be involved and have real control over the facilities that are developed within them.

Alun Ffred Jones: I would agree with that. From what you have said, that seems to be a good example of local residents working in partnership with their local authority in making decisions that affect their local community. It is to be applauded and recommended.

Rheolau Tai Gwyliau wedi'u Dodrefnu

C4 David Lloyd: Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith bosibl ar dwristiaeth yng Nghymru yn sgîl diddymu rheolau tai gwyliau wedi'u dodrefnu o fis Ebrill 2010 ymlaen? OAQ(3)0943(HER)

Alun Ffred Jones: Mae cyrff masnachol wedi gwneud asesiadau o'r fath ac ar sail hynny a'r cyngor a roddwyd i mi, ysgrifennais at y Trysorlys yn yr haf er mwyn mynegi fy mhryderon ynghylch yr effaith bosibl ar fusnesau twristiaeth Cymru. Mae'r Trysorlys yn rhagweld mai bach fydd yr effaith ar fusnesau parhaol, hyfyw, ond nid dyna farn y cyrff masnachol.

David Lloyd: Hoffwn bwysleisio'r ffaith bod hwn yn sector pwysig i dwristiaeth yng Nghymru. Yr ydych wedi sôn nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Yn wyneb y ffaith bod pobl yn anghytuno â dyfarniad y Trysorlys, a fyddwch yn parhau i geisio dwyn perswâd ar Weinidogion San Steffan a cheisio newid eu meddyliau a'u safbwynt yn hyn o beth?

Alun Ffred Jones: Byddaf yn sicr yn barod i gyfleu barn y diwydiant ar y mater hwn. Fel y deallaf, daw cyfle i fynegi hynny pan fydd y Trysorlys yn cyhoeddi ei gynlluniau, a hynny yn fuan. Bydd hynny'n rhoi cyfle statudol i gynrychiolwyr yn San Steffan a chyrrff y diwydiant fynegi barn a dod â

dref mewn cyfarfod, a dewiswyd y cynnig yr oeddent am weld ei gyflwyno ar gyfer eu parc. Weinidog, os gall cynghorau sicrhau bod y pocedi hynny o arian ar gael, a ydych yn credu bod hon yn ffordd dda ymlaen i gymunedau a chynghorau ymwneud â'i gilydd a goresgyn llawer o broblemau sy'n gysylltiedig â chyfleusterau chwaraeon? Gall cymunedau gael eu cynnwys wedyn, a chael rheolaeth wirioneddol ar y cyfleusterau a gaiff eu datblygu ynddynt.

Alun Ffred Jones: Byddwn yn cytuno â hynny. O'r hyn yr ydych wedi'i ddweud, ymddengys ei fod yn enghraifft dda o drigolion lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymuned leol. Rhaid canmol hynny a'i gymeradwyo.

Furnished Holiday Letting Rules

Q4 David Lloyd: What assessment has the Minister made of the potential impact on tourism in Wales of the repeal of the furnished holiday letting rules from April 2010? OAQ(3)0943(HER)

Alun Ffred Jones: Trade bodies have undertaken such assessments, and based on this and the advice given to me I wrote to the Treasury in the summer to express my concerns about the potential impact on Welsh tourism businesses. The Treasury expects that will be small on viable, permanent businesses, but that is not the view of the commercial organisations.

David Lloyd: I should like to stress that this is an important sector for tourism in Wales. You have said that it is not a devolved issue. Given that people disagree with the Treasury decision, will you continue to try to persuade Westminster Ministers to change their minds and views on this issue?

Alun Ffred Jones: I will certainly be willing to express the industry's view on this matter. As I understand it, there will be an opportunity to express that view when the Treasury publishes its plans, which will be soon. That will provide representatives in Westminster and industry bodies with a

thystiolaeth gerbron. Ar hyn o bryd, ac fel y byddech yn disgwyl efallai, mae gwahaniaeth barn rhwng y Trysorlys a'r ymarferwyr ar lawr gwlad ynghylch yr effaith debygol ar y gost ac ar y diwydiant, ac mae'r ymarferwyr yn ofni y bydd y gost ychwanegol yn effeithio ar hyfywedd busnesau o'r fath. Y ddadl sy'n cael ei chyfleu yw bod hyn yn cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau ein bod yn gyson â rheolau a deddfau Ewropeaidd.

2.40 p.m.

Angela Burns: Minister, I am staggered that Stephen Timms has decided not to review the new rules. Are you aware that, adding insult to injury, Her Majesty's Revenue and Customs is now targeting the self-catering trade, particularly farms that have diversified and may have two to five self-catering cottages, all of which have been built at different times and are, in effect, different businesses? Her Majesty's Revenue and Customs is now saying that those cottages all have to be considered as one business, and so that is taxed. So, we have the change in holiday letting rules, the change in the taxation of the self-catering industry, and the whammy of the rates. What steps can you take, Minister, to protect this beleaguered sector? What is your view of those changes to the regulations on self-catering? I would be interested to know, as you have talked about what the trade thinks, and the UK Government thinks, but not about what you think.

Alun Ffred Jones: I think that you misunderstood my answer. I have expressed my concern about this issue directly to the Government, and we have expressed the trade's view that this would have a negative impact on the industry. I am not aware that the industry is being targeted in the way that you suggested. At a recent conference in Llandrindod Wells, I listened carefully to what was being said about this issue and it is important that as much evidence as possible is collated and then presented not only to us, but to the Government in London. I know that, so far, there has not been any indication that there is any change of heart, and there is an issue about the taxation arrangements in

statutory opportunity to express their views and to give evidence. At the moment, and as you would perhaps expect, there is a difference of opinion between the Treasury and practitioners in the field about the likely effect on cost and on the industry; practitioners are worried that the additional cost will impact upon the viability of such businesses. The argument put forward is that this is being introduced in order to comply with European regulations and legislation.

Angela Burns: Weinidog, yr wyf wedi fy syfrdanu bod Stephen Timms wedi penderfynu peidio ag adolygu'r rheolau newydd. A ydych yn ymwybodol fod Cyllid a Thollau ei Mawrhydi bellach, gan roi halen yn y briw, yn targedu'r fasnach llety hunanddarpar, yn enwedig ffermydd sydd wedi arallgyfeirio ac a allai fod â rhwng dau a phum bwthyn hunanddarpar, bob un wedi'i adeiladu ar wahanol adegau ac yn fusnesau gwahanol, i bob pwrpas? Mae Cyllid a Thollau ei Mawrhydi bellach yn dweud ei bod yn rhaid i'r holl fythynnod hynny gael eu hystyried yn un busnes, a chodir treth arno. Felly, mae gennym y newid o ran rheolau tai gwyliau, y newid o ran trethu'r diwydiant llety hunanddarpar, a'r ergyd a ddaw yn sgîl trethi cynghorau lleol. Pa gamau y gallwch eu cymryd, Weinidog, i amdiffyn y sector hwn sydd dan warchae? Beth yw eich barn am y newidiadau hynny mewn rheoliadau llety hunanddarpar? Hoffwn wybod, gan eich bod wedi sôn am farn y fasnach a barn Llywodraeth y DU, ond nid am eich barn chi.

Alun Ffred Jones: Credaf eich bod wedi camddeall fy ateb. Yr wyf wedi mynegi fy mhryder am y mater hwn yn uniongyrchol wrth y Llywodraeth, ac yr ydym wedi mynegi barn y fasnach, sef y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y diwydiant. Nid wyf yn ymwybodol fod y diwydiant yn cael ei dargedu fel yr oeddech yn ei awgrymu. Mewn cynhadledd yn Llandrindod yn ddiweddar, gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd yn cael ei ddweud am y mater hwn, ac y mae'n bwysig casglu cymaint o dystiolaeth ag sy'n bosibl, a'i chyflwyno wedyn nid yn unig i ni ond i'r Llywodraeth yn Llundain. Gwn na fu dim arwydd o newid meddwl hyd yma, ac y mae problem ynghylch y ffaith

Europe not being consistent with what is happening in the UK at the moment. Be that as it may—I am not an expert in those issues—we need to express the views of the industry to the Government in London and, above all, we need to have all of the evidence collated so that we are certain of our facts when we present the evidence.

The Presiding Officer: I call on Darren Millar to ask question 5.

Darren Millar: Minister, as you know, I recently wrote to you about a very fine period house, Plas Dulas, in Llanddulas in my constituency. In your reply, you outlined the process—

The Presiding Officer: Order. I would be grateful if you would ask the tabled question.

Historic Buildings

Q5 Darren Millar: Will the Minister make a statement on support for historic buildings in Wales? OAQ(3)0969(HER)

Alun Ffred Jones: The Assembly Government through Cadw offers grants to owners for historic building repair and restoration, and through other departments for conservation schemes with regeneration or community benefit. Other funding sources include the Heritage Lottery Fund, charitable organisations and local authorities, which have responsibilities for listed buildings in their area.

Darren Millar: To return to the subject of Plas Dulas in my constituency, you know that I wrote to you, and you replied to me. There has been some concern about the possible loss of the heritage of Plas Dulas as a result of a planning application to the local authority. Fortunately, the planning application has been rejected, but the building has no more than a reprieve, as it is highly likely that there will be an appeal or a further application made. You outlined in your letter the process for listing buildings in order for them to get some protection, with specific reference to the date of 1840, and the

nad yw'r trefniadau trethu yn Ewrop yn gyson â'r hyn sy'n digwydd yn y DU ar hyn o bryd. Beth bynnag am hynny—nid wyf yn arbenigwr ar faterion o'r fath—mae angen inni fynegi barn y diwydiant wrth y Llywodraeth yn Llundain, ac yn anad dim mae angen inni gasglu'r holl dystiolaeth er mwyn bod yn sicr o'n ffeithiau pan fyddwn yn cyflwyno'r dystiolaeth.

Y Llywydd: Yr wyf yn galw ar Darren Millar i ofyn cwestiwn 5.

Darren Millar: Weinidog, fel y gwyddoch, ysgrifennais atoch yn ddiweddar am dŷ cyfnod hardd iawn, sef Plas Dulas, yn Llanddulas yn fy etholaeth. Yn eich ateb, yr oeddech yn amlinellu'r broses—

Y Llywydd: Trefn. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gofyn y cwestiwn a gyflwynwyd.

Adeiladau Hanesyddol

C5 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer adeiladau hanesyddol yng Nghymru? OAQ(3)0969(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig grantiau i berchnogion drwy Cadw ar gyfer gwaith atgyweirio ac adfer yng nghyswllt adeiladau hanesyddol, a thrwy adrannau eraill ar gyfer cynlluniau cadwraeth y mae iddynt fantais o safbwynt adfywio neu o safbwynt cymunedol. Ymhlith y ffynonellau ariannu eraill mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri, sefydliadau elusennol ac awdurdodau lleol, sydd â chyfrifoldebau am adeiladau rhestredig yn eu hardal.

Darren Millar: I ddychwelyd at bwnc Plas Dulas yn fy etholaeth, gwyddoch fy mod wedi ysgrifennu atoch, a chefais ateb gennych. Bu rhyfaint o bryder ynghylch y posibilrwydd o gollu treftadaeth Plas Dulas o ganlyniad i gais cynllunio i'r awdurdod lleol. Yn ffodus, gwrthodwyd y cais cynllunio, ond dros dro yn unig mae'r adeilad wedi'i arbed, gan ei bod yn debygol iawn y gwneir apêl neu gais arall. Yn eich llythyr, yr oeddech yn amlinellu'r broses ar gyfer adeiladau rhestredig er mwyn rhoi rywffaint o ddiogelwch iddynt, gan gyfeirio'n benodol at ddyddiad 1840, a'r dull detholus o restru

selective approach to listing that is taken for buildings constructed after 1840. Would you agree that pre-imposing the criterion of 1840, and simply choosing that particular year, is not appropriate and that it would be better to have a rolling date, for properties over a certain age, in order to afford the extra protection that our built heritage in Wales needs?

Alun Ffred Jones: A review of the criteria is being undertaken at the moment. I do not know what that may produce, obviously; the results will be known in due course. With reference to Plas Dulas itself, officials have visited the building, as you know, and have come to the conclusion that it lacks the required level of distinction for listing as a building of special interest. The gardens at Plas Dulas were also considered for inclusion in Cadw's register of historic parks and gardens. As many of the details have been lost, it now retains only a relic of interest. That is the view of officials, and I am not in any position to argue with them. If you have any further evidence, then we will consider it. However, the important issue in relation to your question is that the review is being undertaken. That may change matters with regard to Plas Dulas, even, but that remains to be seen.

Jeff Cuthbert: As part of your support for historic buildings in Wales, will you also look at how you can support those historic buildings that have clear links with our industrial heritage, in particular those that commemorate the working-class movement and the broader Labour movement?

Alun Ffred Jones: It has been long established that our industrial built heritage is as important as any other aspect of our built heritage. That is borne out by the fact that Blaenavon is now regarded as a world heritage site, and that buildings connected to our industrial past are now displayed at Sain Ffagan. At one time, Sain Ffagan was considered to be more of a place for rural buildings and industries, but that idea has long gone, and there has been a fundamental change in how regard heritage in Wales. I applaud what you say, and Cadw will consider all aspects of our history—whether

adeiladau a godwyd ar ôl 1840. A fydddech yn cytuno nad yw rhagosod 1840 yn faen prawf a dewis y flwyddyn benodol honno'n unig yn briodol, ac y byddai'n well cael dyddiad treigl ar gyfer eiddo sydd dros oedran penodol, er mwyn darparu'r diogelwch ychwanegol y mae ar ein treftadaeth adeiledig yng Nghymru ei angen?

Alun Ffred Jones: Mae adolygiad o'r meini prawf yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Ni wn beth ddaw o hynny, wrth gwrs; byddwn yn cael gwybod y canlyniadau maes o law. Gan gyfeirio at Blas Dulas ei hun, mae swyddogion wedi ymweld â'r adeilad, fel y gwyddoch, ac wedi dod i'r casgliad nad oes iddo'r hynodrwydd gofynnol i gael ei restru'n adeilad o ddiddordeb arbennig. Yn ogystal, ystyriwyd cynnwys y gerddi ym Mhlas Dulas ar gofrestr Cadw o barciau a gerddi hanesyddol. Gan fod llawer o'r manylion wedi'u colli, ychydig o ddiddordeb sydd yno bellach. Dyna farn y swyddogion, ac nid wyf mewn sefyllfa i ddadlau â hwy. Os oes gennych unrhyw dystiolaeth bellach, yna fe'i hystyriwn. Fodd bynnag, y mater pwysig o ran eich cwestiwn yw bod yr adolygiad yn cael ei gynnal. Gallai hynny newid pethau o ran Plas Dulas hyd yn oed, ond amser a ddengys.

Jeff Cuthbert: Fel rhan o'ch cefnogaeth i adeiladau hanesyddol yng Nghymru, a wnewch chi ystyried hefyd sut y gallwch gefnogi'r adeiladau hanesyddol hynny sydd â chysylltiadau amlwg â'n treftadaeth ddiwydiannol, yn enwedig y rheini sy'n coffáu'r mudiad dosbarth gweithiol a'r mudiad Llafur ehangach?

Alun Ffred Jones: Mae wedi ei hen sefydlu bod ein treftadaeth adeiledig ddiwydiannol cyn bwysiced ag unrhyw agwedd arall ar ein treftadaeth adeiledig. Caiff hynny ei gadarnhau gan y ffaith fod Blaenafon yn cael ei ystyried yn safle treftadaeth y byd bellach, a bod adeiladau sy'n gysylltiedig â'n gorffennol diwydiannol bellach yn cael eu harddangos yn Sain Ffagan. Ar un adeg, ystyriwyd Sain Ffagan yn fwy o le ar gyfer adeiladau a diwydiannau gwledig, ond y mae'r syniad hwnnw wedi hen fynd, a bu newid sylfaenol yn y modd y mae pobl yn ystyried treftadaeth yng Nghymru. Yr wyf yn

industrial, rural, religious or any other aspect—in deciding on the importance of listed buildings.

cymeradwyo'r hyn yr ydych yn ei ddweud, a bydd Cadw yn ystyried pob agwedd ar ein hanes—boed yn agwedd ddiwydiannol, gwledig, crefyddol neu unrhyw agwedd arall—wrth benderfynu pwysigrwydd adeiladau rhestredig.

Sites of Historical Interest

Q6 Irene James: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support sites of historical interest in Islwyn? OAQ(3)0950(HER)

Alun Ffred Jones: My officials in Cadw have designated for statutory protection some 200 listed buildings and 11 scheduled ancient monuments in Islwyn. Grants are available from Cadw for repairs to historic buildings and monuments and from other Assembly Government departments for regeneration and other schemes based around the area's rich heritage.

Irene James: Thank you for that response, Minister. As has already been said, heritage is not just about buildings and monuments. If we are to preserve sites of historic interest, we must also preserve an understanding of their history. Minister, with budgets being tighter, what conversations are you having with the Heritage Lottery Fund to ensure that future generations know about events such as the Cwmcarn flannel factory disaster and the numerous mining disasters throughout the south Wales coalfield?

Alun Ffred Jones: I am in regular contact with the representatives of the Heritage Lottery Fund, and I think that there is a greater understanding, within the heritage community and within Cadw, that buildings are important not only for their architecture and use, but also for the stories about the people who lived or worked in them. That is now being extended to our superb collection of castles. Visitors are not only interested in why and how they were built, but in the people who worked and lived in them and the stories about them—and not only ancient stories. I was in Caerphilly this morning to see the exciting developments there, and it is

Safleoedd o Ddiddordeb Hanesyddol

C6 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn Islwyn? OAQ(3)0950(HER)

Alun Ffred Jones: Mae fy swyddogion yn Cadw wedi dynodi tua 200 o adeiladau rhestredig ac 11 heneb goffrestredig yn Islwyn y dylid eu gwarchod yn statudol. Mae grantiau ar gael gan Cadw ar gyfer atgyweirio adeiladau a henebion hanesyddol, a chan adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer adfywio a chynlluniau eraill yn seiliedig ar dreftadaeth gyfoethog yr ardal.

Irene James: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Fel y dywedwyd eisoes, mae mwy i dreftadaeth nag adeiladau a henebion yn unig. Os ydym am ddiogelu safleoedd o ddiddordeb hanesyddol, rhaid inni ddiogelu dealltwriaeth o'u hanes hefyd. Weinidog, â chyllidebau'n dynnach, pa sgysiau yr ydych yn eu cael gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gwybod am ddigwyddiadau megis trychineb ffatri wlanan Cwm-carn a'r trychinebau niferus yn gysylltiedig â phyllau glo ledled maes glo y de?

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn cysylltu'n rheolaidd â chynrychiolwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a chredaf fod mwy o ddealltwriaeth, yn y gymuned dreftadaeth ac yn Cadw, fod adeiladau'n bwysig, nid yn unig oherwydd eu pensaerniaeth a'u defnydd ond hefyd oherwydd y straeon am y bobl a oedd yn byw neu'n gweithio ynddynt. Mae hynny'n cael ei ymestyn yn awr i'n casgliad ardderchog o gestyll. Mae ymwelwyr am wybod pam a sut y cawsant eu hadeiladu, ond mae ganddynt ddiddordeb hefyd yn y bobl a oedd yn gweithio ac yn byw ynddynt a'r straeon amdanynt—ac nid hen straeon yn unig. Yr oeddwn yng Nghaerffili y bore yma

worth noting that among the most interesting stories about Caerphilly castle is its renovation in the 1930s by the Marquis of Bute and the positive effect that that had on the social life of the communities around Caerphilly during a desperate time in the area's history. Therefore, you are right to point out that preserving just the buildings is not enough. The stories about the buildings and the people who lived or worked in them are just as important, and those stories need telling and retelling.

William Graham: Minister, building on those remarks, would you look once again at your policy, particularly in relation to the Navigation colliery at Crumlin? Its owners have spent many hundreds of thousands of pounds trying to preserve the structure, but it is a major site for vandalism. Unfortunately, many of the grants that your department can make available are difficult to access to address that problem. Therefore, I ask you to look once again at that policy.

Alun Ffred Jones: I do not have any details of the situation regarding Navigation colliery with me, but I will write to you after I have made inquiries.

2.50 p.m.

Mohammad Asghar: I congratulate you, Minister, on the support given by your department to the tourism industry across south-east Wales. Do you agree that the opportunity presented by Newport's hosting of the Ryder Cup is significant for neighbouring areas, such as Islwyn, offering tourists an opportunity to visit wonderful attractions such as Cwmcarn forest drive, the canal and many others?

Alun Ffred Jones: Certainly. The Ryder Cup presents a wonderful opportunity to the Newport area and beyond. The whole of Wales should benefit from the presence of that wonderful competition, and it will be an opportunity to highlight the attractions of south-east Wales in particular. Indeed, to refer again to my visit to Caerphilly, we have

i weld y datblygiadau cyffrous yno, ac y mae'n werth nodi bod gwaith adnewyddu castell Caerffili yn y 1930au gan Ardalydd Bute, a'r effaith gadarnhaol a gafodd hynny ar fywyd cymdeithasol y gymunedau o amgylch Caerffili ar adeg enbyd yn hanes yr ardal, ymhlith y straeon mwyaf diddorol am gastell Caerffili. Felly, yr ydych yn iawn i dynnu sylw at y ffaith nad yw diogelu'r adeiladau'n unig yn ddigon. Mae'r straeon am yr adeiladau a'r bobl a oedd yn byw neu'n gweithio ynddynt yr un mor bwysig, ac y mae angen adrodd ac ailadrodd y straeon hynny.

William Graham: Weinidog, i adeiladu ar y sylwadau hynny, a wnewch chi edrych eto ar eich polisi, yn enwedig yng nghyswllt pwll glo Navigation yng Nghrymlyn? Mae ei berchnogion wedi gwario cannoedd o filoedd o bunnoedd yn ceisio diogelu'r strwythur, ond y mae'n safle lle mae llawer iawn o fandaliaeth. Yn anffodus, mae'n anodd cael llawer o'r grantiau sydd ar gael trwy eich adran i fynd i'r afael â'r broblem honno. Felly, gofynnaf ichi edrych ar y polisi hwnnw unwaith eto.

Alun Ffred Jones: Nid oes gennyf ddim manylion am y sefyllfa ynghylch pwll glo Navigation gyda mi, ond ysgrifennaf atoch ar ôl imi wneud ymholiadau.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn eich llongyfarch, Weinidog, ar y gefnogaeth y mae eich adran yn ei rhoi i'r diwydiant twristiaeth ledled y de-ddwyrain. A ydych yn cytuno bod y ffaith bod cystadleuaeth y Cwpan Ryder yn cael ei chynnal yng Nghasnewydd yn cynnig cyfle sylweddol i ardaloedd cyfagos megis Islwyn, ac yn gyfle i dwristiaid ymweld ag atyniadau gwych megis gyrfa goedwig Cwm-carn, y gamlas a llawer o atyniadau eraill?

Alun Ffred Jones: Yn bendant. Mae cystadleuaeth y Cwpan Ryder yn gyfle ardderchog i ardal Casnewydd a thu hwnt. Dylai Cymru gyfan elwa o'r ffaith fod y gystadleuaeth ryfeddol honno'n dod i'r wlad, a bydd yn gyfle i dynnu sylw at atyniadau'r de-ddwyrain yn arbennig. Yn wir, gan gyfeirio eto at fy ymweliad â Chaerffili,

every intention of using the opportunity afforded by the Ryder Cup to highlight attractions such as Caerphilly castle and to hold events in those places. Hopefully, we will attract more people to visit Wales and, when they do, we can tell them the stories that are pertinent to the area.

Community-based Media

Q7 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on support for community-based media? OAQ(3)0980(HER)

Alun Ffred Jones: The Welsh Assembly Government has made £500,000 available to support community radio stations over five years in the form of a community radio fund. We are currently in the process of inviting applications for the third year of funding to support community radio stations.

Leanne Wood: Minister, I know that you are aware of the crisis in the Welsh print media, as many good-quality jobs have been lost and local newspaper titles have disappeared. All that has had an impact. The information that many Welsh communities used to receive through their local newspaper is no longer available, which has implications for people's engagement in political life. Taking into account the success of the community radio scheme that you just referred to, would you be prepared to consider establishing a similar fund providing grants to cover the start-up costs of community newspaper co-operatives? Such a scheme would have to be designed to ensure the political independence of the journalists involved, but I would be grateful if you could tell us whether you could support the idea in principle.

Alun Ffred Jones: It is fine for politicians to agree in principle to such schemes, and you make an important point about local newspapers. If there is a means of assisting projects for setting up community-based newspapers, I would be all in favour of it. I am quite happy to discuss with colleagues whether there is anything specific that we can provide through a scheme such as that to

mae'n fwriad gennym ddefnyddio'r cyfle y mae cystadleuaeth Cwpan Ryder yn ei gynnig i dynnu sylw at atyniadau megis castell Caerffili, a chynnal digwyddiadau yn y lleoedd hynny. Gobeithio y byddwn yn denu mwy o bobl i ymweld â Chymru, a phan fyddant yn ymweld, gallwn rannu straeon sy'n berthnasol i'r ardal â hwy.

Cyfryngau Cymunedol

C7 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer cyfryngau cymunedol? OAQ(3)0980(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trefnu bod £500,000 ar gael i gefnogi gorsafoddedd radio cymunedol dros bum mlynedd, ar ffurf cronfa radio gymunedol. Ar hyn o bryd, yr ydym wrthi'n gwahodd ceisiadau ar gyfer y drydedd flwyddyn ariannu er mwyn cefnogi gorsafoddedd radio cymunedol.

Leanne Wood: Weinidog, gwn eich bod yn ymwybodol o'r argyfwng yng nghyfryngau print Cymru, gan fod llawer o swyddi o safon wedi'u colli a phapurau newydd lleol wedi diflannu. Mae hynny oll wedi cael effaith. Nid yw'r wybodaeth yr oedd llawer o gymunedau Cymru'n arfer ei chael drwy eu papur newydd lleol ar gael bellach, ac y mae i hynny oblygiadau o ran ymwneud pobl â bywyd gwleidyddol. Gan ystyried llwyddiant y cynllun radio cymunedol yr ydych newydd gyfeirio ato, a fydech yn barod i ystyried sefydlu cronfa debyg i ddarparu grantiau i dalu costau sefydlu papurau newydd cymunedol cydweithredol? Byddai angen cynllunio cynllun o'r fath er mwyn sicrhau annibyniaeth wleidyddol y newyddiadurwyr a fyddai'n gysylltiedig â'r papurau newydd, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym a fydech yn gallu cefnogi egwyddor y syniad.

Alun Ffred Jones: Mae'n iawn i wleidyddion gytuno ag egwyddor cynlluniau o'r fath, ac yr ydych yn gwneud pwynt pwysig am bapurau newydd lleol. Os oes modd cynorthwyo prosiectau ar gyfer sefydlu papurau newydd cymunedol, byddwn o'i blaid yn llwyr. Yr wyf yn ddigon bodlon trafod gyda chydweithwyr a oes unrhyw beth penodol y gallwn ei ddarparu drwy gynllun

which you refer. If that might support such initiatives, I would be willing to discuss it further, and I will reply to you in due course.

Andrew R.T. Davies: Minister, I have had the pleasure of visiting several schools that have media studies facilities. I visited Y Pant Comprehensive School in Pontyclun recently, which is one such school. It was good to see the dedication and enthusiasm of the youngsters but, sadly, when they seek to enhance their careers and skills, they find few opportunities because of the shortage of employment opportunities in the media in Wales, as highlighted in various reports. In the reports published by various Assembly committees, it has become clear that the Welsh Assembly Government could target its buying power or its support more towards various local media outlets. Have you had time to consider whether you can weight the support given to relay Welsh Assembly Government advertising messages and public announcements more towards community-based broadcasting? If so, perhaps you could give us a flavour of where those deliberations have taken you so far.

Alun Ffred Jones: I am not aware of having been in any detailed discussions about advertising and publicity on behalf of the Government. That is a matter for others. However, I am quite happy to take the matter of local community-based outlets up and discuss it, although it all depends on the target audience. Local authorities use community and commercial radio to get their messages across. That is quite common. Therefore, it would be wrong to say that there is no public investment in such outlets at present. Whether the Government itself should reappraise spend is a matter for others, but I will seek further information with regard to this.

Hyrwyddo Diwylliant

C8 Gareth Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo diwylliant Cymru? OAQ(3)0942(HER) W

tebyg i'r un y cyfeiriwch ato. Pe gallai hynny gynorthwyo mentrau o'r fath, byddwn yn fodlon ei drafod ymhellach, a rhoddaf ateb ichi maes o law.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, yr wyf wedi cael y pleser o ymweld â llawer ysgol sydd â chyfleusterau astudiaethau'r cyfryngau. Bûm yn ymweld ag Ysgol Gyfun y Pant ym Mhont-y-clun yn ddiweddar, sydd â chyfleusterau o'r fath. Yr oedd yn dda gweld ymroddiad a brwdfrydedd y bobl ifanc, ond yn anffodus, pan fyddant yn ceisio gwella'u gyrfaodd a'u sgiliau, ychydig gyfleoedd sydd ar gael iddynt oherwydd y diffyg cyfleoedd gwaith yn y cyfryngau yng Nghymru, fel y nodwyd mewn amrywiol adroddiadau. Yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan amrywiol bwyllgorau Cynulliad, mae wedi dod i'r amlwg y gallai Llywodraeth y Cynulliad dargeddu ei phŵer prynu neu ei chefnogaeth yn fwy tuag at gyfryngau lleol amrywiol. A ydych wedi cael amser i ystyried a fyddai modd i'r gefnogaeth a roddir ar gyfer cyfleu negeseuon hysbysebu a chyhoeddiadau cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad ffafrio darlledu cymunedol? Os felly, efallai y gallech roi blas inni o ble mae'r ystyriaethau hynny wedi mynd â chi hyd yma.

Alun Ffred Jones: Nid wyf yn ymwybodol fy mod wedi cael unrhyw drafodaethau manwl ynghylch hysbysebu a chyhoeddusrwydd ar ran y Llywodraeth. Mater i bobl eraill yw hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn ddigon bodlon codi'r mater ynghylch cyfryngau cymunedol lleol a'i drafod, er ei fod i gyd yn dibynnu ar y gynulleidfa darged. Bydd awdurdodau lleol yn defnyddio radio cymunedol a radio masnachol i gyfleu eu negeseuon. Mae hynny'n eithaf cyffredin. Felly, byddai'n anghywir dweud nad oes dim buddsoddiad cyhoeddus mewn cyfryngau o'r fath ar hyn o bryd. Mater i bobl eraill yw a ddylai'r Llywodraeth ei hun ailystyried gwariant, ond ceisiaf gael mwy o wybodaeth am hynny.

Promoting Culture

Q8 Gareth Jones: Will the Minister make a statement on promoting the culture of Wales? OAQ(3)0942(HER) W

Alun Ffred Jones: Mae pwysigrwydd diwylliant cyfoethog ac amrywiol wrth wraidd amcanion fy mhortffolio. Mae dogfen 'Cymru'n Un' yn nodi ein hamcanion i gynnig profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru ledled y wlad a thramor.

Gareth Jones: Yn sgîl y trafodaethau cyllido sy'n digwydd ar hyn o bryd, a gredwch fod gennych adnoddau ariannol digonol i hyrwyddo delwedd Cymru dramor?

Alun Ffred Jones: Fel Gweinidog, ni fyddai'n debygol imi dweud nad oes gennyf ddigon o adnoddau ar gyfer unrhyw beth, ond yn ddiweddar yr wyf wedi bod yn dadlau achos y celfyddydau a diwylliant yn gryf. Yr oeddwn yn hynod falch o gael cyhoeddi bod y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dyrannu arian ychwanegol i Gyngor Celfyddydau Cymru yn ddiweddar. Wrth sôn am Gymru dramor, ni fyddech yn edrych ar fy nghyllideb i yn unig. Mae hyrwyddo Cymru dramor, boed hynny drwy'r celfyddydau a diwylliant neu drwy ffyrdd eraill, yn galw am gydweithio rhwng nifer o adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y Cynulliad, ac mae'r llwyddiant yn dibynnu ar gydweithredu sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Yr ydym yn adolygu hyn ar hyn o bryd i weld os allwn wneud y gwaith yn fwy effeithiol, fel sydd ei angen, nid yn unig o safbwynt economaidd ond hefyd o safbwynt delwedd Cymru.

Darren Millar: Culture is extremely important to Wales and it is a huge draw in bringing in tourists. You will know, Minister, that tourism is crucial to the north-Wales economy. We must market north Wales and the culture of Wales properly, but, unfortunately, we have seen dozens of tourist information centres close in recent years, including in the beautiful historic market town of Ruthin in my constituency. Given the financial challenges faced by local authorities over the next few years, and given the fact that the provision of tourist information centres is not a statutory obligation, what action are you taking, as the Minister for Heritage, with responsibility for tourism, to

Alun Ffred Jones: The importance of a rich and diverse culture lies at the heart of my portfolio objectives. The 'One Wales' document outlines our aims to offer high-quality cultural experiences to the people of Wales. The Welsh Assembly Government supports and promotes Welsh culture and heritage throughout Wales and abroad.

Gareth Jones: In light of the current discussion on funding, do you believe you have adequate financial resources to promote the image of Wales abroad?

Alun Ffred Jones: As Minister, I am unlikely to say that I do not have enough resources for anything, but recently I have been arguing the case strongly for arts and culture. I was very pleased to announce that the Minister for Finance and Public Service Delivery has allocated additional funding to the Arts Council of Wales recently. In relation to Wales abroad, you would not look only at my budget. Promoting Wales abroad, whether through arts and culture or by other means, calls for collaboration between a number Assembly Government agencies, and success depends upon current collaboration. We are currently reviewing this to see whether it is possible for us to carry out the work more effectively, as is required, not only in economic terms but in terms of the image of Wales.

Darren Millar: Mae diwylliant yn eithriadol o bwysig i Gymru ac y mae'n atyniad enfawr i ddenu twristiaid. Gwyddoch, Weinidog, fod twristiaeth yn hanfodol i economi'r gogledd. Rhaid inni farchnata'r gogledd a diwylliant Cymru'n iawn, ond yn anffodus yr ydym wedi gweld dwsinau o ganolfannau croeso yn cau yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys yn nhref farchnad hanesyddol a hardd Rhuthun yn fy etholaeth i. O gofio'r heriau ariannol a fydd yn wynebu awdurdodau lleol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac o ystyried y ffaith nad yw darparu canolfannau croeso yn rhwymedigaeth statudol, pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd, fel y

ensure that tourist information centres exist in Wales and that we have a decent and healthy network to ensure that we are marketed properly at home and abroad?

Alun Ffred Jones: Such centres have been traditionally supported by local authorities, and occasionally by the national parks authorities. They have never been centrally funded, therefore they remain the responsibility of local authorities in the main. Visit Wales has been considering this issue, given that strategic centres and points of contact are important, but we need to reappraise how to make such centres more viable and more self-supporting. I recently saw an interesting development in Abersoch, where the tourist information centre is now supported by local industry, with support from the local authority and Tourism Partnership North Wales. There are other alternatives that we need to consider. Certainly, it would be detrimental to see these centres disappearing one by one, but some of them are more strategic or important than others and we need to ensure that they not only remain open, but also remain effective as contact points, although their role has changed considerably over the years in terms of their importance to the tourism industry.

Kirsty Williams: Minister, I am sure that you agree that one important way that we can promote the culture of Wales is to ensure that our children have an opportunity to learn the Welsh language in Welsh-medium schools, and to learn about the history and culture of their nation via the curriculum.

3.00 p.m.

Therefore, do you share my concern that, under the current Learner Travel (Wales) Measure, local authorities are legally required to provide transport to the nearest school, regardless of borders? This means that 150 pupils in Powys secondary schools will no longer be entitled to free transport to the local Welsh secondary school, but will be bussed across the border. Do you agree that that might have a disastrous effect on our culture and on levels of bilingualism in Radnorshire,

Gweinidog dros Dreftadaeth â chyfrifoldeb am dwristiaeth, i sicrhau bod canolfannau croeso yn bodoli yng Nghymru a bod gennym rwydwaith iach a digonol i sicrhau ein bod yn cael ein marchnata'n briodol gartref a thramor?

Alun Ffred Jones: Yn draddodiadol, mae canolfannau o'r fath wedi eu cefnogi gan awdurdodau lleol, a'r awdurdodau parciau cenedlaethol weithiau. Nid ydynt erioed wedi'u hariannu'n ganolog, felly, maent yn dal yn gyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yn bennaf. Mae Croeso Cymru wedi bod yn ystyried y mater hwn, o gofio bod canolfannau a mannau cyswllt strategol yn bwysig, ond mae angen inni ailystyried sut i wneud canolfannau o'r fath yn fwy hyfyw a hunangynhaliol. Yn ddiweddar, gwelais ddatblygiad diddorol yn Aber-soch, lle mae'r ganolfan groeso bellach yn cael ei chefnogi gan ddiwydiant lleol, gyda chymorth yr awdurdod lleol a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru. Mae yna ddewisiadau eraill y mae angen inni eu hystyried. Yn bendant, byddai'n niweidiol gweld y canolfannau hyn yn diflannu fesul un, ond y mae rhai ohonynt yn fwy strategol neu'n bwysicach nag eraill, a rhaid inni sicrhau eu bod yn dal ar agor ac yn dal yn fannau cyswllt effeithiol hefyd, er bod eu rôl wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd o ran eu pwysigrwydd i'r diwydiant twristiaeth.

Kirsty Williams: Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno mai un ffordd bwysig i hyrwyddo diwylliant Cymru yw sicrhau bod ein plant yn cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a dysgu am hanes a diwylliant eu cenedl drwy'r cwricwlwm.

Felly, a ydych chi, fel finnau, yn pryderu bod y mesur presennol, sef Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), yn golygu ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol ddarparu cludiant i'r ysgol agosaf, heb ystyried ffiniau? Mae hynny'n golygu y bydd 150 o ddisgyblion yn ysgolion uwchradd Powys yn colli'r hawl i gael cludiant yn rhad ac am ddim i'r ysgol uwchradd Gymraeg leol, ac y byddant yn cael eu cludo dros y ffin. A ydych yn cytuno y gallai hynny gael

which we are trying to develop at the moment?

The Presiding Officer: Order. He is not the Minister for transport, as you know.

Alun Ffred Jones: The question should be addressed to someone else, and the Minister for transport would be the most likely candidate. As for the other aspect of your question, access to Welsh-medium schools should certainly be made as easy as possible, and the Welsh-medium education strategy that is currently being developed will certainly seek to do that. That is why we set such great store by it. The details of your question will have to be addressed by another Minister.

The Presiding Officer: Or even the next Minister.

effaith drychinebus ar ein diwylliant ac ar lefelau dwyieithrwydd yn Sir Faesyfed, sy'n rhywbeth yr ydym yn ceisio'i ddatblygu ar hyn o bryd?

Y Llywydd: Trefn. Nid y Gweinidog dros Drafnidiaeth ydyw, fel y gwyddoch.

Alun Ffred Jones: Dylid cyfeirio'r cwestiwn at rywun arall, a'r Gweinidog dros Drafnidiaeth fyddai'r unigolyn mwyaf addas. O ran yr agwedd arall ar eich cwestiwn, yn bendant dylid gwneud mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg mor rhwydd ag sy'n bosibl, ac yn bendant bydd y strategaeth ar addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, yn ceisio gwneud hynny. Dyna pam yr ydym yn rhoi cymaint o bwys arni. Bydd yn rhaid i Weinidog arall roi sylw i fanylion eich cwestiwn.

Y Llywydd: Neu'r Gweinidog nesaf, hyd yn oed.

Datganiad am y Cynllun Addysg Uwch ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain Statement on the Twenty-first Century Higher Education Plan

The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt): I wish to make a statement on future policy on higher education in Wales. In June, in response to Professor Merfyn Jones's review, I set a clear direction of travel for higher education based on the two fundamental 'One Wales' commitments: achieving social justice and supporting a buoyant economy. Today, I am signalling the start of radical change in our higher education system in Wales. We intend to work with the Higher Education Funding Council for Wales and higher education providers to significantly remodel higher education provision, while enhancing that which is already strong and internationally outstanding. In doing so, we have looked carefully at Professor Jones's recommendations and, above all, recognised the need for substantial and far-reaching action.

In future, a greater proportion of the £400 million-plus funding provided annually to higher education providers in Wales will be targeted at the delivery of specific strategic

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt): Hoffwn wneud datganiad ynghylch polisi'r dyfodol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Ym mis Mehefin, wrth ymateb i adolygiad yr Athro Merfyn Jones, pennais gyfeiriad clir ar gyfer addysg uwch ar sail y ddau ymrwymiad sylfaenol yn 'Cymru'n Un', sef sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chynnal economi fywiog. Heddiw, yr wyf yn cyhoeddi bod ein system addysg uwch yng Nghymru ar fin newid yn sylfaenol. Yr ydym yn bwriadu gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a darparwyr addysg uwch i aiwhampio'r ddarpariaeth addysg uwch yn sylweddol, gan wella'r hyn sydd eisoes yn gryf ac yn rhagorol o safbwynt rhyngwladol. Wrth wneud hynny, yr ydym wedi edrych yn ofalus ar argymhellion yr Athro Jones, ac wedi cydnabod, yn anad dim, yr angen am gamau gweithredu sylweddol a phellgyrhaeddol.

Yn y dyfodol, bydd cyfran helaethach o'r £400 miliwn a mwy a ddarperir bob blwyddyn i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru yn targedu'n benodol at gyflawni

outcomes to enrich the economic and cultural life of Wales, and to drive our economy forward. I intend to create an HE system that is fit to meet the needs of Wales in the twenty-first century; one that is made up of different providers with different strengths and missions, but which works coherently to deliver an outstanding HE experience; one that is able to compete more effectively internationally; one which helps to meet the economic aspirations and employment needs of the people and communities of Wales, and by so doing enhances the prosperity of every citizen.

I intend to see higher education being opened up to many more people through significantly greater diversity and flexibility in programme design, duration and delivery, including more part-time, short, and credit-based learning experiences. Providers will be expected to plan and deliver many aspects of higher education through national and regional partnerships, through funding targeted at eliminating wasteful local competition, better matching local needs and demand, and building better opportunities to widen access and improve progression to higher education. This approach follows the example set by the university heads of the Valleys initiative, which I announced in June, and which has already successfully recruited its first cohort of students.

Such initiatives are vital to delivering a modern, productive, innovative and competitive Welsh workforce, to transforming the life chances of many more people in Wales, and for regenerating whole communities. I also intend to create much greater opportunity to study through the medium of Welsh. I am pleased to announce that the *coleg ffederal* shadow board will be formed early in 2010, with a view to it becoming fully operational in the academic year 2011-12. This represents a truly innovative, collaborative and independent approach to embedding and enhancing the status of the Welsh language in a way which reflects the model of higher education we wish to see in Wales.

canlyniadau strategol penodol i gyfoethogi bywyd economaidd a diwylliannol Cymru, a rhoi hwb ymlaen i'n heconomi. Yr wyf yn bwriadu creu system addysg uwch sy'n addas i ddiwallu anghenion Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain; un sy'n cynnwys gwahanol ddarparwyr gyda gwahanol gryfderau a gwahanol fwriadau, ond sy'n gweithio mewn modd cydlynol i gynnig profiad neilltuol o addysg uwch; system a all gystadlu'n fwy effeithiol ar y llwyfan rhyngwladol; un sy'n helpu gwireddu dyheadau economaidd pobl a chymunedau Cymru a'u hanghenion cyflogaeth, ac sydd, drwy hynny, yn dod â mwy o lewyrch i bob dinesydd.

Bwriadaf sicrhau bod mwy o bobl o lawer yn gallu manteisio ar addysg uwch, drwy gael llawer mwy o amrywiaeth a hyblygrwydd yn y modd y caiff rhaglenni eu cynllunio a'u cyflwyno, ac yn hyd y rhaglenni hynny, gan gynnwys mwy o brofiadau dysgu byr a rhan-amser, a rhai sy'n seiliedig ar gredydau. Bydd disgwyl i ddarparwyr gynllunio a chyflwyno nifer o agweddau ar addysg uwch drwy bartneriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, drwy drefn gyllido sy'n ceisio dileu cystadleuaeth leol wastraffus, sicrhau bod gwell cyfatebiaeth rhwng anghenion lleol a galw lleol, a chreu gwell cyfleoedd i ehangu mynediad a chynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i addysg uwch. Mae'r dull gweithredu hwn yn dilyn yr esiampl a osodwyd gan fenter prifysgol Blaenau'r Cymoedd, a gyhoeddais ym mis Mehefin, ac sydd eisoes wedi llwyddo i recriwtio'i charfan gyntaf o fyfyrwyr.

Mae mentrau o'r fath yn hanfodol i sicrhau bod gan Gymru weithlu modern, cynhyrchiol, blaengar a chystadleuol, ac o ran gweddnewid cyfleoedd bywyd llawer mwy o bobl yng Nghymru ac adfywio cymunedau cyfan. Bwriadaf greu llawer mwy o gyfle hefyd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr wyf yn falch cyhoeddi y bydd bwrdd cysgodol y coleg ffederal yn cael ei ffurfio'n gynnar yn 2010, gyda'r bwriad o ddod yn gwbl weithredol yn y flwyddyn academaidd 2011-12. Mae hwn yn ddull gwirioneddol flaengar, cydweithredol ac annibynnol o wreiddio a gwella statws y Gymraeg mewn modd sy'n adlewyrchu'r model addysg uwch yr ydym yn dymuno'i weld yng Nghymru.

In spring 2010, a national bursary framework will be launched, based on the principles of transparency and consistency across Wales. This will complement the action that I have already taken to remodel the statutory student support arrangements to target those in greatest need and to introduce innovative new measures to tackle student debt. In taking forward the national bursary framework I expect stakeholders to work together to address the issue of equity of outcomes for students and uphold the principle of supporting those with the most to gain but with the greatest need for support.

I intend that higher education will play a significantly greater role in equipping the Welsh workforce with the skills needed to innovate and compete. Graduates must be fully prepared for employment by their learning experience. In spring 2010, a new strategy for increasing the availability of foundation degrees in Wales will be announced, to boost the high-level skills of our workforce, by enabling a higher education qualification to be obtained within a shorter time, through collaboration between HE, FE and employers. As part of this strategy, I am pleased to announce that further education colleges now have the power to award their own foundation degrees, subject to meeting the rigorous criteria set by the Quality Assurance Agency for Higher Education.

Building on the Deputy First Minister's economic renewal programme, we will target funding at strengthening business between higher education providers and employers, for workforce upskilling, research and development, student and graduate work placements, and consultancy advice. We will seek greater collaboration between universities and public and private sector employers in the generation and pursuit of joint research and knowledge transfer. We will target a greater proportion of funding to strengthen the postgraduate community in Wales, with part time and full-time opportunities of direct relevance to the Welsh economy. We are continuing to explore options for a graduate recruitment award, to

Yn ystod y gwanwyn 2010, caiff fframwaith bwrsariau cenedlaethol ei lansio, yn seiliedig ar egwyddorion o dryloywder a chysondeb ar draws Cymru. Bydd hynny'n cyd-fynd â'r camau yr wyf eisoes wedi'u cymryd i ailfodelu'r trefniadau ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr, er mwyn targedu'r rheini sydd fwyaf mewn angen, ac i gyflwyno mesurau blaengar newydd i fynd i'r afael â dyled myfyrwyr. Wrth ddatblygu'r fframwaith bwrsariau cenedlaethol, disgwyliaf i randdeiliaid gydweithio i sicrhau tegwch canlyniadau i fyfyrwyr, a chynnal yr egwyddor o gynorthwyo'r rheini a allai elwa fwyaf ond sydd ag angen y cymorth mwyaf arnynt.

Fy mwriad yw cael sefyllfa lle bydd i addysg uwch rôl fwy o lawer i sicrhau bod gan weithwyr Cymru y sgiliau y ame arnynt eu hangen i arloesi a chystadlu. Rhaid i brofiadau dysgu graddedigion eu paratoi'n llawn ar gyfer gwaith. Yn ystod y gwanwyn 2010, caiff strategaeth newydd ei chyhoeddi ar gyfer cynyddu nifer y graddau sylfaen sydd ar gael yng Nghymru, i hybu sgiliau lefel uwch ein gweithwyr, drwy eu galluogi i ennill cymhwyster addysg uwch mewn llai o amser wrth i Addysg Uwch, Addysg Bellach a chyflogwyr gydweithio. Fel rhan o'r strategaeth honno, yr wyf yn falch cyhoeddi bod gan golegau addysg bellach y pŵer i ddyfarnu eu graddau sylfaen eu hunain erbyn hyn, cyhyd â'u bod yn bodloni'r meini prawf trylwyr a bennir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch.

Gan adeiladu ar raglen y Dirprwy Brif Weinidog ar gyfer adnewyddu'r economi, byddwn yn targedu cyllid at gryfhau'r ymwneud rhwng darparwyr addysg uwch a chyflogwyr, o ran gwella sgiliau'r gweithlu, gwaith ymchwil a datblygu, lleoliadau gwaith i fyfyrwyr a graddedigion, a chynghor ymgynghorol. Byddwn yn ceisio sicrhau mwy o gydweithio rhwng prifysgolion a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, o ran creu cyfleoedd a chwilio am gyfleoedd i ymchwilio ar y cyd a throsglwyddo gwybodaeth. Byddwn yn targedu cyfran fwy o gyllid i gryfhau'r gymuned ôl-raddedigion yng Nghymru, gyda chyfleoedd rhan-amser a llawn amser sy'n gwbl berthnasol i economi Cymru. Yr ydym

encourage more graduates to seek higher skilled employment in Wales.

Public funding for research will be prioritised to help Wales excel internationally in areas where it already demonstrates strength, again in collaboration, which we have seen developing through 'Reaching Higher'. We will foster research that is in line with our national priorities, particularly in the fields of the digital economy, the low carbon economy, health and biosciences, advanced engineering and manufacturing, as well as key cross-cutting fields where Wales already demonstrates expertise and capacity.

Our strategy and plan for higher education in Wales, 'For Our Future', is available on the Welsh Assembly Government's website. In proposing such far-reaching changes to how higher education in Wales is organised and focused, I remain fully committed to the partnership approach that has already taken us so far along the road we must continue to travel. Through a compact with the higher education community, we wish to plan and move forward in order to build a strong, culturally thriving, socially inclusive and prosperous Wales.

Paul Davies: First, I wish to thank the Minister for her statement. Higher education has a vital contribution to play here in Wales, and the importance of having an effective direction for protecting and developing this sector cannot be underestimated. The Jones review confirmed that there is significant room for improvement in the funding structure that currently supports our universities and students. The Jones review also confirmed the importance of the compact between the Assembly, the Higher Education Funding Council for Wales and universities. I know that the Minister touched on that in her statement. Can the Minister assure us that she and the Welsh Assembly Government will give this the focus that stakeholders believe this deserves? This is crucial if we are to build a strong and prosperous Wales.

yn parhau i archwilio dewisiadau ar gyfer gwobr recriwtio graddedigion, i annog mwy o raddedigion i chwilio am swyddi sy'n gofyn am sgiliau uwch yng Nghymru.

Bydd arian cyhoeddus ar gyfer ymchwil yn cael blaenoriaeth i helpu Cymru i ragori ar y llwyfan rhyngwladol mewn meysydd lle mae eisoes yn dangos cryfder, eto drwy gydweithio, fel yr ydym wedi ei weld yn datblygu drwy 'Ymgeisio yn Uwch'. Byddwn yn meithrin gwaith ymchwil sy'n unol â'n blaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig ym maes yr economi ddigidol, yr economi carbon isel, iechyd a biowyddorau, peirianeg uwch a gweithgynhyrchu, yn ogystal â meysydd trawsbynciol allweddol lle mae Cymru eisoes yn dangos arbenigedd a chapasiti.

Mae ein strategaeth a'n cynllun ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, 'Er Mwyn ein Dyfodol', ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Wrth gynnig newidiadau mor bellgyrhaeddol yn ffocws addysg uwch yng Nghymru a'r modd y caiff ei threfnu, yr wyf yn dal wedi ymrwymo'n llawn i'r dull gweithio mewn partneriaeth, sydd eisoes wedi mynd â ni mor bell ar hyd y ffordd y mae'n rhaid inni barhau i'w throedio. Drwy gyfrwng compact gyda'r gymuned addysg uwch, yr ydym am weld cynllunio a symud ymlaen i greu Cymru lewyrchus a chadarn, sy'n ffynnu'n ddiwylliannol ac yn gynhwysol yn gymdeithasol.

Paul Davies: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Mae gan addysg uwch gyfraniad hanfodol yma yng Nghymru, ac ni ellir bychanu pwysigrwydd cael cyfeiriad effeithiol ar gyfer diogelu a datblygu'r sector hwn. Cadarnhaodd adolygiad Jones fod lle sylweddol i wella'r drefn gyllido sy'n cynnal ein prifysgolion a'n myfyrwyr ar hyn o bryd. Yn ogystal, cadarnhaodd yr adolygiad bwysigrwydd y compact rhwng y Cynulliad, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a phrifysgolion. Gwn fod y Gweinidog wedi crybwyll hynny yn ei datganiad. A all y Gweinidog roi sicrwydd inni y bydd hi a Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi i'r mater hwn y ffocws y mae'n ei haeddu ym marn rhanddeiliaid? Mae hynny'n hollbwysig os ydym i greu Cymru lewyrchus a chryf.

In your statement, Minister, you also say that providers will be expected to plan and deliver many aspects of HE through national and regional partnerships, through funding targeted at eliminating wasteful local competition. Perhaps you will be kind enough to tell us exactly what this means.

We have been waiting for some time to hear about the development of the *coleg ffederal*, and I am pleased that the Minister has now given us more details of the project. As I have said previously, the creation of a Welsh federal college will be of great assistance in promoting the Welsh language. One of its aims will be to create a national academic community working through the medium of Welsh. Can the Minister confirm whether sufficient resources will be made available to meet the objectives of the *coleg ffederal* to ensure its long-term success?

Many have acknowledged that there is a significant funding gap between England and Wales. It is vital that we address the funding gap as a matter of urgency to ensure that students in Wales are able to access the highest standards of higher education.

3.10 p.m.

Following the scrapping of the tuition fee grant, can the Minister confirm how much of the money saved will now be reinvested directly into the sector to address that particular funding gap? Can the Minister also confirm that the additional £31 million for universities will not be top-sliced from the budget to support specific projects, and that students across Wales will benefit from the additional funding?

I welcome support for students and agree that they should not be deterred from pursuing their studies due to the cost of going to university. It is important that a fair and equitable system of support is put in place. I hope that the national bursary framework will address this. It is vitally important that this new system is efficient and does not encounter the same problems as have been seen by our English counterparts in

Yn eich datganiad, Weinidog, yr ydych yn dweud hefyd y bydd disgwyl i ddarparwyr gynllunio a chyflwyno llawer o agweddau ar addysg uwch drwy bartneriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, drwy drefn gyllido sy'n ceisio dileu cystadleuaeth leol wastraffus. A fydech crystal ag egluro beth yn union y mae hynny'n ei olygu?

Yr ydym wedi bod yn aros ers tipyn i glywed am ddatblygiad y coleg ffederal, ac yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi rhoi mwy o fanylion am y prosiect inni'n awr. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, bydd creu coleg ffederal Cymraeg o gymorth mawr i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Un o'i nodau fydd creu cymuned academaidd genedlaethol sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. A all y Gweinidog gadarnhau a fydd adnoddau digonol yn cael eu darparu i fodloni amcanion y coleg ffederal er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddo yn yr hirdymor?

Mae llawer o bobl wedi cydnabod bod bwlch sylweddol rhwng y cyllid a ddarperir yn Lloegr a'r cyllid a ddarperir yng Nghymru. Mae'n hanfodol inni roi sylw i hynny ar fyrder er mwyn sicrhau y gall myfyrwyr yng Nghymru gael addysg uwch o'r safon uchaf.

A all y Gweinidog gadarnhau faint o'r arian sydd wedi'i arbed drwy ddileu'r grant ffioedd dysgu a fydd yn cael ei ailfuddsoddi'n uniongyrchol yn y sector i fynd i'r afael â'r bwlch penodol hwnnw rhwng Cymru a Lloegr? A all y Gweinidog gadarnhau hefyd na fydd y £31 miliwn ychwanegol ar gyfer prifysgolion yn cael ei frigidori o'r gyllideb i gefnogi prosiectau penodol, ac y bydd myfyrwyr o bob rhan o Gymru yn elwa o'r arian ychwanegol?

Yr wyf yn croesawu cymorth i fyfyrwyr ac yn cytuno na ddylai cost mynd i'r brifysgol eu rhwystro rhag parhau eu hastudiaethau. Mae'n bwysig sefydlu system gynorth deg a chyfiawn. Gobeithio y bydd y fframwaith bwrsariau cenedlaethol yn mynd i'r afael â hyn. Mae'n hanfodol bwysig i'r system newydd hon fod yn effeithlon, ac nad yw'n wynebu'r un problemau ag y mae ein cymheiriaid yn Lloegr wedi'u hwynebu wrth

delivering student loans.

While I welcome the Minister's statement, I have concerns about the ability of the Assembly Government to deliver these commitments. My concerns, in particular, relate to funding. As Members are aware, the HE sector faces efficiency savings of 5 per cent, as proposed in the draft budget. With the sector under these constraints, I am concerned about whether these commitments can be delivered in a timely manner. Therefore, what assurances can the Minister give today that these commitments will be delivered on time and within the predicted costs?

The economic renewal programme announced in October by the Deputy First Minister seeks to place the relationship between HE and the business sector at the centre of Wales's economic development, which ties in with the Enterprise and Learning Committee's report into the economic contribution of higher education in Wales. Will the Minister tell us how the Welsh Assembly Government intends to ensure that this happens through greater collaboration, which she has mentioned today in her statement?

Responding to previous statements and participating in debates, I, along with many other Members, have highlighted the inequity in funding for part-time students. The strategy and plan, which have been published today, state that the Welsh Assembly Government expects greater equity between part-time and full-time students in terms of financial support. In the light of this statement, will the Minister confirm how she will specifically address this inequity, given that part-time students make up a substantial percentage of higher education students?

Finally, I thank the Minister again for this statement and I urge her to progress the matters highlighted today as soon as possible.

Jane Hutt: Thank you, Paul. I am glad that you welcome my statement. In fact, you have touched upon all of the key themes in your

gyflwyno benthyciadau myfyrwyr.

Er fy mod yn croesawu datganiad y Gweinidog, yr wyf yn pryderu am allu Llywodraeth y Cynulliad i wireddu'r ymrwymadau hyn. Mae fy mhryderon yn ymwneud yn benodol â chyllid. Fel y gwyr Aelodau, mae'r sector addysg uwch yn wynebu arbedion effeithlonrwydd o 5 y cant, fel y cynigir yn y gyllideb ddrafft. Gyda'r cyfyngiadau hynny ar y sector, yr wyf yn pryderu a ellir gwireddu'r ymrwymadau hyn mewn pryd. Felly, pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi heddiw y bydd yr ymrwymadau hyn yn cael eu gwireddu'n brydlon ac o fewn y costau a ragwelwyd?

Mae'r rhaglen ar gyfer adnewyddu'r economi, a gyhoeddwyd ym mis Hydref gan y Dirprwy Brif Weinidog, yn ceisio sicrhau bod y berthynas rhwng addysg uwch a'r sector busnes yn ganolog i ddatblygiad economaidd Cymru, sy'n cysylltu ag adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu sicrhau bod hynny'n digwydd drwy fwy o gydweithio, fel y crybwyllwyd ganddi heddiw yn ei datganiad?

Wrth ymateb i ddatganiadau blaenorol a chymryd rhan mewn dadleuon, yr wyf fi, ynghyd â nifer o Aelodau eraill, wedi tynnu sylw at yr annhegwch yn y modd y caiff cyllid ei ddarparu i fyfyrwyr rhan-amser. Mae'r strategaeth a'r cynllun a gyhoeddwyd heddiw'n dweud bod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl gweld mwy o degwch yn y cymorth ariannol a gynigir i fyfyrwyr rhan-amser a llawn amser. Yng ngoleuni'r datganiad hwn, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau sut y bydd yn ymdrin â'r annhegwch hwn yn benodol, o gofio bod canran sylweddol o fyfyrwyr addysg uwch yn fyfyrwyr rhan-amser?

Yn olaf, yr wyf yn diolch i'r Gweinidog unwaith eto am y datganiad hwn, ac yn ei hannog i weithredu cyn gynted ag sy'n bosibl ar y materion y tynnwyd sylw atynt heddiw.

Jane Hutt: Diolch Paul. Yr wyf yn falch eich bod yn croesawu fy natganiad. A dweud y gwir, yr ydych wedi cyffwrdd â phob un o'r

question. I reassure you that it is not only my focus, as the Minister responsible, to give priority to the delivery of this plan, but the whole Government has signed up to that assurance. I was able to meet with the Chairs of the governing bodies of all of our universities and higher education institutions today, and the vice-chancellors last week, and they gave me a strong message of support in terms of their partnership and the compact that we need to develop to deliver on this far-reaching plan.

Your question about the delivery and the advanced delivery of regional and national partnerships is pertinent. We already have many examples, through 'Reaching Higher', of the research collaboration, which we had been driving forward in providing opportunities for universities to take the lead. I was pleased to be alongside the Deputy First Minister at Bangor University last week where we launched the £33 million knowledge economy skills scholarships programme, which links to your question about putting HE at the centre of economic development and opportunity. We were able to see not just Bangor taking the lead on this, but a partnership with all of Wales's universities playing their part in backing those PhD and Masters places across Wales, and those research students meeting with local employers from small and medium-sized enterprises, who are engaging fully in the recognition of the knowledge development and transfer that will be delivered as a result of that investment. Also, we can look to widen participation and opportunities, and enable areas, such as the Heads of the Valleys, to have those flexible learning opportunities.

The University of Glamorgan and the University of Wales, Newport have now come together to ensure that higher level skills are delivered. That has been driven ministerially, not just by me, but by the Deputy Minister for Skills, the Deputy Minister for Regeneration and the Minister for Heritage. We now have our first cohort of students. That is being delivered in

themâu allweddol yn eich cwestiwn. Gallaf eich sicrhau nad fi'n unig, fel y Gweinidog â chyfrifoldeb, a fydd yn canolbwyntio ar roi blaenoriaeth i wireddu'r cynllun hwn, gan fod y Llywodraeth gyfan wedi ymrwymo i hynny. Heddiw bu modd imi gyfarfod â Chadeiryddion cyrff llywodraethu ein holl brifysgolion a'n holl sefydliadau addysg uwch, a'r wythnos diwethaf cyfarfûm â'r is-gangellorion, a chefais neges gadarn o gefnogaeth ganddynt am eu partneriaeth a'r compact y mae angen inni ei ddatblygu i wireddu'r cynllun pellgyrhaeddol hwn.

Mae eich cwestiwn ar weithredu partneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, a'u gweithredu ar lefel uwch, yn berthnasol. Mae gennym eisoes nifer o enghreifftiau, drwy 'Ymgeisio yn Uwch', o'r cydweithio sy'n digwydd ym maes ymchwil, fel yr oeddem wedi bod yn ei hybu i ddarparu cyfleoedd i brifysgolion arwain. Yr oeddwn yn falch cael bod gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ym Mhrifysgol Bangor yr wythnos diwethaf, lle lanswyd y rhaglen ysgoloriaethau gennym ar gyfer sgiliau'r economi wybodaeth, sy'n werth £33 miliwn ac sy'n cysylltu â'ch cwestiwn ynghylch sicrhau bod addysg uwch yn ganolog i gyfleoedd a datblygu economaidd. Cawsom gyfle i weld nid yn unig Bangor yn arwain ar hyn, ond partneriaeth lle mae holl brifysgolion Cymru'n gwneud eu rhan i gefnogi'r lleoedd hynny i fyfyrwyr doethuriaeth a graddau meistr ar draws Cymru, a'r myfyrwyr ymchwil hynny'n cwrdd â chyflogwyr lleol o fentrau bach a chanolig eu maint, sy'n ymwneud yn llawn â'r rhaglen gan gydnabod y bydd gwybodaeth yn cael ei datblygu a'i throsglwyddo o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw. Yn ogystal, gallwn ystyried ehangu cyfranogiad a chyfleoedd, a galluogi ardaloedd megis Blaenau'r Cymoedd i gael y cyfleoedd dysgu hyblyg hynny.

Mae Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd wedi dod ynghyd yn awr i sicrhau darparu sgiliau lefel uwch. Mae hynny wedi ei hybu gan weinidogion, nid gennyf fi'n unig, ond gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio a'r Gweinidog dros Dreftadaeth. Mae gennym ein carfan gyntaf o fyfyrwyr yn awr. Mae hynny'n cael ei

partnership not only with the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport, but with Coleg Gwent and Merthyr Tydfil College, and things are now moving to the development of post-16 provision. There are links to the transformation framework, the 14-19 learning pathways, and the Welsh baccalaureate. Higher education has a key part to play in that regard, in the development of a regional as well as a national remit, and in delivering local opportunities for the economy and for communities.

On the points that you make in relation to the *coleg ffederal*, my statement will give you the reassurance that you seek with regard to delivering on Professor Robin Williams's recommendations and the timetable outlined in his report. I am writing to the Higher Education Funding Council for Wales today to ask it to work with Higher Education Wales to form a shadow governing body, which I expect to be set up and to meet early in the new year. It should be fully operational, with the first intake of students, in September 2011.

It is about ensuring that funding is available, and building on existing funding for the Welsh-medium higher education sector group with the money that we are leveraging in as a result of the redirection of student finance. We are releasing £35,000 initially in this financial year for the administrative and legal costs of setting up the governing body for the *coleg ffederal*. To take us forward from 2010-11, there is additional money for things that I have agreed in principle to support, such as the equivalent of 20 Welsh-medium teaching posts per annum. That takes us forward in enabling us to deliver on the recommendations and expectations of the working group chaired by Professor Williams.

In your questions—and I am not surprised that they came—you mention the funding position in relation to higher education. If you look at the context, the Welsh Assembly Government's overall funding for higher education has increased from around £335 million in 2002-03 to over £460 million in

gyflawni mewn partneriaeth, nid yn unig â Phrifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, ond â Choleg Gwent a Choleg Merthyr Tudful, ac y mae camau'n cael eu cymryd yn awr i ddatblygu'r ddarpariaeth ôl-16. Mae yna gysylltiadau â'r fframwaith trawsnewid, y llwybrau dysgu 14-19 a bagloriaeth Cymru. Mae gan addysg uwch ran allweddol yn hynny, wrth ddatblygu cylch gwaith rhanbarthol a chenedlaethol, ac wrth sicrhau cyfleoedd lleol i'r economi ac i gymunedau.

O ran eich pwyntiau ynghylch y coleg ffederal, bydd fy natganiad yn rhoi ichi'r sicrwydd yr ydych yn ei geisio o ran gweithredu argymhellion yr Athro Robin Williams a'r amserlen sydd wedi'i hamlinellu yn ei adroddiad. Byddaf yn ysgrifennu at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru heddiw yn gofyn iddo weithio gydag Addysg Uwch Cymru i ffurfio corff llywodraethu cysgodol, a disgwyliaf iddo gael ei sefydlu a chyfarfod yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Dylai fod yn gwbl weithredol ac yn barod i dderbyn ei fyfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2011.

Mae'n golygu sicrhau bod cyllid ar gael, ac adeiladu ar y cyllid sy'n bodoli eisoes ar gyfer grŵp y sector addysg uwch cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio'r arian yr ydym yn ei drosglwyddo oherwydd ailgyfeirio cyllid myfyrwyr. Yn y lle cyntaf, yr ydym yn rhyddhau £35,000 yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer y costau gweinyddol a chyfreithiol o sefydlu corff llywodraethu ar gyfer y coleg ffederal. Er mwyn ein symud yn ein blaen o 2010-11 ymlaen, bydd arian ychwanegol ar gyfer pethau yr wyf wedi cytuno mewn egwyddor i'w cefnogi, megis yr hyn sy'n gyfwerth ag 20 o swyddi addysgu cyfrwng Cymraeg y flwyddyn. Mae hynny'n ein symud yn ein blaenau o ran ein galluogi i weithredu argymhellion a disgwyliadau'r gweithgor a gadeiriwyd gan yr Athro Williams.

Yn eich cwestiynau—ac nid wyf yn synnu iddynt gael eu gofyn—yr ydych yn cyfeirio at y sefyllfa o ran cyllido addysg uwch. O edrych ar y cyd-destun, fe welwch fod cyfanswm y cyllid y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei glustnodi ar gyfer addysg uwch wedi codi o ryw £335 miliwn yn 2002-

2009-10. We must recognise that that is an increase of over one third in eight years. By the end of 2008-09, the Assembly Government had committed nearly £104 million to enabling the sector to increase its impact through working together and reconfiguration.

It is important that we recognise the challenges facing higher education. HEFCW's current budget expenditure line is crucial as it is the main source of Assembly Government funding to higher education institutions. For 2010-11 it will be the same amount as for 2009-10. It has flatlined but, in addition to that funding, we have increased the budget for Reaching Higher from £22.82 million to £28.814 million. It is important to recognise that there is an increase as far as that budget is concerned.

It is also important—and you will recognise this—that a higher education-led skills project that supports research and development priorities, which I have already outlined, levered in approximately £80 million from the European social fund. I have met the chairs and vice-chancellors of the higher education institutions over the last fortnight, and they recognise that they have a role to play in managing their budgets and levering in sources of funding, particularly as a result of my announcement on a match funding fundraising initiative.

3.20 p.m.

You went on to raise the point about ensuring that we can release the funding. The £31 million that will result from the redirection of student finance was an important deal and was a bargain that we struck in relation to reinvestment in higher education and in delivering not only the *coleg ffederal* and the University of the Heads of the Valleys Institute, which I have mentioned, but also the national bursary framework. This is critical to ensure that we have consistent and fair delivery for our students and that we reach out to the students who are most in need of that funding. I have laid out a forecast of the cash released as a result of the changes. This will start in 2010-11 and builds

03 i dros £460 miliwn yn 2009-10. Rhaid inni gydnabod bod hynny'n gynydd o fwy na thraean mewn wyth mlynedd. Erbyn diwedd 2008-09, yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo bron i £104 miliwn i alluogi'r sector i gynyddu ei effaith drwy gydweithio ac ad-drefnu.

Mae'n bwysig inni gydnabod yr heriau sy'n wynebu addysg uwch. Mae'r llinell wariant yng nghyllideb bresennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn hollbwysig gan mai dyna brif ffynhonnell cyllid Llywodraeth y Cynulliad i sefydliadau addysg uwch. Bydd lefel y cyllid ar gyfer 2010-11 yr un fath ag ar gyfer 2009-10. Mae'r llinell wedi lefelu, ond yn ogystal â'r cyllid hwnnw yr ydym wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer 'Ymgeisio yn Uwch' o £22.82 miliwn i £28.814 miliwn. Mae'n bwysig cydnabod bod yna gynydd o ran y gyllideb honno.

Mae hefyd yn bwysig—a byddwch yn cydnabod hynny—fod oddeutu £80 miliwn wedi'i drosglwyddo o gronfa gymdeithasol Ewrop ar gyfer prosiect sgiliau a arweinir gan y sector addysg uwch. Yr wyf eisoes wedi amlinellu hwnnw, ac yn mae'n cefnogi blaenoriaethau ymchwil a datblygu. Yr wyf wedi cyfarfod â chadeiryddion ac is-gangellorion y sefydliadau addysg uwch yn ystod y pythefnos diwethaf, ac y maent yn cydnabod bod ganddynt rôl o ran rheoli eu cyllidebau ac ychwanegu ffynonellau cyllid atynt, yn enwedig o ganlyniad i'm cyhoeddiad am fenter codi arian ar sail arian cyfatebol.

Aethoch yn eich blaen i godi'r pwynt ynghylch sicrhau ein bod yn gallu rhyddhau'r cyllid. Yr oedd y £31 miliwn a ddaw o ailgyfeirio cyllid myfyrwyr yn ddêl bwysig, ac yn fargen a darwyd gennym yng nghyswllt ailfuddsoddi mewn addysg uwch a gwireddu nid yn unig y coleg ffederal ac Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd yr wyf wedi'u crybwyll, ond hefyd y fframwaith bwrsariau cenedlaethol. Mae hynny'n hanfodol i sicrhau ein bod yn darparu cymorth cyson a theg i'n myfyrwyr ac yn cyrraedd y myfyrwyr hynny y mae arnynt angen y cyllid hwnnw fwyaf. Yr wyf wedi llunio rhagolwg o'r arian parod a gaiff ei ryddhau o ganlyniad i'r newidiadau. Bydd hynny'n dechrau yn 2010-11 ac yn

through to 2015 and 2016, rising to £31 million at that time. This plan for the future is critical to steer the direction and the use of that investment and funding.

I am glad that you have raised the opportunities that this will provide for part-time learners. If you look at the number of part-time learners in Wales at the moment, it is clear that this will be a particular challenge for higher education institutions. Some 38 per cent of all higher education students enrolled are part time. That is the latest figure that we have. Part-time learning is more, not less, likely to grow in the years ahead. It will be a major feature of higher education in the future. The importance of the part-time learning agenda is also recognised internationally. The Lisbon agenda aims to modernise Europe's education and training system, and the Bologna process aims to enhance the transferability of learning credits.

We are getting there in Wales in relation to the ways in which we can widen access and ensure that we are tackling the issues resulting from the Graham review. Over 70 per cent of our part-time higher education students did not have a prior educational qualification at NVQ level 4 or above. It is important that we address this in relation to part-time and wider learning. Those opportunities will come forward, particularly if higher education relates locally, regionally and nationally to the whole education system, and relates to the delivery of training and learning that are linked to employer needs and circumstances, and to sectoral needs in relation to the economy, working more closely with our sector skills councils.

Therefore, I believe that the Assembly as a whole has the opportunity to gear up and work in partnership with this compact in a new and vibrant direction for higher education. In my ministerial foreword, I talked about a refreshed unity of purpose between Government, the higher education community and our stakeholders. That is

cynyddu hyd at 2015 a 2016 gan godi i £31 miliwn bryd hynny. Mae'r cynllun hwn ar gyfer y dyfodol yn hollbwysig i lywio cyfeiriad y buddsoddiad a'r cyllid dan sylw, a llywio'r modd y cânt eu defnyddio.

Yr wyf yn falch ichi dynnu sylw at y cyfleoedd y bydd hyn yn eu darparu i ddysgwyr rhan-amser. O edrych ar nifer y dysgwyr rhan-amser yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd hynny'n her benodol i sefydliadau addysg uwch. Myfyrwyr rhan-amser yw rhyw 38 y cant o'r holl fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsgau addysg uwch. Dyna'r ffigur diweddaraf sydd gennym. Mae'n fwy tebygol, ac nid yn llai tebygol, y bydd nifer y myfyrwyr rhan-amser yn cynyddu yn ystod y blyneddoddedd i ddod. Bydd hynny'n nodwedd bwysig mewn addysg uwch yn y dyfodol. Caiff pwysigrwydd yr agenda dysgu rhan-amser ei gydnabod yn rhyngwladol hefyd. Un o amcanion agenda Lisbon yw moderneiddio system addysg a hyfforddiant Ewrop, ac y mae proses Bologna yn anelu at wella gallu myfyrwyr i drosglwyddo credydau dysgu dysgu.

Yr ydym yn dechrau cael y maen i'r wal yng Nghymru o ran y gwahanol ffyrdd y gallwn ehangu mynediad a sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi o adolygiad Graham. Nid oedd gan dros 70 y cant o'n myfyrwyr addysg uwch rhan-amser gymhwyster addysgol NVQ lefel 4 neu uwch cyn iddynt ddechrau astudio. Mae'n bwysig inni roi sylw i hyn mewn dysgu rhan-amser a dysgu ehangach. Bydd y cyfleoedd hynny'n dod i'r amlwg, yn enwedig os yw addysg uwch yn cysylltu â'r system addysg gyfan ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, ac yn cysylltu â'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant a dysgu sy'n gysylltiedig ag anghenion ac amgylchiadau cyflogwyr, ac anghenion sectorau o ran yr economi, gan weithio'n agosach gyda'n cynghorau sgiliau sector.

Credaf, felly, fod gan y Cynulliad cyfan gyfle i ymbaratoi a gweithio mewn partneriaeth â'r compact hwn wrth i addysg uwch symud i gyfeiriad newydd a bywiog. Yn fy rhagair fel Gweinidog, cyfeiriais at yr angen i adnewyddu'r ymdeimlad o bwrpas a rennir gan y Llywodraeth, y gymuned addysg uwch a'n rhanddeiliad. Dyna'r wyf yn credu y bydd

what I believe this will deliver.

Nerys Evans: Diolch ichi am y datganiad. Yr oedd llawer o fanylion pwysig iawn ynddo a bu datblygiadau arwyddocaol iawn ers eich datganiad diwethaf i'r Siambr. Ymhlith y rheini mae'r ffaith bod prifysgol Blaenau'r Cymoedd wedi dechrau recriwtio myfyrwyr a bod gan golegau addysg bellach yr hawl i ddysgu graddau sylfaenol. Mae'r rhain yn gamau sylfaenol ymlaen i ddatblygu'r sector addysg uwch sydd ei angen ar Gymru heddiw.

Hoffwn eich holi ymhellach ynghylch dwy elfen o'ch strategaeth. Yr elfen gyntaf yw'r coleg ffederal, a godwyd hefyd gan Paul. Yr wyf yn falch iawn y bydd y cyngor cenedlaethol, neu'r bwrdd cysgodol, yn cael ei sefydlu cyn bo hir. Mae pryder o ran yr amserlen, gyda chanfyddiad ymysg rhai fod yr amserlen wedi llithro. A allwch chi gadarnhau y caiff yr amserlen a amlinellir yn adroddiad yr Athro Williams ei dilyn ac nad oes newid i'r amserlen o ran y cerrig milltir a fydd yn sicrhau y bydd y coleg yn gwbl weithredol ym mis Medi 2011? Erbyn mis Medi nesaf, sef mewn 10 mis, mae angen i'r cyngor ddechrau gweithredu, cymeradwyo'r cynlluniau strategol, diweddarau'r cynllun cenedlaethol a chymeradwyo grantiau ar gyfer y sefydliadau addysg uwch. A allwch chi gadarnhau bod yr amserlen honno yn dal i fodoli?

A oes modd ichi roi mwy o fanylion inni am aelodaeth y cyngor cysgodol? Dywedasoeh wrth ateb Paul y byddech yn ysgrifennu heddiw i sicrhau ei fod yn cael ei sefydlu. A fydd cynrychiolaeth o fudiadau â diddordeb penodol yn y maes, fel y gwelsom yng ngrŵp yr Athro Williams, yn ogystal â staff academaidd a darlithwyr?

Yn olaf ar y coleg ffederal, mae cyllid yn fater yr wyf wedi ei grybwyll wrthyh chi a'r Prif Weinidog sawl gwaith. Mae cyllid yn ganolog i lwyddiant y coleg ffederal. A wnewch chi amlinellu pa gyllid fydd Llywodraeth Cymru yn ei fuddsoddi yn y coleg ffederal? Mae adroddiad yr Athro Williams yn sôn am gyllid yn benodol. A allwch chi gadarnhau mai'r ffigurau yn yr adroddiad yw'r ffigurau yr ydych chi'n gweithio gyda hwy a'u bod yn realistig? A

hyn yn ei gyflawni.

Nerys Evans: Thank you for the statement. It contained many important details and there have been very significant developments since your last statement to the Chamber. They include the fact that the university of the Heads of the Valleys has started recruiting students and that further education colleges are now able to offer foundation degrees. These are fundamental steps forward to develop the higher education sector needed in today's Wales.

I should like to question you further on two aspects of your strategy. The first is that of the *coleg ffederal*, as also mentioned by Paul. I am very pleased that the national council, or the shadow board, will soon be established. There is concern about the timetable, with a perception among some people that the timetable has slipped. Can you confirm that the timetable outlined in Professor Williams's report will be adhered to and that there is no change in the timetable in terms of the milestones for ensuring that the college is fully operational by September 2011? By next September—in 10 months' time—the council needs to be operational, to approve the strategic plans, to update the national plan and to approve grants for higher education institutions. Can you confirm that that timetable still exists?

Can you give us more details about the membership of the shadow council? In your reply to Paul, you said that you would write today to ensure that it is established. Will it include representatives of bodies with a specific interest in the field, as we saw in Professor Williams's group, as well as academic staff and lecturers?

Finally, on the *coleg ffederal*, funding is an issue that I have raised with you and the First Minister on many occasions. Funding is central to the success of the *coleg ffederal*. Will you outline the funding that the Welsh Government is to invest in the *coleg ffederal*? Professor Williams's report specifically mentions funding. Can you confirm that the figures to which you are working are those that appear in the report and that they are realistic? Is the Welsh Government

yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r cyllid ychwanegol a ddynodwyd, sef £1.3 miliwn yn y flwyddyn gyntaf gan adeiladau at £6.1 miliwn yn y chweched flwyddyn?

Hoffwn eich holi hefyd ynglŷn â'r cynllun bwrsari cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn rhan ganolog o'r datblygiadau yn addysg uwch i sicrhau bod pobl ifanc o'r cefndiroedd tlotaf yn gallu mynychu ein prifysgolion. Mae angen defnyddio'r strwythur bwrsari i gydlynw'r gwaith o ddenu pobl ifanc ar draws Cymru yn gytbwys. Nid yw'n ddigon i greu gwefan neu sicrhau bod gan bobl ifanc Cymru a thu hwnt y wybodaeth am y bwrsariau sy'n bodoli yn awr. Mae angen i'r cynllun cenedlaethol ailddosbarthu'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd i sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol, sef eich blaenoriaethau chi fel Llywodraeth, ac nid rhai lleol, yn cael eu gwireddu. Rhaid sicrhau tryloywder a chysondeb yn y ffordd y mae myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth ariannol yng Nghymru, ac mae ailddosbarthu'r cyllid yn hanfodol i wneud hynny. Yr ydych yn sôn yn eich datganiad am sicrhau tryloywder a chysondeb a bod angen targedu'r rheini â'r angen mwyaf. A allwch chi gadarnhau bod ailddosbarthu'r bwrsariau hyn yn rhan ganolog o'r cynllun cenedlaethol?

I gloi, ategaf y diolch am y datganiad hwn. Mae llawer o ddatblygiadau pwysig wedi digwydd yn y maes hwn, gan gynnwys rhoi statws sylwedydd i Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yng nghyswllt gwaith CCAUC. Yr wyf yn edrych ymlaen at dderbyn manylion pellach am y cynllun bwrsari a'r coleg ffederal.

Jane Hutt: Diolch yn fawr, Nerys. I am very grateful for your recognition that development has been moving apace since I made a statement on this in June. It has meant that we have made progress, particularly in relation to the development of the *coleg ffederal*, so that we have moved to this point where we are going to have in place a shadow board and the funding arrangements, as well as the constitutional arrangements, if we can call them that, regarding how the *coleg ffederal* will operate as a body. That has required a great deal of consideration.

committed to providing the additional funding mentioned, namely £1.3 million in the first year, increasing to £6.1 million in the sixth year?

I should also like to question you about the national bursary scheme. This scheme is a central part of the developments in higher education so that young people from the poorest backgrounds can go to our universities. The bursary structure needs to be used to co-ordinate the work of attracting young people from all over Wales in a balanced way. Creating a website or ensuring that young people in Wales and beyond have information about the bursaries that currently exist is not enough. The national scheme should redistribute the funding that is currently available to ensure that national priorities—your priorities as a Government—rather than local priorities are realised. We must secure transparency and consistency in the way students receive financial support in Wales, and redistributing funding is vital to that end. In your statement you mention securing transparency and consistency and the need to target those in greatest need. Can you confirm that redistributing these bursaries is a central part of the national scheme?

Finally, I endorse the thanks for this statement. There have been many important developments in this field, including the granting of observer status to the National Union of Students Wales on the work of HEFCW. I look forward to receiving further details about the bursary scheme and the *coleg ffederal*.

Jane Hutt: Diolch yn fawr, Nerys. Yr wyf yn ddiolchgar iawn ichi am gydnabod bod pethau wedi datblygu'n gyflym ers imi wneud datganiad ar hyn ym mis Mehefin. Mae hynny wedi golygu ein bod wedi gwneud cynnydd, yn enwedig o ran datblygu'r coleg ffederal, fel ein bod wedi cyrraedd y pwynt hwn lle bydd gennym fwrdd cysgodol a threfniadau cyllido, yn ogystal â threfniadau cyfansoddiadol, os gallwn eu galw'n hynny, am y modd y bydd y coleg ffederal yn gweithio fel corff. Yr oedd hynny'n golygu llawer iawn o ystyriaeth.

I will, again, reassure you of the timetable. The *coleg ffederal* will become fully operational with the first intake of students in 2011. That was what was recommended. I am sure that that will require a meeting of the shadow board early in the new year, as I said. It may be an interim governing board; we will have to see about the make up and the arrangements of the board. It will be preparing the ground with a business plan and a programme of learning to enable a smooth transition, particularly recognising that we are building on and expanding the work of the existing Welsh-medium higher education sector group, which has already invested considerably in scholarships over the past few years and undertaken work on other important elements.

We expect to draw from a wider stakeholder group, which we found so valuable in the Williams group. I would expect that to be developed and to be taken forward as we are asking Higher Education Wales, and working with HEFCW, to establish that shadow or interim governing body. The partnership that was struck and the vision that was shared have now been reflected in the wide spectrum of interests that came together to deliver on Robin Williams's report. I believe that this is going to drive forward an opportunity as a result of Robin Williams's work that will lead to great change. I have already mentioned the money that we are releasing to set up the new body.

3.30 p.m.

We have an additional £2.5 million of recurrent funding to replace the reconfiguration and collaboration fund and the 'One Wales' money. That has been found from the strategic investment budget expenditure line. We are moving year on year to more than £6 million of investment in the *coleg ffederal*—and just allow me to say that we are committed to funding the *coleg ffederal* over the longer term. We have agreed the funding in principle, subject to terms and conditions, but this is making a start on using the savings realised from the

Unwaith eto, yr wyf yn eich sicrhau am yr amserlen. Bydd y coleg ffederal yn dod yn gwbl weithredol ac yn derbyn ei fyfyrwyr cyntaf yn 2011. Dyna oedd yr argymhelliad. Yr wyf yn siŵr y bydd hynny'n golygu y bydd angen i'r bwrdd cysgodol gyfarfod yn gynnar yn y flwyddyn newydd, fel y dywedais. Efallai mai corff llywodraethu dros dro fydd hwn; bydd angen inni ystyried cyfansoddiad a threfniadau'r bwrdd. Bydd yn braenaru'r tir â chynllun busnes a rhaglen ddysgu er mwyn gallu pontio'n hwylus, gan gydnabod yn arbennig ein bod yn adeiladu ac yn ehangu gwaith grŵp presennol y sector addysg uwch cyfrwng Cymraeg, sydd eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol mewn ysgoloriaethau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac wedi gwneud gwaith ar elfennau pwysig eraill.

Yr ydym yn disgwyl tynnu pobl o grŵp ehangach o randdeiliaid, a oedd mor werthfawr yn achos gweithgor Williams. Byddwn yn disgwyl i hynny gael ei ddatblygu a'i symud yn ei flaen, gan ein bod yn gofyn i Addysg Uwch Cymru, ac yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, i sefydlu'r corff llywodraethu cysgodol neu dros dro hwnnw. Mae'r bartneriaeth a ffurfiwyd a'r weledigaeth a rannwyd wedi'u hadlewyrchu erbyn hyn yn y sbectwm eang o fuddiannau a ddaeth ynghyd i weithredu adroddiad Robin Williams. Credaf y bydd hyn yn hybu cyfle o ganlyniad i waith Robin Williams a fydd yn arwain at newid mawr. Yr wyf eisoes wedi crybwyll yr arian yr ydym yn ei ryddhau i sefydlu'r corff newydd.

Mae gennym £2.5 miliwn yn ychwanegol o gyllid rheolaidd i gymryd lle'r gronfa ad-drefnu a chydweithio ac arian 'Cymru'n Un'. Mae'r arian hwnnw wedi dod o linell wariant y gyllideb ar gyfer buddsoddi strategol. Yr ydym yn symud flwyddyn ar ôl blwyddyn i fuddsoddi dros £6 miliwn yn y coleg ffederal—a chaniatewch imi ddweud ein bod wedi ymrwymo i gyllido'r coleg ffederal dros y tymor hwy. Yr ydym wedi cytuno egwyddor y cyllid, yn amodol ar delerau ac amodau, ond y mae hynny'n ddechreuad o safbwynt defnyddio'r arbedion o ddileu'r

abolition of the tuition fee grant from 2010-11 and directing them towards the *coleg ffederal* and the other 'One Wales' priorities that I have already identified.

As for a wider response to the issues of developing a national student bursary framework, it is important that the revised framework builds on the existing Welsh bursary scheme, and also enables consistency and transparency and targets resources to those in most financial need. It is about ensuring that the higher education experience transforms the lives and prospects of all who are able to benefit from it in Wales. The current system has already been recognised as complex and difficult for learners to navigate. It also often provides significantly different levels of support to students who have the same support needs. We have already started to work in partnership with the National Union of Students Wales, Higher Education Wales and the Higher Education Funding Council for Wales to develop a model to address these issues. At this point, I want to pay tribute to the NUS Wales and particularly to its president, Katie Dalton, who is now sitting on the HEFCW board. That is another development that has taken place since I made my statement in June. We now have a student voice on that board, and another part of the way forward is to ensure that the student voice is strengthened.

I will go back to the comments made by the NUS Wales president about today's statement. She asks for my commitment to the principle of a transparent and equal student support funding model, stating that it is necessary and desirable, and I give that commitment today. That is what we have to deliver, and we must address the implications for the redistributed issues that may emerge from our delivery of the national bursary framework.

Jenny Randerson: Thank you for your statement, Minister. I was pleased to note that some important steps are being taken. I particularly welcome your in-principle

grant ffioedd dysgu o 2010-11 ymlaen a'u cyfeirio at y coleg ffederal a'r blaenoriaethau eraill yn 'Cymru'n Un' yr wyf eisoes wedi'u nodi.

O ran ymateb yn ehangach i broblemau datblygu fframwaith bwrsariau cenedlaethol i fyfyrwyr, mae'n bwysig i'r fframwaith diwygiedig adeiladu ar gynllun bwrsariau Cymru sydd eisoes yn bodoli, ac yn sicrhau cysondeb a thryloywder ac yn targedu'r adnoddau at y rheini sydd fwyaf mewn angen yn ariannol. Mae'n golygu sicrhau bod y profiad addysg uwch yn gweddwid bywydau a rhagolygon pawb sy'n gallu elwa ohono yng Nghymru. Cydnabuwyd eisoes fod y system bresennol yn gymhleth ac yn anodd i ddysgwyr ymdopi â hi. At hynny, mae'n aml yn darparu lefelau gwahanol iawn o gymorth i fyfyrwyr sydd ag arnynt angen yr un cymorth. Yr ydym eisoes wedi dechrau gweithio mewn partneriaeth ag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddatblygu model i fynd i'r afael â'r materion hyn. Hoffwn roi teyrnged yn y fan hon i Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, ac i lywydd yr Undeb, Katie Dalton, yn arbennig, sydd bellach yn aelod o fwrdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae hwn yn ddatblygiad arall sydd wedi digwydd ers imi wneud fy natganiad ym mis Mehefin. Caiff llais myfyrwyr ei gynrychioli bellach ar y bwrdd hwnnw, a rhan arall o'r ffordd ymlaen yw sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei gryfhau.

Dychwelaf at y sylwadau a wnaed gan lywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru am y datganiad a wnaed heddiw. Mae'n gofyn imi ymrwymo i'r egwyddor o gael model cyllido cymorth myfyrwyr sy'n gyfartal ac yn dryloyw, gan ddweud bod hynny'n angenrheidiol ac yn ddymunol, ac yr wyf yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw heddiw. Dyna y mae'n rhaid inni ei sicrhau, a rhaid inni fynd i'r afael â'r goblygiadau i'r materion ailddosbarthu a all godi o weithredu'r fframwaith bwrsariau cenedlaethol.

Jenny Randerson: Diolch am eich datganiad, Weinidog. Yr oeddwn yn falch sylwi bod rhai camau pwysig yn cael eu cymryd. Yr wyf yn croesawu'n arbennig eich

support for a closer alignment between research and the exploitation of commercial opportunities, along with the development of small businesses in Wales. I also pick out the emphasis on postgraduates. I take this opportunity to emphasise to you the considerable importance of postgraduates to universities and to our economy here in Wales. However, I regret that there is a lack of detail still on exactly how the links between higher education and research and businesses will be put into practice. The committee produced an extremely detailed report, which recommended a number of mechanisms, and I am sorry that there is no reference to those mechanisms in your document, Minister.

I welcome the university of the Heads of the Valleys initiative and the *coleg ffederal* and, although I would agree with your priorities on widening access and so on, what concerns me about the situation that we are facing is that there will be an erosion of the core funding for universities, given that the draft budget talks about 5 per cent funding 'efficiency gains', to use your words. The problem is that, at a time of severely constrained finances, the more priorities you have, Minister—and we would all agree with those—the more that universities will face a massive problem with their core funding. Their core funding has now been slimmed down so much and the gap between England and Wales grown so great that universities across Wales are finding real problems with the student experience. You referred to the importance of the student voice, Minister, but there are real issues with the declining quality of student experience in Wales. Put in the most obvious and simple terms, it is because there are far too many people in the same lecture halls listening to the same lectures, and the quality of the follow-up work of tutorials and so on gets more and more sketchy. That is where we as a nation will suffer unless the funding gap is addressed. The £31 million promised will not be available until 2016. The first tranche of that money, some £3 million, is a very small sum in the context of total university funding, and it will not make major inroads at all.

cefnogaeth i egwyddor cryfhau'r cysylltiad rhwng ymchwil a'r angen i fanteisio ar gyfleoedd masnachol, ynghyd â datblygu busnesau bach yng Nghymru. Sylwaf hefyd y pwyslais ar ôl-raddedigion. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i dynnu eich sylw at bwysigrwydd sylweddol ôl-raddedigion i brifysgolion a'n heconomi yma yng Nghymru. Fodd bynnag, yr wyf yn gofidio nad oes gennym lawer o fanylion o hyd am yr union ffordd y bydd y cysylltiadau rhwng addysg uwch ac ymchwil a busnesau'n cael eu rhoi ar waith. Cynhyrchodd y pwyllgor adroddiad manwl iawn, a oedd yn argymhell nifer o ddulliau, ac yr wyf yn siomedig nad oes cyfeiriad at y dulliau hynny yn eich dogfen, Weinidog.

Yr wyf yn croesawu menter prifysgol Blaenau'r Cymoedd a'r coleg ffederal, ac er y byddwn yn cytuno â'ch blaenoriaethau ar ehangu mynediad, ac yn y blaen, yr hyn sy'n fy mhryderu am y sefyllfa sy'n ein hwynebu yw'r ffaith y bydd y cyllid craidd ar gyfer prifysgolion yn cael ei erydu, o gofio bod y gyllideb ddrafft yn sôn am 'arbedion effeithlonrwydd', o ddefnyddio'ch geiriau chi, o 5 y cant. Y broblem, ar adeg pan fo arian yn dynn iawn, yw hyn: po fwyaf o flaenoriaethau sydd gennych, Weinidog—a byddai pob un ohonom yn cytuno â'r rheini—mwy'n y byd y bydd prifysgolion yn wynebu problemau dybryd gyda'u cyllid craidd. Erbyn hyn, mae eu cyllid craidd wedi'i gwtogi i'r fath raddau a'r bwlech rhwng Lloegr a Chymru wedi tyfu cymaint nes bod prifysgolion ledled Cymru'n cael problemau go iawn gyda'r profiad i fyfyrwyr. Cyfeirich at bwysigrwydd llais myfyrwyr, Weinidog, ond y mae gan Gymru broblemau gwirioneddol o ran y dirywiad yn ansawdd y profiad a gynigir i fyfyrwyr. O fynegi hynny yn y ffordd fwyaf amlwg a syml, mae hynny'n digwydd oherwydd bod gormod o lawer o bobl yn yr un darlithfeydd yn gwrando ar yr un darlithoedd, ac ansawdd y gwaith dilynol mewn sesiynau tiwtorial ac yn y blaen yn mynd yn fwyfwy diffygiol. Dyna lle byddwn ni fel cenedl yn dioddef os na roddir sylw i'r bwlech cyllid. Ni fydd y £31 miliwn sydd wedi'i addo ar gael tan 2016. Mae cyfran gyntaf yr arian hwnnw, sef rhyw £3 miliwn, yn swm bach iawn yng nghydestun cyfanswm y cyllid y mae ei angen ar brifysgolion, ac ni fydd yn cael fawr ddim

effaith.

The national bursary framework is most welcome, but you say that it will be launched in spring 2010. What do you mean by 'launched'? Does that mean that the full details will be available and that students will have the forms available to apply for the bursary in 2010? I ask that because those students who wish to go to university in September 2010 have already applied for a place and, by spring, will have accepted any offers made to them. They will be doing that in the dark, as it were, because they will not know which bursaries are available to them and whether these will be available from September 2010. Those bursaries may not be available until 2011, in which case I would like some further information.

Mae'r fframwaith bwrsariau cenedlaethol yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr, ond yr ydych yn dweud y bydd yn cael ei lansio yn ystod gwanwyn 2010. Beth yr ydych yn ei olygu wrth 'lansio'? A yw hynny'n golygu y bydd y manylion llawn ar gael ac y bydd ffurflenni ar gael i'r myfyrwyr wneud cais am y bwrsari yn 2010? Yr wyf yn gofyn oherwydd mae'r myfyrwyr hynny sy'n dymuno mynd i'r brifysgol ym mis Medi 2010 eisoes wedi gwneud cais am le, ac erbyn y gwanwyn byddant wedi derbyn unrhyw gynigion a gânt. Byddant yn gwneud hynny yn y tywyllwch fel petae, gan na fyddant yn gwybod pa fwrsariau a fydd ar gael iddynt ac a fyddant ar gael o fis Medi 2010 ymlaen. Efallai na fydd y bwrsariau hynny ar gael tan 2011, ac os felly, hoffwn gael mwy o wybodaeth.

There remains a lack of fully detailed plans on how you will support part-timers. It is constantly overlooked and really has to be addressed.

Nid oes gennym eto gynlluniau manwl iawn ynghylch y ffordd y byddwch yn rhoi cymorth i fyfyrwyr rhan-amser. Mae hwn yn fater sy'n cael ei anwybyddu'n gyson, ac y mae gwir angen mynd i'r afael ag ef.

Foundation degrees are a good initiative, but it has been raised with me that there is wide disparity across Wales in how much funding per student finds its way to the FE colleges that provide the teaching and learning experience. Some of the universities that franchise such degrees to FE colleges are keeping up to 40 per cent of the funding for themselves, claiming them as administrative costs. To me, as someone on the outside, that seems to be excessive. Other universities are passing on the vast majority of that funding to the FE colleges concerned. The impact of that, which should concern you, is that the quality of the student experience and of the teaching will be much higher in a college that receives more funding. I therefore ask that you agree to investigate that specific issue to ensure parity in the money that is handed to FE colleges from those universities that franchise courses, to allow further education to do its job properly.

Mae graddau sylfaen yn fenter dda, ond mae rhai wedi dweud wrthyf bod anghydraddoldeb mawr ar draws Cymru yn y cyllid y pen sy'n cyrraedd y colegau AB sy'n darparu'r profiad dysgu ac addysgu. Mae rhai o'r prifysgolion sy'n rhyddfrefinio graddau o'r fath i golegau AB yn cadw hyd at 40 y cant o'r cyllid eu hunain, gan hawlio'r cyllid hwnnw i dalu costau gweinyddol. I mi, fel rhywun sy'n edrych ar y sefyllfa o'r tu allan, mae hynny'n ymddangos yn ormodol. Mae prifysgolion eraill yn trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r cyllid i'r colegau AB dan sylw. Effaith hynny, a ddylai fod yn destun pryder ichi, yw y bydd ansawdd profiad myfyrwr ac ansawdd yr addysgu lawer yn uwch mewn coleg sy'n cael mwy o gyllid. Felly, gofynnaf ichi gytuno i ymchwilio i'r mater penodol hwnnw er mwyn sicrhau cydraddoldeb yn yr arian a gaiff colegau addysg bellach gan y prifysgolion hynny sy'n rhyddfrefinio cyrsiau, er mwyn caniatáu i'r sefydliadau addysg bellach wneud eu gwaith yn iawn.

3.40 p.m.

Jane Hutt: I am glad that you welcome many aspects of my statement, Jenny. I am

Jane Hutt: Yr wyf yn falch eich bod yn croesawu llawer agwedd ar fy natganiad,

sure that Members will be interested to know that, in HEFCW's submission to the UK Government's review of postgraduate provision, it stated that, from 2000-01 to 2007-08, the total number of postgraduates in Wales increased by 48 per cent, rising from 14,500 in 2000-01 to 21,500 plus in 2007-08. That it is an increase of 60 per cent in the postgraduate taught cohort and 13 per cent in the postgraduate research cohort. It is important that we focus on taught and research postgraduate opportunities, as demonstrated by the announcement of the UK Commission for Employment and Skills last week, with £33 million going to Bangor University. I launched that with the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport.

I will now try to put the funding issues to rest, I hope—although scrutiny is clearly important. I will not repeat the figures that I gave earlier, but it is important to say again that the level of funding for higher education institution and student finance taken together in Wales is on a par with the level in England. I do not accept that there is such a funding gap given the totality of expenditure in Wales on the HE sector and on HE student finance. I have mentioned all the other sums that we have levered in, such as the £80 million from the European social fund, on top of the HEFCW and Government funding via the Department for the Economy and Transport. According to HEFCW calculations, Wales invests more in higher education per head of population than England: £143.50 is spent per head of population in Wales compared with just £141.90 in England. We have to look at those figures. Even HEFCW's analysis shows a narrowing of the difference in the past two academic years.

We are all, as Ministers, facing financial restrictions and constraints in prioritising our budgets. Difficult choices have to be made.

Jenny. Yr wyf yn siŵr y bydd gan Aelodau ddiddordeb gwybod bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn y wybodaeth a gyflwynodd i adolygiad Llywodraeth y DU o'r ddarpariaeth i ôl-raddedigion, wedi dweud bod nifer y myfyrwyr ôl-raddedig yng Nghymru wedi codi 48 y cant rhwng 2000-01 a 2007-08, gan godi o 14,500 yn 2000-01 i dros 21,500 yn 2007-08. Mae hynny'n gynydd o 60 y cant yn nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau ôl-raddedig sy'n cael eu haddysgu, ac yn gynydd o 13 y cant yn nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'n bwysig inni ganolbwyntio ar gyfleoedd ôl-raddedig sy'n cael eu haddysgu a chyfleoedd ymchwil ôl-raddedig, fel y dangosodd cyhoeddiad Comisiwn y DU ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yr wythnos diwethaf, pan ddyfarnwyd £33 miliwn i Brifysgol Bangor. Bûm yn lansio hynny gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

Yn awr, ceisiaf ateb y pryderon am faterion cyllido unwaith ac am byth, gobeithio—er bod gwaith craffu'n amlwg yn bwysig. Nid wyf am ailadrodd y ffigurau a roddais yn gynharach, ond y mae'n bwysig dweud eto fod lefel y cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a lefel cyllid myfyrwyr gyda'i gilydd yng Nghymru yn cyfateb i'r lefel yn Lloegr. Nid wyf yn derbyn bod bwlech o'r fath yn y cyllid a ddarperir, o gofio cyfanswm y gwariant yng Nghymru ar y sector addysg uwch a chyllid myfyrwyr addysg uwch. Yr wyf wedi cyfeirio at yr holl symiau eraill sydd wedi'u trosglwyddo gennym, megis yr £80 miliwn o gronfa gymdeithasol Ewrop, ar ben cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyllid y Llywodraeth drwy Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Yn ôl cyfrifiadau'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch, mae Cymru'n buddsoddi mwy y pen o'r boblogaeth mewn addysg uwch na Lloegr: caiff £143.50 y pen o'r boblogaeth ei wario yng Nghymru o'i gymharu â £141.90 yn unig yn Lloegr. Rhaid inni edrych ar y ffigurau hynny. Mae dadansoddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru hyd yn oed yn dangos bod y gwahaniaeth wedi lleihau dros y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Yr ydym i gyd, fel Gweinidogion, yn wynebu cyfyngiadau ariannol wrth flaenoriaethu ein cyllidebau. Rhaid gwneud dewisiadau anodd.

That is why we have to ensure that there is collaboration. There needs to be collaboration nationally with Government, as well as the collaboration with further education that you mentioned in your final point, Jenny, to deliver the development of foundation degrees. I just want to pause on that point to emphasise that an enhanced role for further education is central to that strategy. We are developing the foundation degree strategy in consultation with employers and higher and further education providers. We have convened a high-level stakeholder group to help us to identify models for foundation degree development, which includes employers and representatives of the sector skills councils and the HE and FE sectors. We are engaged in steering that group. FE colleges can now gain the power to award foundation degrees, which represents a step change, given the relationships and the collaborations that will be delivered by these opportunities for the provision and funding of foundation degrees. You should also be aware of the funding that we are giving to post-16 further and higher education. There is a challenge in the transformation framework in that higher education knows that it has to buy in to this new arrangement through the compact and the partnership.

To reassure you about issues such as the student bursaries, we will announce the framework in the spring, but the new arrangements will be for the academic term 2010-11. It is in the spring that we need to be very clear about the framework for those bursaries.

Your point about part-time learners is clear. We are embedding the recommendations of the Graham review in the support arrangements that we put in place following that, and we think that there is a case for maintaining those arrangements for the time being. However, the fact that student support mechanisms for part-time learners are required to be fair, appropriate, and sustainable underlines our determination. We must also recognise that that will be linked to opportunities for more flexible ways of learning and that universities are taking this forward. It is very important to see the ways in which some of the universities are already

Dyna pam mae'n rhaid inni sicrhau bod yna gydweithio. Mae angen cydweithio ar lefel genedlaethol â'r Llywodraeth, yn ogystal â'r cydweithio hwnnw ag addysg bellach yr oeddech yn cyfeirio ato yn eich pwynt olaf, Jenny, i sicrhau bod graddau sylfaen yn cael eu datblygu. Yr wyf am oedi ar y pwynt hwnnw am eiliad, i bwysleisio bod gwella rôl addysg bellach yn ganolog i'r strategaeth honno. Yr ydym yn datblygu'r strategaeth graddau sylfaen drwy ymgynghori â chyflogwyr a darparwyr addysg uwch ac addysg bellach. Yr ydym wedi dod â grŵp o randdeiliaid lefel uchel ynghyd i'n helpu i nodi modelau ar gyfer datblygu graddau sylfaen, sy'n cynnwys cyflogwyr a chynrychiolwyr o'r cynghorau sgiliau sector, y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach. Yr ydym yn ymwneud â llywio'r grŵp hwnnw. Erbyn hyn, gall colegau addysg bellach gael y pŵer i ddyfarnu graddau sylfaen, sy'n newid sylweddol, o ystyried y cydberthanas a'r cydweithio a ddaw gyda'r cyfleoedd hyn ar gyfer darparu a chyllido graddau sylfaen. Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'r cyllid yr ydym yn ei roi i addysg bellach ac addysg uwch ôl-16. Mae'r fframwaith trawsnewid yn her, yn gymaint â bod y sector addysg uwch yn gwybod ei bod yn rhaid iddo ddod yn rhan o'r trefniant newydd hwn drwy'r compact a'r bartneriaeth.

I'ch sicrhau am faterion megis bwrsariau myfyrwyr, byddwn yn cyhoeddi'r fframwaith yn y gwanwyn, ond bydd y trefniadau newydd yn dod i rym yn ystod tymor academiaidd 2010-11. Bydd angen inni fod yn glir iawn am y fframwaith ar gyfer y bwrsariau hynny yn y gwanwyn.

Mae eich pwynt ynghylch dysgwyr rhan-amser yn glir. Yr ydym yn ymgorffori argymhellion adolygiad Graham yn y trefniadau cymorth a sefydlwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwnnw, a chredwn fod achos dros barhau'r trefniadau hynny am y tro. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod angen i fecanweithiau cymorth myfyrwyr i ddsygwyr rhan-amser fod yn deg, yn briodol ac yn gynaliadwy yn tanlinellu mor benderfynol yr ydym. Rhaid inni gydnabod hefyd y bydd hynny wedi'i gysylltu â chyfleoedd i gynnis dulliau mwy hyblyg o ddysgu, a bod prifysgolion yn symud hynny'n ei flaen. Mae'n bwysig iawn gweld y ffyrdd y mae

rising to that challenge and taking on board the opportunities of part-time learning and credit-based arrangements, which also link to other universities and the further education experience.

I want to make a point about student satisfaction and student experience. In the 2008 national student survey, 83 per cent of students indicated that they were definitely or mostly satisfied with the quality of their course, compared with 82 per cent in England. Our students are saying that they are satisfied—that is a good number—and it is interesting to see that places such as the University of Glamorgan are spending £5 million on a new student union. I think that there is also willingness and engagement within the governance of our higher education institutions to recognise the contribution that students can make to the opportunity for delivery. I think that we are responding vigorously on every level of the questions that you asked, Jenny, and I believe that every part of the higher education sector and its partners are signed up to it.

Jeff Cuthbert: Thank you, Minister, for this important update today. My question will be brief compared with the ones that have gone before. I want to pay particular attention to how higher education can be bolstered to meet the demand for higher-level skills from industry, and the construction and built environment sector in particular. Llywydd, I need to declare an interest, as I am chair, among many other things, of the Assembly cross-party group on the built environment. As you have already mentioned, training and skill development are crucial aspects of how we pull our economy through the recession and prepare ourselves for the economic upturn. Higher education can, and will, play an important role in this, by working closely with employers and industry in a collaborative approach. The construction and built environment sector requires sufficient numbers of high-quality graduates coming in each year to maintain its contribution to the economy—and a very valuable contribution it is here in Wales. Therefore, Minister, how does this plan address the questions of what skills are needed for employment in the sector, whether the right courses are available

rhai prifysgolion eisoes yn ymateb i'r her honno ac yn derbyn y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu rhan-amser a threfniadau'n seiliedig ar gredydau, sydd hefyd yn cysylltu â phrifysgolion eraill a'r profiad addysg bellach.

Hoffwn wneud pwynt ynghylch bodlonrwydd myfyrwyr a phrofiadau myfyrwyr. Yn yr arolwg cenedlaethol o fyfyrwyr a gynhaliwyd yn 2008, dywedodd 83 y cant o fyfyrwyr eu bod yn bendant yn fodlon neu'n fodlon gan mwyaf ag ansawdd eu cwrs, o'u cymharu ag 82 y cant yn Lloegr. Mae ein myfyrwyr yn dweud eu bod yn fodlon—mae hwn yn nifer da—ac y mae'n ddiddorol gweld bod lleoedd megis Prifysgol Morgannwg yn gwario £5 miliwn ar undeb myfyrwyr newydd. Credaf fod parodrwydd ac ymrwymiad hefyd ymysg y rhai sy'n llywodraethu ein sefydliadau addysg uwch i gydnabod y cyfraniad y gall myfyrwyr ei wneud i'r cyfle i sicrhau canlyniadau. Credaf ein bod yn ymateb yn egniol ar bob lefel i'r cwestiynau yr oeddech yn eu gofyn, Jenny, a chredaf fod pob rhan o'r sector addysg uwch a'i bartneriaid wedi ymrwymo.

Jeff Cuthbert: Diolch, Weinidog, am rannu'r wybodaeth bwysig hon gyda ni heddiw. Bydd fy nghwestiwn yn fyr o'i gymharu â'r cwestiynau blaenorol. Yr wyf am roi sylw arbennig i'r modd y gellir cryfhau'r sector addysg uwch i ateb y galw am sgiliau lefel uwch gan ddiwydiant, a'r sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yn benodol. Lywydd, mae angen imi ddatgan budd, gan fy mod, ymhlith pethau eraill, yn gadeirydd grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar yr amgylchedd adeiledig. Fel yr ydych wedi sôn eisoes, mae hyfforddiant a datblygu sgiliau'n agweddau hollbwysig ar y modd yr ydym yn tynnu ein heconomi drwy'r dirwasgiad ac yn ein paratoi ein hunain ar gyfer gwelliant yng nghyflwr yr economi. Gall addysg uwch chwarae rôl bwysig yn hynny, a bydd yn gwneud hynny drwy gydweithio'n agos â chyflogwyr a diwydiant mewn modd cydweithredol. Mae angen nifer digonol o raddedigion o safon ar y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig bob blwyddyn er mwyn cynnal cyfraniad y sector i'r economi—ac y mae'n gyfraniad gwerthfawr iawn yma yng Nghymru. Felly, Weinidog, sut mae'r cynllun hwn yn mynd i'r

to deliver them, and how new recruits are equipped with the higher-level skills?

Jane Hutt: I congratulate you on the role that you play in chairing the cross-party group on the built environment, one of the many valuable roles that you play in the Assembly and beyond in terms of the skills agenda. I think that we have an opportunity here, with this plan, to address that sector directly. We are seeking a step change in the relationship between employers and higher education institutions, and I think that the regional partnerships—as well as national partnership arrangements that we are developing and the linking of the regional partnerships to the sector skills councils and to the further education institutions—will open doors to higher education for businesses and employers. It is, in terms of research and development, which underpins this direction, one of our priorities. Advanced engineering and manufacturing is also one of our priorities, and you will note that, in this plan, I have focused on the science, technology, engineering and mathematics subjects, because it is critical that we recognise the importance of STEM as a focus in the delivery of higher-level skills, particularly in relation to the built environment.

Finally, foundation degrees are important in the way in which we can move forward, by linking employment, training and work-based learning. Progression is a key message in this plan—there are opportunities in the 14-19 learning pathways, the Welsh baccalaureate and the pathways to apprenticeships, where we are seeing young people who are now in further education colleges moving into employment. Many of those will progress into higher education, possibly work-based. I think that the changes that this report will signal—and this responds to Jenny's point—also meet the recommendations that are coming through from the Enterprise and Learning Committee's report on the economic contribution of higher education. I believe that when the Deputy First Minister and I respond to that in the debate next week,

afael â chwestiynau pa sgiliau y mae eu hangen ar bobl sy'n mynd i weithio yn y sector, a yw'r cyrsiau iawn ar gael i sicrhau'r sgiliau hynny, a sut y mae pobl sydd newydd eu recriwtio i'r maes yn datblygu'r sgiliau lefel uwch?

Jane Hutt: Yr wyf yn eich llongyfarch ar eich rôl yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar yr amgylchedd adeiledig, un o nifer o rolau gwerthfawr sydd gennych yn y Cynulliad a thu hwnt o safbwynt yr agenda sgiliau. Credaf fod gennym gyfle yma, gyda'r cynllun hwn, i roi sylw i'r sector hwnnw'n uniongyrchol. Yr ydym yn awyddus i weld newid sylweddol yn y berthynas rhwng cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch, a chredaf y bydd y partneriaethau rhanbarthol—yn ogystal â'r trefniadau partneriaeth cenedlaethol yr ydym yn eu datblygu, a'r broses o gysylltu'r partneriaethau rhanbarthol â'r cynghorau sgiliau sector a'r sefydliadau addysg uwch—yn agor drysau i addysg uwch ar gyfer busnesau a chyflogwyr. Mae hyn yn un o'n blaenoriaethau, o ran ymchwil a datblygu, sy'n sail i'r cyfeiriad hwn. Mae peirianeg uwch a gweithgynhyrchu hefyd yn un o'n blaenoriaethau, ac fe welwch, yn y cynllun hwn, fy mod wedi canolbwyntio ar wyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, oherwydd mae'n hollbwysig inni gydnabod pwysigrwydd y pynciau hynny fel ffocws i ddarparu sgiliau lefel uwch, yn enwedig o ran yr amgylchedd adeiledig.

Yn olaf, mae graddau sylfaen yn bwysig o ran y modd y gallwn symud yn ein blaen, drwy gysylltu cyflogaeth, hyfforddiant a dysgu'n seiliedig ar waith â'i gilydd. Mae dilyniant yn neges allweddol yn y cynllun hwn—ceir cyfleoedd yn y llwybrau dysgu 14-19, bagloriaeth Cymru a'r llwybrau at brentisiaethau, lle'r ydym yn gweld pobl ifanc sydd mewn colegau addysg bellach ar hyn o bryd yn symud i fyd gwaith. Bydd llawer o'r rhain yn symud ymlaen i addysg uwch, o bosibl yn seiliedig ar waith. Credaf y bydd y newidiadau a gaiff eu cyflwyno gan yr adroddiad hwn—ac y mae'r pwynt hwn yn ymateb i bwynt Jenny—hefyd yn bodloni'r argymhellion sy'n deillio o adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar gyfraniad economaidd addysg uwch. Credaf, pan fydd y Dirprwy Brif Weinidog a minnau'n ymateb i

the synergy will come together in our ambitions.

3.50 p.m.

The Presiding Officer: I will take two short questions, because I do not want to restrict questions to spokespeople.

Bethan Jenkins: You will be aware of the announcement made by the UK Government at the beginning of the month that Lord Bourne will chair a new review into higher education and students fees on a UK level. Will you be taking part in this consultation, as a Welsh Minister, because a number of Welsh students will be affected by a possible hike in fees? Is there any way in which the Assembly strategy will change, specifically with regard to the graduate recruitment scheme and the bursary scheme, if higher fees are introduced on a UK level?

Jane Hutt: I assure you, Bethan, that the announcements that I made in March or June on the redirection of student finance, the abolition or the phasing out of the tuition fee grant, on a fairer and more equitable national bursary scheme, a new scheme to offer a measure of debt relief to students, and the graduate employment scheme, are all essential parts of the delivery of this plan for Wales.

Gareth Jones: Yn unol â'r cyfarwyddiadau, bydd hwn yn gwestiwn byr. Yr wyf yn croesawu'r strategaeth yn fawr, Weinidog. Rhan bwysig o'r strategaeth yw'r cyfeiriad at y compact. Yr ydych yn cyfeirio at y berthynas rhwng addysg uwch a'r Llywodraeth, ac yr ydych yn sôn wedyn am randdeiliaid. Nid wyf yn darllen o hynny fod perthynas gadarn yn y compact gyda'r byd busnes, a fyddai'n cyflwyno elfen dair-ochrog i'r compact. Sut y bydd hyn yn gweithio? A yw byd busnes yn un o'r rhanddeiliaid pwysig hyn, ynteu a yw'r compact yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru ac addysg uwch yn unig?

Jane Hutt: That is an important point in terms of the step change in relationships that are developing nationally, regionally and locally with higher education institutions. Other stakeholders and partners such as

hwnnw yn y ddadl yr wythnos nesaf, y bydd y synergedd yn dod ynghyd yn ein huchelgeisiau.

Llywydd: Yr wyf yn barod i gymryd dau gwestiwn byr, gan nad wyf am gyfyngu cwestiynau i lefarwyr yn unig.

Bethan Jenkins: Gwyddoch am y cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth y DU ddechrau'r mis y bydd yr Arglwydd Bourne yn cadeirio adolygiad newydd o addysg uwch a ffioedd myfyrwyr ar lefel y DU. A fyddwch yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, fel Gweinidog o Gymru, oherwydd bydd cynnydd posibl yn y ffioedd yn effeithio ar lawer o fyfyrwyr o Gymru? Os caiff ffioedd uwch eu cyflwyno ar lefel y DU, a fydd strategaeth y Cynulliad yn newid mewn unrhyw fodd, yn benodol o ran y cynllun recriwtio graddedigion a'r cynllun bwrsariau?

Jane Hutt: Gallaf eich sicrhau, Bethan, fod y cyhoeddiadau a wneuthum ym mis Mawrth neu fis Mehefin ynghylch ailgyfeirio cyllid myfyrwyr a diddymu'r grant ffioedd dysgu'n raddol, ac ynghylch cynllun bwrsariau cenedlaethol tecach, cynllun newydd i gynnig elfen o gymorth gyda dyledion i fyfyrwyr, a'r cynllun cyflogaeth i raddedigion, i gyd yn rhannau hanfodol o wireddu'r cynllun hwn i Gymru.

Gareth Jones: In line with the instructions, this will be a short question. I very much welcome the strategy, Minister. The reference to the compact is an important part of the strategy. You refer to the relationship between higher education and the Government, and you then go on to mention stakeholders. I do not deduce from that that there is a strong relationship with business in the compact, which would introduce a tripartite element into the compact. How will that work? Is business one of these important stakeholders, or is the compact an agreement between the Welsh Government and higher education alone?

Jane Hutt: Mae hwnnw'n bwynt pwysig o ran y newid sylweddol mewn cydberthynas sy'n datblygu'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol â sefydliadau addysg uwch. Bydd rhanddeiliaid a phartneriaid eraill megis

further education institutions will build on many of the compact franchises that already exist, but with their new foundation-degree-awarding powers and the opportunities that they provide. Their links to local, regional, national and international business will have to form a key part of that arrangement. In the concluding sentence of my statement, I said that, through a compact with the higher education community, we wish to plan and move forward to build a strong, culturally thriving, social inclusive and prosperous Wales. The compact with higher education will deliver a stronger and firmer relationship with business that will benefit the economy, and will also provide the social justice that we seek for learners in Wales.

sefydliadau addysg bellach yn adeiladu ar nifer o ryddfreniau'r compact, sydd eisoes yn bodoli, ond gyda'u pwerau newydd i ddyfarnu graddau sylfaen a'r cyfleoedd a ddaw yn eu sgil. Bydd yn rhaid i'w cysylltiadau â busnesau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol fod yn rhan allweddol o'r trefniant hwnnw. Ym mrawddeg olaf fy natganiad, dywedais ein bod, drwy gyfrwng compact â'r gymuned addysg uwch, yn dymuno cynllunio a symud ymlaen er mwyn creu Cymru lewyrchus a chadarn sy'n ffynnu'n diwylliannol ac yn gynhwysol yn gymdeithasol. Bydd y compact â'r sector addysg uwch yn creu perthynas gadarnachr sector busnes, a fydd o fantais i'r economi, a bydd hefyd yn fodd i sicrhau'r cyfiawnder cymdeithasol yr ydym yn awyddus i ddysgwyr yng Nghymru ei gael.

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission

Staff a Gyflogir

C1 Gareth Jones: A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am recriwtio staff a gyflogir yn rhanbarth Gogledd Cymru?
OAQ(3)0034(AC)

The Commissioner for Assembly Resources (William Graham): The Assembly Commission currently employs 14 members of staff in the north Wales region. Four work from home and 10 are based in the Colwyn Bay office. Vacancies appear in *Golwg* and the *Western Mail*, and Jobs Wales and Safle Swyddi websites. Regional newspapers such as the *Daily Post* and *North Wales Weekly News* have also been used to advertise north Wales vacancies. Staff are appointed on merit following fair and open competition.

Gareth Jones: Fel Comisiynydd, byddwch yn deall mor werthfawr yw unrhyw swyddi o safon i economi'r gogledd, sydd wedi dioddef sawl ergyd dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. A oes gan y Comisiwn gynlluniau i gyflogi staff ym mhencadlys newydd Llywodraeth y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno yr haf nesaf?

Recruitment of Staff

Q1 Gareth Jones: Will the Commissioner make a statement on the recruitment of staff employed in North Wales region?
OAQ(3)0034(AC)

Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad (William Graham): Ar hyn o bryd mae Comisiwn y Cynulliad yn cyflogi 14 aelod staff yn rhanbarth y gogledd. Mae pedwar yn gweithio gartref a 10 yn gweithio yn y swyddfa ym Mae Colwyn. Caiff swyddi gwag eu hysbysebu yn *Golwg* a'r *Western Mail*, ac ar wefannau Jobs Wales a Safle Swyddi. Mae papurau rhanbarthol megis y *Daily Post* a'r *North Wales Weekly News* wedi'u defnyddio hefyd i hysbysebu swyddi gwag yn y gogledd. Caiff staff eu penodi ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored.

Gareth Jones: As a Commissioner, you will understand how valuable high-quality jobs are to the north Wales economy, which has suffered many blows over the past few years. Does the Commission have any plans to employ staff at the new Assembly Government headquarters in Llandudno Junction next summer?

William Graham: The Assembly Commission considered whether to move the Colwyn Bay team to the new Government offices at Llandudno Junction, but this has not been adopted because of limitations of public access to the building. Money was saved by giving up little-used exhibition space at the Colwyn Bay office, and purchasing a mobile facility. It is important that we employ staff at locations in north Wales wherever possible, particularly for roles such as translators or editors and for teams that deal primarily with the local community. We have also located functions in north Wales that can be carried out anywhere, such as the switchboard and the visitor booking service.

William Graham: Bu Comisiwn y Cynulliad yn ystyried a ddylid symud tîm Bae Colwyn i swyddfeydd newydd y Llywodraeth yng Nghyffordd Llandudno, ond penderfynwyd peidio â gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau ar fynediad y cyhoedd i'r adeilad. Cafodd arian ei arbed drwy ddefnyddio lle arddangos, nad oedd yn cael ei ddefnyddio ryw lawer yn swyddfa Bae Colwyn, a phrynu cyfleuster symudol. Mae'n bwysig inni gyflogi staff mewn lleoliadau yn y gogledd lle bynnag y mae'n bosibl, yn enwedig ar gyfer swyddi megis swyddi cyfieithu neu olygu, ac ar gyfer timau sy'n ymdrin yn bennaf â'r gymuned leol. Yr ydym hefyd wedi lleoli swyddogaethau yn y gogledd y gellir eu cyflawni mewn unrhyw le, megis y gwasanaeth switsfwrdd a'r gwasanaeth trefnu lle i ymwelwyr.

Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Statement by the Right Honourable Peter Hain MP, Secretary of State for Wales

Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Peter Hain): Diolch, Lywydd, a diolch ichi i gyd. Mae'n bleser mawr gennyf fod yma unwaith eto.

The Secretary of State for Wales (Peter Hain): Thank you, Presiding Officer, and thank you all. It is a great pleasure for me to be back here once again.

It is once again a privilege to report to you on the Queen's Speech, my seventh such appearance. I wish to pay tribute to my comrade Rhodri Morgan. We have supported the same causes since the early days of the anti-apartheid movement four decades ago. The father of Welsh devolution, Rhodri is unquestionably the people's choice. It is, of course, for historians to judge, but I believe that Rhodri will one day take his place in the pantheon of great Welsh leaders, including Owain Glyndŵr, David Lloyd George and Aneurin Bevan.

Mae'n ffrainc unwaith eto cael adrodd ichi am Araith y Frenhines, y seithfed tro imi wneud hynny. Dymunaf roi teyrnged i'm cymrawd, Rhodri Morgan. Yr ydym wedi cefnogi'r un achosion ers dyddiau cynnar y mudiad gwrth-apartheid bedwar degawd yn ôl. Nid oes amheuaeth nad Rhodri, tad datganoli yng Nghymru, yw dewis y bobl. Dim ond haneswyr fydd yn gallu barnu, wrth gwrs, ond credaf y bydd Rhodri ryw diwrnod yn cymryd ei le yn y pantheon o arweinwyr mawr Cymru, sy'n cynnwys Owain Glyndŵr, David Lloyd George ac Aneurin Bevan.

The priorities set out in the UK legislative programme demonstrate our conviction that government can and must be a force for good, to secure economic prosperity for families and businesses and to build a fairer society. This is not the false choice between small government and big government, but a smarter, reformed and responsive government.

Mae'r blaenoriaethau sydd wedi eu gosod allan yn rhaglen ddeddfwriaethol y DU yn dangos ein hargyhoeddiad y gall llywodraeth gyflawni pethau da a'i bod yn rhaid iddi wneud hynny, i sicrhau ffyniant economaidd i deuluoedd a busnesau, ac i greu cymdeithas decach. Nid y dewis ffug rhwng llywodraeth fach a llywodraeth fawr mo hwn, ond yn hytrach llywodraeth ddiwygiedig, fwy craff ac ymatebol.

We will continue to take the action necessary to ensure that the British economy recovers from the global economic crisis through partnership between Wales and Westminster, as we have done in the all-Wales economic summits. The Time to Pay initiative, for example, emerged from the summits, and was adopted in London. It allows businesses to defer their taxes and so helps with cashflow and survival. Over 9,000 firms in Wales are deferring over £130 million of payments, giving them vital breathing space. The Welsh Assembly Government schemes, ProAct and ReAct, have complemented UK Government jobs programmes in saving tens of thousands of Welsh jobs, supporting tens of thousands of Welsh citizens, young and old, to stay in the world of work. This protection was not provided during the dreadful recessions of the early 1980s and 1990s. Our help has ensured that, despite worrying rises in unemployment, there are still 95,000 more jobs in Wales than there were when Labour came to power in 1997. We also now have falling rates of economic inactivity—previously the scourge of Wales.

This Queen's Speech gives new powers to the Financial Services Authority to tackle extortionate bankers' pay and bonuses. Never again must bankers enrich themselves while plunging the global financial system into catastrophe, playing roulette with the financial wellbeing and security of our citizens. Through the G20, our Labour Government is also leading international action to reform the financial system, which only 12 months ago was on the brink of collapse. This is active government, not the passive, *laissez-faire* approach of our opponents. It is not government cut down to size but acting, as only government can, to help families and businesses at this most difficult of times. Welsh citizens need Governments that are on their side, not Governments that leave them on their own.

Byddwn yn parhau i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod economi Prydain yn cryfhau wedi'r argyfwng economaidd byd-eang trwy sicrhau bod Cymru a San Steffan yn gweithio mewn partneriaeth, fel yr ydym wedi'i wneud yn uwchgynadleddau economaidd Cymru gyfan. Mae'r fenter *Time to Pay*, er enghraifft, wedi'i sefydlu o ganlyniad i'r uwchgynadleddau, ac fe'i mabwysiadwyd yn Llundain. Mae'n caniatáu i fusnesau ohirio talu eu trethi, ac felly mae'n eu helpu gyda'u llif arian ac yn eu helpu i oroesi. Mae dros 9,000 o gwmnïau yng Nghymru'n gohirio talu dros £130 miliwn, gan roi saib hollbwysig iddynt. Mae cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad, ProAct a ReAct, wedi ategu rhaglenni swyddi Llywodraeth y DU wrth achub degau o filoedd o swyddi yng Nghymru, a chefnogi degau o filoedd o ddinasyddion Cymru, yn ifanc ac yn hen, i aros ym myd gwaith. Ni chafodd pobl eu hamddiffyn fel hyn yn ystod y cyfnodau ofnadwy o ddirwasgiad a gafwyd ddechrau'r 1980au a'r 1990au. Mae ein cymorth wedi sicrhau bod 95,000 yn fwy o swyddi o hyd yng Nghymru nag ydoedd pan ddaeth y Blaid Lafur i rym yn 1997, er gwaethaf y cynnydd mewn diweithdra, sy'n destun pryder. Yn ogystal, mae cyfraddau anweithgarwch economaidd—a fu unwaith yn bla yng Nghymru—yn disgyn erbyn hyn.

Mae'r Araith hon gan y Frenhines yn rhoi pwerau newydd i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol fynd i'r afael â chyflogau a thaliadau bonws afresymol bancwyr. Rhaid sicrhau na chaiff bancwyr byth eto ymgyfoethogi gan achosi i'r system ariannol fyd-eang fynd â'i phen iddi mewn modd trychinebus, a chwarae rwlét â lles a diogelwch ariannol ein dinasyddion. Trwy gyfrwng yr G20 mae ein Llywodraeth Lafur hefyd yn arwain gweithredu rhyngwladol i wella'r system ariannol, a oedd ar fin chwalu gwta 12 mis yn ôl. Mae hon yn llywodraeth weithredol, ac nid yw'n defnyddio dull goddefol, *laissez-faire* ein gwrthwynebwyr. Nid yw'n llywodraeth sydd â'i chrib wedi'i thorri, ond mae'n gweithredu, fel na all neb ond llywodraeth weithredu, i helpu teuluoedd a busnesau ar adeg mor anodd. Mae ar ddinasyddion Cymru angen Llywodraethau sydd o'u plaid, nid Llywodraethau sy'n eu gadael ar eu pen eu hunain.

Without such active government, there would have been no minimum wage, no tax credits, no employment rights and no protection against the onslaught of global recession. The bold action that we took to stabilise the banks has protected thousands of Welsh jobs and businesses, and the new rules that we introduced on repossessions have kept thousands of Welsh families in their homes. We have provided real help, and we will continue to do so, ignoring the callous voices from the right demanding savage cuts in such public investment and support for jobs. We are investing an extra £5 billion across the UK to help people back into work, determined that the next decade will not become a lost decade—a decade of decline and jobless recovery—as happened after the recessions of the early 1980s and early 1990s, when the Government abjectly failed to act and there was misery and mass unemployment in Wales.

Next year, the Welsh budget will rise to almost £15.5 billion, helping ensure that you can deliver the front-line services that the people of Wales need. It is a budget that is in real danger from the deep cuts that our opponents are proposing, cuts that would succeed only in turning this recession into a depression. If that were allowed to happen, the serious, but mercifully short-term, job losses that we are seeing would be replaced by the kind of entrenched long-term unemployment that we saw in the 1980s and 1990s in Wales, with all the social fragmentation and injustice of those times.

4.00 p.m.

Following the White Paper on devolution and financing for Scotland, published today, I will be making a statement to Parliament tomorrow on the Government's response to the Holtham commission on the Welsh block grant. In addition to increasing investment now, we will introduce legislation to halve the budget deficit within four years. We will

Heb lywodraeth mor weithredol, ni fyddai gennym isafswm cyflog, credydau treth, hawliau cyflogaeth na dim i'n hamddiffyn rhag ymosodiad dirwasgiad byd-eang. Mae'r camau beiddgar a gymerwyd gennym i sefydlogi'r banciau wedi diogelu miloedd o swyddi a busnesau yng Nghymru, ac y mae'r rheolau newydd a gyflwynwyd gennym ar adfeddiannu eiddo wedi golygu bod miloedd o deuluoedd yng Nghymru wedi gallu cadw eu cartrefi. Yr ydym wedi darparu help go iawn, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan anwybyddu'r lleisiau dideimlad o'r dde sy'n galw am doriadau creulon mewn buddsoddi cyhoeddus a chymorth o'r fath ar gyfer swyddi. Yr ydym yn buddsoddi £5 biliwn ychwanegol ar draws y DU i helpu pobl i ddychwelyd i fydd gwaith, ac yr ydym yn benderfynol na fydd y degawd nesaf yn dod yn ddegawd coll—degawd o ddirywiad ac adfer heb swyddi—fel y digwyddodd ar ôl y dirwasgiad ar ddechrau'r 1980au a dechrau'r 1990au, pan fethodd y Llywodraeth yn llwyr â gweithredu, a phan gafwyd trallod a diweithdra mawr yng Nghymru.

Y flwyddyn nesaf, bydd cyllideb Cymru'n codi bron i £15.5 biliwn, gan helpu sicrhau eich bod yn gallu darparu'r gwasanaethau rheng flaen y mae eu hangen ar bobl Cymru. Mae hon yn gyllideb sydd mewn perygl mawr oherwydd y toriadau sylweddol y mae ein gwrthwynebwyr yn eu cynnig, toriadau na fyddent yn gwneud dim ond gwaethygu'r dirwasgiad hwn. Pe baem yn gadael i hynny ddigwydd, byddai'r diswyddiadau difrifol yr ydym yn eu gweld ar hyn o bryd ac sydd, trwy drugaredd, yn rhai tymor byr, yn troi'n ddiweithdra hirdymor wedi gwreiddio o'r math a welwyd yng Nghymru yn yr 1980au a'r 1990au, â'r holl ddarnio a'r anghyfiawnder cymdeithasol a welwyd yn ystod y blynyddoedd hynny.

Yn dilyn y Papur Gwyn ar ddatganoli ac ariannu yn yr Alban, a gyhoeddwyd heddiw, byddaf yn gwneud datganiad yn Senedd y DU yfory ar ymateb y Llywodraeth i gomisiwn Holtham ar y grant bloc i Gymru. Yn ogystal â chynyddu buddsoddiad yn awr, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i haneru'r diffyg yn y gyllideb cyn pen pedair blynedd.

reform the regulation of financial services to ensure that savers and lenders are fully protected, and curb excessive bonuses. We will improve access to the internet and deliver high-speed broadband throughout Wales. We will protect public service broadcasting by funding a pilot to deliver Welsh news in the English language on channel 3, and we will invest in the digital, low-carbon economy of the future.

We will legislate to promote equality and tackle discrimination, to help vulnerable people with their energy bills, to grant equal treatment for agency workers, to democratise the House of Lords, and enshrine in law for very first time our commitment to abolish child poverty.

These policies reflect not just Labour Party values, but Welsh values: a strong belief in community and in pulling together to shelter from the economic storm, always providing the most protection to the most vulnerable, and asking those who can pay more to carry a fair share of the burden. That means raising the tax rate to 50 per cent for those earning above £150,000—not handing the 3,000 very wealthiest fully £200,000 each in inheritance tax cuts, as the Conservatives promise.

Of the 14 Bills that the Queen's Speech contains, all except the Northern Ireland legislation affect Wales. Two contain Welsh framework powers—on home education and the Wales Audit Office. Welsh Members of Parliament will therefore continue to play a vital role in representing the people of Wales on vital issues such as the Welsh budget, the economy, pensions, climate change, security, policing, and employment programmes.

That is why I simply cannot fathom why any Welsh political party would seek to undermine Wales's voice in Parliament. David Cameron's proposals to cut the size of

Byddwn yn diwygio'r modd y caiff gwasanaethau ariannol eu rheoleiddio er mwyn sicrhau bod cynilwyr a benthycwyr yn cael eu hamddiffyn yn llawn, a byddwn yn cadw taliadau bonws dan reolaeth. Byddwn yn gwella mynediad i'r rhyngwyd ac yn sicrhau darpariaeth band eang cyflym trwy Gymru gyfan. Byddwn yn diogelu darlledu fel gwasanaeth cyhoeddus trwy ariannu cynllun peilot i ddarparu newyddion am Gymru yn Saesneg ar sianel 3, a byddwn yn buddsoddi yn economi ddigidol, carbon isel y dyfodol.

Byddwn yn deddfu i hybu cydraddoldeb ac i fynd i'r afael â gwahaniaethu, helpu pobl sy'n agored i niwed gyda'u biliau ynni, sicrhau bod gweithwyr sy'n cael eu cyflogi trwy asiantaethau'n cael eu trin yn gyfartal, democrateiddio Tŷ'r Arglwyddi, a chynnwys mewn deddf am y tro cyntaf erioed ein hymrwymiad i ddileu tlodi plant.

Mae'r polisiau hyn yn adlewyrchu nid yn unig werthoedd y Blaid Lafur, ond gwerthoedd Cymru: credu'n gryf yn y gymuned a thynnu at ein gilydd i gysgodi rhag y storm economaidd, cynnig y cymorth mwyaf i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed bob amser, a gofyn i'r sawl sy'n gallu talu mwy i gario cyfran deg o'r baich. Mae hynny'n golygu codi'r gyfradd dreth i 50 y cant i'r rheini sy'n ennill dros £150,000—yn hytrach na chyflwyno toriadau yn y dreth etifeddiant a fydd yn rhoi £200,000 yr un i'r 3,000 o'r bobl fwyaf cefnog, fel y mae'r Ceidwadwyr yn ei addo.

O'r 14 o Fesurau sydd wedi'u cynnwys yn Araith y Frenhines, mae pob un ohonynt heblaw'r un am ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon yn effeithio ar Gymru. Mae dau'n cynnwys pwerau fframwaith i Gymru—ar addysg yn y cartref a Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, bydd Aelodau Seneddol Cymru'n parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gynrychioli pobl Cymru ar faterion hanfodol megis y gyllideb ar gyfer Cymru, yr economi, pensiynau, y newid yn yr hinsawdd, diogelwch, plismona a rhaglenni cyflogaeth.

Dyna pam na allaf ddirnad pam y byddai unrhyw blaid wleidyddol yng Nghymru'n dymuno tanseilio llais Cymru yn Senedd y DU. Byddai cynigion David Cameron i

the House of Commons by 10 per cent and ensure broadly equally-sized electorates in each constituency throughout the UK would have a more devastating impact upon Wales than on anywhere else in Britain. The number of Welsh MPs would be cut to 29, or maybe 30 if any allowance for sparsity were made.

A new pattern of constituencies would ride rough-shod over the realities of Welsh geography and communities, with a monstrously big seat in mid Wales, representation in north Wales cut from 10 to seven, and the south Wales Valleys spatch-cocked together into constituencies that would defy easy communication, transport and common identity. The Assembly would be affected too. If Welsh representation in Parliament is reduced to 30, then the Assembly's membership would be reduced to 45—an automatic consequence of the Government of Wales Act 2006, and catastrophic for the Assembly as an institution.

More and more powers are being devolved to the Assembly via framework powers and legislative competence Orders—more than three times the number possible under the old system. We have seen powers devolved in 46 areas to date, and there is much more to come. I have freely admitted that the system took time to bed down. Many of the delays we encountered with particular LCOs were avoidable, and we have learned our lessons, but the new powers are starting to work, and to work well. Finally—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I am very interested to hear this part of the Secretary of State's speech.

Peter Hain: Finally, I would like to address how we could win a referendum to trigger the primary law-making powers that we expressly legislated for in the Government of Wales Act 2006. I say 'how we could win', because my position is very different from the recent line taken by David Cameron, that he would not stand in the way of a referendum request from the Assembly.

leihau maint Tŷ'r Cyffredin 10 y cant a sicrhau bod yr un faint o etholwyr yn fras ym mhob etholaeth trwy'r DU gyfan yn cael effaith fwy dinistriol ar Gymru nag ar unrhyw le arall ym Mhrydain. Byddai nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru'n gostwng i 29, neu 30 efallai, pe bai lwfans ar gyfer ardaloedd prin eu poblogaeth.

Byddai patrwm newydd o etholaethau'n anwybyddu realiti daearyddiaeth a chymunedau Cymru, gan y byddai sedd anferth o fawr ar gyfer y canolbarth, byddai cynrychiolaeth y gogledd yn mynd o 10 i saith, a byddai cymoedd y de'n cael eu hollti i greu etholaethau a fyddai'n creu anawsterau o ran cyfathrebu a theithio'n hwylus, ac yn herio hunaniaeth gyffredin. Byddai hyn yn effeithio ar y Cynulliad hefyd. Pe bai cynrychiolaeth Cymru yn y Senedd yn gostwng i 30, byddai aelodaeth y Cynulliad yn goatwng i 45—canlyniad awtomatig i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a fyddai'n drychinebus i'r Cynulliad fel sefydliad.

Mae mwy a mwy o bwerau'n cael eu datganoli i'r Cynulliad trwy bwerau fframwaith a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol—dros deirgwaith y nifer a oedd yn bosibl dan yr hen system. Gwelsom bwerau'n cael eu datganoli mewn 46 maes hyd yn hyn, ac y mae llawer mwy i ddod. Yr wyf wedi bod yn barod i gyfaddef bod y system wedi cymryd amser i ymsefydlu. Byddai wedi bod yn bosibl osgoi llawer o'r oedi a gafwyd gyda rhai Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol penodol, ac yr ydym wedi dysgu ein gwersi, ond y mae'r pwerau newydd yn dechrau gweithio, a gweithio'n dda. Yn olaf—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed y rhan hon o araith yr Ysgrifennydd Gwladol.

Peter Hain: Yn olaf, hoffwn ymdrin â'r modd y gallem ennill refferendwm i sbarduno'r pwerau deddfu sylfaenol y deddfwyd yn benodol ar eu cyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Dywedaf 'y modd y gallem ennill', oherwydd mae fy safbwynt i'n wahanol iawn i safbwynt David Cameron yn ddiweddar, sef na fyddai'n rhwystro cais am refferendwm gan y Cynulliad. Yn

Typically, he made that comment after a slick bit of spin where the leaked lines anticipating what he would say proved to be far more positive than what he actually said. What does not standing in the way really mean? Does it mean a future Tory Government campaigning for a 'yes' vote? No. Even if he wanted to do so, he could not deliver his own MPs, let alone his own Welsh members or the vast majority of Welsh Tory voters who are implacably opposed to more powers. I give this pledge to the Assembly today: if I am the Secretary of State in receipt of an Assembly request to call a referendum, I will not veto that request. More than that, I would vote 'yes' for the powers that I have long believed in, and, indeed, legislated for in 2006. They are powers that Labour delivered into statute, and Labour is the only party that has ever delivered on devolution—first by establishing a Secretary of State for Wales, Jim Griffiths, and the Welsh Office in 1964, then by establishing the Assembly and then extending its powers. As a proud Welsh devolutionist, the real question for me is not about renouncing a veto, as the leader of the Conservative Party may or may not have done. The real question is how and when the pro-devolution forces in Wales could win a referendum.

The impressive All Wales Convention report, penned by Sir Emyr Jones Parry—a friend from my time in the Foreign Office and a fellow Swansea City fan—gives plenty of food for thought. By the way, I see no consistency—I see no inconsistency between Welsh Labour's statement yesterday, and that of the First Minister and Deputy First Minister yesterday evening. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] The pro-devolution forces need time to consider the report and to take the pulse of Welsh public opinion. For now, I say only that the global economic crisis, combined with anger about expenses, has created a deeply anti-politics culture in Wales, and so it is hardly the best time to be rushing to ask for more powers for politicians. Meanwhile, there is a general

nodweddiadol ohono, gwnaeth y sylw hwnnw yn dilyn tipyn o sbin lle'r oedd y sibrydion ynghylch yr hyn y byddai'n ei ddweud yn fwy cadarnhaol o lawer na'r hyn a ddywedodd mewn gwirionedd. Beth mae peidio â rhwystro yn ei olygu mewn gwirionedd? A yw'n golygu y byddai Llywodraeth Doriaidd yn ymgyrchu am bleidlais 'ie' yn y dyfodol? Nac ydy. Hyd yn oed pe bai am wneud hynny, ni fyddai'n gallu sicrhau cefnogaeth ei Aelodau Seneddol ei hun, heb sôn am ei Aelodau ei hun yng Nghymru neu fwyafrif llethol yr etholwyr Toriaidd yng Nghymru sy'n gwbl wrthwynebus i gael rhagor o bwerau. Yr wyf yn rhoi'r addewid hwn i'r Cynulliad heddiw: os fi fydd yr Ysgrifennydd Gwladol pan ddaw cais gan y Cynulliad i alw refferendwm, ni fyddaf yn rhoi fetu ar y cais hwnnw. At hynny, byddwn yn pleidleisio 'ie' o blaid y pwerau yr wyf wedi credu ynddynt ers amser maith, ac yn wir y deddfais eu cyfer yn 2006. Maent yn bwerau a ddaeth yn statud oherwydd y Blaid Lafur, a'r Blaid Lafur yw'r unig blaid sydd erioed wedi cyflawni unrhyw beth o ran datganoli—yn gyntaf trwy benodi Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jim Griffiths, a sefydlu'r Swyddfa Gymreig yn 1964, ac yna trwy sefydlu'r Cynulliad, ac ehangu ei bwerau wedyn. Fel datganolwr balch o Gymro, nid ymwrthod â fetu yw'r peth pwysig i mi, fel y mae arweinydd y Blaid Geidwadol wedi neu heb ei wneud efallai. Y cwestiwn mawr i mi yw sut a phryd y gallai'r grymoedd sydd o blaid datganoli yng Nghymru ennill refferendwm.

Mae adroddiad nodedig Confensiwn Cymru Gyfan, a ysgrifennwyd gan Syr Emyr Jones Parry—cyfaill imi ers fy nghyfnod yn y Swyddfa Dramor a chyd-ddilynwr tîm pêl-droed Dinas Abertawe—yn rhoi digon inni gnoi cil drosto. Gyda llaw, ni welaf ddim cysondeb—ni welaf ddim anghysondeb rhwng datganiad Plaid Lafur Cymru ddoe a datganiad y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog neithiwr. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Mae angen amser ar y grymoedd sydd o blaid datganoli i ystyried yr adroddiad ac i fesur y farn gyhoeddus yng Nghymru. Am y tro, y cyfan yr wyf am ei ddweud yw bod yr argyfwng economaidd byd-eang, ynghyd â dichter ynghylch treuliau, wedi creu diwylliant gwrth-wleidyddol dwfn yng Nghymru, ac felly go brin mai dyma'r

election to fight, the outcome of which will determine whether this Assembly has the size of budget to deliver the services that the people of Wales need, or whether we are to be condemned, as we were in the 1980s and 1990s, to cuts. However, this time, they will be massive, swingeing cuts, which will strike at the heart of all that is best in Wales—our pride in caring for, educating, housing and transporting our people. They are cuts that would destroy all that is best about our Welsh values of caring, community, solidarity, social justice, equality, fairness, liberty and democracy.

My absolute priority for the next few months is defending those values by fighting for a Labour Government, which is committed to prudent investment, not savage cuts, and to recovery from recession, not plunging us into a 1930s-type economic slump. We must not be straight-jacketed by a pre-determined referendum timetable that could trigger the disaster of a 'no' vote. We must keep all our options open, while patiently building the consensus across the parties and throughout civil society that we will need to deliver a 'yes' vote. Our vision for Wales and for Britain is fundamentally optimistic. Ours is not a broken society. Even in tough times, we can achieve great things, just as Labour built the national health service during the times of austerity after the second world war, we are now laying the foundations for a new national care service to protect our most vulnerable, are raising standards still further in our schools and hospitals, and renewing our democratic politics.

In commending the Queen's Speech today, I wish this Assembly well as it builds on Rhodri's achievements to deliver an even better Wales under a new Labour First Minister.

amser gorau i ruthro i ofyn am roi rhagor o bwerau i wleidyddion. Yn y cyfamser, mae gennym etholiad cyffredinol i'w ymladd, a bydd canlyniad yr etholiad hwnnw'n penderfynu a oes gan y Cynulliad hwn gyllideb ddigon mawr i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl Cymru, neu a fyddwn yn cael ein condemnio i doriadau fel y gwelwyd yn yr 1980au a'r 1990au. Y tro hwn fodd bynnag, bydd y toriadau hynny'n anferth ac yn llym ac yn treiddio i galon popeth sy'n dda am Gymru—ein balchder mewn gofalu am bobl, eu haddysgu, a darparu tai a chlodiant ar eu cyfer. Maent yn doriadau a fyddai'n difetha popeth sy'n dda am ein gwerthoedd Cymreig, sef gofalu, y gymuned, undod, cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, tegwch, rhyddid a democratiaeth.

Fy mlaenoriaeth bennaf ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf yw amddiffyn y gwerthoedd hynny drwy frwydro dros Lywodraeth Lafur, sy'n ymrwmo i fuddsoddi'n gall, yn hytrach na gwneud toriadau creulon, ac i'n cael ni trwy'r dirwasgiad, yn hytrach na'n taflu i ddirwasgiad economaidd tebyg i'r hyn a gafwyd yn yr 1930au. Rhaid inni ofalu na chawn ein cyfyngu gan amserlen a bennwyd rhagblaen ar gyfer refferendwm, a allai arwain at bleidlais 'na', a fyddai'n drychineb. Rhaid inni gadw pob drws ar agor, gan fynd ati'n amyneddgar i greu'r consensws ar draws y pleidiau a thrwy'r gymdeithas sifil, y bydd ei angen arnom i sicrhau pleidlais 'ie'. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cymru ac ar gyfer Prydain yn un optimistaidd yn y bôn. Nid yw ein cymdeithas yn gymdeithas doredig. Gallwn gyflawni pethau mawr, hyd yn oed mewn cyfnod anodd, yn union fel y creodd y Blaid Lafur wasanaeth iechyd gwladol yn ystod yr hirlwm wedi'r ail ryfel byd, yr ydym ninnau wrthi'n awr yn gosod y sylfeini ar gyfer gwasanaeth gofal gwladol newydd i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn codi safonau eto yn ein hysgolion a'n hysbytai, ac yn adnewyddu ein gwleidyddiaeth ddemocrataidd.

Wrth gymeradwyo Araith y Frenhines heddiw, dymunaf yn dda i'r Cynulliad hwn wrth iddo adeiladu ar gyflawniadau Rhodri i esgor ar Gymru well byth dan Brif Weinidog Llafur newydd.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): First, I welcome the Secretary of State, and I really mean that. I will deal with the part of his speech that I agreed with, which will not take long, and that was his tribute to Rhodri Morgan, who has been an exemplary First Minister. This, of course, will be his final Queen's Speech debate. My party always thought that Rhodri should lead the Labour Party, and I think that others, the Secretary of State included, were instrumental in placing Alun Michael in that role. Therefore, I very much welcome his late conversion to the case for Rhodri as First Minister—late, but welcome.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Yn gyntaf, hoffwn groesawu'r Ysgrifennydd Gwladol, a dywedaf hynny'n ddiffuant. Yr wyf am ymdrin â'r rhan o'i araith yr oeddwn yn cytuno â hi ac na fydd yn cymryd gormod o amser, sef ei deyrnged i Rhodri Morgan, sydd wedi bod yn Brif Weinidog rhagorol. Hwn fydd ei ddadl olaf ar Araith y Frenhines, wrth gwrs. Yr oedd fy mhlaid bob amser yn credu mai Rhodri a ddylai arwain y Blaid Lafur, a chredaf fod pobl eraill, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi bod â rhan yn rhoi'r rôl honno i Alun Michael. Felly, yr wyf yn croesawu'n fawr iawn y ffaith ei fod wedi newid ei feddwl yn hwyr a chefnogi achos Rhodri fel y Prif Weinidog—mae hynny i'w groesawu, er mor hwyr ydyw.

4.10 p.m.

The Secretary of State's speech was the usual mixture of wild hyperbole, very little regard for the facts, harking back to the past and not looking to the future, and, if I may say so, was an opposition-type speech. It is good that you are getting in the practice now, because you will certainly need it before long, Secretary of State.

Yr oedd araith yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys y gymysgedd arferol o ormodiaith wyllt, ychydig iawn o sylw i'r ffeithiau, edrych yn ôl i'r gorffennol a pheidio ag edrych i'r dyfodol, ac os caf ddweud, yr oedd yn fath o araith y byddech yn disgwyl ei chlywed gan wrthblaid. Mae'n beth da eich bod yn dechrau ymarfer hynny'n awr, oherwydd bydd ei angen arnoch cyn hir, yn sicr, Ysgrifennydd Gwladol.

The Secretary of State's visiting here is an important link with Westminster. I and our party believe that strongly. We look forward to a Conservative Secretary of State making these visits, presenting the Queen's Speech and visiting here more often. As a Unionist party—and I hope that other parties recognise this—we believe that it is important that we work together. That partnership approach is certainly important.

Mae ymweliad yr Ysgrifennydd Gwladol â'r Cynulliad yn gyswllt pwysig â San Steffan. Mae fy mhlaid a minnau'n credu hynny'n gryf. Yr ydym yn edrych ymlaen at gael Ysgrifennydd Gwladol o'r Blaid Geidwadol yn gwneud yr ymweliadau hyn, yn cyflwyno Araith y Frenhines ac yn ymweld â ni yma'n amlach. Fel plaid Unoliaethol—a gobeithio bod pleidiau eraill yn cydnabod hyn—credwn ei bod yn bwysig inni weithio gyda'n gilydd. Yn ddiamau, mae'r dull hwnnw o weithio mewn partneriaeth yn bwysig.

The Secretary of State dealt with some of the present situation, although very fleetingly for understandable reasons. He did not dwell on the fact that unemployment is higher in Wales than in any other nation of the UK. He did not dwell on the fact that unemployment is always higher when Labour leaves office than when it came into office, and that this time will be no exception. He did not deal with the fact that, in Wales, we do not know

Ymdrionodd yr Ysgrifennydd Gwladol â rhai agweddau ar y sefyllfa bresennol, er iddo wneud hynny'n gyflym am resymau dealladwy. Nid ymhelaethodd ar y ffaith fod diweithdra'n uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Nid ymhelaethodd ar y ffaith fod diweithdra bob amser yn uwch pan fydd y Blaid Lafur yn gadael Llywodraeth na phan ddaeth i rym, a'r ffaith na fydd y tro hwn yn eithriad. Nid

what the business rate revaluation will do with regard to small business rate relief because, unlike in England, that has not been announced. He did not deal with the fact that we do not know whether there will be any transitional relief for businesses in Wales yet, unlike in England. He did not deal with the fact that the education funding gap in Wales has grown year on year under the stewardship of Labour and now Labour and Plaid Cymru. Nor did he mention the fact that, in the health budget, the Government, the First Minister and the Minister for Health and Social Services all acknowledge that £1 billion is being inappropriately spent. That remains a massive sore for us in dealing with problems and issues in the Assembly.

The Secretary of State dealt very fleetingly with the Queen's Speech. Most of his speech was knockabout in preparation for the hustings in Neath, which, by then, will probably be a key marginal seat, so I suppose that one can understand it. However, I shall deal with some of the issues that he did raise when he spoke about some of the forthcoming Bills. There is the fiscal responsibility Bill, so-called no doubt to make it seem terribly cuddly—no-one could be against fiscal responsibility, of course. It is a bit like saying that to register with a gym is the same as taking exercise or that to buy a bowlful of fruit is the same as losing weight. There is to be no independent assessment of UK spending plans, which would be central to any true fiscal responsibility measure, something that we have urged. Will he say why that is not to happen, please?

In relation to the Financial Services Bill, we have been critical from the word 'go' of the fact that it does not give the Bank of England control over capital and liquidity requirements for banks, which it needs to have. As David Cameron has said consistently, this new Bill will not make that the case. The Bank of England wants that level of supervision, and so do we, so can he explain why that is not in the Bill?

ymdriniodd â'r ffaith nad ydym yn gwybod beth fydd ailbrisiu trethi busnes yn ei wneud o ran gostyngiadau treth i fusnesau bach yng Nghymru, oherwydd nid oes cyhoeddiad wedi'i wneud ar hynny, yn wahanol i Loegr. Nid ymdriniodd â'r ffaith na wyddom eto a fydd busnesau yng Nghymru'n cael unrhyw gymorth pontio, yn wahanol i Loegr. Nid ymdriniodd â'r ffaith fod y bwllch o ran cyllido addysg yng Nghymru wedi tyfu bob blwyddyn dan stiwardiaeth y Blaid Lafur, a'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru erbyn hyn. Ni soniodd ychwaith fod y Llywodraeth, Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyd yn cydnabod bod £1 biliwn yn cael ei wario mewn modd amhriodol yn y gyllideb iechyd. Mae hynny'n dal i'n poeni'n ofnadwy wrth ymdrin â phroblemau a materion yn y Cynulliad.

Ymdriniodd yr Ysgrifennydd Gwladol ag Araith y Frenhines yn gyflym iawn. Yr oedd y rhan fwyaf o'i araith yn gyffredinol wrth iddo baratoi am yr hustyngau yng Nghastell-nedd, a fydd erbyn hynny'n sedd ymylol allweddol, yn ôl pob tebyg. Felly, y mae'n ddealladwy. Fodd bynnag, byddaf yn ymdrin â rhai o'r materion a gododd pan soniodd am rai o'r Mesurau sydd ar ddod. Mae yna'r Mesur ynghylch cyfrifoldeb ariannol, a gafodd yr enw hwnnw, mae'n siŵr, er mwyn ymddangos yn fesur annwyl iawn—ni allai neb wrthwynebu cyfrifoldeb ariannol, wrth gwrs. Mae fel dweud bod ymaelodi â champfa yr un fath â gwneud ymarfer corff, neu fod prynu llond powlen o ffrwythau yr un fath â cholli pwysau. Ni wneir dim asesiad annibynnol o gynlluniau gwariant y DU, a fyddai'n ganolog i fesur go iawn ar gyfrifoldeb ariannol, sy'n rhywbeth yr ydym wedi'i annog. A yw'n fodlon dweud pam na fydd hynny'n digwydd, os gwelwch yn dda?

O ran y Mesur ynghylch Gwasanaethau Ariannol, yr ydym wedi bod yn feiriadol o'r dechrau'n deg nad yw'r mesur yn rhoi i Fanc Lloegr y rheolaeth y mae arno'i hangen dros ofynion cyfalaf a hylifedd banciau. Fel y mae David Cameron wedi'i ddweud yn gyson, ni fydd y Mesur newydd hwn yn sicrhau hynny. Mae Banc Lloegr am gael y lefel honno o oruchwyliaeth, a ninnau hefyd, felly, a wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol esbonio pam nad yw hynny wedi'i gynnwys yn y Mesur?

I do not think that he dealt with the Energy Bill; if he did, it was only fleetingly. We support the plans for a low-carbon economy. I recognise the sense of that, as does my party. What discussions are going on with the Welsh Assembly Government about Wylfa B? As I understand it, he is in favour of it, the First Minister is not but his potential successors may be, the Deputy First Minister is in favour of it for Anglesey but not in favour of nuclear power anywhere else, and Plaid Cymru is against it altogether—aside from the Presiding Officer, whom I know does not like to take a political stance on issues but who is, as I understand it, also in favour of it. What discussions have there been on this issue, which is obviously of deep and central concern to us in Wales?

He mentioned the Personal Care at Home Bill. Certainly, the present position is untenable, as I think all political parties recognise. We have put forward proposals for insurance and, based on the present position on the UK state pension, from which, quite rightly, people can draw down 25 per cent in advance, that would seem to be the way to address that issue. However, I recognise that it is right to approach that issue.

I do not think that he dealt with the Crime and Security Bill. This Government has had 60 crime Bills in 12 years, has created 3,000 new criminal offences, and presided over an erosion of civil liberties, including the retention of the DNA of innocent people, something that will still be the case following this Bill. I cannot support that, and nor can my party. Also, you did not mention the fact that, on your watch, violent crime in Wales has gone up by 47 per cent; that is a Government statistic.

Lastly, I come to the issue on which he was at his most combative and, I think, his most ambiguous, namely Emyr Jones Parry's

Ni chredaf ei fod wedi ymdrin â'r Mesur Ynni; os gwnaeth hynny o gwbl, fe'i gwnaeth yn gyflym iawn. Yr ydym yn cefnogi'r cynlluniau ar gyfer economi carbon isel. Yr wyf yn cydnabod bod hynny'n gwneud synnwyr, ac y mae fy mhlaid hefyd yn cydnabod hynny. Pa drafodaethau sy'n digwydd gyda Llywodraeth y Cynulliad ynghylch Wylfa B? Fel y deallaf, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o blaid Wylfa B, nid yw Prif Weinidog Cymru o'i blaid ond gallai ei olynwyr posibl fod o'i blaid. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog o blaid ynni niwclear yn Ynys Môn ond nid yn unman arall, ac y mae Plaid Cymru yn erbyn ynni niwclear yn gyfan gwbl—ar wahân i'r Llywydd, y gwn nad yw'n hoffi dangos safbwynt gwleidyddol ar faterion, ond sydd o blaid ynni niwclear fel y deallaf. Pa drafodaethau sydd wedi digwydd ar y mater hwn, sy'n amlwg o ddiddordeb mawr a chanolog inni yng Nghymru?

Soniodd am y Mesur ynghylch Gofal Personol yn y Cartref. Yn sicr, mae'r sefyllfa bresennol yn anghynladwy, fel y mae pob plaid wleidyddol yn ei gydnabod, am wn i. Yr ydym wedi cyflwyno cynigion ar gyfer yswiriant, ac ar sail sefyllfa bresennol pensiwn y wladwriaeth yn y DU, lle gall pobl, yn ddigon teg, gael 25 y cant ohono ymlaen llaw, byddai'n ymddangos mai dyna'r ffordd orau i fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod ei bod yn iawn i'r mater hwn gael sylw.

Ni chredaf iddo ymdrin â'r Mesur ynghylch Troseddau a Diogelwch. Mae'r Llywodraeth hon wedi cael 60 o Fesurau ar droseddau mewn 12 mlynedd, mae wedi creu 3,000 o droseddau newydd, a bu'n gyfrifol am erydu hawliau sifil, gan gynnwys cyflwyno'r hawl i gadw DNA pobl ddiuog, a bydd hynny'n dal i ddigwydd ar ôl i'r Mesur hwn gael ei gyflwyno. Ni allaf gefnogi hynny, ac ni all fy mhlaid, ychwaith. Hefyd, ni soniwyd gennych fod nifer y troseddau treisgar yng Nghymru wedi cynyddu 47 y cant dan eich goruchwyliaeth chi; un o ystadegau'r Llywodraeth yw hwnnw.

Yn olaf, yr wyf am sôn am y mater yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fwyaf ymosodol yn ei gylch, ac yn fwyaf amwys yn ei gylch,

convention. He welcomed the report, but he tried to persuade the convention that it was not a good idea to have a referendum before 2011. Is that still your position? A straightforward 'yes' or 'no' answer will do—in fact, no other answer will do. Do you think that we should have a referendum before the Assembly elections in 2011?

I see great merit in moving from Part 3 to Part 4. You said that you would not stand in the way with the veto, which seems to be quite sensible although you attacked David Cameron for saying the same; therefore, a degree of consistency would be welcomed from the Secretary of State for Wales. This is a central issue; there is great confusion within the Government and there is a great lack, as I see it, of concert between Westminster and the Government. Had you been here yesterday you would have heard that you were copping most of the blame for the confusion; therefore you could clear it up by simply saying whether or not you believe, in your own professional view as Secretary of State for Wales, that there should be a referendum before 2011. Llywydd, I would ask the Secretary of State to answer those points.

Peter Hain: First, it is also good to see Nick Bourne here, safe and sound after all of those coups—or would-be coups. It is interesting that he mentioned unemployment, which is significantly lower and, in some respects, half of what it was at the peaks of the recessions in the early 1980s and 1990s. That is because, unlike the Government that he supported in the 1980s and 1990s, we are taking the action, putting in the investment, and delivering the jobs programmes in partnership with the Welsh Assembly Government to protect people from the scourge of unemployment.

On the question of the global economic crisis and our response to it, the Conservative Party has every judgment on the global economic crisis wrong. It has opposed our £20 billion investment to rescue the economy and support businesses, and to create more jobs and protect those in jobs; it has opposed our

mi gredaf, sef confensiwn Emyr Jones Parry. Croesawodd yr adroddiad, ond ceisiodd ddarbwylo'r confensiwn nad oedd yn syniad da cynnal refferendwm cyn 2011. Ai dyna eich safbwynt o hyd? Bydd ateb 'ie' neu 'na' syml yn gwneud y tro—a dweud y gwir, ni wnaiff dim ateb arall mo'r tro. A ydych yn credu y dylem gael refferendwm cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2011?

Gwelaf lawer o werth mewn symud o Ran 3 i Ran 4. Dywedech na fydddech yn rhwystro refferendwm â'r fetto, sy'n ymddangos yn beth eithaf synhwyrol, er ichi ymosod ar David Cameron am ddweud yr un peth. Felly, byddem yn croesawu ychydig gysondeb gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae hwn yn fater pwysig; mae llawer o ddrwsych yn y Llywodraeth, a hyd y gwelaf fi mae diffyg mawr yn y cydweithredu rhwng San Steffan a'r Llywodraeth. Pe baech wedi bod yma ddoe, byddech wedi clywed mai chi oedd yn cael y rhan fwyaf o'r bai am y drwsych; felly, gallech ddileu'r drwsych hwnnw trwy ddweud yn blwmp ac yn blaen a ydych yn credu, yn eich barn broffesiynol fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y dylem gael refferendwm cyn 2011 ai peidio. Hoffwn ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ateb y pwyntiau hynny, Lywydd.

Peter Hain: Yn gyntaf, mae'n braf gweld Nick Bourne yma hefyd, yn fyw ac yn iach ar ôl yr holl ymdrechion—er yn ofer—i'w ddisodli. Mae'n ddiddorol iddo sôn am ddiweithdra, sy'n sylweddol is nag ydoedd pan oedd y dirwasgiad ar ei waethaf ddechrau'r 1980au a'r 1990au, ac sydd, mewn rhai ffyrdd, yn hanner yr hyn ydoedd bryd hynny. Mae hynny oherwydd, yn wahanol i'r Llywodraeth yr oedd yn ei chefnogi yn yr 1980au a'r 1990au, yr ydym ni'n cymryd y camau gweithredu, yn gwneud y buddsoddiad, ac yn darparu'r rhaglenni swyddi mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad i amddiffyn pobl rhag pla diweithdra.

O ran yr argyfwng economaidd byd-eang a'n hymateb iddo, mae barn y Blaid Geidwadol am yr argyfwng economaidd byd-eang wedi bod yn anghywir bob tro. Mae wedi gwrthwynebu ein buddsoddiad o £20 biliwn i achub yr economi a chynorthwyo busnesau, a chreu mwy o swyddi ac amddiffyn y sawl

action to support retailers by reducing VAT for the year or so that we did so, all of which has been shown to be a huge success; and it has opposed our policy on the car scrappage scheme, which was so popular that there were demands to extend it. On every single judgment to rescue our economy from this global financial crisis, the Conservatives have got it wrong.

On the question of social and personal care, their policy to provide £8,000 for everyone, in an insurance-type scheme, as he says, is confined to institutional care. We are seeking a new way forward that will enable people who want to stay in their own homes, as most people do, to do so, rather than have those homes taken off them, which is the big problem that we face in this and the coming ageing generation.

On the question of a referendum, there is no confusion at all. As I said, there is no inconsistency between the two statements yesterday. The question that Nick Bourne has to answer is whether he can deliver his Conservative Members of Parliament in favour of a referendum. He knows that, without exception, the Welsh Tory MPs are opposed to extending the powers. We know that because they voted against the 2006 Bill when it came before Parliament. The Conservatives were the only party in Parliament to vote against the devolution Bill in 2006. Even Ian Paisley led the Democratic Unionist Party into the lobbies with us to support that devolution Bill. The Tories opposed it. Nick Bourne cannot even deliver all of his Assembly Members, and certainly not his voters. When we are absolutely certain that we can deliver the 'yes' vote in Wales, we will be doing the same pro-devolution coalition in Wales of Labour, Plaid Cymru, the Liberal Democrats, civil society, the churches and the trade unions and go out to win a campaign for the 'yes' vote. He will not even be able to deliver his Conservative supporters for that. Indeed, they will all go in for a 'no' vote.

sydd â swyddi; mae wedi gwrthwynebu'r camau yr ydym wedi'u cymryd i gynorthwyo masnachwyr trwy leihau TAW am y flwyddyn neu fwy pan wnaethom hynny, ac y mae hynny wedi bod yn llwyddiant ysgubol; ac y mae wedi gwrthwynebu ein polisi ar y cynllun sgrapio ceir, a fu mor boblogaidd nes bod pobl wedi galw arnom i'w ymestyn. Mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn anghywir am bob penderfyniad i achub ein heconomi rhag yr argyfwng ariannol byd-eang hwn.

O ran gofal cymdeithasol a phersonol, mae eu polisi i ddarparu £8,000 i bawb, mewn cynllun tebyg i gynllun yswiriant, fel y mae'n ei alw, wedi'i gyfyngu i ofal mewn sefydliadau. Yr ydym ni'n chwilio am ffordd newydd i symud ymlaen a fydd yn galluogi pobl sydd am aros yn eu cartrefi eu hunain, fel y mae'r rhan fwyaf o bobl am ei wneud, i wneud hynny, yn hytrach na chael y cartrefi hynny wedi'u cymryd oddi arnynt, sef y broblem fawr yr ydym yn ei hwynebu yn achos y genhedlaeth hon a'r genhedlaeth nesaf o bobl sy'n heneiddio.

O ran cynnal refferendwm, nid oes dim dryswch o gwbl. Fel y dywedais, nid oes dim anghysondeb rhwng y ddau ddatganiad a wnaed ddoe. Y cwestiwn y mae'n rhaid i Nick Bourne ei ateb yw a all sicrhau cefnogaeth ei Aelodau Seneddol yn y Blaid Geidwadol i gynnal refferendwm. Gŵyr fod pob un o'r Aelodau Seneddol Ceidwadol yng Nghymru, yn ddiethriad, yn gwrthwynebu ymestyn y pwerau. Gwyddom hynny am iddynt bleidleisio yn erbyn Mesur 2006 pan ddaeth o flaen Senedd y DU. Y Ceidwadwyr oedd yr unig blaid yn y Senedd i bleidleisio yn erbyn y Mesur datganoli yn 2006. Arweiniodd Ian Paisley, hyd yn oed, y Blaid Unoliaethol Ddemocrataidd i'r lobïau gyda ni i gefnogi'r Mesur datganoli. Yr oedd y Torïaid wedi ei wrthwynebu. Ni all Nick Bourne hyd yn oed sicrhau cefnogaeth pob un o'i Aelodau Cynulliad, ac yn sicr ni all sicrhau cefnogaeth ei etholwyr. Pan fyddwn yn hollol ffyddiog bod modd inni sicrhau'r bleidlais 'ie' yng Nghymru, byddwn yn ffurfio'r un glymblaid ag a ffurfiwyd cyn datganoli yng Nghymru rhwng y Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol, y gymdeithas sifil, yr eglwysi a'r undebau llafur, a byddwn yn mynd allan i ennill yr ymgyrch dros bleidlais 'ie'. Ni fydd ef hyd

yn oed yn gallu sicrhau cefnogaeth ei gefnogwyr Ceidwadol i hynny. Yn wir, bydd pob un ohonynt yn pleidleisio 'na'.

Helen Mary Jones: I thank the Secretary of State for his statement. I suppose that I am slightly disappointed that he seems to have brought with him a Westminster style and that the leader of the opposition has decided to follow suit. We usually conduct ourselves in a slightly less raucous way, thanks to our excellent Presiding Officer, of course. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] I look forward to the full debate on the Queen's Speech that will follow, and I am grateful, as we all are, to the Secretary of State for being here to respond to the many points that I and Plaid Cymru colleagues will wish to raise with the Secretary of State during the debate.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn diolch i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei ddatganiad. Mae'n debyg gennyf fy mod braidd yn siomedig ei fod wedi dod ag arddull San Steffan gydag ef, a bod arweinydd yr wrthblaid wedi penderfynu ei efelychu. Fel rheol byddwn yn ymddwyn mewn modd ychydig yn fwy gweddus, diolch i'n Llywydd ardderchog, wrth gwrs. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Edrychaf ymlaen at y ddadl lawn ar Araith y Frenhines sydd i ddilyn, ac yr wyf yn ddiolchgar, fel yr ydym i gyd, i'r Ysgrifennydd Gwladol am fod yma i ymateb i'r pwyntiau niferus yr wyf fi a'm cydweithwyr ym Mhlaid Cymru yn dymuno'u codi gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y ddadl.

4.20 p.m.

Those will include defence spending and the Holtham commission, although in the light of the Secretary of State's statement we would not expect him to anticipate a statement that he will make in another place. We will also wish to raise issues that remain non-devolved, such as benefits issues and the police service, and I will return to the report of the constitutional convention.

Bydd y pwyntiau hynny'n cynnwys gwariant ar amddiffyn a chomisiwn Holtham, ond o gofio datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol, ni fyddem yn disgwyl iddo ragflaenu datganiad y bydd yn ei wneud mewn man arall. Byddwn hefyd yn dymuno codi materion sydd heb eu datganoli o hyd, megis materion budd-daliadau a gwasanaeth yr heddlu, a dof yn ôl at adroddiad y confensiwn cyfansoddiadol.

It is a matter of record that the Secretary of State was not convinced prior to the convention's report that a referendum at this point could be won. It could be argued, although it is not quite clear, that the Secretary of State has repeated that view today. The constitutional convention's report takes a different view. Be that as it may, it is clear from what the Secretary of State has said today that he would not wish to take the risk of going down in history as a Labour Secretary of State who was less prepared to move forward the cause of devolution than a possible Conservative successor, and I know that many on these benches will have been reassured by what he said today.

Mae wedi'i gofnodi nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i argyhoeddi, cyn adroddiad y confensiwn, y byddai modd ennill refferendwm ar hyn o bryd. Gellid dadlau bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ailadrodd y farn honno heddiw, er nad yw hynny'n hollol glir. Mae'r safbwynt yn adroddiad y confensiwn cyfansoddiadol yn wahanol. Boed a fo am hynny, mae'n amlwg o'r hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i ddweud heddiw na fyddai'n dymuno cymryd y risg o gael ei gofio fel yr Ysgrifennydd Gwladol o'r Blaid Lafur a oedd yn llai parod i symud datganoli yn ei flaen nag oedd ei olynydd Ceidwadol posibl, a gwn y bydd nifer ar y meinciau hyn wedi'u calonogi gan yr hyn a ddywedodd heddiw.

He refers to David Cameron's recent assurance that a Conservative Secretary of

Cyfeiria at y sicrwydd a roddodd David Cameron yn ddiweddar na fyddai

State would not stand in the way of a referendum on law-making powers for the Assembly if it requested it. I suppose that that is some comfort to us all, although not a great deal. The Secretary of State says today that he would not veto a request—those were his words—for a referendum. I am glad to hear that the Secretary of State would not veto the request. I think that I have understood what he has said, but we seem to have a difference of view about what is contradictory, so I will ask this for the sake of real clarity. Can the Secretary of State commit that, if the Assembly makes a request for a referendum while he is still Secretary of State, he will not only not veto that request but will work positively with the new First Minister, the Deputy First Minister, and other progressive forces to which he has referred, to take all necessary steps to move the process forward at Westminster in a timely manner, in accordance with the Government of Wales Act 2006 and the ‘One Wales’ agreement? It will, of course, be for the First Minister, the Deputy First Minister, and the ‘One Wales’ Government to make the decision about triggering and timing. I would put it to the Secretary of State that this is not a question of more powers for politicians, but powers for the right politicians in the right place.

Peter Hain: I thank Helen Mary Jones for what she has said. Her interviews this morning and yesterday evening were constructive and helped to settle things down in a positive way. I want to respond to your question in the following way: I want to win the referendum when it is called. I know that you do, and that your party does—and so does everyone in the Labour Party. I remember setting up the ‘Yes for Wales’ campaign in 1996. It required building trust, undertaking a patient amount of work, and bringing people together who were normally fighting each other. It was difficult, and it was especially difficult to win that referendum. We started off with much the same ‘yes’ vote before the referendum day as we have now: a two-to-one majority in the latest poll, with a big lump of ‘don’t-knows’.

Ysgrifennydd Gwladol o'r Blaid Geidwadol yn rhwystro refferendwm ar roi pwerau deddfu i'r Cynulliad pe bai'r Cynulliad yn gofyn amdani. Am wn i, mae hynny'n rhywfaint, ond nid llawer, o gysur inni i gyd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud heddiw na fyddai'n rhoi feto ar gais—dyna oedd ei union eiriau—am refferendwm. Yr wyf yn falch clywed na fyddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi feto ar y cais. Credaf fy mod wedi deall yr hyn y mae wedi'i ddweud, ond ymddengys fod gennym wahaniaeth barn am yr hyn sy'n anghyson. Felly, gofynnaf y cwestiwn hwn er mwyn cael eglurdeb iawn. A all yr Ysgrifennydd Gwladol ddweud yn bendant, os bydd y Cynulliad yn gwneud cais am refferendwm tra bydd ef yn Ysgrifennydd Gwladol, na fydd yn rhoi feto ar y cais hwnnw, ac at hynny y bydd yn gweithio gyda'r Prif Weinidog newydd, y Dirprwy Brif Weinidog a grymoedd blaengar eraill y mae wedi cyfeirio atynt, mewn modd cadarnhaol i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i symud y broses ymlaen yn San Steffan mewn modd amserol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chytundeb ‘Cymru'n Un’? Wrth gwrs, cyfrifoldeb y Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog a Llywodraeth ‘Cymru'n Un’ fydd penderfynu amseriad y broses honno a phryd i'w dechrau. Awgrymaf wrth yr Ysgrifennydd Gwladol nad mater o roi rhagor o bwerau i wleidyddion yw hyn, ond mater o roi pwerau i'r gwleidyddion iawn yn y lle iawn.

Peter Hain: Yr wyf yn diolch i Helen Mary Jones am yr hyn y mae wedi'i ddweud. Yr oedd ei chyfweliadau y bore yma a neithiwr yn adeiladol, ac wedi helpu sefydlogi pethau mewn modd cadarnhaol. Yr wyf am ymateb i'ch cwestiwn fel hyn: yr wyf am ennill y refferendwm pan gaiff ei galw. Gwn eich bod chi a'ch plaid am wneud hynny—ac y mae pawb yn y Blaid Lafur hefyd am wneud hynny. Cofiaf sefydlu'r ymgyrch ‘Ie i Gymru’ yn 1996. Yr oedd angen adeiladu hyder, gwneud gwaith yn amyneddgar, a dod â phobl a fyddai fel rheol yn brwydro yn erbyn ei gilydd ynghyd. Yr oedd yn waith anodd, ac yr oedd yn arbennig o anodd ennill y refferendwm honno. Cyn diwrnod y refferendwm dechreusom gyda bron yr un nifer a fyddai'n pleidleisio ‘ie’ ag sydd gennym yn awr: mwyafrif o ddau i un yn y

I remember saying to Ron Davies, who thought that we would win it easily, 'I am out on the streets, in the Valleys, in Anglesey, and in north-east Wales; I can feel that this is going to be tough.' All I was saying in my speech is that we have to make sure that we create circumstances in which we have the most positive climate in which to win the referendum. For me, that is the only issue that matters. It would be disastrous if a referendum were called in circumstances in which we did not win it. That is all that I am saying. There is no sleight of hand, and there is no ambiguity. It is absolutely straightforward—I want to win it, and I want to be part of winning it. I have already said that I will vote 'yes', whatever the circumstances. That should unite us on a common basis.

Kirsty Williams: I will begin by thanking the Secretary of State for his presence this afternoon and for his statement. I associate myself with the tribute that you paid to the First Minister, which is richly deserved. I am afraid that that is the only part of the speech with which I would like to be associated. It is tempting to turn immediately to your comments regarding the convention and the Government of this nation and the form that we would like that to take. However, I will resist that, as it may give your advisers the chance to pass you a copy of the note that was issued at around 5 p.m. last night to retract the note that was issued at 12 p.m. for you to see what your colleagues in the Labour Party in Wales are saying about that statement.

Secretary of State, you made a great play of the fact that the economy is faring better under your stewardship than it did under the Tories in the 1980s. As someone who cut their political teeth at that time and who was drawn into the devastation wreaked in some of the communities where I grew up in Llanelli, I can understand that it is easy to refer back to that situation. However, by saying that they are doing better than them when they did it so badly is of no consequence to those who have lost their jobs in Wales this year. We have seen a

pôl piniwn diweddaraf, a llawer iawn o bobl nad ydynt 'ddim yn gwybod'. Cofiaf ddweud wrth Ron Davies, a oedd yn credu y byddem yn ennill y refferendwm yn hawdd, 'Yr wyf allan ar y strydoedd, yn y Cymoedd, yn Ynys Môn, ac yn y gogledd-ddwyrain; gallaf deimlo y bydd hyn yn anodd.' Yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud yn fy araith oedd ei bod yn rhaid inni sicrhau ein bod yn creu amgylchiadau lle mae gennym yr hinsawdd fwyaf cadarnhaol i ennill y refferendwm. I mi, dyna'r unig beth sy'n bwysig. Byddai'n drychinebus pe baem yn galw refferendwm mewn amgylchiadau a fyddai'n golygu na fyddem yn ei hennill. Dyna'r cyfan yr wyf yn ei ddweud. Nid oes dim triciau, na dim amwysedd. Mae'n hollol syml—yr wyf am ennill y refferendwm, ac yr wyf am fod yn rhan o'i hennill. Yr wyf eisoes wedi dweud y byddaf yn pleidleisio 'ie', beth bynnag fo'r amgylchiadau. Dylai hynny fod yn sail gyffredin i'n huno.

Kirsty Williams: Dechreuaf trwy ddiolch i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei bresenoldeb y prynhawn yma, ac am ei ddatganiad. Yr wyf yn ategu eich teyrnged i'r Prif Weinidog, sy'n haeddiannol iawn. Ofnaf mai dyna'r unig ran o'r araith y byddwn yn ei hategu. Caf fy nhemtio i droi fy sylw'n syth at eich sylwadau am y confensiwn a Llywodraeth y genedl hon, a'r ffurf y byddem yn dymuno i hynny ei chymryd. Fodd bynnag, nid wyf am ildio i'r temtasiwn, oherwydd efallai y bydd yn rhoi cyfle i'ch cynghorwyr basio copi o'r nodyn a gyhoeddwyd oddeutu 5 p.m. neithiwr, i gymryd lle'r nodyn a gyhoeddwyd am 12 p.m., ichi gael gweld yr hyn y mae eich cydweithwyr yn y Blaid Lafur yng Nghymru yn ei ddweud am y datganiad hwnnw.

Ysgrifennydd Gwladol, gwnaethoch fôr a mynydd o'r ffaith fod yr economi'n gwneud yn well dan eich stiwardiaeth chi nag ydoedd dan stiwardiaeth y Torïaid yn yr 1980au. Fel rhywun a oedd yn magu profiad yn y byd gwleidyddol yr adeg honno, ac a gafodd ei thynnu i mewn i'r difrod a wnaed yn rhai o'r cymunedau lle cefais fy magu yn Llanelli, gallaf ddeall ei bod yn hawdd cyfeirio'n ôl at y sefyllfa honno. Fodd bynnag, nid yw dweud eich bod yn gwneud yn well na'r Llywodraeth Dorïaidd, pan oedd honno mor wael, o ddim pwys i'r rheini sydd wedi colli

haemorrhaging of jobs from Wales. Despite the efforts of the Assembly Government—and I welcome the ReAct and ProAct schemes—because of the Westminster Government’s stewardship of the economy and the fact that we do not have the tools here to respond in a strategic way, we have not been able to protect the Welsh people from the devastation that has been wrought upon us.

I am sorry that you have been so flippant in trying to pass over the dire economic situation facing many families in our country. The Government’s response to this dire situation is the Financial Services Bill, which you say will never again allow bankers to run riot in the way that they did. The Financial Services Authority already has a plethora of powers that it does not use. Had it used those powers, we might have avoided the worst of the situation that we have seen. This piece of legislation will not give us the guarantees that we need in the future.

The other response is the fiscal responsibility Bill. This is the worst kind of political posturing. You do not need legislation to fix a deficit, you just do it. What will happen if you fail? Will the Prime Minister of the country at that time be hauled off to Wormwood Scrubs if he does not reach his target? It is frankly ridiculous to suggest that you can deal with this issue via legislation. You must get on with identifying how you will do it. That is the fatal flaw in your plan: your Government will not tell us how it will address the deficit and, for us in the Assembly, how those plans will affect the budget that we have to spend. That will be absolutely crucial for all of us who are trying to drive Wales forward.

It is hugely disappointing that the Queen’s Speech made no effort at all to legislate to clean up the scandal that we have seen engulf the House of Commons, and Westminster as a whole, this year. There was no attempt to

eu swyddi yng Nghymru eleni. Gwelsom gynifer o swyddi’n cael eu colli yng Nghymru. Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad—ac yr wyf yn croesawu’r cynlluniau ReAct a ProAct—oherwydd y modd y mae Llywodraeth San Steffan yn stiwardio’r economi a’r ffaith nad oes gennym yr adnoddau yma i ymateb mewn modd strategol, nid ydym wedi gallu amddiffyn pobl Cymru rhag y difrod sydd wedi ei achosi.

Mae’n drueni ichi fod mor wamal wrth geisio anwybyddu’r sefyllfa economaidd arswydus sy’n wynebu nifer o deuluoedd yn ein gwlad. Ymateb y Llywodraeth i’r sefyllfa enbyd hon yw cyflwyno’r Mesur ynghylch Gwasanaethau Ariannol a fydd, meddech chi, yn sicrhau na fydd bancwyr byth eto’n gallu mynd yn rhemp fel y gwnaethant. Mae gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol eisoes ormodedd o bwerau nad yw’n eu defnyddio. Pe bai wedi defnyddio’r pwerau hynny, efallai y byddem wedi osgoi effaith waethaf y sefyllfa yr ydym wedi’i gweld. Ni fydd y darn hwn o ddeddfwriaeth yn rhoi’r sicrwydd inni y mae arnom ei angen yn y dyfodol.

Yr ymateb arall yw’r Mesur cyfrifoldeb ariannol. Dyma’r math gwaethaf o ymhonni gwleidyddol. Nid oes arnoch angen deddfwriaeth i wneud iawn am ddiffyg ariannol: y cyfan y mae ei angen yw bwrw ati i wella’r sefyllfa. Beth fydd yn digwydd os methwch? A fydd Prif Weinidog y wlad bryd hynny’n cael ei gludo ymaith i garchar Wormwood Scrubs os na fydd yn cyrraedd ei darged? Mae’n hollol chwerthinllyd i awgrymu y gallwch ymdrin â’r mater hwn trwy ddeddfu. Rhaid ichi fynd ati i nodi sut y byddwch yn gwneud hynny. Dyna’r gwendid dybryd yn eich cynllun: nid yw eich Llywodraeth yn fodlon dweud wrthym sut y bydd yn ymdrin â’r diffyg, ac o’n rhan ni yn y Cynulliad, nid yw’n fodlon dweud sut y bydd y cynlluniau hynny’n effeithio ar y gyllideb sydd gennym i’w gwario. Bydd hynny’n hollbwysig i bob un ohonom sy’n ceisio gwthio Cymru yn ei blaen.

Mae’n hynod siomedig nad oedd Araith y Frenhines yn gwneud dim ymdrech o gwbl i ddeddfu i ymdrin â’r sgandal a fu yn Nhŷ’r Cyffredin eleni, a San Steffan yn gyffredinol. Ni wnaed dim ymgais i ddiwygio system y

reform a system that has been demonstrated as being rotten in many ways. That is a missed opportunity. The legacy that your Government could have been to give this nation a truly reformed Parliament, with a proper proportional electoral system, and to give people the power to sack MPs if they do wrong. Instead, your Government will spend its time on a Crime and Security Bill that leaves the DNA of innocent people on a Government database. These DNA proposals are all wrong and they have already been rejected once by the House of Lords. It seems that your Government does not know the difference between innocence and guilt. It could have acted to clean up the mess in politics; instead, it chose to keep the details of innocent people on a computer database.

I welcome the mention of the Holtham report and I look forward to your statement tomorrow on how that will be taken forward. I only hope that you have the same confidence and vision as your Scottish colleague in the way that he has decided to move forward on the Calman proposals. I trust that the Secretary of State for Wales will demonstrate his desire to move forward on this as a matter of urgency, as well as the Secretary of State for Scotland has.

4.30 p.m.

I finally come to the issue of the All Wales Convention and the Secretary of State's remarks. Yesterday, Presiding Officer, you will remember that I said that I believe that Sir Emyr Jones Parry's report put to bed, once and for all, the credibility of any politician who tried to maintain that the current system was working well and that the status quo was an option. The Secretary of State did a pretty good job of trying to say that this afternoon. I understand, Secretary of State, that it is your baby. The piece of legislation that we have had to tangle with for the last two and a half years is your political baby, and I do not suppose that we can expect you to come here and rubbish it now, having created it. However, how can anybody who has read the convention's report truly say that

dangoswyd ei bod yn llygredig mewn llawer ffordd. Mae hwnnw'n gyfle sydd wedi'i golli. Gallai eich Llywodraeth fod wedi gadael yn waddol i'r genedl hon Senedd sydd wedi'i diwygio'n iawn, sydd â system etholiadol gyfrannol briodol, ac sy'n rhoi'r grym i bobl ddiswyddo Aelodau Seneddol am wneud rhywbeth o'i le. Yn hytrach, bydd eich Llywodraeth yn treulio'i hamser ar Fesur ynghylch Troseddau a Diogelwch sy'n gadael DNA pobl ddiuog ar gronfa ddata'r Llywodraeth. Mae'r cynigion ar DNA yn gyfan gwbl anghywir ac eisoes wedi eu gwrthod unwaith gan Dŷ'r Arglwyddi. Ymddengys nad yw eich Llywodraeth yn gwybod y gwahaniaeth rhwng bod yn ddiuog a bod yn euog. Gallai fod wedi gweithredu i roi trefn ar wleidyddiaeth; ond yn hytrach dewisodd gadw manylion pobl ddiuog ar gronfa ddata gyfrifiadurol.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith ichi sôn am adroddiad Holtham, ac edrychaf ymlaen at eich datganiad yfory ar y modd y bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio. Yr wyf yn mawr obeithio bod gennych chi yr un hyder a gweledigaeth â'ch cydweithiwr yn yr Alban yn y modd y mae wedi penderfynu symud cynigion Calman yn eu blaen. Hyderaf y bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n dangos ei awydd i symud y mater hwn yn ei flaen ar frys, ac y bydd yn gwneud hynny cystal ag y gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol yr Alban.

Yn olaf, dyma fi'n dod at Gonfensiwn Cymru Gyfan a sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol. Ddoe, Lywydd, fe gofiwch imi ddweud fy mod yn credu bod adroddiad Syr Emyr Jones Parry yn tanseilio, unwaith ac am byth, hygrededd unrhyw wleidydd a fyddai'n ceisio mynnu bod y system bresennol yn gweithio'n dda a bod parhau'r sefyllfa bresennol yn opsiwn. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gynnig eithaf da ar wneud hynny y prynhawn yma. Deallaf, Ysgrifennydd Gwladol, mai eich babi chi ydyw. Eich babi gwleidyddol chi yw'r darn o ddeddfwriaeth y buom yn ymgodymu ag ef am y ddwy flynedd a hanner diwethaf, a go brin y gallwn ddisgwyl ichi ddod yma a lladd arno'n awr, ar ôl ichi ei greu. Fodd bynnag, sut y gall unrhyw un sydd wedi darllen

the current system is working, as you have done this afternoon, and maintain any kind of credibility? In fact, I am beginning to wonder whether you have read it.

If you had read it, you would also have seen that Sir Emyr Jones Parry quite clearly states that a 'yes' vote is possible. He does not claim that it is going to be easy or that we can just sit back and it will happen. He challenges all of us who want to see Wales moving forward to face up to the hard task that lies ahead of us in securing that vote. He says that it is possible, it is winnable and it is there. We do not need to wait any longer to establish whether that is truly the case—he has done that for us. What we need to do now is to move forward and build on the momentum of that report.

I do not know whether there is a sharing of procedural advice between the Welsh Assembly Government and your office, Secretary of State, but it is clear to all of us in the Chamber what the timetable for the referendum process needs to be if we are to have a referendum in the autumn of next year. I am sure that you will agree that that is the optimum time at which to do so. You cannot have a referendum during a general election campaign and you cannot look to secure a 'yes' vote in the run-up to Assembly elections when natural hostilities will break out between the political parties. October is the optimum time for a referendum, and it is quite clear therefore that a vote will need to be taken by the National Assembly early in the new year.

That is where your statement yesterday demonstrates the huge lack of 'consistency' that, in a Freudian manner, slipped into your speech. The process has to begin in January to allow all the mechanisms to be put in place. I was told yesterday that Welsh devolution has been delivered to us all by the Labour Party. Undoubtedly, the Labour Party will be crucial to the delivery of a 'yes' vote. I am not so naïve as to not recognise the huge role that your party will play in delivering

adroddiad y confensiwn ddweud yn ddiwyll fod y system bresennol yn gweithio, fel yr ydych chi wedi'i wneud y prynhawn yma, a chadw unrhyw fath o hygredd? Yn wir, yr wyf yn dechrau amau a ydych chi wedi'i ddarllen.

Pe baech wedi ei ddarllen, byddech hefyd wedi gweld bod Syr Emyr Jones Parry yn dweud yn glir fod pleidlais 'ie' yn bosibl. Nid yw'n honni y bydd yn hawdd, na bod modd inni eistedd yn ôl a gadael iddo ddigwydd. Mae'n herio pob un ohonom sydd am weld Cymru'n symud ymlaen i wynebu'r dasg anodd sydd o'n blaen wrth geisio sicrhau'r bleidlais honno. Mae'n dweud bod hynny'n bosibl, mae'n bosibl ennill y bleidlais, ac y mae'r cyfle yno. Nid oes angen inni aros dim mwy i weld ai felly y mae mewn gwirionedd—mae ef wedi gwneud hynny ar ein rhan. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yn awr yw symud ymlaen ac adeiladu ar fomentwm yr adroddiad hwnnw.

Wn i ddim a yw Llywodraeth y Cynulliad a'ch swyddfa chi, Ysgrifennydd Gwladol, yn rhannu cyngor gweithredol, ond y mae'n amlwg i bob un ohonom yn y Siambr beth ddylai'r amserlen fod ar gyfer proses y refferendwm os ydym am gynnal refferendwm yn ystod yr hydref y flwyddyn nesaf. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno mai dyna'r adeg orau posibl i'w chynnal. Ni allwch gynnal refferendwm yn ystod ymgyrch etholiad cyffredinol, ac ni allwch ddisgwyl sicrhau pleidlais 'ie' wrth ddynesu at etholiadau'r Cynulliad pan fydd yn naturiol i bleidiau gwleidyddol ymladd yn erbyn ei gilydd. Mis Hydref yw'r adeg orau posibl ar gyfer refferendwm, ac y mae'n eithaf amlwg felly y bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol bleidleisio ynghylch hyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn hynny y mae'r datganiad a roesoch ddoe yn dangos y diffyg 'cysondeb' enfawr a lithrodd i mewn i'ch araith mewn modd Freudaidd. Rhaid i'r broses ddechrau ym mis Ionawr er mwyn gallu rhoi'r holl systemau ar waith. Dywedwyd wrthyf ddoe mai'r Blaid Lafur a roddodd inni ddatganoli yng Nghymru. Heb os, bydd y Blaid Lafur yn hanfodol i sicrhau pleidlais 'ie'. Nid wyf mor naif fel nad wyf yn cydnabod rôl enfawr eich plaid wrth sicrhau'r bleidlais 'ie' honno, ond

that 'yes' vote, but your party alone cannot be the block on moving this nation forward. I would ask you to clearly state this afternoon that you believe that it is up to us here, in the Assembly, to choose when that vote should be held in the National Assembly, and that you will in no way use your position within the Government and within your party to prevent that from happening.

Peter Hain: First, I will deal with the economic questions. I did not say that people were not having it tough in Wales. On the contrary, I simply remind you that nowhere in the world—not in Wales, not anywhere else in Britain, not anywhere in Europe and not anywhere else in the world—has escaped this economic recession. It has been the worst global recession in living memory. The issue is what you do about it. The country faces a big choice. We have made our choice as a Labour Government; we have chosen to support people. We will not introduce the savage cuts that her leader, Nick Clegg, called for at conference. Labour will never introduce the savage cuts that the Liberal Democrats have called for. What would those savage cuts do?

David Melding: They would settle the deficit.

Peter Hain: They would send the deficit up even higher because even more people would lose their jobs, more companies would be put out of business, which would lead to less being paid in VAT and income tax, and that would place a greater burden on the public purse. It is specious to attack Labour's approach to the global financial crisis and to then say that we should make savage cuts. The consequences of such Liberal Democrat cuts would be felt in her constituency, as they would be felt in the constituency of every Assembly Member. She has a lot of explaining to do about why her Treasury spokesman, Vince Cable, is calling for the defence training college at St Athan to be cut, along with the 5,000 jobs and the creation of a world-class, world-beating training facility for our armed forces. She can explain why cuts are being introduced in virtually every

ni all eich plaid chi, ar ei phen ei hun, fod yn gyfrifol am rwystro'r genedl hon rhag symud ymlaen. Gofynnaf ichi ddweud yn glir y prynhawn yma eich bod yn credu mai ni yn y Cynulliad a ddylai ddewis pryd y dylid cynnal y bleidlais honno yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac na fyddwch yn defnyddio'ch safle yn y Llywodraeth ac yn eich plaid mewn unrhyw ffordd i atal hynny rhag digwydd.

Peter Hain: Yn gyntaf, deliaf â'r cwestiynau economaidd. Ni ddywedais nad oedd pobl yn ei chael hi'n anodd yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, yr wyf yn eich atgoffa nad oes unman yn y byd—boed yng Nghymru, ym Mhrydain, yn Ewrop neu unrhyw le arall yn y byd—wedi gallu osgoi'r dirwasgiad economaidd hwn. Dyma'r dirwasgiad byd-eang gwaethaf o fewn cof. Yr hyn sy'n bwysig yw'r hyn yr ydych yn ei wneud yn ei gylch. Mae'r wlad yn wynebu dewis pwysig. Yr ydym ni wedi gwneud ein dewis fel Llywodraeth Lafur; yr ydym wedi dewis cefnogi pobl. Ni fyddwn yn cyflwyno'r toriadau creulon y galwodd ei harweinydd, Nick Clegg, amdanynt mewn cynhadledd. Ni fydd y Blaid Lafur byth yn cyflwyno'r toriadau creulon y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi galw amdanynt. Beth fyddai'r toriadau hynny'n eu cyflawni?

David Melding: Byddent yn clirio'r diffyg ariannol.

Peter Hain: Byddent yn cynyddu'r diffyg ariannol yn fwy fyth oherwydd byddai mwy o bobl eto'n colli eu swyddi, byddai rhagor o gwmnïau'n colli eu busnes, a fyddai'n arwain at dalu llai o arian mewn TAW a threth incwm, a byddai hynny'n gosod mwy o faich ar bwrs y wlad. Mae'n dwyllodrus ymosod ar ddull y Blaid Lafur o ymdrin â'r argyfwng ariannol byd-eang, ac yna ddweud y dylem wneud toriadau creulon. Byddai canlyniadau toriadau o'r math y byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn eu cyflwyno yn effeithio ar ei hetholaeth, ac yn wir ar etholaeth pob Aelod Cynulliad. Mae llawer o waith esbonio ganddi am y rheswm pam mae ei llefarydd ar y Trysorlys, Vince Cable, yn galw am i'r coleg hyfforddiant amddiffyn yn Sain Tathan gael ei ddiddymu, ynghyd â'r 5,000 o swyddi, a'r cyfle i greu cyfleuster hyfforddi o'r radd flaenaf ar gyfer ein lluoedd arfog, a

Liberal Democrat-controlled county council in Wales, even before the savage cuts that she wants to see visited on Wales from the national, UK level.

She asked about the LCOs. I was simply making the point that the LCOs have delivered. Despite the hiccups at the beginning, they are now delivering much more than Wales has ever had before. Is that enough? No, it is not, which is why I legislated for Part 4 and put primary powers into statute so that, at the appropriate time, we can get those extra powers and move forward on a better basis.

She asked me whether I think a 'yes' vote is obtainable, to use Emyr Jones Parry's words, or not. I agree that it is obtainable. He also said that it is not guaranteed, however. She asked about the optimum time and, for me, the optimum time for calling a referendum is when we are likely to win it. There is not any point in doing what the Conservatives would like, which is to call a referendum when we would lose it. I say that that is what they would like, because their colleagues have moved amendments in Parliament that mean that if a referendum is ever lost, Part 4 would lapse. They moved another amendment to propose that if a referendum is not called within 10 years of the 2006 Act's receiving Royal Assent, Part 4 would lapse then. We know where the Conservatives are coming from; I am just surprised that she is not addressing the issue that concerns me and, probably, the majority in the Chamber, which is how we can win the referendum. The only way we can do that is in partnership between Westminster and the Assembly—Westminster has to deliver the legislation and the actions that the Assembly will request. I look forward to taking that partnership forward with a new Labour First Minister, just as I have taken forward the partnership with Rhodri Morgan as First Minister in recent times.

fyddai'n well nag unrhyw gyfleuster arall yn y byd. A all esbonio pam mae toriadau'n cael eu cyflwyno mewn bron i bob cyngor sir yng Nghymru a reolir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol, hyd yn oed cyn y toriadau creulon y mae am eu gweld yn dod i Gymru o lefel genedlaethol y DU.

Holodd am y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Dim ond dweud yr oeddwn fod y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi sicrhau canlyniadau. Er gwaethaf y trafferthion ar y dechrau, maent bellach yn cyflawni mwy nag y mae Cymru erioed wedi'i gael yn y gorffennol. A yw hynny'n ddigon? Na, nid yw'n ddigon, a dyna pam yr wyf wedi deddfu ar gyfer Rhan 4, a sicrhau bod pwerau sylfaenol ar y llyfrau statud fel y gallwn gael y pwerau ychwanegol hynny ar yr adeg briodol, a symud ymlaen ar sail gadarnach.

Gofynnodd imi a oeddwn yn credu ei bod yn bosibl ennill pleidlais 'ie' ai peidio, a defnyddio geiriau Emyr Jones Parry. Cytunaf ei bod yn bosibl ennill pleidlais 'ie'. Dywedodd hefyd nad yw hynny'n sicr, fodd bynnag. Gofynnodd pryd fyddai'r adeg orau posibl, ac i mi yr adeg orau posibl i alw refferendwm yw pan fyddwn yn debygol o'i hennill. Nid oes diben gwneud yr hyn y byddai'r Ceidwadwyr yn ei ddymuno, sef galw refferendwm pan fyddem yn ei cholli. Yr wyf yn dweud mai dyna y byddent yn ei ddymuno, oherwydd mae eu cydweithwyr wedi cynnig gwelliannau yn y Senedd a fyddai'n golygu, pe bai refferendwm yn cael ei cholli byth, y byddai Rhan 4 yn mynd yn ddi-rym. Cynigiwyd gwelliant arall ganddynt hefyd, sef os na chaiff refferendwm ei alw cyn pen 10 mlynedd ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf 2006, yna byddai Rhan 4 yn mynd yn ddi-rym. Gwyddom o ble mae'r Ceidwadwyr yn dod; yr hyn sy'n fy synnu yw nad yw hi'n mynd i'r afael â'r mater sy'n fy mhoeni i, a mwyafrif y Siambr hefyd, mae'n sicr, sef sut y gallwn ennill y refferendwm. Yr unig ffordd y gallwn wneud hynny yw trwy bartneriaeth rhwng San Steffan a'r Cynulliad—rhaid i San Steffan sicrhau'r ddeddfwriaeth a'r camau gweithredu y bydd y Cynulliad yn gofyn amdanynt. Edrychaf ymlaen at symud y bartneriaeth honno ymlaen gyda Phrif Weinidog Llafur newydd, yn union fel yr wyf

wedi'i wneud gyda Rhodri Morgan yn Brif Weinidog yn ddiweddar.

Jeff Cuthbert: I thank you, Secretary of State, for your statement. I endorse and fully support your words about Rhodri Morgan. There is no doubt in my mind that Rhodri will be shown to be one of the great Welshmen of modern days and that he will have earned his place in history.

Jeff Cuthbert: Diolch ichi am eich datganiad, Ysgrifennydd Gwladol. Yr wyf yn ategu ac yn cefnogi'n llwyr yr hyn a ddywedasoich am Rhodri Morgan. Nid oes gennyf ddim amheuaeth na fydd Rhodri yn cael ei gydnabod yn un o Gymry mawr y cyfnod diweddar, ac y bydd wedi ennill ei le mewn hanes.

I can also say that I have no problem with your style at all. It is refreshing of you to remind us about what the Conservatives stand for and what they say and do in Parliament, and about the likely impact on the people of Wales should nightmares come true and they win the next general election. I can remember how they conducted the miners' strike in my community. They sought politically to devastate the trade union movement and the integrity of many mining communities, such as the one that I was living in at that time, namely Ystrad Mynach in the Rhymney valley.

Gallaf ddweud hefyd nad yw eich arddull yn peri dim gofid imi. Mae'n braf eich clywed yn ein hatgoffa o'r hyn y mae'r Ceidwadwyr yn credu ynddo, a'r hyn y maent yn ei ddweud a'i wneud yn y Senedd, ac am yr effaith debygol ar bobl Cymru pe bai'r hunllefau'n cael eu gwireddu a'u bod yn ennill yr etholiad cyffredinol nesaf. Cofiaf sut y rheolwyd streic y glowyr ganddynt yn fy nghymuned. Yr oeddent wedi ceisio defnyddio dulliau gwleidyddol i ddifetha'r mudiad undebau llafur a gwedd nifer o gymunedau glofaol, megis y gymuned lle'r oeddwn yn byw ar y pryd, Ystrad Mynach yng Nghwm Rhymni.

I will turn to a particular aspect of your speech, Secretary of State, which is the UK Labour Government's commitment to the building of our digital infrastructure through the Digital Economy Bill, which will be warmly welcomed in areas such as mine—Caerphilly—as well as in towns and villages across Wales. The delivery of universal broadband, securing a future for high-quality television news in Wales, tackling illegal downloads, and preserving the key sporting events for free, all require active Government. This is a commitment that we share in Wales, where we have made big strides in broadband provision thanks to support from the Welsh Assembly Government. Secretary of State, will you agree with me that in contrast to our shared commitment to active, enabling Government, the Tories, here and at Westminster, offer no solutions, and would put Britain and Wales's digital and creative economy at risk.

Trof at agwedd benodol ar eich araith, Ysgrifennydd Gwladol, sef ymrwymiad Llywodraeth Lafur y DU i adeiladu ein seilwaith digidol trwy'r Mesur ynghylch yr Economi Ddigidol, a fydd yn cael ei groesawu'n fawr mewn ardaloedd megis fy ardal i—Caerffili—yn ogystal ag mewn trefi a phentrefi ar draws Cymru. Mae arnom angen Llywodraeth weithredol i ddarparu band eang i bawb, sicrhau dyfodol i newyddion o safon ar y teledu yng Nghymru, mynd i'r afael â lawrlwytho anghyfreithlon, a sicrhau bod y prif ddigwyddiadau chwaraeon yn parhau i fod ar gael yn rhad ac am ddim. Mae hwn yn ymrwymiad gennym ni yng Nghymru, ac yr ydym wedi gwneud llawer i ddarparu band eang, diolch i gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad. Ysgrifennydd Gwladol, a wnewch chi gytuno â mi nad yw'r Toriaid, yn y Cynulliad ac yn San Steffan, yn cynnig unrhyw atebion, yn wahanol i'r ymrwymiad sydd gennym i sicrhau Llywodraeth weithredol sy'n ein galluogi i gyflawni pethau, ac y byddai'r Toriaid yn rhoi economi ddigidol a chreadigol Prydain a Chymru mewn perygl.

4.40 p.m.

Finally, I welcome your comments on the All Wales Convention. I applaud your statement that we must keep all options open, and I look forward to the Welsh Assembly Government debate in January, when we will proceed on this matter.

Peter Hain: I agree with all that you said. On the issue that you specifically addressed, which was the digital future of Wales, we are introducing proposals to levy a 50p a month charge on every householder in order to establish universal, high-speed, new generation broadband across Wales, which will overcome the not spots. The Conservatives oppose that policy, just as they oppose the policy to provide support for high-quality news on channel 3, which can only be delivered—as anyone who has talked to ITV Wales understands—by using the money that was initially provided to roll out digital provision. This would support a new news consortium in delivering a high-quality news service to provide a choice against the BBC's delivery on ITV, on channel 3. The Conservatives' opposition to these proposals is incomprehensible, but it can be understood in terms of their deal with Rupert Murdoch. [*Interruption.*] I remind the Assembly that *The Sun* has backed the Conservatives and come back home.

It highlights the fact that the people of Wales have a big choice to make between Labour and the Tories, and that anyone who does not support Labour is, in effect, supporting the Tories by default. We saw what happened in the European Parliament elections—the Tories won in Wales because too many people stayed at home or voted for other parties. That is the choice for the very soul of Wales in the future.

Jenny Randerson: Thank you for your speech, Secretary of State. Like some other people, I regret the tone of it—it reflected a

Yn olaf, yr wyf yn croesawu eich sylwadau am Gonfensiwn Cymru Gyfan. Yr wyf yn cymeradwyo eich datganiad ei bod yn rhaid inni gadw pob drws ar agor, ac edrychaf ymlaen at ddadl Llywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr, pan fyddwn yn symud ymlaen ar y mater hwn.

Peter Hain: Yr wyf yn cytuno â phopeth yr ydych wedi'i ddweud. O ran y mater yr oeddech yn cyfeirio ato'n benodol, sef dyfodol digidol Cymru, yr ydym yn cyflwyno cynigion i godi ardoll o 50c y mis ar bob perchennog tŷ i sicrhau darparu band eang cyflym o'r genhedlaeth newydd i bawb ar draws Cymru, a fydd yn cyrraedd y manau lle nad oes band eang ar hyn o bryd. Mae'r Ceidwadwyr yn gwrthwynebu'r polisi hwnnw, yn union fel y maent yn gwrthwynebu'r polisi i gefnogi darlledu newyddion o safon ar sianel 3, a'r unig ffordd y gellir cyflawni hynny—fel y bydd unrhyw un sydd wedi siarad ag ITV Cymru yn ei ddeall—yw trwy ddefnyddio'r arian a ddarparwyd yn wreiddiol i gyflwyno darpariaeth ddigidol. Byddai hynny'n cynorthwyo consortiwm newyddion newydd i gyflwyno gwasanaeth newyddion o safon i roi dewis arall yn lle darpariaeth y BBC, ar ITV, sef sianel 3. Nid yw gwrthwynebiad y Ceidwadwyr i'r cynigion hyn yn gwneud synnwyr, ond gellir ei ddeall o ran y ddêl rhyngddynt a Rupert Murdoch. [*Torri ar draws.*] Atgoffaf y Cynulliad fod *The Sun* wedi cefnogi'r Ceidwadwyr ac wedi dod adref.

Mae'n tynnu sylw at y ffaith fod gan bobl Cymru ddewis pwysig i'w wneud rhwng y Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol, a bod unrhyw un nad yw'n cefnogi'r Blaid Lafur, mewn ffordd, yn cefnogi'r Blaid Geidwadol o'r herwydd. Gwelsom yr hyn a ddigwyddodd yn etholiadau Senedd Ewrop—enillodd y Ceidwadwyr yng Nghymru oherwydd bod gormod o bobl wedi aros gartref neu wedi pleidleisio dros bleidiau eraill. Dyna'r dewis ar gyfer holl enaid Cymru yn y dyfodol.

Jenny Randerson: Diolch am eich araith, Ysgrifennydd Gwladol. Fel rhai pobl eraill, nid oeddwn yn hoff o dôn eich araith—yr

desperate schoolboy approach to politics, which is inappropriate given the seriousness of the topics under discussion. It is based on the idea that you can make any extravagant claim and that you will find someone out there who will believe it, as well as Jeff. [Laughter.]

As far as I could detect, there was only one specific sentence about Wales in the Queen's Speech, which said that the UK Government will continue to devolve powers to Wales. I acknowledge that two framework Bills were included in the speech. However, we heard this morning that Scotland is to have significant additional powers as a result of the Calman commission, which, after the debacle of yesterday, really rankles with the people of Wales. Do you recognise the growing resentment in Wales at the disparity of treatment between Scotland and Wales? Do you recognise the impossibility of a Parliament with only 60 Members trying to undertake the whole process of legislation twice over—once for an LCO and once for a Measure? That is something that could just about have been coped with if the LCO process had developed as you indicated it would. Instead, you have allowed the Welsh Affairs Committee to become a shadow Assembly that looks in detail at what we plan to do with Measures. That has lengthened the process and made it complex and frustrating, and it has blunted the effectiveness of the already second-class settlement that we have. Do you recognise that we cannot provide good Government in the Assembly unless we have the tools to do the job, and that that is why Part 4 of the Act needs to be implemented as soon as possible?

Earlier, you made a valiant attempt to rewrite the press release issued by Labour yesterday. Despite the judgment of the convention, of the All Wales Convention, you went on to pour cold water on the possibility of a successful referendum. Can you explain to us your preferred timescale? I did not get a clear indication of the exact number of months from your reply to Kirsty earlier. Do you

oedd yn adlewyrchu agwedd bachgen ysgol rhyfygus at wleidyddiaeth, sy'n amhriodol o gofio mor ddiffrifol yw'r pynciau dan sylw. Mae'n seiliedig ar y syniad y gallweh wneud unrhyw honiad gwyllt ac y byddm rhywun rywle yn ei gredu, yn ogystal â Jeff. [Chwerthin.]

Hyd y gallwn weld, dim ond un frawddeg benodol am Gymru oedd yn Araith y Frenhines, yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn parhau i ddatganoli pwerau i Gymru. Yr wyf yn cydnabod bod dau Fesur fframwaith wedi'u cynnwys yn yr araith. Fodd bynnag, clywsom y bore yma fod yr Alban yn mynd i gael pwerau ychwanegol sylweddol o ganlyniad i Gomisiwn Calman, sy'n cynddeiriogi pobl Cymru ar ôl y llastr a gawsom ddoe. A ydych yn cydnabod y dicter cynyddol yng Nghymru am y gwahaniaeth yn y ffordd y mae'r Alban a Chymru'n cael eu trin? A ydych yn cydnabod mor amhosibl yw cael Llywodraeth gyda dim ond 60 o Aelodau i geisio ymgymryd â'r broses ddeddfu gyfan ddwywaith drosodd—unwaith ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, ac unwaith ar gyfer Mesur? O'r braidd y byddai wedi bod yn bosibl ymdopi â hynny pe bai'r broses ar gyfer y Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi datblygu fel y dywedoch y byddai'n gwneud. Yn lle hynny, yr ydych wedi gadael i'r Pwyllgor Materion Cymreig ddod yn Gynulliad cysgodol sy'n edrych yn fanwl ar yr hyn y bwriadwn ei wneud â'r Mesurau. Mae hynny wedi ymestyn y broses a'i gwneud yn broses gymhleth sy'n peri rhwystredigaeth, ac y mae wedi golygu bod y setliad eilradd sydd gennym eisoes yn llai effeithiol. A ydych yn cydnabod na allwn ddarparu Llywodraeth dda yn y Cynulliad oni bai bod gennym yr adnoddau i wneud y gwaith, ac mai dyna pam mae'n rhaid rhoi Rhan 4 y Ddeddf ar waith cyn gynted ag sy'n bosibl?

Yn gynharach, gwnaethoch ymgais ddewr i ailysgrifennu'r datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan y Blaid Lafur ddoe. Er gwaethaf barn y confensiwn, sef Confensiwn Cymru Gyfan, aethoch ati i daflu dŵr oer dros y posibilrwydd o sicrhau refferendwm lwyddiannus. A allwch esbonio wrthym yr amserlen yr ydych yn ei ffafrio? Ni chefais arwydd clir o'r union nifer o fisoedd yr ydych

pledge not to attempt to use your influence behind the scenes to prevent an early referendum?

Finally, Secretary of State, part of the reason why it was so tough last time was that each party had different campaigns and, although a 'yes' campaign existed, it was relatively weak. I went to Scotland at the time, and I saw that the contrast between the 'yes' campaign in Scotland and the 'yes' campaign in Wales was significant. I agree with you that we need partnership, but it needs to be across the political parties. That is the key partnership that will create a united 'yes' campaign. I will not join you in being rude and snide about our Conservative friends, because of the Conservative Assembly Members are committed to devolution and to securing further powers. We should be welcoming the Conservatives into a united 'yes' campaign this time. Do you not agree that we should look on them as repentant sinners, rather than pour scorn on them?

Peter Hain: I wish that that were true. However, pretty well every day of the week, I see Conservatives, including Welsh Conservatives, at Westminster opposing our devolution progress and almost everything that we have proposed, even LCOs. My opposite number, the shadow Secretary of State for Wales, Cheryl Gillan, made an extraordinary speech on the draft LCO on the Welsh language, in which it was clear that she does not understand the devolution settlement. She was seeking to pre-empt what the Assembly might do to take forward support for the Welsh language before we had even passed it. She seemed to be making what the Assembly would want to do conditional on passing the draft LCO. The point of passing it is to devolve the competence so that you can do what you want to do. That is the whole point.

On that matter—and I think that Alun Ffred

yn sôn amdanynt o'ch ymateb i Kirsty yn gynharach. A ydych yn addo peidio â cheisio defnyddio eich dylanwad y tu ôl i'r llenni i rwystro refferendwm cynnar?

Yn olaf, Ysgrifennydd Gwladol, un o'r rhesymau pam yr oedd mor anodd y tro diwethaf oedd bod gan bob plaid ymgyrch wahanol, ac er bod yna ymgyrch 'ie', ymgyrch ddigon gwan oedd hi. Euthum i'r Alban bryd hynny, a gwelais fod gwahaniaeth sylweddol rhwng yr ymgyrch 'ie' yn yr Alban a'r ymgyrch 'ie' yng Nghymru. Yr wyf yn cytuno â chi bod arnom angen partneriaeth, ond y mae angen i honno fod yn bartneriaeth ar draws y pleidiau gwleidyddol. Dyna'r bartneriaeth allweddol a fydd yn creu ymgyrch 'ie' unedig. Nid wyf am ymuno â chi a bod yn anghwrtais ac yn goeglyd am ein cyfeillion yn y Blaid Geidwadol, oherwydd mae Aelodau Cynulliad y Blaid Geidwadol wedi ymrwymo i ddatganoli a sicrhau rhagor o bwerau. Dylem fod yn croesawu'r Ceidwadwyr i mewn i ymgyrch 'ie' unedig y tro hwn. Oni chytunwch y dylem fod yn eu hystyried yn bechaduriaid wedi edifarhau, yn hytrach na'u dirmygu?

Peter Hain: Byddai'n dda gennyf pe bai hynny'n wir. Fodd bynnag, yn feunyddiol bron byddaf yn gweld Ceidwadwyr, gan gynnwys Ceidwadwyr Cymru, yn San Steffan yn gwrthwynebu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud gyda datganoli, a bron popeth yr ydym wedi'i gynnig, hyd yn oed y Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Rhoddodd fy ngwrthwynebydd Cheryl Gillan, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr wrthblaid, araith ryfedd ar ddrafft y Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn Gymraeg, a oedd yn dangos yn amlwg nad yw'n deall y setliad datganoli. Yr oedd yn ceisio achub y blaen ar yr hyn y gallai'r Cynulliad fod yn ei wneud i ddatblygu cefnogaeth i'r iaith Gymraeg cyn inni ei basio hyd yn oed. Yr oedd fel pebae am wneud dymuniadau'r Cynulliad ar gyfer gweithredu yn amodol ar basio'r Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft. Diben pasio'r Gorchymynion yw datganoli'r cymhwysedd fel y gallwch wneud yr hyn yr ydych am ei wneud. Dyna'r diben.

Ar y mater hwnnw—a chredaf y bydd gan

will be particularly interested to hear this—the timetable for passing the draft LCO through Parliament is being accelerated and we will quite easily be able to achieve the targets that Rhodri Morgan and Alun Ffred Jones have asked me to achieve, which I think is good news.

I never said or pretended that the LCO system was perfect. Why else did I legislate for full law-making powers? That is the point. You cannot get full law-making powers without a successful referendum. To the same question I give the same answer. My answer on the timescale is that I want a referendum to be called when we are likely to win it, not when we are likely to lose it. Do not underestimate the problems that a ‘yes’ campaign would face. Even in the most benign of circumstances, in the honeymoon period after a landslide Labour victory, with Welsh Labour united as it was not in 1979, we only narrowly won that vote. No-one worked harder, knocked on more doors, or campaigned more vigorously than I did to try to turn that vote out. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’] I hear jeers from the Conservatives, but they were all in the ‘no’ camp. Nick Bourne was one of the leading lights of the ‘no’ camp. It is good that he has seen the light, and I agree that that is good and positive. The question is whether he can persuade the Welsh Conservatives at Westminster to do the same.

In summary, we want to call a referendum but when we can win it, not when we are likely to lose it.

Ann Jones: I welcome your speech, Secretary of State for Wales. I want to talk about a couple of the Bills, but first I want to put on the record that I think that the LCO process is working. As the first Member—

Darren Millar: Oh.

The Presiding Officer: Order.

Alun Ffred ddiddordeb mawr mewn clywed hyn—mae’r amserlen ar gyfer pasio drafft y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol trwy’r Senedd yn cael ei chyflymu, a bydd yn ddigon hawdd inni allu cyrraedd y targedau y mae Rhodri Morgan ac Alun Ffred Jones wedi gofyn imi eu cyrraedd, a chredaf fod hynny’n newyddion da.

Nid wyf erioed wedi dweud nac esgus bod y system Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn berffaith. Pam arall y deddfais am bwerau deddfu llawn? Dyna’r pwynt. Ni allwch sicrhau pwerau deddfu llawn heb gael refferendwm llwyddiannus. Yr wyf yn rhoi’r un ateb i’r un cwestiwn. Fy ateb ar yr amserlen yw fy mod am i refferendwm gael ei alw pan fyddwn yn debygol o’i ennill, nid pan fyddwn yn debygol o’i gollu. Rhaid ichi sylweddoli maint y problemau y byddai ymgyrch ‘ie’ yn eu hwynebu. Hyd yn oed yn yr amgylchiadau mwyaf ffafriol, yn y cyfnod mis mêl ar ôl buddugoliaeth ysgubol y Blaid Lafur, pan oedd y Blaid Lafur yng Nghymru’n unedig, yn wahanol i’r sefyllfa yn 1979, dim ond o drwch blewyn yr enillwyd y bleidlais honno. Ni wnaeth neb weithio’n galetach, curo ar fwy o ddrysau, neu ymgyrchu’n fwy egnïol na mi i geisio sicrhau’r bleidlais honno. [AELODAU’R CYNULLIAD: ‘O.’] Clywaf y Ceidwadwyr yn gwawdio, ond yr oedd pob un ohonynt yn y garfan ‘na’. Nick Bourne oedd un o arweinwyr y garfan a ymgyrchodd dros y bleidlais ‘na’. Mae’n dda ei fod wedi gweld y golau, a chytunaf fod hynny’n beth da a chadarnhaol. Y cwestiwn yw, a all berswadio Ceidwadwyr Cymru yn San Steffan i wneud yr un peth.

Yn fyr, yr ydym am alw refferendwm pan fyddwn yn gallu ei ennill, nid pan fyddwn yn debygol o’i gollu.

Ann Jones: Yr wyf yn croesawu eich araith, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr wyf am sôn am rai o’r Mesurau, ond yn gyntaf dywedaf ar goedd fy mod yn credu bod y broses ar gyfer Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn gweithio. Fel yr Aelod cyntaf—

Darren Millar: O.

Y Llywydd: Trefn.

Ann Jones: As the first backbencher to take a Member proposed Order to Westminster, I feel able to say that the Welsh Affairs Committee does not act as a shadow Assembly. I have been treated with the utmost respect. In fact, it is doing everything that it can to ensure that it is passed. Therefore, let us not pretend that the LCO process is not working, because it does. My proposal was the first Member proposed Order, and, with the first one, you have to look at the processes and at the subject, so I like to think that that was the process.

Ann Jones: Fel yr Aelod cyffredin cyntaf i fynd â Gorchymyn arfaethedig Aelod i San Steffan, credaf y gallaf ddweud nad yw'r Pwyllgor Materion Cymreig yn gweithredu fel Cynulliad cysgodol. Yr wyf wedi cael fy nhrin â'r parch mwyaf. Mewn gwirionedd, mae'r Pwyllgor yn gwneud popeth yn ei allu i sicrhau pasio'r Gorchymyn. Felly, gadewch inni beidio ag esgus nad yw'r broses yn gweithio, oherwydd y mae'n gweithio. Fy nghynnig i oedd y Gorchymyn arfaethedig cyntaf gan Aelod, a rhaid ichi edrych ar y prosesau ac ar y pwnc gyda'r Gorchymyn cyntaf, felly, hoffwn feddwl mai dyna oedd y broses.

4.50 p.m.

My question to you today, Secretary of State—[*Interruption.*]. They will quieten down now, because they will want to hear what I have to say. They always think that I am going to say something that is of interest to them—and I am. [*Interruption.*]

Fy nghwestiwn ichi heddiw, Ysgrifennydd Gwladol—[*Torri ar draws.*]. Byddant yn tawelu yn awr, oherwydd byddant am glywed yr hyn sydd gennyf i'w ddweud. Maent bob amser yn meddwl y bydd gennyf rywbeth i'w ddweud a fydd o ddiddordeb iddynt—ac y mae gennyf. [*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. Thank you for your assistance.

Y Llywydd: Trefn. Diolch am eich cymorth.

Ann Jones: Secretary of State, I want to ask you about the differences between a Labour Government and, heaven help us, a Tory Government, if we were to have one. Among the differences are that we will legislate to promote equality and to tackle discrimination, we will ensure equal treatment for agency workers, and, more importantly, we will enshrine in law for the first time our commitment to abolish child poverty. We all know that that would never happen under a Tory Government.

Ann Jones: Ysgrifennydd Gwladol, yr wyf am ofyn ichi am y gwahaniaethau rhwng Llywodraeth Lafur a, duw a'n helpo, Llywodraeth Doriaidd, pe baem yn cael un. Un o'r gwahaniaethau yw y byddwn yn deddfu i hybu cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu, byddwn yn sicrhau bod gweithwyr sy'n cael eu cyflogi trwy asiantaethau'n cael eu trin yn gyfartal, ac yn bwysicach fyth, byddwn yn cynnwys ein hymrwymiad i ddileu tlodi plant mewn cyfraith am y tro cyntaf. Mae pob un ohonom yn gwybod na fyddai hynny byth yn digwydd dan Lywodraeth Doriaidd.

Brynle Williams: Is it happening under yours?

Brynle Williams: A yw'n digwydd dan eich Llywodraeth chi?

Ann Jones: Well—

Ann Jones: Wel—

The Presiding Officer: Order. You are not to take interventions. This is a statement, and we are just about to come to the end of it in an orderly fashion.

Y Llywydd: Trefn. Ni ddylech gymryd ymyriadau. Datganiad yw hwn, ac yr ydym ar fin dod i ben mewn modd trefnus.

Ann Jones: I thank you, Secretary of State, for including those proposals in the Queen's Speech. Do you agree that they would never have been in a Queen's Speech under a Tory Government? I will assist in any way I can to promote those proposals over the coming weeks and months. That is the most important thing that we can do in these times. I also thank you for your assistance in the LCO process.

Peter Hain: First, I congratulate you on your National Assembly for Wales (Legislative Competence) (No. 7) Order 2008 relating to domestic fire safety, which was one of the first Member proposed Orders to be taken forward. It will improve the safety of premises throughout Wales, which is very good news. That Order demonstrates how the LCO process, apparently so despised by others in the Chamber, can work effectively. The process will continue to work effectively as long as we have a Government at Westminster that supports the LCO process rather than seeks to sabotage it, as the Conservatives are consistently doing, and until we have a successful referendum to trigger the full law-making powers that both Governments believe in.

Nerys Evans: Diolch am eich datganiad. Crybwyllwyd llawer o bwyntiau pwysig y prynhawn yma. Cyn symud ymlaen, ategaf eich sylwadau ynghylch y Ceidwadwyr. Mae'n dda clywed na fydd Cameron yn atal cais am refferendwm gan Lywodraeth Cymru ychwaith, ond rhaid cofio'r hyn a ddywedodd yn y Barri ym mis Chwefror:

I do not support the idea of a full Parliament for Wales with more powers. Let us make the current arrangements work.

Felly, yr ydych yn llygad eich lle o ran y Ceidwadwyr. Hoffwn eich pwysu ymhellach o ran y pwynt a wnaeth Helen Mary. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gwneud cais am refferendwm, a allwch gadarnhau y byddech yn gweithredu'n bositif i sicrhau bod y

Ann Jones: Yr wyf yn diolch ichi, Ysgrifennydd Gwladol, am gynnwys y cynigion hynny yn Araith y Frenhines. A ydych yn cytuno na fyddent byth wedi eu cynnwys mewn Araith gan y Frenhines dan Lywodraeth Doriaidd? Byddaf yn cynorthwyo mewn unrhyw fodd posibl i hybu'r cynigion hyn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Dyna'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud ar adegau fel hyn. Diolch ichi hefyd am eich cymorth gyda phroses y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Peter Hain: Yn gyntaf, yr wyf yn eich llongyfarch ar eich Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008 yn ymwneud â diogelwch tân yn y cartref, sef Gorchymyn arfaethedig Aelod a oedd ymhlith y cyntaf i gael ei gyflwyno. Bydd yn gwneud eiddo ar hyd a lled Cymru yn fwy diogel, sy'n newyddion da iawn. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n dangos sut mae'r broses Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, sy'n cael ei dirmygu cymaint gan eraill yn y Siambr mae'n debyg, yn gallu gweithio'n effeithiol. Bydd y broses yn parhau i weithio'n effeithiol tra bydd gennym Lywodraeth yn San Steffan sy'n cefnogi'r broses yn hytrach nag yn ceisio'i thanseilio, fel y mae'r Ceidwadwyr yn ei wneud o hyd, a nes y byddwn wedi cael refferendwm lwyddiannus i sbarduno'r pwerau deddfu llawn y mae'r ddwy Lywodraeth yn credu ynddynt.

Nerys Evans: Thank you for your statement. Many important points have been mentioned this afternoon. Before moving on, I echo your comments regarding the Conservatives. It is good to hear that Cameron will not veto a request for a referendum by the Welsh Government, but we must remember what he said during a visit to Barry in February:

Nid wyf yn cefnogi'r syniad o Senedd lawn i Gymru gyda mwy o bwerau. Gadewch inni wneud i'r trefniadau presennol weithio.

Therefore, you are absolutely right as far as the Conservatives are concerned. I should like to press you further on the point made by Helen Mary. If the Welsh Government was to request a referendum, can you confirm that you would take positive action to ensure that

camau sydd eu hangen er mwyn cynnal refferendwm yn cael eu cymryd? Croesawaf eich cefnogaeth ar gyfer sicrhau pleidlais lwyddiannus mewn refferendwm. A dderbyniwch fod yn rhaid inni fod yn bositif am y broses os ydym i ennill refferendwm, ac mai dyna'r unig ffordd o'i ennill?

I want to ask you some specific questions about the independent Holtham commission set up by the Assembly Government to look at how Wales is funded. It came to significant conclusions that reinforced what we have been saying for years, namely that the Barnett formula is obsolete and that Wales is losing billions of pounds because of the Barnett squeeze. Holtham states clearly that the formula does not take into account our relative need, and states that there is an urgent need for reform. These are serious points about fundamental issues of how Wales is funded. Ultimately, it is about how much money the Welsh Assembly Government has to deliver in Wales. Which policies are deliverable goes to the heart of devolution, and affects the lives of everyone in Wales.

Even though the Holtham commission reported back in July, there was no mention of it in the Government's Queen's Speech. There was, however, detail on the Westminster Government's response to the Calman report, commissioned by the Scottish Parliament, and not your Government, to consider further devolution to Scotland, including on financial matters. A report commissioned by this Government was not mentioned. We have already seen announcements this afternoon from your counterpart in Scotland, Jim Murphy, on making the Scottish Parliament more financially accountable and on further devolution. You mentioned in your statement that you would be responding to the Holtham commission in Parliament tomorrow. Can you give us some detail on the discussions that you have had with the Welsh Assembly Government about your response to the Holtham commission? We have waited months to hear it.

In your statement, you mentioned the prospect of savage cuts, and said that your

the necessary steps are taken to hold a referendum? I welcome your support to ensure a successful outcome in a referendum. Do you accept that we must be positive about the process if we are to win a referendum, and that that is the only way to secure a win?

Yr wyf am ofyn rhai cwestiynau penodol ichi am gomisiwn annibynnol Holtham a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i edrych ar sut y caiff Cymru ei hariannu. Daeth i gasgliadau arwyddocaol a oedd yn atgyfnerthu'r hyn yr ydym wedi bod yn ei ddweud ers blynnydoedd, sef bod fformiwla Barnett wedi darfod amdani a bod Cymru'n colli biliynau o bunnoedd oherwydd gwasgfa Barnett. Mae Holtham yn dweud yn glir nad yw'r fformiwla'n ystyried ein hangen cymharol, a dywed fod angen diwygio'r drefn ar frys. Mae'r rhain yn bwyntiau difrifol am faterion sylfaenol sut y caiff Cymru ei hariannu. Yn y pen draw, mae'n golygu faint o arian sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau canlyniadau yng Nghymru. Mae pa bolisiau y gellir eu gwireddu yn mynd at wraidd datganoli, ac yn effeithio ar fywydau pawb yng Nghymru.

Er i gomisiwn Holtham adrodd yn ôl ym mis Gorffennaf, nid oedd sôn amdano yn Araith y Frenhines y Llywodraeth. Fodd bynnag, yr oedd yr araith yn cynnwys manylion am ymateb Llywodraeth San Steffan i adroddiad Calman, a gomisiynwyd gan Senedd yr Alban, ac nid eich Llywodraeth chi, i ystyried datganoli pellach i'r Alban, gan gynnwys ar faterion ariannol. Ni soniwyd dim am adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth hon. Yr ydym eisoes wedi gweld cyhoeddiadau'r prynhawn yma gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, Jim Murphy, am sicrhau bod Senedd yr Alban yn fwy atebol yn ariannol ac ar ddatganoli pellach. Soniech yn eich datganiad y byddech yn ymateb i gomisiwn Holtham yn y Senedd yfory. A allwch roi rhai manylion inni am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y Cynulliad ar eich ymateb i gomisiwn Holtham? Yr ydym wedi disgwyl am fisoedd i'w glywed.

Yn eich datganiad, soniech am y rhagolwg o doriadau llym, gan ddweud mai eich

priority is to commit to prudent investment rather than savage cuts. Can you confirm, therefore, that there will be no further cuts to the Assembly budget until the Holtham commission's recommendations are implemented? As Holtham says, we will be losing £8 billion over the next 10 years, equivalent to £2,900 per person in Wales. Will your response tomorrow deal with the issues raised in Holtham, and will you implement the recommendations as soon as possible rather than kick them into the long grass by asking for more research or other work?

The UK Government is also devolving more power to the Northern Ireland Assembly, and so Wales seems to be last on the list of priorities. The Holtham commission is one of the most important and far reaching that we have seen in Wales since the Assembly was created, and will substantially and directly affect everyone in Wales if implemented. Why, therefore, was no mention made of it in the Queen's Speech? Can you guarantee that the UK Government's response to Holtham tomorrow will be to react to the recommendations in a positive way and to act quickly to implement them?

Peter Hain: I will respond to the last point first, on the Holtham commission. As I said to Helen Mary Jones, whose comments were quite appropriate, I thought, I need to give this information to Parliament first, as I am sure you will understand. However, I think that you will be encouraged by my response; I certainly hope so. Rhodri Morgan and I have discussed the matter in some detail over several weeks. That statement would have been made today had it not been for the fact that I was down here speaking to you and answering questions.

On the matter of David Cameron, I agree with your agreement with me. He is consistently two faced, saying one thing in Westminster to satisfy that audience and another in Wales. That was classically illustrated by his comments on not standing in the way of a referendum. His backbench Conservative MPs—and I remind the Assembly of this point again, in view of David Cameron's unruly supporters to my right—are bitterly hostile to devolution, as

blaenoriaeth yw ymrwymo i fuddsoddi gofalus yn hytrach na thoriadau llym. A allwch gadarnhau felly na fydd dim toriadau pellach yng nghyllideb y Cynulliad nes bydd argymhellion comisiwn Holtham wedi'u gweithredu? Fel y dywed Holtham, byddwn yn colli £8 biliwn dros y 10 mlynedd nesaf, sydd gyfwerth â £2,900 y pen yng Nghymru. A fydd eich ymateb yfory'n ymdrin â'r materion a godwyd yn adroddiad Holtham, ac a fyddwch yn gweithredu'r argymhellion cyn gynted ag sy'n bosibl, yn hytrach na'u hysgubo o'r golwg drwy ofyn am fwy o ymchwil neu waith arall?

Mae Llywodraeth y DU yn datganoli mwy o bŵer i Gynulliad Gogledd Iwerddon hefyd, ac y mae'n ymddangos felly mai Cymru sydd olaf ar y rhestr o flaenoriaethau. Comisiwn Holtham yw un o'r pwysicaf a'r mwyaf treiddgar a welsom yng Nghymru ers i'r Cynulliad gael ei greu, a bydd yn effeithio'n sylweddol ac yn uniongyrchol ar bawb yng Nghymru os caiff ei weithredu. Felly, pam na soniwyd amdano yn Araith y Frenhines? A allwch warantu mai ateb Llywodraeth y DU i adroddiad Holtham yfory fydd ymateb i'r argymhellion mewn modd positif a gweithio'n gyflym i'w gweithredu?

Peter Hain: Ymatebaf i'r pwynt olaf yn gyntaf, ar gomisiwn Holtham. Fel y dywedais wrth Helen Mary Jones, yr oedd ei sylwadau'n eithaf priodol. Yn fy marn i mae angen imi roi'r wybodaeth hon i Senedd y DU yn gyntaf, fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn deall. Fodd bynnag, credaf y bydd fy ymateb yn eich calonogi; yn bendant, gobeithio y bydd. Mae Rhodri Morgan a minnau wedi bod yn trafod y mater yn fanwl dros lawer wythnos. Byddai'r datganiad hwnnw wedi ei wneud heddiw pe na bawn yma yn siarad â chi ac yn ateb cwestiynau.

O ran David Cameron, cytunaf â'r ffaith eich bod yn cytuno â mi. Mae ef bob amser yn ddauwynebog, gan ddweud un peth yn San Steffan i fodloni'r gynulleidfa honno ac yn dweud rhywbeth arall yng Nghymru. Cafwyd enghraifft berffaith o hynny yn ei sylwadau ar beidio â rhwystro refferendwm. Mae ei Aelodau Seneddol Ceidwadol ar y meinciau cefn—ac atgoffaf y Cynulliad am y pwynt hwn eto, o ystyried cefnogwyr afreolus David Cameron i'r chwith imi—yn gwrthwynebu

are many Conservative candidates for Parliament.

On the question of working positively in respect of a referendum, I always work positively on anything related to the progress of devolution, and I will continue to do so as long as we work towards the objective of securing a victory in the referendum, which is what I want to see.

Lesley Griffiths: I, too, welcome your statement, Secretary of State. I seek clarification on one specific point in relation to a possible referendum. If a two-thirds majority of Assembly Members voted in favour of a resolution to call a referendum, the Secretary of State would have 120 days in which to consider whether to proceed with that request. Was that always intended as a maximum period of time rather than the actual period of time to decide on such a request?

Peter Hain: Yes, because it was designed to stop a recalcitrant Secretary of State from seeking to kick such a request into the long grass, or even to obstruct it. That is why I put it in the legislation. Rhodri and I discussed that matter when framing the Bill, as we discussed many other matters. The answer to your question is 'yes', and I repeat what I said earlier: this matter has to be taken forward in partnership. The way to success in this venture is through partnership between the Welsh Assembly Government, the National Assembly that supports it and the Westminster Government. That is how we can achieve the success under devolution that you and I and our Labour colleagues want.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei atebion.

datganoli'n chwyn, fel y mae nifer o ymgeiswyr Seneddol Ceidwadol.

O ran gweithio'n bositif ar gyfer refferendwm, byddaf bob amser yn gweithio'n bositif ar unrhyw beth yn ymwneud â datblygu datganoli, a byddaf yn parhau i wneud hynny cyhyd ag y byddaf yn gweithio tuag at nod sicrhau buddugoliaeth yn y refferendwm, sef yr hyn yr wyf am ei weld.

Lesley Griffiths: Yr wyf fi, hefyd, yn croesawu eich datganiad, Ysgrifennydd Gwladol. Hoffwn gael eglurhad ar un pwynt penodol yn ymwneud â refferendwm posibl. Pe bai mwyafrif o ddwy ran o dair o Aelodau Cynulliad yn pleidleisio o blaid penderfyniad i alw refferendwm, byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol 120 o ddiwrnodau i ystyried bwrw ymlaen â'r cais hwnnw ai peidio. Ai bwriad hynny o'r dechrau oedd pennu'r cyfnod hwyaf a fyddai ar gael i benderfynu cais o'r fath, yn hytrach na'i bod yn rhaid i'r penderfyniad gymryd cymaint o amser â hynny?

Peter Hain: Ie, gan ei fod wedi'i fwriadu i atal Ysgrifennydd Gwladol cyndyn rhag ceisio ysgubo cais o'r fath o'r golwg neu ei rwystro hyd yn oed. Dyna pam y'i rhoddais yn y ddeddfwriaeth. Bu Rhodri a minnau'n trafod y mater hwnnw wrth lunio'r Mesur, fel y buom yn trafod nifer o faterion eraill. Yr ateb i'ch cwestiwn yw 'ie', ac ailadroddaf yr hyn a ddywedais yn gynharach: rhaid i'r mater hwn gael ei symud ymlaen mewn partneriaeth. Y ffordd i lwyddo yn y fenter hon yw drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad, y Cynulliad Cenedlaethol sy'n ei chefnogi a Llywodraeth San Steffan. Dyna sut y gallwn sicrhau'r llwyddiant dan ddatganoli yr ydych chi a mi a'n cydweithwyr Llafur yn dymuno'i gael.

The Presiding Officer: I thank the Secretary of State for his answers.

Araith y Frenhines The Queen's Speech

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns, a gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn enw Peter Black.

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns, and amendments 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 in the name of Peter Black.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Cynigiad fod

The First Minister (Rhodri Morgan): I move that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

the National Assembly for Wales

yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2009/2010. (NDM4333)

notes the content of the UK Government's legislative programme 2009/2010. (NDM4333)

Cyn imi ddechrau fy nghyfraniad at y ddadl am araith y Frenhines, teimlaf reidrwydd i ymateb i eiriau or-garedig Peter Hain, yr Ysgrifennydd Gwladol, amdanaf i, a'r un fath o eiriau o glod a chanmoliaeth gan arweinwyr y pleidiau eraill.

Before I start my contribution to this debate on the Queen's Speech, I feel I need to reply to the overly kind comments made by Peter Hain, Secretary of State, about me, and the similar comments of praise from the leaders of the other parties.

5.00 p.m.

Yr wyf yn ymwybodol bod y fath eiriau o glod yn dod fel arfer mewn araith mewn angladd. Cefais frechlyn yn erbyn fflw moch ddydd Llun i osgoi'r fath achlysur, felly yr wyf am wneud yr araith hon yn sefyll yn hytrach na'n gorwedd. [*Chwerthin.*] Ond, mae'n bwysig ein bod yn troi'n awr at oblygiadau Araith y Frenhines i Gymru.

I am aware that such words of praise are usually spoken at funerals. I got my swine flu jab on Monday to avoid such an occasion, so I am making this speech standing up rather than lying down. [*Laughter.*] It is important that we now turn to the question of the implications for Wales of the Queen's Speech.

There was much discussion of the economic aspects of the Queen's Speech and of policy generally. I believe that people will have been very much reassured by what the Secretary of State said about the convention—that all options are open, that he has no intention of exercising a veto, and that he intends to play his full part, as indeed I do, in generating a 'yes' campaign, leading to a successful referendum outcome. I believe that that is what the overwhelming majority of Assembly Members want. Of course, we all know that there is a big job to be done outside the Assembly.

Cafwyd llawer o drafod ynghylch yr agweddau economaidd ar Araith y Frenhines a pholisi'n gyffredinol. Credaf y bydd pobl wedi cael eu calonogi'n fawr o glywed yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol am y confensiwn—sef bod pob opsiwn ar agor, nad yw'n fwriad ganddo ddefnyddio fetó, a'i fod yn bwriadu gwneud ei ran yn llawn, fel yr wyf finnau, i greu ymgyrch 'ie' a fydd yn arwain at ganlyniad llwyddiannus mewn refferendwm. Credaf mai dyna yw dymuniad mwyafrif llethol Aelodau'r Cynulliad. Wrth gwrs, gwyddom i gyd fod llawer o waith i'w wneud y tu allan i'r Cynulliad.

The convention is about Part 4 powers, but, in the main, the Queen's Speech, is about Part 3 powers. I heard what Kirsty Williams said yesterday and today about the issue of Part 3 powers, that is LCOs, and the fact that, when we ask for powers from Westminster, it is a long or cumbersome process and that it is not as good as Part 4. We all agree with that;

Mae'r confensiwn yn ymwneud â phwerau Rhan 4, ond ar y cyfan mae Araith y Frenhines yn ymwneud â phwerau Rhan 3. Clywais yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams ddoe a heddiw am fater pwerau Rhan 3, hynny yw, Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, a'r ffaith fod y broses, pan fyddwn yn gofyn am bwerau gan

there is no question that Part 4 is the long-term aim. However, you, Kirsty, and others will have observed that, in the excellent convention report by Sir Emyr Jones Parry, he says that we frequently underplay the importance of the framework Measure-making powers that come to us from Westminster legislation. What he has said on that bears repeating.

Perhaps you take the strong view that LCOs are a useful tool for strengthening our legislative capacity; perhaps you tend to think that framework powers do that better than LCOs; or perhaps you think that neither is of any significance. I do not agree with any of those, because I think that both elements of Part 3—framework powers and LCOs—whether we start the process and go to Westminster to get powers or whether it starts in Westminster and, through framework powers, we opportunistically gain powers, it is all grist to the mill. They are all part of the apprenticeship and part of strengthening our capacity to learn to be a true legislature. Of course, it started earlier than that, when we had only the power to request Westminster to legislate for us. In the early days of devolution, that would perhaps be once a year, but, since then, the pace has increased, which, in turn, has increased our calibre as a legislature and reassured the people of Wales that we are ready to move on to the greater powers on offer, subject to referendum, in Part 4.

We must remember that, before devolution, there would be a Scottish Bill in the House of Commons about five times a year, but that, in the case of Wales, it was the other way round, with one Welsh Bill every five years. We did not bother the statute book compilers very often. Now, we do. It moved from being one Bill every five years, to being roughly

San Steffan, yn faith neu'n feichus, ac nad yw cystal â Rhan 4. Yr ydym i gyd yn cytuno â hynny; nid oes amheuaeth nad Rhan 4 yw'r nod hirdymor. Fodd bynnag, byddwch chi, Kirsty, ac eraill wedi sylwi bod Syr Emyr Jones Parry, yn adroddiad ardderchog y confensiwn, yn dweud ein bod yn aml yn rhoi rhy ychydig o werth ar bwysigrwydd y pwerau fframwaith ar gyfer llunio Mesurau y mae deddfwriaeth San Steffan yn eu rhoi inni. Mae'r hyn y mae wedi'i ddweud am hynny'n werth ei ailadrodd.

Efallai eich bod yn credu'n gryf fod Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn adnodd defnyddiol i gryfhau ein gallu deddfwriaethol; efallai eich bod yn tueddu i feddwl bod pwerau fframwaith yn gwneud hynny'n well na Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol; neu efallai eich bod yn meddwl nad yw'r naill na'r llall o ddim pwys. Nid wyf yn cytuno â'r un o'r safbwyntiau hynny, oherwydd credaf fod y ddwy elfen yn Rhan 3—pwerau fframwaith a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol—p'un a ydym yn dechrau'r broses yma ac yn mynd i San Steffan i gael y pwerau, ynteu a yw'r broses yn dechrau yn San Steffan a ninnau, drwy bwerau fframwaith, yn manteisio ar y cyfle i gael pwerau, yn golygu ein bod yn cyrraedd yr un nod yn y pen draw. Mae'r cyfan yn rhan o'r brentisiaeth ac yn rhan o'r broses o gryfhau ein gallu i ddysgu bod yn ddeddfwrfa go iawn. Wrth gwrs, dechreuodd y cyfan yn gynharach na hynny, a'r unig bŵer a oedd gennym ar y pryd oedd y pŵer i ofyn i San Steffan ddeddfu ar ein rhan. Yn nyddiau cynnar datganoli, efallai y byddai hynny'n digwydd unwaith y flwyddyn, ond y mae pethau wedi cyflymu ers hynny, a hynny yn ei dro wedi codi ein calibr fel deddfwrfa ac wedi rhoi sicrwydd i bobl Cymru ein bod yn barod i symud ymlaen i'r pwerau mwy sydd ar gael, yn amodol ar refferendwm, yn Rhan 4.

Cyn datganoli, rhaid inni gofio y byddai Mesur o'r Alban yn Nhŷ'r Cyffredin tua phum gwaith y flwyddyn, ond mai fel arall yr oedd yn achos Cymru, gydag un Mesur o Gymru yno bob pum mlynedd. Ni fyddem yn poeni llunwyr y llyfrau statud yn aml iawn. Yr ydym yn gwneud hynny'n aml yn awr, fodd bynnag. Newidiodd y sefyllfa o fod yn

one Bill per year, when it was done on request and it was Westminster that did the legislating, and it obviously happens a great deal more frequently than that now, through the two routes set out in Part 3—framework powers and LCOs. I shall list the Acts that became law in the early days of devolution, bearing in mind that they were passed in Westminster at our request.

There was the Children's Commissioner for Wales Act 2001, the Health (Wales) Act 2003, the Public Audit (Wales) Act 2004, and the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. Then, in 2006, there were three Wales-only Bills—the Commissioner for Older People (Wales) Bill, the Transport (Wales) Bill and, of course, the Bill that led to the Government of Wales Act 2006. Now, in the post-2006 Act era, which really began when it was enacted on 1 April 2007, the possibilities to fortify our legislative scope have increased again.

It does not matter whether powers are gained in the passive mode, through framework powers, or in the active mode, when we make our request, because it all means that we are getting used to the process of legislation. We, as a Government are getting used to it; we, as backbenchers, are getting used to it through scrutiny powers; and our officials, lawyers and draftspeople are developing the skills of being a legislature.

I can mention two Bills from earlier UK legislative programmes that have made it on to the statute book in the past two weeks, both containing significant Measure-making powers for the Assembly. We will have to get used to the phrase 'Measure-making' as it means 'lawmaking' to everyone else. The Marine and Coastal Access Act 2009 provides powers underpinning the 'One Wales' commitment to provide a coastal path around Wales. The Local Democracy, Economic Development and Construction Act 2009 confers Measure-making powers in

un Mesur bob pum mlynedd i fod yn un Mesur y flwyddyn, fwy neu lai, pan oedd hynny'n digwydd ar gais, a San Steffan fyddai'n gwneud y gwaith deddfu. Mae'n amlwg ei fod yn digwydd gryn dipyn yn amlach na hynny'n awr, drwy'r ddau lwybr a eglurir yn Rhan 3—pwerau fframwaith a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Hoffwn restru'r Deddfau a ddaeth yn gyfraith yn ystod dyddiau cynnar datganoli, o gofio iddynt gael eu pasio yn San Steffan ar ein cais ni.

Pasiwyd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, Deddf Iechyd (Cymru) 2003, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Yna, yn 2006, pasiwyd tri Mesur yn ymwneud â Chymru'n unig—Mesur Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru), Mesur Trafnidiaeth (Cymru) ac, wrth gwrs, y Mesur a arweiniodd at Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn awr, yn ystod y cyfnod wedi Deddf 2006, a ddechreuodd mewn gwirionedd pan ddaeth y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2007, mae'r posibiladau i atgyfnerthu ein cwmpas deddfwriaethol wedi cynyddu eto.

Nid oes gwahaniaeth a geir pwerau mewn modd goddefol, drwy bwerau fframwaith, ynteu mewn modd gweithredol, pan fyddwn yn cyflwyno ein cais, oherwydd mae'r ddau fodd yn golygu ein bod yn ymgyfarwyddo â'r broses ddeddfu. Yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn ymgyfarwyddo â hi; yr ydym ni, fel aelodau'r meinciau cefn, yn ymgyfarwyddo â hi drwy bwerau craffu; ac y mae ein swyddogion, ein cyfreithwyr a'r sawl sy'n gyfrifol am ddrafftio wrthi'n datblygu'r sgiliau sy'n ymwneud â bod yn ddeddfwrfa.

Gallaf sôn am ddau Fesur o raglenni deddfwriaethol cynharach y DU, sydd wedi cyrraedd y llyfrau statud yn ystod y pythefnos diwethaf, a'r ddau'n cynnwys pwerau sylweddol i'r Cynulliad o ran llunio Mesurau. Bydd angen inni ymgyfarwyddo â'r ymadrodd 'llunio Mesurau' oherwydd ei ystyr yw 'pwerau deddfu' i bawb arall. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi pwerau sy'n ategu'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i ddarparu llwybr o amgylch arfordir Cymru. Mae Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu

relation to the governance, overview and scrutiny arrangements of local authorities. Many will be aware that, in the same period, we have concluded the transfer of responsibility for building regulations to the Assembly, demonstrating that sometimes we can widen, as well as deepen, the devolution settlement.

That is why the Queen's Speech that we are considering today is of such importance. It may be the last Queen's Speech of this Parliament. Sometimes, people say 'Oh, it's the fag end of a Parliament', but if you look back at what happened in 1996-97, in the fag end of the Parliament under the John Major Government, you will see that a great deal was done. Although some of those Bills are shortened in the wash-up procedures, having quite a short Parliament sometimes concentrates the mind. Therefore, following this Queen's Speech, Parliament may not have many days to turn the Bills into Acts of Parliament—the House of Commons only has 70 working days—but, on the 1996-97 precedent, many of these Bills will turn into Acts of Parliament. The speech contains proposed Bills that will continue the gradual transfer of legislative power to Wales.

The Children, Schools and Families Bill includes a framework power that will enable us to regulate home education for those of compulsory school age in Wales. The same Bill will extend powers to Welsh Ministers to require information from governing bodies in Wales. One of the many misguided amendments tabled by the Liberal Democrats criticises the absence of framework powers over school governance, when our own legislative programme includes an LCO to draw down comprehensive powers to this Assembly for precisely that purpose.

The Constitutional Reform and Governance

2009 yn rhoi pwerau llunio Mesurau yng nghyswllt trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer llywodraethu, goruchwyllo a chraffu. Bydd llawer yn gwybod ein bod, yn ystod yr un cyfnod, wedi gorffen trosglwyddo cyfrifoldeb am reoliadau adeiladu i'r Cynulliad, sy'n dangos y gallwn weithiau ehangu'r setliad datganoli yn ogystal â'i ddwysáu.

Dyna pam mae Araith y Frenhines, yr ydym yn ei hystyried heddiw, mor bwysig. Efallai mai hon fydd Araith olaf y Frenhines yn ystod y Senedd hon. Weithiau, bydd pobl yn dweud, 'O, mae'r Senedd yn dod i'w diwedd', ond o edrych yn ôl ar yr hyn a ddigwyddodd yn 1996-97, wrth i'r Senedd dan Lywodraeth John Major ddod i'w diwedd, fe welwch fod cryn dipyn wedi'i gyflawni. Er y caiff rhai o'r Mesurau eu cwtogi yn ystod y gweithdrefnau sydd ar waith yn y cyfnod rhwng cyhoeddi etholiad cyffredinol a diddymu'r Senedd, mae cael Senedd ddigon byr weithiau'n gymorth i ganolbwyntio'r meddwl. Felly, yn dilyn yr Araith hon gan y Frenhines, mae'n wir dweud na fydd gan y Senedd lawer o ddiwrnodau i droi Mesurau'n Ddeddfau Seneddol—70 yn unig o ddiwrnodau gwaith sydd gan Dŷ'r Cyffredin—ond, ar sail yr hyn a ddigwyddodd yn 1996-97, bydd llawer o'r Mesurau hyn yn troi'n Ddeddfau Seneddol. Mae'r araith yn cynnwys Mesurau arfaethedig a fydd yn parhau'r broses o drosglwyddo pŵer deddfu yn raddol i Gymru.

Mae'r Mesur ynghylch Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn cynnwys pŵer fframwaith a fydd yn ein galluogi i reoleiddio addysg yn y cartref ar gyfer pobl o oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Bydd yr un Mesur yn ymestyn pwerau i Weinidogion Cymru fynnu gwybodaeth gan gyrff llywodraethu yng Nghymru. Mae un o'r gwelliannau cyfeiliornus niferus a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn beirniadu absenoldeb pwerau fframwaith dros lywodraethu ysgolion, a'n rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain yn cynnwys Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i gael pwerau cynhwysfawr i'r Cynulliad at yr union ddiben hwnnw.

Mae'r Mesur ynghylch Diwygio

Bill includes a Measure-making power provision that would enable the Assembly to legislate on the governance and accountability arrangements for the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office. To be clear, that is not a power that will transfer to Welsh Ministers but, quite properly, to this Assembly as a whole.

Bwriad y Mesur ar Reoli Llifogydd a Dŵr yw cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar lifogydd a dŵr, a bydd yn caniatáu dull cynaliadwy o reoli'r perygl o lifogydd. Mae'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, a'r bwriad yw amddiffyn grwpiau a chymunedau rhag codiadau anfforddiadwy yn y gost o gael gwared ar ddŵr ar y wyneb, ac amddiffyn cyflenwadau dŵr glân i ddinasyddion a defnyddwyr.

By providing a greater clarity of roles and responsibilities, the Bill will contribute to the protection of the public in Wales. After the events of the past few weeks in Cumbria, I am sure that no-one will argue that strengthening the ability of the Assembly to deal with the risk of flooding is an insignificant addition to our legislative capacity, and hence our ability to respond to Welsh needs. That is surely the key to all of this. The whole purpose of devolution has been to bring decision-making powers closer to the people of Wales via the different routes available following the several Acts of Parliament that have led to devolution being where it is today. The whole reason behind the progressive strengthening of the legislative capacity of the Assembly has been to make us more effective in that effort to solve the problems that afflict the people of Wales. This Queen's Speech contributes greatly to the ability that we have—and will have—to deal with problems as they arise in Wales. We expect to have some of those powers feeding through to us from the progress made on those Bills in Parliament. I welcome the Queen's Speech and I commend it to the Assembly.

Mark Isherwood: I move amendment 1 in the name of Alun Cairns. Add a new point at the end of the motion:

Cyfansoddiadol a Llywodraethu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pwerau llunio Mesurau, a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. I egluro, pŵer a drosglwyddir i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd yw'r pŵer dan sylw, nid pŵer a drosglwyddir i Weinidogion Cymru, ac y mae hynny'n hollol briodol.

The intention of the Flood and Water Management Bill is to strengthen existing flood and water legislation, and to enable a sustainable approach to flood risk management. This Bill provides various powers to the Welsh Ministers, and aims to help safeguard community groups from unaffordable rises in surface water drainage charges and to protect water supplies to citizens and the consumer.

Drwy sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n fwy eglur, bydd y Mesur yn cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd yng Nghymru. Ar ôl digwyddiadau'r ychydig wythnosau diwethaf yn Cumbria, yr wyf yn siŵr na fyddai neb yn dadlau nad yw cryfhau gallu'r Cynulliad i ymdrin â pherygl lifogydd yn ychwanegiad pwysig at ein gallu deddfwriaethol, a'n gallu felly hefyd i ymateb i anghenion yng Nghymru. Rhaid mai dyna yw'r allwedd i hyn i gyd. Holl ddiben datganoli fu dod â phwerau i wneud penderfyniadau yn nes at bobl Cymru, drwy'r gwahanol lwybrau sydd ar gael yn dilyn llawer o Ddeddfau Seneddol sydd wedi arwain at sefyllfa datganoli heddiw. Cryfhawyd gallu deddfwriaethol y Cynulliad gam wrth gam er mwyn ein gwneud yn fwy effeithiol yn yr ymdrech i ddatrys y problemau sy'n poeni pobl Cymru. Mae'r Araith hon gan y Frenhines yn cyfrannu'n sylweddol at y gallu sydd gennym—ac a fydd gennym—i ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi yng Nghymru. Disgwyliwn weld rhai o'r pwerau dan sylw'n ein cyrraedd yn sgil y cynnydd a wnaed ar y Mesurau hynny yn y Senedd. Croesawaf Araith y Frenhines, ac fe'i cymeradwyaf i'r Cynulliad.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 1 yn enw Alun Cairns. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

condemns the UK Government for failing to address the problems faced by the people of Wales and the UK in its legislative programme for 2009/2010.

It is an honour to follow Rhodri Morgan in his last debate on a Queen's Speech as First Minister, although I suspect that he may not like everything that I have to say. I also welcome back Peter Hain, whose permattanned retreat resurrected the undead. Did we not miss his pontificating—*[Interruption.]*

5.10 p.m.

The Deputy Presiding Officer: Order. Mark Isherwood, that was inappropriate language. Could you please rephrase it?

Mark Isherwood: Which part?

The Deputy Presiding Officer: If you do not know which part, that says a lot.

Mark Isherwood: I withdraw any inappropriate language used.

He still fails to grasp that Wales is a land of light, and not a realm of darkness. He and his kind may think that they can continue to feed off the life essence of the living in Wales, but they should be mindful that the Vatican has described the vampire franchise as a moral vacuum with a deviant message. So it is with the Labour Government and this Queen's Speech. This is a Secretary of State who used his visit to Airbus in Flintshire as a platform for an electioneering rant and for scaremongering. However, he was right to say that you do not defeat racists by ignoring them, and that we need to elect politicians who will deliver policies that will improve conditions for the whole community. He did not say that the UK has seen the largest rise in unemployment on record, a record drop in employment, youth unemployment at its highest level since comparable records began—indeed the highest level of youth unemployment of any European country—and the highest number of economically inactive people of working age since comparable records began in 1971.

yn condemnio Llywodraeth y DU am fethu rhoi sylw i'r problemau a wynebir gan bobl Cymru a'r DU yn ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009/2010.

Mae'n ffrind cael dilyn Rhodri Morgan yn ei ddadl olaf ar Araith y Frenhines fel Prif Weinidog, er fy mod yn amau na fydd yn hoffi popeth yr wyf am ei ddweud. Yn ogystal, hoffwn groesawu Peter Hain yn ôl, sydd wedi deffro'r anfeirw â'i liw haul parhaol. Oni welsom eisiau ei ddoethinebu—*[Torri ar draws.]*

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mark Isherwood, yr oedd yr iaith a ddefnyddiwyd gennych yn amhriodol. A wnewch chi aralleirio'r hyn a ddywedasoch?

Mark Isherwood: Pa ran?

Y Dirprwy Lywydd: Mae'r ffaith nad ydych yn gwybod pa ran yn dweud llawer.

Mark Isherwood: Yr wyf yn tynnu unrhyw iaith amhriodol a ddefnyddiwyd yn ôl.

Nid yw'n deall o hyd bod Cymru'n rhodio mewn goleuni yn hytrach nag mewn tywyllwch. Efallai ei fod ef a'i debyg yn meddwl y gallant barhau i fwydo ar hanfod popeth byw yng Nghymru, ond dylent gofio mai lle anfoesol gyda neges wyrdröedig yw teyrnas fampirod, yn ôl y Fatican. Mae hynny'n wir hefyd am y Llywodraeth Lafur a'r Araith hon gan y Frenhines. Dyma Ysgrifennydd Gwladol a ddefnyddiodd ei ymweliad ag Airbus yn Sir y Fflint fel llwyfan i ymgyrchu ar gyfer etholiad a chodi bwganod. Fodd bynnag, yr oedd yn iawn wrth ddweud na allwch drechu pobl hiliol drwy eu hanwybyddu, a bod angen inni ethol gwleidyddion a fydd yn gweithredu polisïau a fydd yn gwella amodau i'r gymuned gyfan. Ni ddywedodd fod y DU wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn diweithdra ers dechrau cadw cofnodion, gostyngiad na welwyd ei debyg o'r blaen mewn lefelau cyflogaeth, y lefelau uchaf o ddiweithdra ymysg pobl ifanc ers dechrau cadw cofnodion cymaradwy—yn wir, yma mae'r lefel uchaf yn Ewrop o ddiweithdra ymysg pobl ifanc—a'r nifer uchaf o bobl

economaidd anweithgar o oed gweithio, ers dechrau cadw cofnodion cymaradwy yn 1971.

After the doubling of the Labour-led Welsh Government budget, billions in European funding, and 16 years of economic growth, Wales has the highest unemployment rate of all UK nations—550,000 working-age people not in work—the highest child poverty of all UK nations, and the lowest value of goods and services produced per head of population of all 12 UK nations and regions. Labour is now imposing severe spending cuts in Wales because Gordon Brown's debt-driven boom and bust has left the UK hardest hit by recession. As the great economist Keynes said, 'When the facts change, I change my mind'.

Ar ôl dyblu cyllideb Llywodraeth Cymru dan arweiniad y Blaid Lafur, cael biliynau o gyllid Ewropeaidd a chael 16 mlynedd o dwf economaidd, yng Nghymru y gwelir y gyfradd ddiweithdra uchaf yn holl wledydd y DU—mae 550,000 o bobl o oed gweithio yn ddi-waith—y lefelau uchaf o dlodi plant yn holl wledydd y DU, a'r gwerth isaf o ran nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir fesul pen o'r boblogaeth o bob un o 12 gwlad a rhanbarth y DU. Erbyn hyn, mae'r Blaid Lafur yn cyflwyno toriadau llym ar wario yng Nghymru oherwydd bod cyfnod Gordon Brown o ffynnu a ffael, a sbardunwyd gan ddyledion, yn golygu mai'r DU sy'n dioddef waethaf oherwydd y dirwasgiad. Fel y dywedodd yr economegydd enwog, Keynes, Pan fydd y ffeithiau'n newid, byddaf finnau'n newid fy meddwl.

As written in *The Economist*, most of the economics are now on Mr Osborne's side. A Conservative Government would drive growth, thereby supporting business, jobs and investment. Labour instead proposes to turn a debt-driven crisis into disaster, because that economic gremlin, Gordon Brown, still has not grasped that living on the never-never never works for ever and ever. If current Labour policy continues, we will not be able to do anything but sign cheques that we cannot honour.

Fel yr ysgrifennwyd yn *The Economist*, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth economaidd o blaid Mr Osborne erbyn hyn. Byddai Llywodraeth Geidwadol yn hybu twf, ac felly'n cefnogi byd busnes, swyddi a buddsoddi. Yn lle hynny, mae'r Blaid Lafur yn bwriadu troi argyfwng a sbardunwyd gan ddyledion yn drychineb, oherwydd nid yw Gordon Brown, yr ellyll economaidd, wedi deall o hyd na ellir byw'n ddiddiwedd ar ddyled ddiddiwedd. Os bydd polisi presennol y Blaid Lafur yn parhau, ni fydd modd inni wneud dim ond llofnodi sieciau am symiau na allwn eu talu.

Jeff Cuthbert: I am a little wary about asking you to give way, in case you quote long-dead Greeks at me again. You are speaking to your amendment 1, which is wholly negative, as is your speech. Why did you not use the opportunity to tell us in your amendment, or indeed in your speech, what your party would do if you were writing the Queen's Speech? Will we hear that?

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn petruso ychydig cyn gofyn ichi ildio, rhag ofn ichi aildechrau dyfynnu Groegiaid sydd wedi hen farw. Yr ydych yn siarad am welliant 1, a gynigiwyd gennych, sy'n hollol negyddol, fel eich araith. Pam na wnaethoch fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud wrthym yn eich gwelliant, neu yn eich araith hyd yn oed, beth fyddai eich plaid chi'n ei wneud pe bai'n ysgrifennu Araith y Frenhines? A gawn ni glywed hynny?

Mark Isherwood: Yes.

Mark Isherwood: Cewch.

Journalists were briefed on detailed changes to the proposed Welsh-language LCO before

Cafodd newyddiadurwyr wybod am newidiadau manwl yn y Gorchymyn

the Welsh Minister for Heritage had had the opportunity to make a statement to the Assembly. The Secretary of State stated that he was not responsible. He referred the proposed Order to the Welsh Grand Committee, on the grounds that it was complex or of considerable political interest, despite not having done so with previous proposed Orders, which were equally complex or of political interest. His intervention with that proposed Order represented an unprecedented intrusion by the UK Government, setting a worrying constitutional precedent for the drafting of LCOs, under which the Assembly is only granted powers on the condition that a future Measure includes certain specified provisions.

This is a Secretary of State who, only yesterday, issued a joint statement with his outgoing deputy, Rhodri Morgan, that stated that the All Wales Convention's report on primary legislative powers and a referendum would now be delayed so that the Labour Party could consult with itself after the general election. I remind him that the Assembly represents all the people of Wales and not only the narrow interests of his party or any other one party. The Queen's Speech has come from a Government that has run out of time and ideas. We are mired in the deepest and longest recession since the second world war, with deep social problems and a political system that is held in contempt. The Queen's Speech ought to be about radical ideas to deal with this triple crisis; instead, it is little more than a Labour press release on palace parchment. Instead of trying to serve the country, Labour is trying to save itself.

Between the July-to-September 2009 quarter and the preceding quarter, Wales lost almost half of all the UK jobs that were lost, despite Wales only having 5 per cent of the UK population. There are some 4 million children living in poverty in the UK, 400,000 more than in 2004. Across England and Wales in 2008-09, there were 3.7 million incidents of

Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch yr iaith Gymraeg cyn i Weinidog Cymru dros Dreftadaeth gael cyfle i wneud datganiad i'r Cynulliad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol nad ef oedd yn gyfrifol. Cyfeiriodd y Gorchymyn arfaethedig at yr Uwch-bwyllgor Cymreig oherwydd ei fod yn gymhleth neu o ddiddordeb gwleidyddol sylweddol, er na wnaeth hynny gyda Gorchmynion arfaethedig blaenorol a oedd lawn mor gymhleth neu o ddiddordeb gwleidyddol llawn cymaint. Yr oedd y modd yr ymyrrodd â'r Gorchymyn arfaethedig hwnnw'n ymyrryd na welwyd ei debyg o'r blaen gan Lywodraeth y DU, ac yr oedd yn gosod cynsail cyfansoddiadol sy'n peri pryder am ddrafftio Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, lle na chaiff y Cynulliad bwerau ond ar yr amod bod Mesur yn y dyfodol yn cynnwys rhai darpariaethau penodol.

Dyma Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddodd, ddoe ddiwethaf, ddatganiad ar y cyd â'i ddirprwy sydd ar fin gorffen, Rhodri Morgan, yn dweud y byddai ychydig oedi'n awr cyn ystyried adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan ar bwerau deddfu sylfaenol a refferendwm, er mwyn i'r Blaid Lafur allu ymgynghori â hi ei hun ar ôl yr etholiad cyffredinol. Hoffwn ei atgoffa bod y Cynulliad yn cynrychioli pawb yng Nghymru, nid yn unig fuddiannau cul ei blaid ef neu unrhyw blaid arall. Mae Araith y Frenhines wedi deillio o Lywodraeth nad oes ganddi ragor o amser na syniadau. Yr ydym mewn trafferth ynghanol y dirwasgiad hwyaf a dwysaf ers yr ail ryfel byd, ac y mae gennym broblemau cymdeithasol dwys a system wleidyddol sy'n destun gwawd. Dylai Araith y Frenhines fod yn sôn am syniadau radical i ymdrin â'r argyfwng triphlyg hwn; yn hytrach, nid oes ynddi fawr ddim mwy na datganiad i'r wasg gan y Blaid Lafur ar femrwn o'r palas. Yn hytrach na cheisio gwasanaethu'r wlad, mae'r Blaid Lafur wrthi'n ceisio'i hachub ei hun.

Rhwng y chwarter o fis Gorffennaf i fis Medi 2009 a'r chwarter blaenorol, collodd Cymru bron i hanner yr holl swyddi a gollwyd yn y DU, er mai 5 y cant yn unig o boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru. Mae tua 4 miliwn o blant yn byw mewn tlodi yn y DU, 400,000 yn fwy nag yn 2004. Ar draws Cymru a Lloegr yn 2008-09 cofnododd yr

anti-social behaviour recorded by police, which equates to more than 10,000 incidents every day.

Alun Davies *rose*—

Mark Isherwood: I therefore commend amendment 1 to the Assembly, which condemns the UK Government for failing to address the problems faced by the people of Wales and the UK in its legislative programme for 2009-10.

I will take an intervention from Alun as my last intervention.

Alun Davies: Do you share my disappointment that the leader of the opposition could not join us for this debate this afternoon?

Mark Isherwood: That is a matter for the leader of the opposition.

We will not oppose any of the Liberal Democrat amendments, and we share their concern that the Constitutional Reform and Governance Bill does not deliver the political reform necessary to restore trust in the political system. There are no plans to implement the Kelly report on MPs' expenses, to cut the cost of politics, or to decentralise power. This Bill will do nothing to restore trust in politics.

The Crime and Security Bill contains a variant of Labour's anti-social behaviour order policy and a variant of stop and search forms, the use of which has sky-rocketed under Labour. The party has done more than any other to ceaselessly erode our hard-fought civil liberties. More than 60 crime Bills have been introduced under Labour in the last 12 years and more than 3,000 new criminal offences have been created. Yet Labour has presided, as we heard earlier, over a 48 per cent increase in violent crime in Wales. Labour's anti-crime policies are not working.

heddlu 3.7 miliwn o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n cyfateb i dros 10,000 o ddigwyddiadau bob dydd.

Alun Davies *a gododd*—

Mark Isherwood: Yr wyf felly'n cymeradwyo gwelliant 1 i'r Cynulliad, sy'n condemnio Llywodraeth y DU am fethu â rhoi sylw i'r problemau sy'n wynebu pobl Cymru a'r DU yn ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009-10.

Cymeraf ymyriad gan Alun, a hwnnw fydd yr ymyriad olaf a gymeraf.

Alun Davies: A ydych chi, fel finnau, wedi eich siomi na allai arweinydd yr wrthblaid ymuno â ni ar gyfer y ddatl hon y prynhawn yma?

Mark Isherwood: Mater i arweinydd yr wrthblaid yw hynny.

Ni fyddwn yn gwrthwynebu'r un o welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac yr ydym ni, fel hwythau, yn pryderu nad yw'r Mesur ynghylch Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu yn sicrhau'r diwygio gwleidyddol angenrheidiol i adfer ymddiriedaeth pobl yn y system wleidyddol. Nid oes cynlluniau i weithredu adroddiad Kelly ar dreuliau Aelodau Seneddol, lleihau cost gwleidyddiaeth na datganoli grym. Ni fydd y Mesur hwn yn gwneud dim i adfer ymddiriedaeth pobl mewn gwleidyddiaeth.

Mae'r Mesur ynghylch Troseddau a Diogelwch yn cynnwys amrywiad ar bolisi gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol y Blaid Lafur ac amrywiad ar ffurflenni stopio a chwilio, y mae'r defnydd a wneir ohonynt wedi saethu i fyny dan y Blaid Lafur. Mae'r blaid wedi gwneud mwy na'r un blaid arall i erydu yn ddiddiwedd ein rhyddid sifil, yr ydym wedi brwydro mor galed i'w ennill. Mae dros 60 o Fesurau'n ymwneud â throseddau wedi'u cyflwyno dan y Blaid Lafur yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, ac y mae dros 3,000 o droseddau newydd wedi'u creu. Eto fyth, dan lywodraeth y Blaid Lafur, fel y clywsom yn gynharach, mae troseddau treisgar yng Nghymru wedi cynyddu dros 48 y cant. Nid yw polisïau'r Blaid Lafur i atal troseddau yn gweithio.

The fact that Labour is now looking at parenting orders for the parents of young people at risk of getting ASBOs is an admission of its failure to tackle the root causes of broken Britain. Police officers spend more time on paperwork than on patrol and the Conservatives have already proposed scrapping stop and search forms entirely. We have pledged to give police officers powers to deal with young troublemakers quickly and effectively before they go on to commit more serious offences.

DNA evidence is an important tool for criminal investigation, but Conservatives have respect for the fundamental principle of the justice system, that people are innocent until proven guilty.

Rhodri Glyn Thomas: Will you give way?

The Deputy Presiding Officer: Order. I do not think that Mark is taking any more interventions.

Mark Isherwood: If elected as the UK Government, we will end the retention of innocent people's DNA profiles, except when the charges relate to violent or sexual offences.

We support the aim to end child poverty by 2020 and our Westminster colleagues have worked hard to ensure that the Child Poverty Bill contains sensible measures to achieve this. What we need is real progress towards meeting that target, not empty promises from the Prime Minister. The Government is heading in completely the wrong direction. Its own figures show that the number of children living in poverty has risen for three years in a row. On current progress, it will miss its target to halve child poverty by 2010 by 600,000 children.

The Financial Services Bill ignores the key issue that the tripartite scheme designed by Gordon Brown has failed. We need a strong

Mae'r ffaith fod y Blaid Lafur bellach yn ystyried cyflwyno gorchmynion rhianta i rieni pobl ifanc sydd mewn perygl o gael gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyfaddefiad o fethiant y blaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol Prydain sydd ar chwâl. Mae swyddogion yr heddlu'n treulio mwy o amser yn gwneud gwaith papur nag yn patrolio, ac y mae'r Ceidwadwyr eisoes wedi cynnig dileu'n llwyr ffurflenni atal a chwilio. Yr ydym wedi addo rhoi pwerau i swyddogion heddlu i ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol â phobl ifanc sy'n creu helynt, cyn iddynt fynd ymlaen i gyflawni troseddau mwy difrifol.

Mae tystiolaeth DNA yn adnodd pwysig ar gyfer ymchwiliadau troseddol, ond y mae'r Ceidwadwyr yn parchu egwyddor sylfaenol y system gyfiawnder, sef bod pobl yn ddiuog nes profir eu bod yn euog.

Rhodri Glyn Thomas: A wnewch chi ildio?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid wyf yn credu bod Mark yn bwriadu cymryd rhagor o ymyriadau.

Mark Isherwood: Os cawn ein hethol yn Llywodraeth y DU, byddwn yn rhoi terfyn ar yr arfer o gadw proffiliau DNA pobl ddiuog, oni bai bod y cyhuddiadau'n ymwneud â throseddau treisgar neu rywiol.

Yr ydym yn cefnogi'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020, ac y mae ein cydweithwyr yn San Steffan wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y Mesur ynghylch Tlodi Plant yn cynnwys mesurau synhwyrol i gyflawni hynny. Yr hyn y mae arnom ei angen yw cynnydd gwirioneddol i gyrraedd y targed hwnnw, nid addewidion gwag gan Brif Weinidog y DU. Mae'r Llywodraeth yn mynd i'r cyfeiriad hollol anghywir. Mae ei ffigurau ei hun yn dangos bod nifer y plant sy'n byw mewn tlodi'n awr wedi codi bob blwyddyn ers tair blynedd. Ar sail y cynnydd a wneir ar hyn o bryd, bydd y Llywodraeth yn methu ei tharged i haneru tlodi plant erbyn 2010 o 600,000 o blant.

Mae'r Mesur ynghylch Gwasanaethau Ariannol yn anwybyddu'r mater allweddol, sef bod y cynllun teiran a luniwyd gan

new consumer protection agency and for the Bank of England to be responsible for prudential regulation to give us real reform and to learn the lessons of the crisis.

The budget deficit poses the greatest threat to our economy and future. However, if Gordon Brown thinks that he can cut the deficit by passing a law without telling us how it will be done, he is living in la-la Labour land. Too many people face discrimination because of their race, gender, religion, age, sexuality or background, but too many of the proposals in the Equality Bill will be bureaucratic and expensive without providing real results.

We deplore proposals in the Personal Care at Home Bill that will take, on average, £3,400 in disability benefits per year away from 2.4 million pensioners, wrecking their chances of living independently and having the freedom to tailor their care to their needs.

Conservatives promise real reforms to improve public services, to tackle the root causes of poverty, and to help the unemployed back to work. Under Gordon Brown's rudderless leadership, his Government has run out of money, run out of time and run out of ideas. We do not need an electioneering Queen's Speech, we need an election.

Kirsty Williams: I move the following amendments in the name of Peter Black. Amendment 2: add a new point at the end of the motion:

notes that there are less than 70 legislative days left before the dissolution of Parliament and believes that it is highly unlikely that the draft legislative agenda in the Queen's Speech will be achieved.

Amendment 3: add a new point at the end of the motion:

Gordon Brown wedi methu. Mae arnom angen asiantaeth newydd, gref i ddiogelu defnyddwyr, a chael Banc Lloegr i fod yn gyfrifol am reoleiddio materion ariannol i roi inni ddiwygio go iawn ac i ddysgu gwersi o'r argyfwng.

Y diffyg yn y gyllideb yw'r bygythiad mwyaf i'n heconomi a'n dyfodol. Fodd bynnag, os yw Gordon Brown yn meddwl y gall leihau'r diffyg drwy basio deddf heb ddweud wrthym sut y gwneir hynny, mae â'i ben yn y cymylau—cymylau'r Blaid Lafur. Mae gormod o bobl yn wynebu gwahaniaethu oherwydd eu hil, eu rhyw, eu crefydd, eu hoed, eu rhywioldeb neu eu cefndir, ond bydd gormod o'r cynigion yn y Mesur ynghylch Cydraddoldeb yn fiwrocraidd ac yn ddrud heb sicrhau canlyniadau go iawn.

Yr ydym yn gresynu at gynigion yn y Mesur ynghylch Gofal Personol yn y Cartref, a fydd, ar gyfartaledd, yn cymryd £3,400 o fudd-daliadau anabledd y flwyddyn oddi ar 2.4 miliwn o bensiynwyr, gan ddifetha'u cyfleoedd i fyw'n annibynnol a chael y rhyddid i gynllunio'u gofal yn ôl eu hanghenion.

Mae'r Ceidwadwyr yn addo diwygiadau go iawn i wella gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tloidi, a helpu pobl ddi-waith i aildechrau gweithio. Dan arweinyddiaeth ddigyfeiriad Gordon Brown, nid oes gan ei Lywodraeth ragor o arian, amser na syniadau. Nid Araith gan y Frenhines i ymgyrchu cyn etholiad sydd arnom ei hangen, ond etholiad.

Kirsty Williams: Cynigïaf y gwelliannau canlynol yn enw Peter Black. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi bod llai na 70 diwrnod deddfu ar ôl cyn diddymu'r Senedd ac yn credu ei bod yn annhebygol iawn y cyflawnir yr agenda ddeddfwriaethol ddrfft yn Araith y Frenhines.

Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the Constitutional Reform and Governance Bill does not go far enough in pursuing essential political reform to restore trust in the political system.

yn credu nad yw'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu yn mynd yn ddigon pell ar drywydd diwygiadau gwleidyddol hanfodol er mwyn adfer ymddiriedaeth yn y system wleidyddol.

Amendment 4: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

regrets the lack of framework powers over local government electoral reform in the Constitutional Reform and Governance Bill.

yn gresynu wrth y diffyg pwerau fframwaith dros ddiwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yn y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu.

Amendment 5: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 5: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

regrets the lack of framework powers over school governance and funding in the Children, Schools and Families Bill.

yn gresynu wrth y diffyg pwerau fframwaith dros gyllido a llywodraethu ysgolion yn y Mesur Seneddol ynghylch Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Amendment 6: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 6: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

regrets the lack of framework powers over policing in the Crime and Security Bill.

yn gresynu wrth y diffyg pwerau fframwaith dros blismona yn y Mesur Seneddol ynghylch Troseddau a Diogelwch.

Amendment 7: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 7: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes the Crime and Security Bill should be used to develop a strategy for devolving justice to Wales.

yn credu y dylid defnyddio'r Mesur Seneddol ynghylch Troseddau a Diogelwch i ddatblygu strategaeth ar gyfer datganoli cyfiawnder i Gymru.

Amendment 8: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 8: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that there must be an effort to ensure that Welsh broadband provision keeps apace of English provision in the Digital Economy Bill.

yn credu bod yn rhaid ymdrechu i sicrhau bod darpariaeth band eang yng Nghymru cystal â'r ddarpariaeth yn Lloegr yn y Mesur Seneddol ynghylch yr Economi Ddigidol.

Amendment 9: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 9: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the Digital Economy Bill should establish an independently financed news consortium in Wales and that commissioning decisions relating to this must be made by a Welsh body.

yn credu y dylai'r Mesur Seneddol ynghylch yr Economi Ddigidol sefydlu consortiwm newyddion a gyllidir yn annibynnol yng Nghymru ac y dylai corff yng Nghymru wneud y penderfyniadau comisiynu sy'n berthnasol i hyn.

Amendment 10: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 10: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes that the UK Government must protect front-line services in any attempt to reduce the budget deficit as a result of the fiscal responsibility Bill.

yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ddiogelu gwasanaethau rheng flaen mewn unrhyw ymgais i leihau'r diffyg yn y gyllideb o ganlyniad i'r Mesur Seneddol ynghylch cyfrifoldeb ariannol.

Amendment 11: add a new point at the end of the motion:

Gwelliant 11: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

regrets the lack of framework powers over eligibility criteria for personal care in the Personal Care at Home Bill.

yn gresynu wrth y diffyg pwerau fframwaith dros feini prawf cymhwyso ar gyfer gofal personol yn y Mesur Seneddol ynghylch Gofal Personol yn y Cartref.

In the Queen's Speech debate a year ago, I argued that our politics and our economy were broken. Sadly, 12 months later, we find ourselves in the same position. It is therefore a source of huge regret to me that this legislative programme does not address these two pressing and huge challenges.

Yn y ddadl ar Araith y Frenhines flwyddyn yn ôl, dadleuais fod ein gwleidyddiaeth a'n heconomi ar chwâl. Yn anffodus, 12 mis yn ddiweddarach yr ydym yn yr un sefyllfa. Felly, yr wyf yn gresynu'n fawr nad yw'r rhaglen ddeddfwriaethol hon yn rhoi sylw i'r ddwy her hyn sy'n enbyd ac yn enfawr.

5.20 p.m.

In effect, this Queen's Speech was reduced to little more than a farcical ceremony. With less than 70 legislative days left in the House of Commons, there is not much chance that the majority of this programme will be adopted—but given the woeful nature of the programme served up in the speech that may be no bad thing. What marked this Queen's Speech out was that it was the most overtly party political and cynical that I have witnessed in my time as an Assembly Member. It is clear that Labour in Westminster has run out of ideas, money and time. As the Labour Government grinds to halt, the vision and ambition that Wales so badly needs are in short supply.

Mewn gwirionedd, nid oedd yr Araith hon gan y Frenhines yn ddim byd mwy na seremoni chwerthinlyd. O gofio bod llai na 70 diwrnod deddfu ar ôl yn Nhŷ'r Cyffredin, nid oes llawer o obaith y bydd y rhan fwyaf o'r rhaglen hon yn cael ei mabwysiadu—ond o gofio natur druenus y rhaglen a gyflwynwyd yn yr araith, hwyrach nad yw hynny'n beth drwg. Yr hyn a oedd yn nodedig am Araith y Frenhines oedd y ffaith mai hon oedd yr araith fwyaf sinigaidd a phleidiol, a hynny'n gwbl agored, imi fod yn dyst iddi erioed yn ystod fy nghyfnod fel Aelod o'r Cynulliad. Mae'n amlwg nad oes gan y Blaid Lafur yn San Steffan ragor o syniadau, arian nac amser. Wrth i'r Llywodraeth Lafur ddod i ben yn araf bach, prin yw'r weledigaeth a'r uchelgais y mae cymaint o'u hangen ar Gymru.

The most cynical of the Bills that we were

Y Mesur mwyaf sinigaidd a gyflwynwyd inni

presented with is the fiscal responsibility Bill. It is a statement of duty long after the call to duty came. That Bill represents the worst type of political posturing. The deficit, which clearly needs to be reduced, can only be tackled with real action, not legislation alone, and nothing has been said to suggest what action the Labour Party will take. Indeed, as we learn more about the secret bailouts offered to banks last year, the idea of fiscal responsibility from the Labour Government looks more and more ridiculous.

Rhodri Glyn Thomas: I heard your criticism of the Queen's Speech. Are you telling me that you support the views of David Cameron and the Conservative Party? Obviously, the Liberal Democrats will not play any part in the next general election in 2010, so are you supporting the Conservative agenda with David Cameron?

Kirsty Williams: What a bizarre intervention, Rhodri Glyn. The Liberal Democrats have a complete platform that we will put before the electors of Wales and those across the whole of the UK. It is ridiculous to suggest that we are simply there to support David Cameron.

As I said, the fiscal responsibility Bill is completely ridiculous when you see what the Government has done. Our amendment 10 states that any reduction in the deficit as a result of the Bill should be tailored towards protecting front-line services. There will have to be a concerted effort to ensure that the inevitable and sizeable public spending cuts are delivered in a fair manner that prioritises vital front-line services. However, it is not just our economy and public finances that need to be fixed.

A year ago, I outlined how our political system needed dramatic reform. Let us reflect today on a year in which politics at Westminster has shown itself to be structurally and culturally unfit for purpose.

oedd y Mesur ynghylch cyfrifoldeb ariannol. Mae'n ddatganiad o ddyletswydd ymhell wedi'r alwad i gyflawni dyletswydd. Mae'r Mesur hwnnw'n adlewyrchu'r math gwaethaf o ymhonni gwleidyddol. Yr unig ffordd y gellir mynd i'r afael â'r diffyg y mae'n amlwg bod angen ei leihau yw drwy gymryd camau gweithredu gwirioneddol a pheidio â dibynnu ar ddeddfwriaeth yn unig, ac nid oes dim wedi'i ddweud i awgrymu pa gamau gweithredu y bydd y Blaid Lafur yn eu cymryd. Yn wir, wrth inni ddysgu mwy am y taliadau cyfrinachol i achub y banciau y llynedd, mae'r syniad o gyfrifoldeb ariannol gan y Llywodraeth Lafur yn ymddangos yn fwyfwy chwerthinllyd.

Rhodri Glyn Thomas: Clywais eich beirmiadaeth o Araith y Frenhines. A ydych yn dweud wrthyf eich bod yn cefnogi safbwyntiau David Cameron a'r Blaid Geidwadol? Ni fydd gan y Democratiaid Rhyddfrydol ddim rhan yn yr etholiad cyffredinol nesaf yn 2010, wrth gwrs, felly, a ydych yn cefnogi'r agenda Geidwadol gyda David Cameron?

Kirsty Williams: Am ymyriad rhyfedd, Rhodri Glyn. Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol stondin gyflawn y byddwn yn ei gosod gerbron etholwyr Cymru ac etholwyr ledled y DU. Mae'n chwerthinllyd awgrymu ein bod yno i gefnogi David Cameron.

Fel y dywedais, mae'r Mesur ynghylch cyfrifoldeb ariannol yn hollol chwerthinllyd o weld yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud. Mae ein gwelliant rhif 10 yn dweud y dylai ostyngiad yn y diffyg yn y gyllideb o ganlyniad i'r Mesur gael ei deilwra i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Bydd yn rhaid ymdrechu ar y cyd i sicrhau bod y toriadau anochel a sylweddol mewn gwariant cyhoeddus yn digwydd mewn modd teg sy'n rhoi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen hanfodol. Fodd bynnag, nid ein heconomi a'n harian cyhoeddus yw'r unig bethau y mae angen rhoi sylw iddynt.

Flwyddyn yn ôl, amlinellais y ffordd yr oedd angen diwygio ein system wleidyddol yn ddramatig. Heddiw, gadewch inni fyfyrto ynghylch blwyddyn lle mae gwleidyddiaeth yn San Steffan wedi dangos nad yw'n addas

The people of Wales have certainly not forgotten what has happened this spring and many now harbour a deep mistrust of politicians of all kinds and have seen little reform and action to calm the fury that they feel. Despite the fact that the MPs' expenses scandal has rocked politics to its very core, there is still no impetus for reform from this tired Government. Indeed, even the underwhelming Constitutional Reform and Governance Bill has moved on little in 12 months. It is shameful that this Labour Government has ducked this opportunity for meaningful reform. Now, as we approach a general election, is exactly the time to address these crucial issues, in time for the new Parliament. Now is the time to rebuild trust in the political system and to reinvigorate democracy in Wales and Westminster. Unless there is a move towards proportional representation at Westminster, towards limits on donations to keep vested interests out of politics, a move to fixed-term elections, the granting of power for constituents to recall MPs, and other essential political reforms, that Bill is not fit for purpose.

Earlier, in his contribution, the First Minister chided me for not focusing on the role of framework powers. I acknowledge, First Minister, that the All Wales Convention report demonstrates the importance of that mechanism, alongside the LCO mechanism, in drawing down powers to Wales. However, if it is so important and you are such a big fan of it, it begs the question as to why there are only two Bills in the current Queen's Speech that include framework powers, when there were many more opportunities for framework powers to be included. Those framework powers—one over the Auditor General for Wales and one over home education—are indeed welcome, however, the Children, Schools and Families Bill presented us with an opportunity to fast-track the proposed LCO on school governance. It presented an opportunity to get those powers here more quickly than we can through the proposed LCO that is currently under way, which will then require a Measure following it. That is

at y diben yn strwythurol nac yn ddiwylliannol. Yn sicr, nid yw pobl Cymru wedi anghofio'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y gwanwyn. Mae nifer ohonynt erbyn hyn wedi colli ymddiriedaeth yn llwyr mewn gwleidyddion o bob math, ac nid ydynt wedi gweld fawr ddim ymdrech i ddiwygio na gweithredu i leddfu eu dicter. Er bod y sgandal ynghylch treuliau Aelodau Seneddol wedi ysgwyd gwleidyddiaeth i'r carn, nid oes dim awydd o hyd gan y Llywodraeth flinedig hon i ddiwygio. Yn wir, nid yw hyd yn oed y Mesur tala ynghylch Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu wedi datblygu ryw lawer mewn 12 mis. Mae'n warthus bod y Llywodraeth Lafur hon wedi methu'r cyfle hwn i gymryd camau diwygio ystyrllon. Wrth inni nesáu'n awr at etholiad cyffredinol, dyma'r union amser i fynd i'r afael â'r materion hollbwysig hyn, yn barod ar gyfer y Senedd newydd. Dyma'r amser i ailfeithrin ymddiriedaeth yn y system wleidyddol ac adfywio democratiaeth yng Nghymru a San Steffan. Oni symudir tuag at gynrychiolaeth gyfrannol yn San Steffan, cyfyngu rhoddion er mwyn cadw buddiannau personol allan o wleidyddiaeth, newid i etholiadau tymor sefydlog, rhoi grym i etholwyr adalw Aelodau Seneddol, a diwygiadau gwleidyddol hanfodol eraill, nid yw'r Mesur hwnnw'n addas at y ddiben.

Yn gynharach, yn ei gyfraniad cefais gerydd gan y Prif Weinidog am beidio â chanolbwyntio ar rôl pwerau fframwaith. Yr wyf yn cydnabod, Brif Weinidog, fod adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan yn dangos pwysigrwydd y system honno, ochr yn ochr â'r system Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, o ran cael pwerau i Gymru. Fodd bynnag, os yw'r system mor bwysig ac os ydych mor gefnogol iddi, rhaid imi holi pam nad oes ond dau Fesur sy'n cynnwys pwerau fframwaith yn Araith bresennol y Frenhines, pan oedd mwy o gyfleoedd o lawer i gynnwys pwerau fframwaith. Mae'r pwerau fframwaith hynny—un dros Archwilydd Cyffredinol Cymru ac un dros addysg yn y cartref—i'w croesawu'n fawr. Fodd bynnag, yr oedd y Mesur ynghylch Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn gyfle inni roi'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch llywodraethu ysgolion ar y trywydd cyflym. Yr oedd yn gyfle inni gael y pwerau

the reason for our amendment 5 this afternoon.

Likewise, the Personal Care at Home Bill provides us with an opportunity to draw down additional powers over eligibility criteria for social care, which would allow us to draft better legislation for social care in Wales and develop a more comprehensive Measure on social care charges than the one that we currently have.

Our amendments outline further suggestions for framework powers that have gone begging during this Queen's Speech. Those omissions further underline the need to move to a referendum on further powers for this Assembly with urgency. Sadly, on the day when the Secretary of State for Scotland, Jim Murphy, moved to progress devolution in Scotland, heavily endorsing the findings of the Calman commission, many in this Chamber are left appalled by the statements and revised statements that you and your party issued on Welsh devolution yesterday.

If, as he said today, what Jim Murphy announced represents a natural maturing of devolution in Scotland, then yesterday's performance here can only be seen as typical immaturity in dealing with Welsh devolution. It was abundantly clear to everyone who was here yesterday afternoon that the Labour Party still sees itself as the gatekeeper of Welsh democracy. The desire, expressed in plain language yesterday lunchtime, to stall a decision so as to render an autumn referendum impossible, stinks of self-importance. The inability to revise that statement into anything more than a promise that no date would be ruled out offers little hope of a mature and open approach to referendum building. I assume that your colleagues in Plaid Cymru, First Minister, are not so foolish as to swallow the spin. The rest of us are left to wait and wonder when the

hynny ynghynt nag y gallwn drwy'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Wedyn bydd angen cael Mesur i'w ddilyn. Dyna'r rheswm dros ein gwelliant rhif 5 y prynhawn yma.

Yn yr un modd, mae'r Mesur ynghylch Gofal Personol yn y Cartref yn gyfle inni gael pwerau ychwanegol dros feini prawf cymhwyso ar gyfer gofal cymdeithasol, a fyddai'n ein galluogi i ddrafftio gwell deddfwriaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, a datblygu Mesur mwy cynhwysfawr ynghylch taliadau gofal cymdeithasol na'r un sydd gennym ar hyn o bryd.

Mae ein gwelliannau'n egluro awgrymiadau pellach ar gyfer pwerau fframwaith na chafwyd yn ystod yr Araith hon gan y Frenhines. Mae'r ffaith fod y pwerau hynny wedi'u hepgor yn pwysleisio ymhellach fod angen symud ar frys i gael refferendwm ar bwerau pellach i'r Cynulliad hwn. Yn anffodus, ar y diwrnod pan gynigiodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Alban, Jim Murphy, symud datganoli yn ei flaen yn yr Alban, gan gymeradwyo darganfyddiadau comisiwn Calman yn bendant iawn, cafodd llawer o bobl yn y Siambr hon eu harswydo gan y datganiadau a'r datganiadau diwygiedig a gyhoeddwyd gennych chi a'ch plaid ar ddatganoli yng Nghymru ddoe.

Os yw'r hyn a gyhoeddodd Jim Murphy yn adlewyrchu proses aeddfedu naturiol datganoli yn yr Alban, fel y dywedodd heddiw, yna'r oedd perfformiad ddoe yma yn ddim ond anaeddfedrwydd nodweddiadol wrth ymdrin â datganoli yng Nghymru. Yr oedd yn hollol amlwg i bawb a oedd yn bresennol yma brynhawn ddoe fod y Blaid Lafur yn ei hystyried ei hun o hyd yn warcheidwad democratiaeth yng Nghymru. Mae'r awydd, a fynegwyd yn groym amser cinio ddoe, i atal penderfyniad er mwyn gwneud refferendwm yn yr hydref yn amhosibl, yn drewi o hunanbwysigrwydd. Nid yw'r anallu i ddiwygio'r datganiad hwnnw a'i droi'n addewid tala na fyddai'r un dyddiad yn cael ei ddiystyru, yn rhoi fawr ddim gobaith gweld agwedd aeddfed ac agored at greu refferendwm. Yr wyf yn cymryd nad yw eich cydweithwyr ym Mhlaid

blade inserted into your partner's back at midday yesterday, and withdrawn at 5 p.m., will be plunged back in—the Secretary of State did a pretty good job this afternoon.

The First Minister: We have had a meeting of our senior policy-making unit in the Labour Party to determine our response to the Jones Parry convention, and I believe that Plaid Cymru has done the same. Perhaps you can tell us what the Liberal Democrats have done since the Jones Parry convention report was published.

Kirsty Williams: As you know, First Minister, my party has greatly welcomed that report's findings. My party's policy is clear: we want to move to a referendum as quickly as possible. The party, through its usual mechanisms, is discussing the report and how we can move forward to deliver on our side, because, inevitably, we will have a role to play in delivering a 'yes' vote.

Rhodri Glyn Thomas: Given your party's history in trying to decide where it is going in terms of devolution and Government here, and given that it had to have a special meeting to discuss whether it wanted to be in Government at all, what part do you really think your party has to play in Government in this place?

Kirsty Williams: Rhodri Glyn, that is exactly what will play into the hands of the 'no' campaign. My party's commitment to a proper parliament for Wales is decades old—there is no issue there. We should be trying collectively to garner the progressive forces that want to see greater devolution to this institution rather than making attacks, as you are making today. We want to play our part. I believe that we have a part to play in delivering a 'yes' vote, and I am committed to doing just that. Your ability to engage is an issue for you, and not for me.

Cymru, Brif Weinidog, yn ddigon ffôl i gael eu twyllo gan hyn. Mae'r gweddill ohonom yn dal i ddisgwyl, ac yn meddwl tybed pryd y bydd y gyllell a ddefnyddiwyd i drywanu eich partner yn ei gefn ganol dydd ddoe, a'i thynnu allan am 5 p.m., yn cael ei hyrddio i'w gefn eto—llwyddodd yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud hynny'n go dda y prynhawn yma.

Y Prif Weinidog: Mae ein huned uwch ar gyfer llunio polisi yn y Blaid Lafur wedi cyfarfod i benderfynu ein hymateb i gonfensiwn Jones Parry, a chredaf fod Plaid Cymru wedi gwneud yr un fath. Efallai y gallwch ddweud wrthym beth mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i wneud ers cyhoeddi adroddiad confensiwn Jones Parry.

Kirsty Williams: Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae fy mhlaid wedi croesawu darganfyddiadau'r adroddiad hwnnw'n gynnes iawn. Mae polisi fy mhlaid yn glir: yr ydym am gynnal refferendwm cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'r blaid, drwy ei systemau arferol, wrthi'n trafod yr adroddiad a'r modd y gallwn symud ymlaen i sicrhau canlyniadau o'n rhan ni, oherwydd mae'n anochel y bydd gennym ran i'w chwarae i sicrhau pleidlais 'ie'.

Rhodri Glyn Thomas: O gofio hanes eich plaid wrth geisio penderfynu i ba gyfeiriad y mae'n mynd o ran datganoli a'r Llywodraeth yma, ac o gofio y bu'n rhaid iddi gynnal cyfarfod arbennig i drafod a oedd am fod mewn Llywodraeth o gwbl, pa ran, gredwch chi mewn gwirionedd, sydd gan eich plaid i'w chwarae mewn Llywodraeth yn y lle hwn?

Kirsty Williams: Rhodri Glyn, dyna'r union agwedd a fydd yn fêl ar fysedd yr ymgyrch 'na'. Mae fy mhlaid wedi ymrwymo ers degawdau i senedd go iawn i Gymru—ni ellir dadlau am hynny. Dylem fod yn ceisio mynd ati ar y cyd i grynhoi'r grymoedd blaengar sydd am weld mwy o ddatganoli i'r sefydliad hwn, yn hytrach nag ymosod ar ein gilydd fel yr ydych chi'n ei wneud heddiw. Yr ydym am chwarae ein rhan. Credaf fod gennym ran i'w chwarae i sicrhau pleidlais 'ie', ac yr wyf wedi ymrwymo i chwarae'r rhan honno. Mater i chi ac nid i mi yw eich gallu chi i ymroi.

None of the party political interference that we saw yesterday, or the cheap jibes from Rhodri Glyn this afternoon, help to bolster the perception of the Assembly, nor do they help our ability to garner the progressive forces and to persuade them to work together to deliver a 'yes' vote. They play into the hands of only one person, and that is the person who will lead the 'no' campaign.

Alun Davies: That is quite a bizarre speech to have to follow. In terms of where we are today, and the debate on the Secretary of State's statement, I think that we have to be clear about what we are about in this place and what we want to achieve. On this side of the Chamber I am convinced that the commitment of my party to devolution is unquestionable. If we had to rely on Kirsty's vote-gathering machine to win a referendum, I would be terrified to ever call a referendum, because the reality is that my party has not been the blockage to devolution—it has been the engine driving it forward and delivering it.

5.30 p.m.

We would not have had a referendum had it not been a commitment in a Labour manifesto, enacted by a Labour Government and voted for by Labour MPs, and largely won by Labour people delivering Labour leaflets to deliver that majority. That is the reality of the referendum and that is the reality of devolution, and unless that is recognised by the whole of the Chamber, we may as well pack up and go home. If we want to win the referendum, we have to deliver it on a unified basis. That is the political reality, which everyone in the Chamber does not recognise.

I do not view the Queen's Speech as a grand parliamentary event, but as something that symbolises the partnership that must exist if Wales is to benefit from the Assembly Government working in partnership with Westminster colleagues. We have probably seen more of that during the last year than at any other time. We have worked closely with colleagues in Westminster, and we have seen

Nid yw'r holl dorri ar draws i sgorio pwyntiau gwleidyddol a welsom ddoe, na sylwadau diraddiol Rhodri Glyn y prynhawn yma, yn helpu gwella canfyddiad pobl o'r Cynulliad, nac yn helpu ein gallu i grynhoi grymoedd blaengar a'u perswadio i weithio gyda'i gilydd i sicrhau pleidlais 'ie'. Maent yn fêl ar fysedd un person yn unig, sef y sawl a fydd yn arwain yr ymgyrch 'na'.

Alun Davies: Mae honno'n araith ddigon rhyfedd imi orfod ei dilyn. O ran ein sefyllfa heddiw, a'r ddatl ar ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol, credaf ei bod yn rhaid inni ddeall yn iawn beth yr ydym yn ceisio'i wneud yn y lle hwn, a beth yr ydym yn dymuno'i gyflawni. Yr ochr hon i'r Siambr, yr wyf yn argyhoeddedig na ellir amau ymrwymiad fy mhlaid i ddatganoli. Pe bai'n rhaid inni ddibynnu ar beiriant casglu pleidleisiau Kirsty i ennill refferendwm, byddai arnaf ofn cynnal refferendwm o gwbl, oherwydd mewn gwirionedd nid fy mhlaid i sydd wedi bod yn rhwystro datganoli—hi yw'r peiriant sydd wedi bod yn gyrru datganoli yn ei flaen a'i sicrhau.

Ni fyddem wedi cael refferendwm o gwbl oni bai am ymrwymiad mewn manifest o gan y Blaid Lafur, a drowyd yn ddeddf gan Lywodraeth Lafur a phleidleisio drosto gan Aelodau Seneddol Llafur, a'i ennill yn bennaf gan bobl y Blaid Lafur a fu'n dosbarthu taflenni'r Blaid Lafur i sicrhau'r mwyafrif hwnnw. Dyna realiti'r refferendwm, a dyna yw realiti datganoli, ac oni chydabyddir hynny gan bawb yn y Siambr, cystal inni roi ein pethau i gadw'n awr a mynd adref. Os ydym am ennill y refferendwm, rhaid inni ei chyflwyno'n unedig. Dyna'r realiti gwleidyddol nad yw pawb yn y Siambr yn ei chydabod.

Nid wyf yn ystyried Araith y Frenhines yn ddigwyddiad seneddol o bwys, ond yn arwydd o'r bartneriaeth y mae'n rhaid wrthi os yw Cymru am elwa o gael Llywodraeth y Cynulliad i weithio mewn partneriaeth â'i chydweithwyr yn San Steffan. Mae'n debyg ein bod wedi gweld mwy o hynny'n digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf nag erioed o'r blaen. Yr ydym wedi bod yn gweithio'n agos

two Governments pulling together to ensure that the Assembly Government's requirements are included in the legislative programme which has been put before Parliament, which has been better than ever. When those things work well and work together, Wales benefits, and we have seen that happen over the last year.

It is in that spirit of co-operation and partnership that I welcome the statement from the Secretary of State and the First Minister's initial speech. They outlined a compelling vision of co-operation and partnership that will benefit people across Wales. At the heart of the Queen's Speech and at the heart of this debate, we have seen a conviction that Government can be a force for good, can secure economic prosperity and build a fairer society—not a big Government or small Government, but a smarter, intelligent Government.

What was disappointing and lacking in the opposition speeches was not only the appalling language and the lazy, vindictive invective, but the lack of vision or any alternative policy strategy or philosophy; they had nothing to say. We have seen it before. When we debated our response to the recession, we heard no ideas from the party opposite. They say that they are ready to be a Government, but they barely count as an opposition. The Tories' vision for Britain is fundamentally pessimistic of a Britain that is broken and with only an age of austerity to look forward to. The Conservative approach is to abandon the responsibility of Government, let the recession take its course and leave people to sink or swim. We have a different vision and a different philosophy that underpins that vision.

In many ways, the Queen's Speech summed up much of that vision. The economic issues were addressed, and there was legislation to hold bankers to account. There were also legislative instruments to help to build a fairer society, from the legislation to build a

gyda'n cydweithwyr yn San Steffan, ac wedi gweld dwy Lywodraeth yn cyd-dynnu i sicrhau cynnwys gofynion Llywodraeth y Cynulliad yn y rhaglen ddeddfwriaethol a gyflwynwyd gerbron y Senedd, sydd wedi bod yn well nag erioed. Pan fydd y pethau hynny'n gweithio'n dda ac yn gweithio gyda'i gilydd, mae Cymru ar ei hennill, a gwelsom hynny'n digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yr wyf yn croesawu datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol ac araith ddechreuol y Prif Weinidog yn yr ysbryd hwnnw o gydweithio a phartneriaeth. Amlinellwyd ganddynt weledigaeth rymus o gydweithio a phartneriaeth, a fydd o fantais i bobl ledled Cymru. Yr hyn yr ydym wedi'i weld yng nghraidd Araith y Frenhines ac yng nghraidd y ddadl hon yw argyhoeddiad bod Llywodraeth yn gallu cyflawni pethau da, sicrhau ffyniant economaidd a chreu cymdeithas decach—nid Llywodraeth fawr neu Lywodraeth fach, ond Llywodraeth ddeallus sy'n fwy craff.

Ar wahân i'r iaith ddychrynlyd a'r difrïo diog, ymosodol a glywsom, yr hyn a oedd yn siomedig ynghylch areithiau'r gwrthbleidiau, a'r hyn a oedd ar goll ynddynt, oedd y diffyg gweledigaeth neu unrhyw athroniaeth neu strategaeth amgen o ran polisi; nid oedd ganddynt ddim i'w ddweud. Yr ydym wedi gweld hynny o'r blaen. Pan fuom yn dadlau ein hymateb i'r dirwasgiad, ni chlywsom ddim syniadau gan y blaid gyferbyn. Mae'r blaid yn dweud ei bod yn barod i fod yn Llywodraeth, ond prin y gellir ei hystyried yn wrthblaid. Mae gweledigaeth y Torïaid ar gyfer Prydain yn weledigaeth sylfaenol besimistaidd o Brydain ar chwâl, gydag oes o lymder i edrych ymlaen ati. Agwedd y Ceidwadwyr yw troi cefn ar gyfrifoldeb bod mewn Llywodraeth, gadael i'r dirwasgiad ddilyn ei gwrs, a gadael i bobl wneud y gorau ohoni. Mae gennym ni weledigaeth wahanol, ac athroniaeth wahanol sy'n ategu'r weledigaeth honno.

Mewn llawer ffordd yr oedd Araith y Frenhines yn crynhoi llawer iawn o'r weledigaeth honno. Rhoddodd sylw i faterion economaidd, a chafwyd deddfwriaeth a fyddai'n dwyn bancwyr i gyfrif am eu gweithredoedd. Yn ogystal, cafwyd offer

national care service through to the Equality Bill, which will ensure that people are valued. They will put in place the structures that will help us to build a fairer society. The issue of trust in our democracy was addressed by the Constitutional Reform and Governance Bill. It was a comprehensive Queen's Speech for a progressive and activist Government. It was not a benediction at the end of a Government, but a manifesto for winning an election.

William Graham: Often in our debates, our Labour colleagues delight in referring to past events, usually in a highly subjective manner, so it may be worthwhile reflecting evidentially on what was said during the first Queen's Speech given by the Labour Government when they came into office in 1997. These are some of the words that Tony Blair's Government wrote. The Gracious Speech from the throne begins with these words:

'The education of young people will be my Government's first priority. They will work to raise standards in schools, colleges and universities and to promote life long learning at the workplace.'

Laudable aims, indeed. Sadly, educational attainment in Wales still lags a long way behind England and the difficulties that our higher education facilities suffer have increased by the reduction in capital and revenue spending. For example, at GCSE level, 59 per cent of Welsh pupils obtain A-C grades, but 67 per cent achieve them in England.

During the speech, there were also promises to give the Bank of England the freedom to set interest rates and to establish a financial services authority. No-one, however, took responsibility for financial stability, there was no-one to query business plans, and there was no-one to oversee the risk management of the major banks. Brown's tripartite system is widely recognized as an abject failure. It goes on:

deddfwriaethol i'n helpu i greu cymdeithas decach, o'r ddeddfwriaeth i greu gwasanaeth gofal gwladol i'r Mesur ynghylch Cydraddoldeb, a fydd yn sicrhau bod pobl yn cael eu gwerthfawrogi. Byddant yn cyflwyno'r strwythurau a fydd yn ein helpu i greu cymdeithas decach. Rhoddwyd sylw i fater ymddiriedaeth yn ein democratiaeth, drwy'r Mesur ynghylch Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu. Yr oedd yr Araith hon gan y Frenhines yn un gynhwysfawr ar gyfer Llywodraeth flaengar a gweithredol. Nid bendith ar ddiwedd cyfnod Llywodraeth ydoedd, ond maniffesto ar gyfer ennill etholiad.

William Graham: Yn aml yn ein dadleuon bydd ein cydweithwyr yn y Blaid Lafur wrth eu bodd yn cyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol, mewn modd goddrychol iawn fel rheol. Felly, hwyrach y byddai'n werth chweil myfyrio'n dystiolaethol am yr hyn a ddywedwyd yn ystod Araith gyntaf y Frenhines ar ran y Llywodraeth Lafur pan ddaeth i rym yn 1997. Dyma rai o'r geiriau a ysgrifennwyd gan Lywodraeth Tony Blair. Mae Araith Rasol Ei Mawrhydi o'r orsedd yn dechrau fel hyn:

Blaenoriaeth gyntaf fy Llywodraeth fydd addysg pobl ifanc. Bydd fy Llywodraeth yn gweithio i godi safonau mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion a hybu dysgu gydol oes yn y gweithle.

Nodau canmoladwy iawn, yn wir. Yn anffodus, mae cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn dal ymhell ar ei hôl hi o'i gymharu â Lloegr, a'r anawsterau sydd gan ein cyflesterau addysg uwch wedi cynyddu wrth i wariant refeniw a chyfalaf leihau. Er enghraifft, ar lefel TGAU, mae 59 y cant o ddisgyblion Cymru'n cael graddau A-C, ond mae 67 y cant yn eu hennill yn Lloegr.

Yn ystod yr araith honno, cafwyd addewidion hefyd i roi rhyddid i Fanc Lloegr bennu cyfraddau llog a chreu awdurdod gwasanaethau ariannol. Fodd bynnag, ni chymerodd neb gyfrifoldeb dros sefydlogrwydd ariannol, nid oedd neb i'w holi ynghylch cynlluniau busnes, ac nid oedd neb i oruchwylio trefniadau rheoli risg y prif fanciau. Cydnabyddir yn eang bod system deiran Brown yn fethiant llwyr. Mae'r araith

gyntaf honno'n parhau fel hyn:

'The central economic objectives of my Government are high and stable levels of economic growth and employment, to be achieved by ensuring opportunity for all.'

Amcanion economaidd canolog fy Llywodraeth fydd sicrhau lefelau uchel a sefydlog o dwf economaidd a chyflogaeth, y dylid eu cyrraedd drwy sicrhau cyfle i bawb.

In September 2007, less than 10 years after that speech, saw the run on Northern Rock, which will remain part of financial history for a long time to come. A later key phrase is:

Ym mis Medi 2007, lai na 10 mlynedd ar ôl yr araith honno, gwelwyd y galw cryf ar Northern Rock, a fydd yn rhan o'n hanes ariannol am amser maith. Dyma gymal allweddol yn ddiweddarach yn yr araith:

'My Government have pledged to mount a fundamental attack upon youth and long-term unemployment'.

Mae fy Llywodraeth wedi addo mynd i'r afael yn sylfaenol â diweithdra ymhlith pobl ifanc a diweithdra hirdymor.

Twelve years later, Welsh unemployment is now the highest in the United Kingdom, with 14,000 of every 50,000 job losses recorded being in Wales. I acknowledge that it is always easy to reflect in hindsight, but it remains a proven fact that those high hopes of the Labour Government are now largely dust. In fact, it is difficult to imagine what the singular achievements of Labour's three Governments at Westminster are. All that we have seen are some half-baked constitutional reforms, but, more particularly, an almost unbelievable extension of state intrusion into all our lives. Many of us, on this side of the Chamber, would have hoped to have heard of some major schemes to promote economic growth and the repeal of all those unpleasant aspects of the nanny state, including the abolition of identity cards. A replacement of the target culture, which has had such a perverse impact, would be widely welcomed.

Ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach, yng Nghymru mae'r lefelau uchaf o ddiweithdra yn y Deyrnas Unedig erbyn hyn, a 14,000 o bob 50,000 o'r swyddi a gollwyd yng Nghymru. Yr wyf yn cydnabod ei bod bob amser yn hawdd doethinebu wrth edrych yn ôl, ond erys y ffaith fod y gobeithion uchel hynny gan y Llywodraeth Lafur yn chwilfriw i raddau helaeth erbyn hyn. Mewn gwirionedd, mae'n anodd dychmygu beth yw cyflawniadau eithriadol tair Llywodraeth y Blaid Lafur yn San Steffan. Y cyfan a welsom yw diwygiadau cyfansoddiadol claeaf, ac yn anad dim estyniad anhygoel bron o ymyrryd gan y wladwriaeth ym mywydau pob un ohonom. Byddai llawer ohonom, yr ochr hon i'r Siambr, wedi gobeithio clywed am rai cynlluniau o bwys i hybu twf economaidd ac am ddiddymu pob un o'r agweddau annymunol hynny ar wladwriaeth sy'n gor-reoleiddio, gan gynnwys dileu cardiau adnabod. Byddai disodli'r diwylliant targedau, sydd wedi cael effaith mor groes, yn cael croeso cyffredinol.

Sadly, what we are going to get this time is yet another Equality Bill, yet another criminal justice measure and yet another education Bill in the improving schools Bill. In itself, that is a complete recognition that the education promises of the last 12 years remain largely unfulfilled. The almost annual criminal justice Bill is a complete indictment of the failure of the Labour Government to devise an adequate approach to criminal justice that lasts more than one year. There have been 60 crime Bills, with 3,000 new criminal offences created. Small wonder that

Yn anffodus, yr hyn a gawn y tro hwn yw Mesur arall ynghylch Cydraddoldeb, mesur arall ynghylch cyfiawnder troseddol, a Mesur arall ynghylch addysg yn y Mesur gwella ysgolion. Mae hynny ynddo'i hun yn gydnabyddiaeth llwyr fod addewidion y 12 mlynedd diwethaf ar addysg heb eu gwireddu i raddau helaeth o hyd. Mae'r Mesur ynghylch cyfiawnder troseddol, sy'n ymddangos bron bob blwyddyn, yn gadarnhad llwyr o fethiant y Llywodraeth Lafur i ddatblygu dull digonol, sy'n para dros flwyddyn, i fynd i'r afael â chyfiawnder

there has been a 48 per cent rise in crime in Wales.

We welcome the increase in and statutory basis of overseas aid, but it is still only 0.7 per cent of gross national income from 2013, and this has a ready resonance in Wales with the Wales for Africa programme. The Fiscal Responsibility Bill may be welcomed at face value, but I understand that it emanates from Nigeria, which is not a country of proven financial stability.

Rhodri Glyn Thomas: You referred to the situation in which we find ourselves with the economy at this particular point, but you have not told us what the Conservative party, if it were to win the next general election—God forbid—would do to revive the economy of the Wales.

William Graham: I am grateful for your invitation, but my speech today is a critique of the Queen's Speech. It is for others to make our policy known in the future.

Many of us, on both sides of the Chamber, would prefer a general election, with all its implications for the people of Wales, as soon as possible. Conversely, we are in for an extended election campaign and the taxpayer is to be forced to endure the unrepeatably wasted time and huge expense of a largely unimaginative legislative programme that includes many Bills that will never reach the statute book.

Helen Mary Jones: I will begin my contribution to this debate by apologising to the First Minister for having neglected to associate myself and my party with the positive comments made by the other parties' leaders and the Secretary of State about Rhodri Morgan. I do not think that you can call someone anything better than a *Cymro da*. It is absolutely certain that that is exactly what Rhodri Morgan is, and he has made a great contribution to our nation. I certainly would not want him to take my remarks as funereal in any sense, however, and I was

troseddol. Cafwyd 60 o Fesurau ar droseddu, a chrëwyd 3,000 o droseddau newydd. Nid yw'n syndod, felly, fod lefelau troseddau yng Nghymru wedi codi 48 y cant.

Yr ydym yn croesawu'r cynnydd mewn cymorth i wledydd tramor a sail statudol y cymorth hwnnw. Fodd bynnag, 0.7 y cant yn unig yw hynny o'n hincwm gwladol crynswth o 2013 ymlaen, ac y mae'n adleisio'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica yma yng Nghymru. Gellir croesawu'r Mesur ynghylch Cyfrifoldeb Ariannol ar yr olwg gyntaf, ond deallaf ei fod yn hanu o Nigeria, nad yw'n wlad sydd â hanes o sefydlogrwydd ariannol.

Rhodri Glyn Thomas: Yr oeddech yn cyfeirio at y sefyllfa yr ydym ynnddi ar hyn o bryd o ran yr economi, ond nid ydych wedi dweud wrthym beth fyddai'r blaid Geidwadol, pe bai'n ennill yr etholiad cyffredinol nesaf—Duw a'n gwaredo—yn ei wneud i adfywio economi Cymru.

William Graham: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am eich gwahoddiad, ond mae fy araith heddiw'n ymdrin ag Araith y Frenhines. Cyfrifoldeb pobl eraill fydd cyfleu gwybodaeth am ein polisi yn y dyfodol.

Byddai'n well gan lawer ohonom, ar ddwy ochr y Siambr, gael etholiad cyffredinol, gyda holl oblygiadau hynny i bobl Cymru, cyn gynted ag y bo modd. Yn hytrach, mae ymgyrch etholiadol estynedig ar ein gwarthaf, a chaiff y trethdalwr ei orfodi i oddef gwastraff amser ac arian mawr ar raglen ddeddfwriaethol ddiddychymyg sy'n cynnwys nifer o Fesurau na fyddant byth yn cyrraedd y llyfrau statud.

Helen Mary Jones: Hoffwn ddechrau fy nghyfraniad i'r ddadl hon drwy ymddiheuro i'r Prif Weinidog am anghofio ategu, o'm rhan fy hun ac ar ran fy mhlaid, y sylwadau cadarnhaol a wnaed am Rhodri Morgan gan arweinwyr y pleidiau eraill a chan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni chredaf fod yna deyrnged well na chael eich galw'n *Gymro da*. Dyna'n sicr yw Rhodri Morgan, ac y mae wedi gwneud cyfraniad mawr i'n cenedl. Fodd bynnag, yn sicr ni fyddwn am iddo gymryd fy sylwadau fel rhai angladdol ar unrhyw ystyr, ac yr oeddwn yn falch ei

pleased to hear him say that he is looking forward to participating in an active 'yes' campaign. I hope that he will take a leading, not just an active, part in that campaign.

To make brief reference to the way that my party will respond to the amendments by the Liberal Democrats and the Conservatives, I have much sympathy for some of the sentiments expressed in many of them, and we will support amendments 1, 4, 8 and 9.

5.40 p.m.

We will oppose amendment 2, because it states the blindingly obvious; amendment 3 because we do not believe that legislation alone can restore trust; and we will oppose amendment 10 because we are somewhat at a loss to understand how the UK Government can protect front-line services in Wales when most of them are the business of the Assembly Government—although we share the concern implicit in that amendment about the impact on the Welsh budget of cuts at the centre.

The others we will not support on this occasion because of the references to framework powers. While they can be better than nothing, on the whole we believe that there is a problem with framework powers. They tend, although not inevitably, to devolve power to Welsh Ministers rather than this Assembly, and that is unsatisfactory, as the constitutional convention has stated.

That brings me to the main issues that I want to address; we have touched on them in our responses to the Secretary of State's statement. We regret that there is no specific mention in the Queen's Speech of measures to be taken at Westminster to address those of the convention's recommendations that are for Westminster to address. Again, I thank Syr Emyr and the convention committee, and the staff of that committee. I was pleased to hear the Secretary of State commend the work of the convention as well.

The Secretary of State and the First Minister

glywed yn dweud ei fod yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn ymgyrch weithredol dros bleidlais 'ie'. Gobeithio y bydd ganddo ran arweiniol, nid rhan weithredol yn unig, yn yr ymgyrch honno.

Hoffwn gyfeirio'n fyr at y modd y bydd fy mhlaidd yn ymateb i welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr. Yr wyf yn cydymdeimlo'n fawr â rhai o'r teimladau a fynegwyd mewn llawer un, a byddwn yn cefnogi gwelliannau 1, 4, 8 a 9.

Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 2 oherwydd ei fod yn datgan rhywbeth sy'n gwbl amlwg; gwelliant 3 oherwydd nad ydym yn credu y gall deddfwriaeth yn unig adfer ymddiriedaeth; a byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 10 oherwydd ein bod yn methu deall sut y gall Llywodraeth y DU ddiogelu gwasanaethau rheng flaen yng Nghymru a'r rhan fwyaf ohonynt yn fusnes i Lywodraeth y Cynulliad—er ein bod ni hefyd yn pryderu am yr hyn sydd ymhlyg yn y gwelliant hwnnwam effaith toriadau canolog ar y gyllideb yng Nghymru.

Ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau eraill y tro hwn oherwydd y cyfeiriadau at bwerau fframwaith. Er y gallant fod yn well na dim, credwn ar y cyfan fod pwerau fframwaith yn peri problem. Tueddant, er nad yw hynny'n anochel, i ddatganoli pŵer i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Cynulliad hwn, ac nid yw hynny'n foddhaol, fel y mae'r confensiwn cyfansoddiadol wed'i ddweud.

Daw hynny â mi at y prif faterion yr hoffwn roi sylw iddynt; gwnaethom eu crybwyll yn ein hymatebion i ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol. Yr ydym yn gresynu at y ffaith na sonnir yn benodol yn Araith y Frenhines am gamau y bwriedir eu cymryd yn San Steffan i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny a wnaeth y confensiwn ac y bydd angen i San Steffan roi sylw iddynt. Unwaith eto, yr wyf yn diolch i Syr Emyr a phwyllgor y confensiwn, a staff y pwyllgor hwnnw. Yr oeddwn yn falch o glywed yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn canmol gwaith y confensiwn.

Yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif

were right to say that law-making power is being devolved, but as the convention report makes clear, the process is complicated, time-consuming and costly. Much as it pains me to disagree with Ann Jones, I do not think that it is a system that works well. I would like to remind everyone just how complex and time-consuming the process is. I have had experience of this at the beginning of the process for the Member-proposed carers legislative competence Order, and I must say that I am glad that the Deputy Minister took that over, so that it was not my responsibility to see it through the eight steps that I have been able to identify: debate here, committee here, committee at Westminster, decision at Westminster, transfer of powers, stage 1 committee here, stage 2 committee here, and debate here. That is eight stages in all. Those carers would have been enjoying those additional rights today if we had had the power at the time to introduce a Measure. Remember, the policy was supported by all across the Chamber, and was a completely non-controversial step. I do not think that this is a satisfactory way to legislate; it is not clear or transparent, and the convention agrees with me.

I would also like to highlight the pressure that is placed on organisations that need to lobby. That was a big issue that was raised with me by the carers' organisations as we were going through that process. I have to say that I have never explained the legislative competence process to anyone who thought that it was half sensible. As one elderly carer said to me when I told her about the process we would have to go through, 'Whose idea was that, then?'. I think that we all know the answer to that.

I also want to touch on the role of MPs in this process. Looked at from the outside, it appears, to be charitable, that they are confused. I think that it is their job to advise where decisions on a particular matter should be made. They have too often given in to the temptation—which is understandable, because they are elected representatives with constituents—to consider and interfere in how those powers might be used if they were brought here. I will cite the examples of the original affordable housing legislative

Weinidog yn iawn wrth ddweud bod pŵer deddfu wrthi'n cael ei ddatganoli, ond fel yr eglura adroddiad y confensiwn, mae'r broses yn gymhleth, yn faith ac yn ddurd. Er ei bod yn chwith gennyf anghytuno ag Ann Jones, ni chredaf fod y system yn un sy'n gweithio'n dda. Hoffwn atgoffa pawb mor gymhleth a maith yw'r broses. Cefais brofiad o hynny ar ddechrau proses Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Aelod ynghylch gofalwyr, a rhaid imi ddweud fy mod yn falch fod y Dirprwy Weinidog wedi cymryd gofal ohono fel nad oedd yn rhaid i mi fod yn gyfrifol am ei arwain drwy'r wyth cam yr wyf wedi medru eu nodi: dadl yma, pwyllgor yma, pwyllgor yn San Steffan, penderfyniad yn San Steffan, trosglwyddo pwerau, pwyllgor cam 1 yma, pwyllgor cam 2 yma, a dadl yma. Dyna wyth cam i gyd. Byddai'r gofalwyr dan sylw wedi medru mwynhau'r hawliau ychwanegol hynny heddiw pe bai'r pŵer wedi bod gennym ar y pryd i gyflwyno Mesur. Cofiwch, cafodd y polisi ei gefnogi gan bawb ar draws y Siambr, ac nid oedd yn gam dadleuol o gwbl. Ni chredaf fod hon yn ffordd foddhaol i ddeddfu; nid yw'n ffordd glir na thryloyw, ac y mae'r confensiwn yn cytuno â mi.

Yn ogystal, hoffwn dynnu sylw at y pwysau sydd ar fudiadau y mae angen iddynt lobbio. Tynnwyd fy sylw at y broblem fawr honno gan y mudiadau gofalwyr, wrth inni fynd drwy'r broses dan sylw. Rhaid imi ddweud nad oes neb erioed wedi meddwl bod y broses cymhwysedd deddfwriaethol yn hanner call, wrth imi ei hesbonio iddynt. Fel y dywedodd un gofalwr hŷn wrthyf pan soniais wrthi am y broses y byddai'n rhaid inni fynd drwyddi, 'Syniad pwy oedd hwnna, te?'. Credaf ein bod i gyd yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwnnw.

Yr wyf hefyd am grybwyll rôl Aelodau Seneddol yn y broses hon. O edrych arnynt o'r tu allan, mae'n ymddangos, i fod mor garedig â phosibl, eu bod wedi drysu. Credaf mai eu swydd hwy yw dweud ymhle y dylid gwneud penderfyniadau ar fater penodol. Yn rhy aml maent wedi ildio i'r demtasiwn o ystyried sut y gallai'r pwerau hynny gael eu defnyddio pe baent yn cyrraedd yma, ac ymyrryd yn y modd y gellid eu defnyddio—sy'n ddealladwy, oherwydd maent hwythau'n gynrychiolwyr etholedig gydag etholwyr.

competence Order, and the Welsh language legislative competence Order.

I do not think that that is appropriate, but I can see how it arises. Even if the Secretary of State can argue that the system has worked well with Labour in power in London and Labour sharing power here, I put it to him that this could go horribly wrong in the hands of a Conservative and unionist Government in London. I would not expect the Secretary of State to concede defeat this afternoon, but if not at the next Westminster election, history suggests that that situation will arise at some point.

The convention report shows us what we need to do next. I will be as brief as I can. The overwhelming majority of Members in the Assembly, including many Conservatives, to be fair—whatever they may get up to in London—believe that it is right to hold a referendum. No-one wants to hold a referendum that we would lose; that is clear. However, the convention tells us that it can be won if we work together and explain what should happen now. We will not win if we talk the prospect down, and I seek assurance from the Secretary of State that, once a referendum is asked for, it will be granted in a timely manner.

Eleanor Burnham: As a Liberal Democrat and former magistrate, I believe that the Crime and Security Bill runs the risk of criminalising the innocent. Richard Brunstrom—the former chief constable for north Wales, and a very philosophical chap—and I used to have some interesting conversations about this issue. Whatever you think about him, he had a lot of interesting things to say about the legislation emanating from Westminster. I believe that the keeping of DNA on a database if people have done nothing wrong is completely illiberal. I am looking at Peter Hain, who is a former Liberal—is he not still liberal? That is a very important question. I have huge personal warmth towards Peter Hain—*[Interruption.]*—but I ask myself where is this former Liberal? I worry very much about

Enghreifftiau yw'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol gwreiddiol ynghylch tai fforddiadwy, a'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch yr iaith Gymraeg.

N chredaf fod hynny'n briodol, ond gallaf ddeall sut mae'r sefyllfa'n codi. Hyd yn oed os gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddadlau bod y system wedi gweithio'n dda a'r Blaid Lafur mewn grym yn Llundain a'r Blaid Lafur yn rhannu grym yma, awgrymaf wrtho y gallai hyn fethu'n ddifrifol yn nwylo Llywodraeth Geidwadol ac unoliaethol yn Llundain. Ni fyddwn yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfaddef ei drechu y prynhawn yma, ond mae hanes yn awgrymu y bydd y sefyllfa honno'n codi ryw bryd, hyd yn oed os nad yn yr etholiad nesaf yn San Steffan.

Mae adroddiad y confensiwn yn dangos inni yr hyn y mae angen inni ei wneud nesaf. Byddaf mor gryno ag y gallaf. Cred y mwyafrif llethol o Aelodau Cynulliad, gan gynnwys nifer o Geidwadwyr, a bod yn deg—beth bynnag a wnânt yn Llundain—ei bod yn iawn cynnal refferendwm. Nid oes neb am gynnal refferendwm y byddem yn ei golli; mae hynny'n amlwg. Fodd bynnag, mae'r confensiwn yn dweud wrthym y gellir ei ennill os gweithiwn gyda'n gilydd ac egluro'r hyn a ddylai ddigwydd yn awr. Ni fyddwn yn ennill os tanbrisiwn y gobaith, a gofynnaf am sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y caiff refferendwm ei gynnal yn amserol pan ofynnir amdano.

Eleanor Burnham: Fel Democrat Rhyddfrydol a chyn-ynad, credaf fod perygl i'r Mesur ynghylch Troseddau a Diogelwch droi'r dieuog yn droseddwyr. Arferai Richard Brunstrom—cyn-brif gwnstabl y gogledd, a oedd yn dipyn o athronydd—a minnau gael sgysiau diddorol am y pwnc hwn. Beth bynnag yw eich barn ohono, yr oedd ganddo lawer o bethau diddorol i'w dweud am y ddeddfwriaeth a ddeuai o San Steffan. Credaf fod cadw DNA mewn cronfa ddata, os nad yw pobl wedi gwneud dim o'i le, yn mynd yn hollol groes i ryddfrydiaeth. Yr wyf yn edrych ar Peter Hain, a arferai fod yn Rhyddfrydwr—onid yw'n rhyddfrydwr o hyd? Mae'r cwestiwn hwnnw'n un pwysig iawn. Yr wyf yn hoff iawn o Peter Hain—*[Torri ar draws.]*—ond gofynnaf tybed i ble'r aeth y Rhyddfrydwr gynt? Yr wyf yn poeni'n

the DNA databases. We are living in complex times, and it is very difficult for people to get their names and details off DNA databases—

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Eleanor Burnham: No, I will not give way; I think that we have heard enough from Rhodri Glyn, and, no doubt, we will hear more from him later. Please forgive me, Rhodri Glyn—I know that you will.

This issue affects hundreds of citizens, and it is a very important challenge that I feel strongly about. I think about some of the excluded kids who I used to work with in various schools in north Wales, who were easily falling into the trap of being criminalised and stigmatised at a very early age. The Communities and Culture Committee is currently holding an inquiry into youth justice in Wales and is considering the way in which our criminalised youngsters are being treated in institutions over the border. I am sure that you are well aware of this situation. The committee's inquiry is ably led by Janice Gregory, as our Chair, and we are considering seriously what is happening to those youngsters. It is a serious issues about the way in which kids are going in and out of prison and training centres, or whatever you want to call them. Therefore, as a former Liberal, I urge you to look carefully at this. I believe that the Bill misses the opportunity of beginning the process of giving up these issues to the Assembly. These are important matters that I feel strongly about.

I have some brief comments on the Digital Economy Bill, which offers, in my humble opinion, an exciting opportunity to reinvigorate the way in which news is provided in Wales. Again, an Assembly committee has considered this issue, and the Communities and Culture Committee also contributed to it. We are in exciting, technologically changing times, and I therefore consider that this is an important issue. This proposal, for instance, to establish an independently financed news consortium,

fawr iawn am gronfeydd data DNA. Yr ydym yn byw mewn oes gymhleth, ac y mae'n anodd iawn i bobl sicrhau bod eu henwau a'u manylion yn cael eu dileu oddi ar gronfeydd data DNA—

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Eleanor Burnham: Na, nid wyf am ildio; credaf inni glywed digon gan Rhodri Glyn, ac nid oes amheuaeth na chlywn ragor ganddo yn ddiweddarach. Maddeuwch imi, Rhodri Glyn—gwn y byddwch yn siarad yn ddiweddarach.

Mae'r mater hwn yn effeithio ar gannoedd o ddinasyddion, ac y mae'n her bwysig iawn yr wyf yn teimlo'n gryf amdano. Meddyliaf am rai o'r plant wedi'u heithrio yr arferwn weithio gyda hwy mewn amryw ysgolion yn y gogledd. Byddent yn cwmpo'n rhwydd i'r fagl o gael eu labelu'n droseddwyr a'u difrio'n ifanc iawn. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wrthi'n cynnal ymchwiliad i gyfiawnder ieuencid yng Nghymru, ac yn ystyried y modd y caiff ein pobl ifanc sy'n droseddwyr eu trin mewn sefydliadau dros y ffin. Mae'n siŵr gennyf eich bod yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa hon. Caiff ymchwiliad y pwyllgor ei arwain yn fedrus iawn gan Janice Gregory, ein Cadeirydd, ac yr ydym wrthi o ddifrif yn ystyried beth sy'n digwydd i'r bobl ifanc hynny. Mae'n fater difrifol sy'n ymwneud â'r modd y mae plant yn mynd i mewn ac allan o garchardai a chanolfannau hyfforddi, neu beth bynnag yr hoffech eu galw. Felly, fel cyn-Ryddfrydwr, anogaf chi i ystyried y mater yn ofalus. Credaf fod y Mesur yn colli cyfle i ddechrau'r broses o ildio'r materion hyn i'r Cynulliad. Mae'r rhain yn faterion pwysig yr wyf yn teimlo'n gryf amdanynt.

Mae gennyf rai sylwadau byr am y Mesur ynghylch yr Economi Ddigidol sydd, yn fy marn fach i, yn gyfle cyffrous i adfywio'r modd y darperir newyddion yng Nghymru. Unwaith eto, mae un o bwyllgorau'r Cynulliad wedi ystyried y mater hwn, a chyfrannodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant hefyd at y broses honno. Yr ydym mewn oes gyffrous o newidiadau technolegol, a chredaf felly fod hwn yn fater pwysig. Er enghraifft, bydd y cynnig hwn i sefydlu consortiwm newyddion a gyllidir yn

as recommended by 'Digital Britain', will be taken forward in this Bill. It is imperative that the National Assembly engages with this issue for two reasons. The first is that there is a desperate need to bolster news provision in Wales, as you know more than anyone, I am sure. Successive reports from the Communities and Culture Committee, from Ofcom and others have underlined the decline in news provision in Wales, either in the broadcast or print media. It is particularly true of English-language Welsh media.

The issue goes far beyond the problems of supporting Welsh businesses. The media plays a crucial role in engaging with us and in helping Welsh democracy. The decline of newspapers and ITV, for instance, is leaving a huge hole in civic society and the democratic process. Therefore, it is essential that the independently funded news consortium is trailed in Wales. I had a meeting earlier with some important people in ITV, who assured me that other things are going on, but it is a worrying that we could be heading towards a huge monopoly by the BBC. It is crucial that commissioning for Wales is carried out through a Welsh body, whether that is through a new Welsh commission or an existing body that has sufficient stature to promote news in Wales. For these reasons, I ask members to support amendment 9, which will position the National Assembly behind this.

Rhodri Glyn Thomas: Unaf gydag Eleanor Burnham i longyfarch yr Ysgrifennydd Gwladol am adael y Rhyddfrydwyr, am sylweddoli nad oes gan y Rhyddfrydwyr unrhyw ran i'w chware mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru, ac am benderfynu ei fod am gymryd rhan mewn dadl aeddfed ynglŷn â gwleidyddiaeth yng Nghymru.

5.50 p.m.

Trof yn awr at Araith y Frenhines ac yn benodol at wariant ar amddiffyn.

Angela Burns: I am sorry, but you have said

annibynnol, fel yr argymhellir gan 'Prydain Ddigidol', yn cael ei symud ymlaen yn y Mesur hwn. Mae'n hanfodol i'r Cynulliad Cenedlaethol ymwneud â'r mater hwn am ddau reswm. Yn gyntaf fod angen dybryd i gryfhau'r ddarpariaeth newyddion yng Nghymru, fel y gwyddoch chi'n fwy na neb, mae'n siŵr. Mae'r naill adroddiad ar ôl y llall gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, Ofcom ac eraill wedi pwysleisio'r dirywiad yn y ddarpariaeth newyddion yng Nghymru, o ran y cyfryngau darlledu neu'r wasg. Mae'n arbennig o wir am y cyfryngau Saesneg yng Nghymru.

Mae'r mater yn mynd ymhell y tu hwnt i broblemau cefnogi busnesau Cymreig. Mae gan y cyfryngau ran hollbwysig o ran ymwneud â ni a helpu democratiaeth yng Nghymru. Mae dirywiad papurau newydd ac ITV, er enghraifft, yn gadael bwllch enfawr mewn cymdeithas sifil ac yn y broses ddemocratiaidd. Mae'n hanfodol, felly, i'r consortiwm newyddion a gyllidir yn annibynnol gael ei gyflwyno yng Nghymru. Cefais gyfarfod yn gynharach â rhai pobl bwysig yn ITV, a roddodd sicrwydd imi fod cynlluniau ar droed. Ond yr wyf yn pryderu y gallem fod mewn sefyllfa lle mae gan y BBC fonopoli anferth. Mae'n hanfodol mai drwy gorff yng Nghymru y comisiynir darpariaeth ar gyfer Cymru, boed drwy gomisiwn newydd yng Nghymru ynteu drwy gorff sy'n bodoli eisoes ac sydd â statws digonol i hyrwyddo newyddion yng Nghymru. Am y rhesymau hyn, gofynnaf i aelodau gefnogi gwelliant 9, a fydd yn sicrhau cefnogaeth y Cynulliad i hyn.

Rhodri Glyn Thomas: I join Eleanor Burnham in congratulating the Secretary of State on leaving the Liberals, on realising that the Liberals do not have any part to play in Welsh politics, and on deciding that he wanted to participate in a mature debate on Welsh politics.

I now wish to turn to the Queen's Speech and specifically to expenditure on defence.

Angela Burns: Mae'n flin gennyf, ond yr

this several times today, and I cannot listen to it again without putting forward a different view. I do not usually defend the Liberal Democrats, but every single party and person has a role to play in the politics of Wales, and I object to your disenfranchising any group of people. You keep saying that they do not have a part to play. Trish Law is an independent Member, and she has a part to play. 'Yes' votes; 'no' votes—it does not matter, because we are here to represent the people of Wales and everybody has a part to play. So, I just think that you should stop saying that.

Rhodri Glyn Thomas: I can quite understand that the Conservatives want to look at the role that minority parties have to play in political debate in Wales, but I am talking about serious debate about the future of Wales and devolution in Wales.

I want to talk specifically about the expenditure on defence and seek the Secretary of State's views on several issues. Secretary of State, you will know that there is a debate now about what is called Trident deterrent expenditure, which is in the region of £95 billion over a period of time. If that money was redirected not only to defence expenditure, but to public expenditure, it would have an impact on the block grant that the National Assembly for Wales receives. Do you not accept that, at this particular time, looking at the situation in the world, the so-called deterrent has had no impact whatsoever in Iraq or Afghanistan or on international terrorism? Talk of a nuclear deterrent is about as relevant to the political debate of the moment as talk of the British empire. It is in the past, not the present. Secretary of State, do you not accept that we should now look at how £95 billion could be spent on the defence of the United Kingdom—if you want to have that debate, given that people are going to Afghanistan and Iraq without the armour and support they need—and to ensure the wellbeing of military forces in Wales, after they return to the United Kingdom?

Can you, as Secretary of State for Wales, give us a date for the withdrawal of forces

ydych wedi dweud hynny droeon heddiw, ac ni allaf wrando arno eto heb gynnig safbwynt gwahanol. Nid wyf fel rheol yn amddiffyn y Democratiaid Rhyddfrydol, ond mae gan bob plaid a phob unigolyn ran i'w chwarae yng ngwleidyddiaeth Cymru, a gwrthwynebaf y ffaith eich bod yn difreinio unrhyw grŵp o bobl. Yr ydych yn dweud o hyd nad oes ganddynt ddim rhan i'w chwarae. Mae Trish Law yn Aelod annibynnol, ac y mae ganddi hi ran i'w chwarae. Pleidleisiau 'ie'; pleidleisiau 'na'—nid oes gwahaniaeth, oherwydd yr ydym yma i gynrychioli pobl Cymru, ac y mae gan bawb ran i'w chwarae. Felly, credaf y dylech roi'r gorau i ddweud yn wahanol.

Rhodri Glyn Thomas: Gallaf ddeall yn iawn fod y Ceidwadwyr am edrych ar ran pleidiau lleiafrifol yn y dadlau gwleidyddol sy'n digwydd yng Nghymru, ond yr wyf yn sôn am ddadlau difrifol am ddyfodol Cymru a datganoli yng Nghymru.

Yr wyf am siarad yn benodol am wariant ar amddiffyn, a gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei safbwyntiau ar lawer mater. Ysgrifennydd Gwladol, gwyddoch fod dadlau ar hyn o bryd ynghylch yr hyn a elwir yn wariant ar atalrym Trident, sydd tua £95 biliwn dros gyfnod. Pe bai'r arian hwnnw'n cael ei ailgyfeirio nid yn unig i wariant ar amddiffyn, ond i wariant cyhoeddus, byddai'n effeithio ar y grant bloc a gaiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Oni dderbyniwch, wrth edrych ar sefyllfa'r byd ar hyn o bryd, nad yw'r hyn a elwir yn atalrym wedi cael dim effaith yn Irac neu Affganistan neu ar derfysgaeth ryngwladol? Mae siarad am atalrym niwclear yr un mor berthnasol i'r dadlau gwleidyddol presennol ag yw siarad am yr ymerodraeth Brydeinig. I'r gorffennol y mae'n perthyn, nid i'r presennol. Ysgrifennydd Gwladol, oni dderbyniwch y dylem edrych yn awr ar y modd y gellid gwario £95 biliwn ar amddiffyn y Deyrnas Gyfunol—os ydych am gael y ddadl honno, o gofio bod pobl yn mynd i Affganistan ac Irac heb yr arfau a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen—a sicrhau lles y lluoedd arfog yng Nghymru, ar ôl iddynt ddychwelyd i'r Deyrnas Gyfunol?

A allwch chi, fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, roi dyddiad inni ar gyfer tynnu

from Afghanistan? Do you accept, as a Minister and part of the Government of the United Kingdom, that it is now time to tell us exactly when United Kingdom forces in Afghanistan will be withdrawn? You will know of the statement made by Plaid Cymru, which has been supported by members of your party, on the withdrawal of forces from Afghanistan. Do you accept that we need a timetable for that?

Do you also accept that the only way we can increase the block grant for the Assembly Government, which currently stands at just over £15 billion, is to withdraw funding from Trident and redistribute that money to public sector investment? That would mean that, with regard to public services in Wales, we would be in a situation where we could support the people of Wales, rather than spending money on something that is obsolete, such as Trident.

Angela Burns: I am delighted to take part in today's debate on the Queen's Speech. I am also sad that so little of it mentioned Wales or any of the devolved parliaments, with a vague exception of a little more on Northern Ireland. I will concentrate my contribution on four elements in the speech, and I will talk about the Queen's Speech because, despite what Alun Davies says, this Queen's Speech is what the Government of the day, which happens to be a Labour Government in Westminster, intends to do over the next six months. It is not about what the Tories will or will not do today, tomorrow or last year, or what happened 20 years ago; this is the Government's statement on how it will go forward.

First, Her Majesty mentioned that Her Government will work to build trust in democratic institutions. I think that that is a complete chimera at present. I was horrified that there was no going forward with Sir Christopher Kelly's report. It was disheartening to see Gordon Brown swinging around, having been pinned on this point by David Cameron, and he has now indicated that he will consider legislation, because it

lluoedd o Affganistan? A ydych yn derbyn, fel Gweinidog ac fel aelod o Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol, mai dyma'r amser i ddweud wrthym pryd yn union y bydd lluoedd y Deyrnas Gyfunol yn Affganistan yn cael eu tynnu oddi yno? Gwyddoch am y datganiad a wnaed gan Blaid Cymru, a gefnogwyd gan aelodau o'ch plaid chi, ynghylch tynnu lluoedd o Affganistan. A ydych yn derbyn bod arnom angen amserlen ar gyfer hynny?

A ydych yn derbyn hefyd mai'r unig ffordd y gallwn gynyddu'r grant bloc ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad, sydd ar hyn o bryd yn ychydig dros £15 biliwn, yw drwy dynnu cyllid oddi ar Trident ac ailddosbarthu'r arian hwnnw i'w fuddsoddi yn y sector cyhoeddus? O ran gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, byddai hynny'n golygu y byddem mewn sefyllfa lle gallem gynorthwyo pobl Cymru, yn hytrach na gwario arian ar rywbeth sydd wedi hen ddarfod, megis Trident.

Angela Burns: Mae'n bleser gennyf gymryd rhan yn y ddadl heddiw ar Araith y Frenhines. Yr wyf fi hefyd yn teimlo'n drist bod cyn lleied o sôn ynnddi am Gymru neu unrhyw un o'r seneddau datganoledig, ac eithrio sôn ychydig yn fwy am Ogledd Iwerddon. Bwriadaf ganolbwyntio fy nghyfraniad ar bedair elfen yn yr araith, a bwriadaf siarad am Araith y Frenhines oherwydd, er gwaethaf yr hyn a ddywed Alun Davies, yr Araith hon gan y Frenhines yw'r hyn y mae'r Llywodraeth bresennol, sy'n digwydd bod yn Llywodraeth Lafur yn San Steffan, yn bwriadu ei wneud dros y chwe mis nesaf. Nid yw'n golygu'r hyn fydd neu na fydd y Toriaid yn ei wneud heddiw, yfory neu'r llynedd, neu'r hyn a ddigwyddodd 20 mlynedd yn ôl; datganiad y Llywodraeth yw hwn ar y modd y bydd yn mynd ymlaen.

Yn gyntaf, soniodd Ei Mawrhydi y bydd Ei Llywodraeth yn gweithio i feithrin ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd. Credaf mai breuddwyd gwrach yw hynny ar hyn o bryd. Yr oeddwn yn arswydo nad oedd dim symud ymlaen ar adroddiad Syr Christopher Kelly. Yr oedd yn dorcalonnus gweld Gordon Brown yn newid cyfeiriad yn sydyn, ar ôl i David Cameron ei hoelio ar y pwynt hwnnw, ac y mae bellach

was not in the Gracious Speech. So, what is the truth here? Sir Christopher Kelly's report recommended 11 pieces of primary legislation; therefore, did the Government think that it did not need it, or can it not be bothered because it is on the way out? I do not know, but we must do something to rebuild the public trust in all of us. I have been a politician for two and a half years now and there are days when I am actually really embarrassed to say it, because the general public thinks that most of us are bent or crooked when it comes to our expenses, that we are in this for ourselves, and that we are self-serving. However, I believe that our standards here are very high among all parties. Unfortunately, the events at Westminster have clouded politics throughout the United Kingdom, and we need to win the public back to us. I was very disappointed to see that the Government has not taken this forward, and I would like to see that happening because, although it is UK legislation, it will affect every single person here.

The second point that I wish to raise about the Gracious Speech is that Her Majesty mentioned that legislation would be brought forward to halve the deficit. She also speaks of economic recovery. The Secretary of State for Wales talked about 95,000 jobs being created since Labour came into power, but I think that this is a complete smokescreen. Let us do a reality check. We have suffered the longest and deepest recession since the second world war. The 95,000 jobs probably accounts for Wales's vast increase in public sector employment, with a terrible and economy-wounding lack of enterprises in the business sector, both big and small. Between April and September 2009, Wales lost almost half—that is 14,000—of the 30,000 jobs lost in the UK, despite Wales only having 5 per cent of the UK's population. It is worth repeating the fact that Wales only has 5 per cent of the entire population of the UK and yet we lose over half the jobs. I do not see how that can go forward, and I do not think that it is adequately covered in the speech. I would like to hear more about what we will

wedi awgrymu y bydd yn ystyried deddfwriaeth, oherwydd nid oedd hynny yn Araith Ei Mawrhydi. Felly, beth yw'r gwirionedd? Argymhellodd adroddiad Syr Christopher Kelly 11 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol; felly, a oedd y Llywodraeth yn meddwl nad oedd arni angen ei hangen, ynteu nad yw'n poeni oherwydd ei bod ar ei ffordd allan? Ni wn, ond rhaid inni wneud rhywbeth i adfer ymddiriedaeth y cyhoedd ym mhob un ohonom. Yr wyf yn wleidydd ers dwy flynedd a hanner erbyn hyn, ac ambell ddiwrnod byddaf yn teimlo cywilydd gwirioneddol wrth ddweud fy mod yn wleidydd, oherwydd mae'r cyhoedd yn credu bod y mwyafrif ohonom yn anonest neu'n twyllo gyda'n treuliau, ein bod yma er ein lles ein hunain, a'n bod yn gofalu amdanom ein hunain. Fodd bynnag, credaf fod ein safonau ni yma'n uchel iawn ymhlith yr holl bleidiau. Yn anffodus, mae digwyddiadau yn San Steffan wedi taflu cysgod dros wleidyddiaeth ar draws y Deyrnas Unedig, ac y mae angen inni ddenu'r cyhoedd yn ôl atom. Cefais fy siomi'n arw o weld nad yw'r Llywodraeth wedi symud y mater hwn ymlaen, a hoffwn weld hynny'n digwydd oherwydd, er mai deddfwriaeth i'r DU ydyw, bydd yn effeithio ar bob unigolyn sydd yma.

Yr ail bwynt yr hoffwn ei godi am Araith Ei Mawrhydi yw fod Ei Mawrhydi wedi sôn y byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i haneru'r diffyg. Mae hefyd yn sôn am adferiad economaidd. Soniodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru am 95,000 o swyddi'n cael eu creu ers i'r Blaid Lafur ddod i rym, ond credaf fod y ffigur hwnnw'n celu'r gwirionedd. Gadewch inni ystyried realiti'r sefyllfa. Yr ydym wedi dioddef y dirwasgiad hwyaf a dwysaf ers yr ail ryfel byd. Mae'r 95,000 o swyddi'n cyfateb fwy na thebyg i'r cynnydd enfawr mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, tra mae diffyg cwmnïau bach a mawr yn y sector busnes, sy'n ddychrynlyd ac yn niweidio'r economi. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2009, collodd Cymru bron i hanner—sef 14,000—o'r 30,000 o swyddi a gollwyd yn y DU, er gwaethaf y ffaith mai 5 y cant yn unig o boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru. Mae'n werth ailadrodd mai 5 y cant yn unig o holl boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru, ac eto yr ydym yn colli dros hanner y swyddi. Ni allaf weld sut y gall

be able to do to support—

hynny barhau, ac ni chredaf fod yr araith yn rhoi digon o sylw i'r mater. Hoffwn glywed mwy am yr hyn y gallwn ei wneud i gynorthwyo—

Alun Davies *rose*—

Alun Davies *a gododd*—

Angela Burns: Alun, I will allow you to intervene at the end. I just want to make a few more points.

Angela Burns: Alun, gwnaf ganiatáu ichi ymyrryd ar y diwedd. Hoffwn wneud ychydig bwyntiau eraill.

The third element of the Queen's Speech that I would like to mention is Her Majesty's comments about Her Government introducing a Bill to ensure that the communications infrastructure is fit for the digital age. I think that that is absolutely wonderful in terms of a statement, but the reality is a Bill that will charge a levy for only 2 Mb, which will not keep pace with the continuing revolution. Many applications, particularly for business, leave us in no doubt of that, yet our nation needs rural businesses and strong economies in our far-flung towns, as well as in our cities of the south-east.

Y drydedd elfen yn Araith y Frenhines yr hoffwn sôn amdani yw sylwadau Ei Mawrhydi fod Ei Llywodraeth yn cyflwyno Mesur i sicrhau bod y seilwaith cyfathrebu'n addas i'r oes ddigidol. Credaf fod hynny'n wirioneddol wych fel datganiad, ond y realiti yw Mesur a fydd yn codi ardoll am 2 Mb yn unig, na fydd yn cyd-fynd â'r chwyldro sy'n parhau. Mae nifer o gymwysiaidau, yn enwedig ar gyfer byd busnes, yn sicrhau nad oes amheuaeth ynghylch hynny, ond eto mae ar ein cenedl angen busnesau gwledig ac economïau cryf yn ein trefi pellennig yn ogystal â'n dinasoedd yn y de-ddwyrain.

As for the levy, the last UK Conservative Government unleashed satellite and cable provision without the need for these stealth taxes. This is a tax; ignore the cosy word 'levy'. What happens when we realise that we need 5 Mb or 10 Mb? Will the tax now be 75p or £1? Where will it end? Is this the thin end of the wedge? Will we all face a small tax, perhaps only 50p, for the electrification of our railways to the further ends of Britain, or 50p for getting far-flung schoolchildren to school? Broadband, like road and rail, is a necessary communication highway for UK plc and for Wales plc.

O ran yr ardoll, lansiodd Llywodraeth Geidwadol ddiwethaf y DU ddarpariaeth loeren a chebl heb fod angen y trethi llechwraidd hyn. Treth yw hyn; anwybyddwch y gair caredig 'ardoll'. Beth fydd yn digwydd pan sylweddolwn fod arnom angen 5 Mb neu 10 Mb? A fydd y dreth erbyn hynny'n 75c neu'n £1? Ymhle y bydd ei phen draw? Ai blaen y gyllell sydd yma? A fydd pob un ohonom yn wynebu treth fach, dim ond 50c efallai, i drydaneiddio ein rheilffyrdd i bellafion Prydain, neu 50c i gludo plant o ardaloedd pellennig i'r ysgol? Mae band eang, fel ffyrdd a rheilffyrdd, yn llwybr cyfathrebu angenrheidiol ar gyfer y DU ccc a Chymru ccc.

6.00 p.m.

My final comment on the Queen's Speech is that I was disheartened to see the unedifying spat yesterday between left and lefter. It has been trailed that we are talking about the Queen's Speech and about Sir Emyr Jones Parry's convention—

Fy sylw olaf ar Araith y Frenhines yw fy mod wedi fy nicalonni o weld y cweryl gwarthus ddoe rhwng yr adain chwith a'r sawl sydd ymhellach fyth i'r chwith. Yn ôl y rhaglen, yr ydym yn siarad am Araith y Frenhines a chonfensiwn Syr Emyr Jones Parry—

The Presiding Officer: Order. Can you wind up, please?

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi ddirwyn eich araith i ben, os gwelwch yn dda?

Angela Burns: I would have thought that the Government, in all its political shades, could have decided what it wanted to do when it came here.

Gareth Jones: Siom enfawr oedd y diffyg cyfeiriad at adroddiad Holtham yn Araith y Frenhines—nid oedd cyfeiriad o gwbl ynddi at yr adroddiad pwysig hwn. Fodd bynnag, yr wyf yn falch o glywed, wrth wrando ar yr Ysgrifennydd Gwladol y prynhawn yma, y byddwch o'r diwedd yn ymateb i'r hyn a oedd yn adroddiad cychwynnol comisiwn Holtham. Hoffwn ychwanegu ein bod ni, ym Mhlaid Cymru, yn edrych ymlaen yn eiddgar at glywed yr hyn a fydd gennych i'w ddweud. Gadewch inni beidio ag anghofio am yr her economaidd sylweddol sy'n ein hwynebu, a bod ein gallu i ymateb iddi yn dibynnu'n fawr ar sicrhau cyllid digonol i Gymru.

Er cymaint y croeso am y ffaith y bydd Llywodraeth San Steffan yn ymateb i gomisiwn Holtham o'r diwedd, yr hyn y mae arnom ei angen yw gweithredu. Mae'r argyfwng economaidd hwn ar ein pennau, ac mae'r prinder arian yn effeithio ar ein cymunedau heddiw. O'n cynghorau lleol i wasanaethau cenedlaethol craidd, mae angen i chi, Ysgrifennydd Gwladol, weithredu yn awr er mwyn lleihau effaith y prinder arian. Rhaid ichi roi terfyn ar y bygythiad hwn o doriadau, a rhaid rhoi cyllid teg i bobl Cymru a'u cymunedau.

Gadewch inni fod yn onest: mae'r comisiwn hwn wedi cyflwyno'i adroddiad yn ystod eich dyddiau chi wrth y llyw yn Swyddfa Cymru. Chi yw'r Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r gallu i newid yr annhegwch enbyd hwn, a'ch gwaddol chi fydd y methiant difrifol i fynd i'r afael â hyn os nad ydych yn gweithredu yn awr.

A wnewch chi roi ymrwymiad inni heddiw y byddwch yn gwrando ar yr hyn sydd gan y comisiwn i'w ddweud, ac addo na fydd toriadau pellach i gyllideb Cymru hyd nes bydd fformiwla Barnett wedi'i diwygio?

Mick Bates: I start by associating myself with the Secretary of State's remarks on Rhodri Morgan. Someone described him as a *Cymro da*.

Angela Burns: Byddwn wedi meddwl y gallai'r Llywodraeth, yn ei holl liwiau gwleidyddol, fod wedi penderfynu beth yr oedd am ei wneud wrth gyrraedd yma.

Gareth Jones: The fact that no reference was made to the Holtham report in the Queen's Speech was a huge disappointment—there was no reference at all to this important report. However, I am pleased to hear, having listened to the Secretary of State this afternoon, that you will at last be responding to the contents of the commission's initial report. I would like to add that we, in Plaid Cymru, are looking forward to hearing what you have to say about this. Let us not forget the significant economic challenge that we face and that our ability to respond to it depends to a great extent on securing adequate funding for Wales.

Despite our welcoming the fact that the Westminster Government will respond to the Holtham commission at long last, what we need is action. This economic crisis is upon us, and the funding deficit is having an effect on our communities today. From our local councils to core national services, you, Secretary of State, need to take action now in order to mitigate the effects of that deficit. You must put an end to the threat of cuts, and you must ensure fair funding for the people and communities of Wales.

Let us be honest: this commission has brought its report forward during your time at the helm at the Wales Office. You are the Secretary of State who has the ability to change this dire injustice, and the grave failure to tackle this will be your legacy if you do not take action now.

Will you give us a commitment today that you will listen to what the commission has to say, and make a pledge that there will be no further cuts to the Welsh budget until the Barnett formula has been reformed?

Mick Bates: Hoffwn ddechrau drwy ategu sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol am Rhodri Morgan. Disgrifiodd rhywun ef fel *Cymro da*.

Yn sir Drefaldwyn, mae pawb yn dweud bod Rhodri Morgan yn un o'r werin.

In Montgomeryshire, everyone says that Rhodri Morgan is a man of the people.

That is one of the great assets that you have brought to devolution, Rhodri. People know you and you have provided great leadership.

Dyna un o'r rhagoriaethau mawr yr ydych wedi'u cyfrannu i'r broses ddatganoli, Rhodri. Mae pobl yn eich adnabod, ac yr ydych wedi arwain yn rhagorol.

For me, the one thing that was lacking in the Queen's Speech was leadership on climate change. That relates specifically to the Energy Bill. As a broader point, it is time that Westminster followed the example of the Scottish Parliament, which has already decided to set a carbon budget in its legislation for the whole budgeting process. From correspondence with the Minister for Environment, Sustainability and Housing, I know that that is also the intention of the Assembly. That is a sure way of addressing the effects of climate change. I have heard almost every Member here and leading politicians in Westminster say that climate change is the biggest threat that we face today.

I mi, yr elfen a oedd ar goll yn Araith y Frenhines oedd arweiniad ar y newid yn yr hinsawdd. Mae hynny'n ymwneud yn benodol â'r Mesur Ynni. Yn fwy cyffredinol, mae'n bryd i San Steffan ddilyn enghraifft Senedd yr Alban, sydd eisoes wedi penderfynu pennu cyllideb garbon yn ei deddfwriaeth ar gyfer yr holl broses gyllidebu. O'm gohebiaeth â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, gwn fod hynny'n fwriad hefyd gan y Cynulliad. Mae'n ffordd sicr i fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Yr wyf wedi clywed bron pob Aelod yma a gwleidyddion blaenllaw yn San Steffan yn dweud mai'r newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n ein hwynebu heddiw.

In the Energy Bill, energy security has become a key issue. There are many aspects of it with which I am disappointed, such as the fact that powers for installations generating more than 50 MW will not be devolved to the Assembly, despite the requests from Ministers here, and that the question of building a low-carbon economy has yet to be addressed. Those could have been aspects of the Energy Bill that gave opportunities to Wales.

Yn y Mesur Ynni, mae diogelu ffynonellau ynni wedi dod yn fater allweddol. Mae llawer agwedd ar y Mesur wedi fy siomi, megis y ffaith na fydd y pwerau ar gyfer gosodiadau sy'n cynhyrchu dros 50 MW yn cael eu datganoli i'r Cynulliad, er gwaethaf y ceisiadau gan Weinidogion yma, a bod cwestiwn creu economi carbon isel yn dal heb gael sylw. Gallai'r rheini fod yn agweddau ar y Mesur Ynni a fyddai'n cynnig cyfleoedd i Gymru.

The Bill sets out the task of raising the £9.5 billion levy to fund carbon-capture demonstration projects in particular. I would be grateful if the Secretary of State could outline in his reply some timescale for when the demonstration plants could be commercialised. Currently, the emissions from large fossil-fuel plants, as I am sure the Secretary of State knows, are responsible for Wales having the highest per capita carbon emissions in the UK. To address that issue, we have to be greater control over those emissions.

Mae'r Mesur yn egluro'r dasg o godi'r ardoll o £9.5 biliwn i ariannu prosiectau arddangos dulliau o ddal carbon, yn enwedig. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Ysgrifennydd Gwladol amlinellu yn ei ateb ryw fath o amserlen ar gyfer masnacheiddio canolfannau arddangos. Ar hyn o bryd, mae'r allyriadau o ganolfannau mawr sy'n llosgi tanwydd ffosil, fel y gŵyr yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'n siŵr, yn gyfrifol mai yng Nghymru y mae'r lefel uchaf y pen o allyriadau carbon yn y DU. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem honno, rhaid inni gael mwy o reolaeth ar yr allyriadau hynny.

One question raised by raising the levy to

Wrth godi'r ardoll i ariannu'r prosiectau

fund the demonstration projects is that of who will pay the £9.5 billion levy suggested in the Energy Bill. From my reading of it, it appears that, ultimately, the consumer will pay for it. What estimate has been made so far of the increased cost to consumers in Wales of the Energy Bill?

The other problem that I have with the Bill is that it does not address one of the most crucial issues for us all, namely how to insulate all homes in Wales so that we can make sure that fuel poverty ceases to be a burden for so many families in Wales. It is the cause of increased excess winter deaths. Many people fear their energy bills, and it appears that the extra money needed to pay private industry to develop carbon-capture technology will serve only to increase those bills, thereby increasing the number of people who will be in fuel poverty.

Energy development and energy security is critical and I know that this has been addressed somewhat in the Planning Act 2008 through the Infrastructure Planning Commission. However, for us to produce the renewable energy systems that we need, transmission and smart grids both need to be addressed fully. I have yet to see investment in the grid to ensure that we in Wales can produce green jobs and extra wealth on the back of the renewable energy industry. Equally, the transport system blocks the construction of so many windfarms in parts of Wales that it is becoming impossible for the Government here to meet its own renewable energy targets, embedded in technical advice note 8.

Smart meters are also a part of this Energy Bill. There have been detailed discussions with many bodies over the implementation of smart metering. I hope that you will confirm today that those will be really smart meters that will have a facility to provide instant billing so that you can see the cost, and that the social tariffs can be changed quickly so that we have a two-way process, not dumb meters that are simple displays. The Secretary of State is also looking at using the

arddangos, un cwestiwn sy'n codi yw pwy fydd yn talu'r ardoll o £9.5 biliwn a awgrymir yn y Mesur Ynni. O'r hyn a ddeallaf i, ymddengys yn y pen draw mai'r defnyddiwr fydd yn ei thalu. Pa amcangyfrif sydd wedi'i wneud hyd yma o gost uwch y Mesur Ynni i ddefnyddwyr yng Nghymru?

Rhywbeth arall sy'n fy mhoeni am y Mesur yw'r ffaith nad yw'n mynd i'r afael ag un o'r materion pwysicaf i bob un ohonom, sef sut i inswleiddio pob cartref yng Nghymru er mwyn inni allu sicrhau bod tlodi tanwydd yn peidio â bod yn faich i gynifer o deuluoedd yng Nghymru. Tlodi tanwydd yw achos y cynnydd mewn marwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf. Mae llawer o bobl yn ofni cael eu biliau ynni, ac ymddengys mai unig effaith yr arian ychwanegol angenrheidiol i dalu diwydiannau preifat i ddatblygu technoleg dal carbon fydd cynyddu'r biliau hynny, a chynyddu nifer y bobl a fydd yn dioddef tlodi tanwydd felly.

Mae datblygu a diogelwch ynni'n hollbwysig, a gwn fod hynny wedi cael rhywfaint o sylw yn Neddf Cynllunio 2008 drwy'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Fodd bynnag, er mwyn inni greu'r systemau ynni adnewyddadwy y mae arnom eu hangen, mae angen mynd i'r afael yn llawn â gridiau trawsyrru a gridiau deallus. Nid wyf eto wedi gweld buddsoddiad yn y grid i sicrhau ein bod ni yng Nghymru'n gallu creu swyddi gwyrdd a chyfoeth ychwanegol ar gefn y diwydiant ynni adnewyddadwy. Yn yr un modd, mae'r system drafnidiaeth yn atal cynifer o ffermydd gwynt rhag cael eu hadeiladu mewn rhannau o Gymru nes ei bod yn awr yn amhosibl i'r Llywodraeth yma gyrraedd ei thargedau ynni adnewyddadwy ei hun, sydd i'w gweld yn nodyn cyngor technegol 8.

Mae mesuryddion deallus hefyd yn rhan o'r Mesur Ynni hwn. Cafwyd trafodaethau manwl gyda nifer o gyrff ar gyflwyno mesuryddion deallus. Gobeithio y byddwch yn cadarnhau heddiw y bydd y mesuryddion dan sylw'n rhai gwirioneddol ddeallus, a fydd yn medru darparu biliau'n syth fel y gallwch weld y gost a newid y tariffau cymdeithasol yn gyflym er mwyn inni gael proses ddwyffordd, nid mesuryddion goddefol sy'n gwneud dim ond arddangos.

installation of smart meters as a driver for manufacturing in Wales so that we can grow a green economy here, which I am certain will create a reformed economy and a smarter one for the future of Wales.

Leanne Wood: There is not a lot that is new in the UK Government's legislative programme; most of the Bills were trailed at the beginning of the summer. I want to focus my remarks on one of the Bills that was not trailed before the summer, namely the Personal Care at Home Bill, which was trailed at the Labour Party conference.

We all agree that the contentious issue of personal care has to be sorted out, but the big question is how personal care will be paid for. It would be useful to get clarification on whether the Personal Care at Home Bill is connected to the Green Paper that was quietly issued at the end of the last parliamentary session—the same Green Paper that proposed abolishing the attendance allowance and reviewing other disability benefits to pay for care services. I assume that the Bill and the Green Paper are linked, because we have been given no information as to how the national care service for England is to be paid for, and we have had no information regarding the devolution implications. There clearly are devolution implications, because the provision of home care is a devolved matter, but paying for it is not.

The attendance allowance is a non-means-tested benefit for disabled pensioners who may need extra support with transport, special diets, handrails, or other support. It helps people to lead independent lives and gives people a choice regarding the support that they get. Pensioners are worried that they could lose a significant chunk of their income. They are not worried because of so-called 'scaremongering', but because they understand what a review of their benefits really means: a cut.

Roger Berry, the chair of the Commons'

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn ystyried gosod mesuryddion deallus fel sbardun i weithgynhyrchu yng Nghymru er mwyn inni allu tyfu economi werdd yma, a fydd, yr wyf yn siŵr, yn creu economi ddiwygiedig a mwy deallus ar gyfer dyfodol Cymru.

Leanne Wood: Nid oes llawer sy'n newydd yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU; cafwyd rhagflas o fwyafrif y Mesurau ddechrau'r haf. Yr wyf am ganolbwyntio fy sylwadau ar un o'r Mesurau na chafwyd rhagflas ohono cyn yr haf, sef y Mesur ynghylch Gofal Personol yn y Cartref y cafwyd rhagflas ohono yng nghynhadledd y Blaid Lafur.

Yr ydym i gyd yn cytuno'i bod yn rhaid mynd i'r afael â mater dadleuol gofal personol. Ond y cwestiwn mawr yw sut y telir amdano. Byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad ynghylch a yw'r Mesur ynghylch Gofal Personol yn y Cartref yn gysylltiedig â'r Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn dawel bach ar ddiwedd y sesiwn seneddol ddiwethaf—yr un Papur Gwyrdd a oedd yn cynnig dileu'r lwfans gweini ac adolygu budd-daliadau eraill i dalu am wasanaethau gofal. Yr wyf yn cymryd bod cysylltiad rhwng y Mesur a'r Papur Gwyrdd, oherwydd nid ydym wedi cael dim gwybodaeth am y modd y telir am y gwasanaeth gofal gwladol ar gyfer Lloegr, ac nid ydym wedi cael dim gwybodaeth am y goblygiadau o ran datganoli. Mae'n amlwg bod goblygiadau o ran datganoli, oherwydd mae darparu gofal cartref wedi'i ddatganoli, ond nid talu amdano.

Mae'r lwfans gweini'n fudd-dal nad yw'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer pensiynwyr anabl y gall fod arnynt angen cymorth ychwanegol gyda chludiant, deiet arbennig, canllawiau, neu gymorth arall. Mae'n helpu pobl i fyw bywydau annibynnol, ac y mae'n rhoi dewis i bobl o ran y cymorth a gânt. Mae pensiynwyr yn poeni y gallent golli cyfran sylweddol o'u hincwm. Nid ydynt yn poeni oherwydd yr hyn a elwir yn 'goddi bwganod', ond oherwydd eu bod yn deall beth mae adolygu eu budd-daliadau'n ei olygu mewn gwirionedd: toriadau.

Dyma a ddywedodd Roger Berry, cadeirydd

disability group said that

‘We have got to find more money for social care but that shouldn’t take existing national benefits away which are of tremendous importance. Just as in the NHS we don’t means test, I don’t think in the National Care Service we should means test either.’

6.10 p.m.

The Tories, who seem to have an ear close to the ground on public opinion at the moment, have pledged to protect the attendance allowance and the disability living allowance. In my view, that is little more than opportunism. They can feel how angry and let down people feel about this and they are responding to that anger. We all know the vigour with which the Tories have said that they want to cut the budget deficit. That budget deficit, of course, has come about as a result of the taxpayers’ bail out of the banks. This talk of axing benefits risks helping to prepare the way for a much wider and extensive review of benefits under the Tories and, for that reason, it is a very irresponsible move. Is such a move consistent with Labour values? It is certainly not consistent with Welsh values.

What I find totally objectionable, as I am sure will the majority of other people in Wales, is that pensioners and people with disabilities will be forced to pay for the bail out of the bankers. Some of the most vulnerable people in our communities will end up paying for the greed of the financial sector. That is not on. People will not take that lying down from this Government. According to surveys, most people believe that, like the NHS, care should be paid for out of general taxation. I hope that the Welsh consultation exercise will reflect that. Paying for care out of general taxation is the fairest and most equitable way of paying for public services. It is the welfare-state way. Breaking that principle is dangerous and I sincerely hope that the UK Labour Government will seriously reflect on that.

grŵp anabledd Tŷ'r Cyffredin:

Rhaid inni ddod o hyd i ragor o arian ar gyfer gofal cymdeithasol, ond ni ddylai hynny ddileu budd-daliadau cenedlaethol cyffredol, sydd o bwys aruthrol. Fel yn y GIG, nid ydym yn cynnal profion modd, ac ni chredaf y dylem gynnal profion o'r fath yn y Gwasanaeth Gofal Gwladol ychwaith.

Mae'r Torïaid, sydd fel pe baent yn gwybod yn iawn am y farn gyhoeddus ar hyn o bryd, wedi addo diogelu'r lwfans gweini a'r lwfans byw i'r anabl. Yn fy marn i, bachu ar gyfle y maent. Gallant weld mor ddig a siomedig yw pobl am hynny, ac y maent yn ymateb i'r dicter hwnnw. Gwyddom i gyd fod y Torïaid wedi dweud yn egniol eu bod am dorri'r diffyg yn y gyllideb. Y mae'r diffyg hwnnw yn y gyllideb, wrth gwrs, wedi digwydd oherwydd bod trethdalwyr wedi achub y banciau. Mae perygl i'r holl siarad hwn am ddileu budd-daliadau yn helpu paratoi'r ffordd ar gyfer adolygiad ehangach o lawer o fudd-daliadau dan y Torïaid, ac am y rheswm hwnnw mae'n gam anghyfrifol iawn. A yw cam o'r fath yn gyson â gwerthoedd y Blaid Lafur? Yn sicr nid yw'n gyson â gwerthoedd Cymreig.

Un peth sy'n hollol annerbyniol i mi, a mwyafrif pobl eraill Cymru, yr wyf yn siŵr, yw'r ffaith y bydd pensiynwyr a phobl ag anableddau'n cael eu gorfodi i dalu am achub y bancwyr. Bydd rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau'n gorfod talu yn y pen draw am drachwant y sector ariannol. Nid yw hynny'n dderbyniol. Ni fydd pobl yn fodlon derbyn hynny'n ddiwrthwynebiad gan y Llywodraeth hon. Yn ôl arolygon, cred y mwyafrif o bobl y dylid defnyddio trethi cyffredinol i dalu am ofal, fel gyda'r GIG. Gobeithio y bydd yr ymarfer ymgynghori yng Nghymru yn adlewyrchu hynny. Talu am ofal allan o drethi cyffredinol yw'r ffordd decaf a mwyaf cyfiawn i dalu am wasanaethau cyhoeddus. Dyna yw ffordd y wladwriaeth les. Mae torri'r egwyddor honno'n beryglus, a gobeithio o waelod calon y bydd Llywodraeth Lafur y DU yn meddwl o ddifrif am hynny.

Nick Ramsay: Deputy Presiding Officer,

Nick Ramsay: Ddirprwy Lywydd, diolch am

thank you for calling me to speak in this important debate about the Queen's Speech. Some have made accusations about the shortness of the Queen's Speech; however, I have to say that it is most difficult for a Government to win on that one. At this point in the electoral cycle, if there had been a long Queen's Speech, the accusation would have been made that there was not enough time in which to implement its contents, but, as it was a short Queen's Speech, the opposite is argued. It is clear that there are major concerns—my party certainly has major concerns—about aspects of the Queen's Speech. However, we welcome certain aspects of it. In the statement that he made earlier, the Secretary of State for Wales mentioned the Welsh education reforms and the changes in the Wales Audit Office brought about by framework powers, without us having to revert to the rather complex and bizarre LCO system. Those are to be welcomed.

I am pleased about the shortness of the Queen's Speech in that there was no reference to identification cards. There was a huge outcry about those. Leanne Wood talked about responding to public opinion. No-one in Wales to whom I spoke, and very few people apart from a few in Government, ever thought that we should be wasting money on the ID card system. I also share the concerns of Members who have spoken about the DNA database. Eleanor Burnham mentioned that in her speech. That is a deeply concerning situation and, again, the Government needs to keep a close eye on that, given the amount of genetic information about us that is available at the moment and maybe in the future. I also agree with Mark Isherwood's comments on child poverty and my party's commitment to end child poverty by the 2020 deadline.

Nerys mentioned the Holtham commission in her contribution. As a member of the Finance Committee, I want to touch on that from a finance point of view. That was a very important commission and its findings go to the heart of everything that we talk about here. It is no good standing here saying that more money should go into this and that if, at

alw arnaf i siarad yn y ddadl bwysig hon ar Araith y Frenhines. Mae rhai wedi cyhuddo Araith y Frenhines o fod yn rhy fyr; fodd bynnag, rhaid imi ddweud ei bod yn anodd tu hwnt i Lywodraeth ennill o ran hynny. Ar yr adeg hon yn y cylch etholiadol, pe bai Araith y Frenhines wedi bod yn hir, byddai cyhuddiad wedi'i wneud nad oes digon o amser ar gael i'r Llywodraeth weithredu cynnwys yr araith, ond dadleuir fel arall yn awr gan fod Araith y Frenhines yn fyr. Mae'n amlwg fod pobl yn pryderu'n fawr—mae fy mhlaid i yn sicr yn pryderu'n—am agweddau ar Araith y Frenhines. Fodd bynnag, yr ydym yn croesawu rhai agweddau arni. Yn ei ddatganiad yn gynharach soniodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru am y diwygiadau mewn addysg yng Nghymru a'r newidiadau yn Swyddfa Archwilio Cymru, a gyflwynwyd gan bwerau fframwaith, heb inni orfod mynd yn ôl i ddefnyddio'r system Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, sydd braidd yn gymhleth ac yn rhyfedd. Mae'r agweddau hynny i'w croesawu.

Yr wyf yn falch fod Araith y Frenhines yn fyr am na chyfeiriodd o gwbl at gardiau adnabod. Bu protest enfawr yn erbyn y rheini. Soniodd Leanne Wood am ymateb i'r farn gyhoeddus. Nid oedd neb yng Nghymru y siaradais i â hwy yn credu am funud y dylem wastraffu arian ar y system cardiau adnabod, ac ychydig iawn o bobl eraill a feddyliai y dylem wneud hynny, ar wahân i ambell un mewn Llywodraeth. Yr wyf hefyd yn pryderu am y gronfa ddata DNA, fel yr Aelodau eraill sydd wedi siarad amdani. Soniodd Eleanor Burnham am hynny yn ei haraith. Mae'r sefyllfa'n peri pryder aruthrol, ac unwaith eto, mae angen i'r Llywodraeth gadw llygad barcud arni, o gofio'r holl wybodaeth enynnol sydd ar gael amdanom ar hyn o bryd, ac efallai yn y dyfodol. Cytunaf hefyd â sylwadau Mark Isherwood ar dlodi plant ac ymrwymiad fy mhlaid i ddileu tlodi plant erbyn y terfyn amser o 2020.

Soniodd Nerys am gomisiwn Holtham yn ei chyfraniad. Fel aelod o'r Pwyllgor Cyllid, yr wyf am grybwyll hynny o safbwynt cyllid. Yr oedd y comisiwn hwnnw'n un pwysig iawn, ac y mae ei ddarganfyddiadau'n mynd at wraidd popeth a drafodwn yma. Nid oes diben sefyll yma'n dweud y dylid rhoi mwy o arian i hyn ac arall os yw'r setliad, yn y pen

the end of the day, the settlement from Westminster under the Barnett formula, which was originally a temporary measure, is so inadequate. The Barnett squeeze will become more and more problematic in the years to come. I know that Members across the parties say that we should be looking at a different way of funding the Assembly after 10 years of devolution, now that it has bedded in.

Helen Mary Jones: May I say how pleased I am to hear what you are saying? The need to revise the Barnett formula has been mentioned by other Members. Will you, as an Assembly group, be making representations to any future Conservative Government on the need to change the formula?

Nick Ramsay: Yes, we will and we have done so.

On commissions, it would be remiss of me not to mention the All Wales Convention, the effect that the Queen's Speech has on this place, and the way in which legislation passed at Westminster has an impact here. This debate comes after yesterday's sorry state of affairs, when there were massive concerns about the Government reneging on its previous commitments with regard to holding a referendum for more powers.

I was pleased to hear you, Secretary of State, talk about the importance of a 'no veto' policy. You also mentioned David Cameron's 'no veto' policy, and unless I am mistaken, both policies sound very similar. I cannot quite see why you then complained about his policy and tried to make some petty partisan point, other than the fact that there is clear disappointment that David Cameron has made that commitment to devolution by making our policy clear. If anyone is playing politics in this matter, it is not the Conservative Party, but the Labour Party.

I will add my comments to those made earlier about the First Minister. This will be his last response in a Queen's Speech debate, or so we believe—there have been other u-turns, so you never know. It is clear that the First Minister was not the Labour Party's original

draw, o San Steffan dan fformiwla Barnett, a oedd yn gam dros dro yn wreiddiol, mor annigonol. Bydd gwasgfa Barnett yn mynd yn mwy a mwy o broblem yn ystod y blynyddoedd i ddod. Gwn fod Aelodau ar draws y pleidiau'n dweud y dylem fod yn ystyried ffordd wahanol i gyllido'r Cynulliad ar ôl 10 mlynedd o ddatganoli, gan ei fod bellach wedi ymsefydlu.

Helen Mary Jones: A gaf fi ddweud mor falch yr wyf o glywed yr hyn a ddywedwch? Soniwyd am yr angen i adolygu fformiwla Barnett gan Aelodau eraill. A fyddwch chi, fel grŵp yn y Cynulliad, yn cyflwyno achos i unrhyw Lywodraeth Geidwadol yn y dyfodol dros yr angen i newid y fformiwla?

Nick Ramsay: Byddwn yn gwneud hynny, ac yr ydym eisoes wedi gwneud hynny.

O sôn am gomisiynau, byddwn yn ddiogel na bawn yn sôn am Gonfensiwn Cymru Gyfan, yr effaith a gaiff Araith y Frenhines ar y lle hwn, a'r modd y mae deddfwriaeth a gaiff ei phasio yn San Steffan yn effeithio arnom yma. Mae'r ddadl hon yn dilyn y sefyllfa druenus ddoe pan godwyd pryderon enbyd fod y Llywodraeth yn torri ei hymrwymadau blaenorol ar gynnal refferendwm i gael rhagor o bwerau.

Yr oeddwn yn falch eich clywed chi, Ysgrifennydd Gwladol, yn siarad am bwysigrwydd polisi 'dim fetó'. Soniech hefyd am y polisi 'dim fetó' gan David Cameron, ac os deallais yn gywir mae'r ddau bolisi'n swnio'n debyg iawn i'w gilydd. Ni allaf ddeall yn iawn pam yr oeddech yn cwyno, felly, am ei bolisi ef a cheisio gwneud rhyw bwynt pleidiol dibwys, ar wahân i'r ffaith fod siom amlwg fod David Cameron wedi gwneud yr ymrwymiad hwnnw i ddatganoli drwy egluro ein polisi. Os oes rhywun yn chwarae gêm wleidyddol yn y mater hwn, y Blaid Lafur sy'n gwneud hynny, nid y Blaid Geidwadol.

Hoffwn ychwanegu fy sylwadau at y rhai a wnaed yn gynharach am y Prif Weinidog. Hwn fydd ei ymateb olaf mewn dadl ar Araith y Frenhines, neu felly y credwn—mae wedi newid ei feddwl ar bethau eraill, felly, pwy a wŷr? Mae'n amlwg nad y Prif

choice 10 years ago, at a time when some in the Conservative Party supported Rhodri Morgan's bid for the post, as they thought that he would make a far better First Minister than those who had come before. Certainly, First Minister, you have guided the Assembly and devolution through a process of bedding in.

It is terribly sad that we are left with this dreadful LCO system. It is beyond the wit of many—referring to Helen Mary's point—how such a complex and ridiculous system could have been devised in the first place. That is why it is so important that we hold a referendum. Yes, many here are concerned about the state of affairs under which that referendum will be held, but this is ultimately about letting the people decide. I want to let the people decide, and I know that many other Members do, too. I am saddened that certain members of the Labour Party do not.

Mohammad Asghar: I am grateful for the opportunity to participate in this important debate, and I will focus in particular on the UK Government's Crime and Security Bill. The Bill has a number of aspects to it, and was described, I think quite accurately, as 'a ragbag Bill' by *The Guardian* newspaper. Perhaps this reflects the rushed nature of the UK Government's legislative programme. The provisions in the Bill referring to the introduction of a licensing system for wheel-clamping firms is to be welcomed, and I am sure that many Members in the Chamber have received representations from their constituents on this issue.

Building safer communities in Wales depends on resources being made available to our forces to deliver community-based policing. Members will be aware of the recent revelation by Plaid Cymru that up to 25 police stations in my region are to be closed by 2012. This situation, of course, is no fault of the local police force or authority—it is because of a lack of funding from Whitehall. I can assure you that this will not help to establish safer living for the local community.

Weinidog oedd dewis gwreiddiol y Blaid Lafur 10 mlynedd yn ôl, ar adeg pan oedd rhai yn y Blaid Geidwadol yn cefnogi cais Rhodri Morgan am y swydd, oherwydd eu bod yn meddwl y byddai'n Brif Weinidog tipyn gwell na'i ragflaenwyr. Heb os, Brif Weinidog, yr ydych wedi arwain y Cynulliad a datganoli drwy broses ymsefydlu.

Mae'n hynod o drist fod y system ddychrynlyd o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol gennym o hyd. Mae'r tu hwnt i ddirnadaeth llawer o bobl—a chyfeiriaf at bwynt Helen Mary—sut y gallai system mor gymhleth a chwerthinlyd fod wedi'i llunio yn y lle cyntaf. Dyna pam mae mor bwysig inni gynnal refferendwm. Oes, mae llawer yma'n pryderu am y sefyllfa pan gynhelir y refferendwm hwnnw, ond yn y pen draw mae hyn yn golygu gadael i'r bobl benderfynu. Yr wyf am adael i'r bobl benderfynu, a gwn fod llawer o Aelodau eraill hefyd am wneud hynny. Mae'r ffaith nad yw rhai aelodau o'r Blaid Lafur am wneud hynny yn fy nhristáu.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddatl bwysig hon, a bwriadaf ganolbwyntio'n benodol ar Fesur Llywodraeth y DU ynghylch Troseddau a Diogelwch. Mae'r Mesur yn cynnwys nifer o agweddau, ac fe'i disgrifiwyd, yn gywir iawn, gan bapur newydd *The Guardian* fel mesur anniben. Efallai fod hynny'n adlewyrchu natur frysioi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Dylid croesawu'r darpariaethau yn y Mesur sy'n cyfeirio at gyflwyno system drwyddedu ar gyfer cwmnïau clampio olwynion, ac yr wyf yn siŵr fod nifer o Aelodau yn y Siambur wedi cael cwynion gan eu hetholwyr am y mater hwn.

Mae creu cymunedau mwy diogel yng Nghymru'n dibynnu ar sicrhau bod adnoddau ar gael i alluogi ein heddluoedd i blismona'r gymuned. Bydd Aelodau'n ymwybodol o'r hyn a ddatgelwyd yn ddiweddar gan Blaid Cymru fod hyd at 25 o orsafoedd heddlu yn fy rhanbarth i gau erbyn 2012. Nid bai'r heddlu neu'r awdurdod lleol yw'r sefyllfa hon, wrth gwrs—mae'n bod oherwydd diffyg cyllid o Whitehall. Gallaf eich sicrhau na fydd hyn yn helpu pobl leol i fyw bywydau mwy diogel.

The Crime and Security Bill is, in my view, another wasted opportunity and another example of why the Assembly should have criminal justice powers. It is an anomaly of the British constitution that every constituent part of the UK has had criminal justice powers devolved to it, with the stark exception of Wales. The past 12 months have seen the Scottish Government use its powers in this field to find a different way of tackling the problems of alcohol-related crime. It is an example of how devolved administrations can meet the challenges of their respective nations on the issues of law and order.

Central to Plaid Cymru's vision for policing is a belief in locally focused community policing, with police officers being free from the shackles of the counterproductive performance indicators that are the obsession of the New Labour Government, and free to work with communities more effectively to tackle the anti-social problems that blight the lives of many. The Crime and Security Bill goes no way towards addressing those very real challenges that face communities in Wales, and neither does it address the budgetary constraints faced by Welsh police forces. Until matters of criminal justice are devolved to the Assembly, I fear that such issues will continue to be overlooked by Westminster.

6.20 p.m.

Rhodri Morgan, you have my best wishes and welcome to the senior citizens club. We are one of the top 10 richest nations in the world, yet we cannot fulfil our commitment to front-line services for our communities. So, when you go to Whitehall, please tell people that Wales should not be neglected any more.

Peter Hain: We have had an interesting debate, which has ranged incredibly widely. On Rhodri Glyn's points about Afghanistan, I remind him that three-quarters of the terrorist

Yn fy marn i, mae'r Mesur ynghylch Troseddau a Diogelwch yn gyfle arall a wastraffwyd, ac yn enghraifft arall o'r rheswm pam y dylai fod gan y Cynulliad bwerau ym maes cyfiawnder troseddol. Anghysondeb yng nghyfansoddiad Prydain yw fod pwerau cyfiawnder troseddol wedi'u datganoli i bob rhan gyfansoddol o'r DU, gydag un eithriad amlwg, sef Cymru. Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelwyd Llywodraeth yr Alban yn defnyddio'i phwerau yn y maes hwn i ddod o hyd i ffordd wahanol i fynd i'r afael â phroblemau troseddau ymwneud ag alcohol. Mae'n enghraifft o'r ffordd y gall gweinyddiaethau datganoledig ateb heriau eu gwledydd eu hunain ar faterion cyfraith a threfn.

Elfen ganolog o weledigaeth Plaid Cymru ar gyfer plismona yw'r gred mewn plismona cymunedol sy'n canolbwyntio'n lleol, a swyddogion heddlu'n rhydd o hualau'r dangosyddion perfformiad gwrthgynhyrchiol sy'n obsesiwn gan Lywodraeth y Blaid Lafur Newydd, a bod yn rhydd i weithio'n fwy effeithiol gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r problemau gwrthgymdeithasol sy'n difetha bywydau llawer o bobl. Nid yw'r Mesur ynghylch Troseddau a Diogelwch yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r heriau gwirioneddol hynny sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru. Nid yw ychwaith yn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau cyllid sy'n wynebu heddluoedd Cymru. Nes caiff materion cyfiawnder troseddol eu datganoli i'r Cynulliad, ofnaf y bydd materion o'r fath yn parhau i gael eu hanwybyddu gan San Steffan.

Rhodri Morgan, yr wyf yn dymuno'r gorau ichi ac yn eich croesawu i glwb y pensynwyr. Yr ydym yn un o 10 o wledydd cyfoethocaf y byd, ond eto ni allwn gyflawni ein hymrwymiad i wasanaethau rheng flaen i'n cymunedau. Felly, pan fyddwch yn mynd i Whitehall, dywedwch wrth bobl y dylid rhoi'r gorau i esgeuluso Cymru.

Peter Hain: Yr ydym wedi cael dadl ddiddorol, sydd wedi cynnwys amrywiaeth o bwyntiau rhyfeddol o eang. Ar bwyntiau Rhodri Glyn ar Affganistan, hoffwn ei

attacks launched on or planned for Britain originated from Afghanistan and Pakistan.

We have covered a range of different areas, but I was surprised by the extent of the unofficial alliance between the Conservatives and the Liberal Democrats. It was notable that they support each other's amendments, praise each other and are taking forward a common agenda. That is not surprising, because their leader at a UK level, Nick Clegg, has made it clear that he favours a Conservative alliance should there be a hung Parliament after the general election.

I have said what I have to say on the referendum issue, which was clear, but I say to the Conservatives, in particular: 'Beware of Tory leaders bearing gifts on the referendum'. This is highly cynical—the Conservatives have never delivered anything for Wales on devolution; indeed, they have fought it all the way, including the legislation that has made a referendum on full law-making powers for the Assembly, which I support, possible.

It also struck me in Mark Isherwood's and Nick Bourne's contributions, or those of their Conservative colleagues, that when it comes to specific aid—whether it is launch aid for Airbus UK, support for the new Airbus UK projects or the different policies that the Assembly and the Westminster Government are taking forward—you cannot reduce public spending by the enormous, catastrophic amount being planned by George Osborne and David Cameron without hitting the people of Wales hard. Many Assembly and Westminster Government support mechanisms would be sacrificed in order to fulfil the right-wing dogma that is now the orthodoxy of the new Conservative leadership. I believe that David Cameron will make Margaret Thatcher look like a Liberal in his attitude to public spending and in the cuts that he plans for Wales and the rest of the United Kingdom. I find the brazen cheek, especially of Mark Isherwood, extraordinary in talking about unemployment. My

atgoffa bod tri chwarter yr ymosodiadau terfysgol a gyflawnwyd ym Mhrydain neu eu cynllunio ar gyfer Prydain wedi hynu o Affganistan a Phacistan.

Yr ydym wedi ymdrin ag ystod o wahanol feysydd, ond synnais at raddau'r cynghreirio answyddogol rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yr oedd yn hynod eu bod yn cefnogi gwelliannau ei gilydd, yn canmol ei gilydd ac yn symud agenda gyffredin yn ei blaen. Nid yw hynny'n syndod, oherwydd mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar lefel y DU, Nick Clegg, wedi egluro'i fod o blaid cynghreirio â'r Ceidwadwyr pe bai Senedd grog yn dilyn yr etholiad cyffredinol.

Yr wyf wedi dweud yr hyn sydd gennyf i'w ddweud am fater refferendwm, a oedd yn glir, ond hoffwn ddweud wrth y Ceidwadwyr yn benodol: Gochelwch rhag arweinwyr Toriaidd sy'n dod â rhoddion ar y refferendwm. Mae'n sinigaidd tu hwnt—nid yw'r Ceidwadwyr erioed wedi rhoi dim i Gymru o ran datganoli; yn wir, maent wedi ymladd hynny bob cam o'r ffordd, gan gynnwys y ddeddfwriaeth sydd wedi ei gwneud yn bosibl cael refferendwm ar bwerau deddfu llawn i'r Cynulliad, fel yr wyf yn ei gefnogi.

Yng nghyfraniadau Mark Isherwood a Nick Bourne, neu rai eu cyd-Aelodau Ceidwadol, fe'm trawodd hefyd, pan ddaw'n fater o gymorth penodol—boed yn gymorth i lansio Airbus UK, cymorth i brosiectau newydd Airbus UK, neu'r gwahanol bolisïau y mae Llywodraeth San Steffan a'r Cynulliad yn eu symud ymlaen—ni allwch leihau gwariant cyhoeddus gymaint â'r swm anferth, trychinebus a gynllunnir gan George Osborne a David Cameron, heb daro pobl Cymru'n galed. Byddai llawer o systemau cymorth Llywodraeth San Steffan a'r Cynulliad yn cael eu haberthu er mwyn cyflawni dogma'r adain dde sydd erbyn hyn yn uniongrededd i arweinwyr newydd y Blaid Geidwadol. Credaf y bydd David Cameron yn gwneud i Margaret Thatcher ymddangos fel Rhyddfrydwraig gan ei agwedd at wariant cyhoeddus a'r toriadau y mae'n eu bwriadu ar gyfer Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. I mi, mae hyfdra digywilydd pobl, a Mark Isherwood yn enwedig, yn rhyfeddol wrth

constituency was decimated by Tory policies, as were those of many of my Labour colleagues. They smuggled people off the unemployment register onto incapacity benefit—a generation of youngsters condemned to a life on the dole, never to work in their lives, bringing up children who followed them into that cycle of deprivation and joblessness. This Government is taking forward job-creation programmes, support mechanisms for business and wealth creation that protect job in this bitter global recession, and the whirlwind that has blown through Wales and across the rest of the globe.

I will turn to the points that the Conservatives, Liberal Democrats and, specifically, Leanne Wood made on the attendance allowance and the disability benefit. The reason that we want to create a national care service is to make people better off. No-one will be made worse off, especially the most vulnerable. The attendance allowance gives vital support, as I know full well as a former Secretary of State for Work and Pensions, to key vulnerable groups; you are right about that. However, it is paid to the richest individuals as well. If we can find a way of supporting those most in need and if we can have a national care service to rival the national health service, which was also introduced by Labour, it will address a curse of modern living in an ageing society, namely people losing all the assets that ordinary working people have been able to accumulate in Wales, in order to support themselves in their vulnerability and infirmity in old age.

Leanne Wood: Will you take an intervention?

Peter Hain: Sorry, but I want to continue to address this point. No benefit will be stolen or taken away from anyone. What we need is a system that gives more generous support, but which is also affordable.

Kirsty talked about her party's policies in her

sôn am ddiweithdra. Cafodd fy etholaeth i ei difrodi'n llwyr gan bolisiau Toriaidd, fel etholaethau llawer o'm cydweithwyr yn y Blaid Lafur. Cafodd pobl eu smyglo oddi ar y gofrestr diweithdra i gael budd-dal analluogrwydd—cenhedlaeth o bobl ifanc wedi eu condemnio i fywyd ar y dôl, heb weithio erioed yn eu bywyd, a magu plant a'u dilynodd i'r cylch hwnnw o amddifadedd a diweithdra. Mae'r Llywodraeth hon yn cyflwyno rhaglenni creu gwaith, mecanweithiau cymorth ar gyfer byd busnes, a chynlluniau creu cyfoeth sy'n diogelu swyddi yn y dirwasgiad byd-eang chwerw hwn, a'r corwynt sydd wedi chwythu trwy Gymru ac ar draws gweddill y byd.

Hoffwn droi'n awr at y pwyntiau a wnaed gan y Ceidwadwyr, y Democratiaid Rhyddfrydol a Leanne Wood yn benodol, am y lwfans gweini a'r budd-dal i bobl anabl. Y rheswm pam yr ydym am greu gwasanaeth gofal gwladol yw i sicrhau bod pobl ar eu hennill. Ni fydd neb ar eu colled, yn enwedig y bobl sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r lwfans gweini'n cynnig cymorth hanfodol, fel y gwn i'n dda iawn, fel y cyn-Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, i grwpiau allweddol sy'n agored i niwed; yr ydych yn iawn i ddweud hynny. Fodd bynnag, caiff y lwfans ei dalu hefyd i'r unigolion cyfoethocaf. Os gallwn gael ffordd i gynorthwyo'r sawl sydd fwyaf mewn angen, ac os gallwn gael gwasanaeth gofal gwladol sydd cystal â'r gwasanaeth iechyd gwladol, a gyflwynwyd hefyd gan y Blaid Lafur, bydd hynny'n mynd i'r afael â melltith bywyd modern mewn cymdeithas sy'n heneiddio, sef pobl gyffredin sy'n gweithio yn colli'r holl asedau y maent wedi medru eu cronni yng Nghymru, er mwyn eu cynnal eu hunain pan fyddant yn agored i niwed ac mewn gwendid yn eu henaint.

Leanne Wood: A wnewch chi gymryd ymyriad?

Peter Hain: Mae'n flin gennyf, ond yr wyf am barhau i roi sylw i'r pwynt hwn. Ni fydd budd-dal yn cael ei ddwyn neu'i gymryd oddi ar neb. Yr hyn y mae arnom ei angen yw system sy'n rhoi cymorth mwy hael, ond sydd hefyd yn fforddiadwy.

Siaradodd Kirsty am bolisiau ei phlaid yn ei

attack on our Labour Government. I have to say—in the gentlest possible way—that you complained about the bail outs of HBOS and the RBS to the tune of over £60 billion. If we had not done that, those banks would have gone down in hours and people's savings would have disappeared—you would have gone along to a hole in the wall, and you would not have got any cash out of it. It would have been devastating to the whole of Britain and the whole of Wales. Frankly, the Liberal Democrats should have supported us in that action, not criticised and attacked us in ways that I think are economically illiterate and innumerate. I come back to what her leader in Westminster has said: the Liberal Democrats, like the Conservatives, plan 'savage cuts'. There is no way that Wales could be protected from those cuts if the Tories won power in Westminster.

Kirsty also made points about MPs' expenses, as did others. We introduced legislation, through the Independent Parliamentary Standards Authority, by the end of July. We did not need to include it in the Queen's Speech. We have ensured that the regulation of MPs' expenses, allowances and all other forms of remuneration is now entirely independent of Members of Parliament. That is why there was no need for it in the Queen's Speech. We have also said that, should the new parliamentary standards authority and others decide that further legislation is needed to deal with some unforeseen issues, we will introduce that legislation, probably by amendment to the Constitutional Reform and Governance Bill.

There was then a great deal of criticism about legislative competence Orders. The carers LCO took 16 months from the time that it was announced to being made earlier this month. That is no longer than any primary legislation, and we are getting at least three times as much legislation per year, as the First Minister also pointed out, as we used to get under the old system. It is not a perfect system; that is why we want full law-making powers. However, it allows the Assembly, in

hymosodiad ar ein Llywodraeth Lafur. Rhaid imi ddweud—yn y modd caredicaf posibl—ichi gwyno am y taliadau i achub HBOS ac RBS o fwy na £60 biliwn. Pe na baem wedi gwneud hynny, byddai'r banciau dan sylw wedi mynd â'u pen iddynt cyn pen oriau, a chynilion pobl wedi diflannu—byddech wedi mynd i beiriant arian heb gael dim byd allan ohono. Byddai wedi bod yn drychinebus i Brydain gyfan ac i Gymru gyfan. I fod yn onest, dylai'r Democratiaid Rhyddfrydol fod wedi ein cefnogi yn y weithred honno, nid ein beirniadu ac ymosod arnom mewn ffyrdd sydd, yn fy marn i, yn dangos eu bod yn anllythrennog ac yn anrhifog yn yr economi. Dychwelaf at yr hyn a ddywedodd ei harweinydd yn San Steffan: mae'r Democratiaid Rhyddfrydol, fel y Ceidwadwyr, yn cynllunio toriadau llym. Ni fyddai modd amddiffyn Cymru rhag y toriadau hynny pe bai'r Torïaid yn ennill grym yn San Steffan.

Yn ogystal, gwnaeth Kirsty bwyntiau ynghylch treuliau Aelodau Seneddol, fel y gwnaeth eraill. Cyflwynwyd deddfwriaeth gennym, drwy'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol, erbyn diwedd mis Gorffennaf. Nid oedd angen inni gynnwys y ddeddfwriaeth yn Araith y Frenhines. Yr ydym wedi sicrhau bod gwaith rheoleiddio treuliau Aelodau Seneddol, eu lwfansau a phob math arall o daliad yn hollol annibynnol ar Aelodau Seneddol erbyn hyn. Dyna pam nad oedd angen cynnwys y mater yn Araith y Frenhines. Yr ydym hefyd wedi dweud, pe bai'r awdurdod safonau seneddol newydd ac eraill yn penderfynu bod angen deddfwriaeth bellach i ymdrin â rhai materion na ragwelwyd, y byddwn yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno, mae'n debyg drwy ddiwygio'r Mesur ynghylch Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu.

Yna, bu rym feirniadaeth o Orchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Yr oedd 16 mis rhwng yr amser y cyhoeddwyd y Gorchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch gofalwyr a phan gafodd ei lunio yn gynharach y mis hwn. Nid yw hynny'n hwy nag unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol, ac yr ydym yn cael o leiaf deirgwaith cymaint o ddeddfwriaeth y flwyddyn yn awr ag yr arferem ei chael dan yr hen system, fel y nododd y Prif Weinidog hefyd. Nid yw'n

the meantime, to develop a massively extended legislative competence in order to take forward Measures in the years to come. Many more LCOs are coming down the line, and I have agreed, for the first time, arrangements with the whips and the other parliamentary authorities that, if these LCOs are uncompleted by the time that the wash-up negotiations take place at the end of the parliamentary session, when dissolution arrangements are being put in place, they will also be part of negotiations. I hope that the Conservatives, who criticised the system, will tell their Westminster colleagues to enable those Welsh LCOs to come forward and the competencies to come down to the Assembly, as we want to see achieved.

Most of these Bills—primary legislation and LCOs—if the opposition parties play ball, will receive Royal Assent, as they did, for example, in 2004-05, when I was Leader of the House of Commons, and 20 individual Bills reached the statute book. We are only talking about 14 so far at present.

My message, in thanking you for inviting me today to present this Queen's Speech, is this: the future of Wales is at stake. If you vote Liberal Democrat, you will get the Tories; if you vote Plaid Cymru, you will get the Tories. The only way not to get the Tories is to vote Labour. That is what this Queen's Speech is really about. It is about reinforcing Labour values and Welsh values to take Wales forward, in the way that we have been doing in partnership between Westminster and Cardiff, and to ensure a more prosperous Wales, with more jobs, better health services, better education, more housing and more support through a national care service. All these vital issues will not only be jeopardised by a Tory Government, but sabotaged by a Tory Government, which will roll back everything that we have achieved and

system berffaith; dyna pam yr ydym am gael pwerau deddfu llawn. Fodd bynnag, mae'n galluogi'r Cynulliad, yn y cyfamser, i ddatblygu cymhwysedd deddfwriaethol lawer iawn mwy estynedig i symud Mesurau yn eu blaen yn y blynyddoedd i ddod. Mae llawer mwy o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn yr arfaeth, ac yr wyf wedi cytuno, am y tro cyntaf, ar drefniadau gyda'r chwiapiaid ac awdurdodau seneddol eraill, sy'n golygu, os na chaiff y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol hyn eu cwblhau erbyn cynnal y trafodaethau perthnasol ar ddiwedd y sesiwn seneddol, pan roddir trefniadau diddymu ar waith, y byddant yn rhan o'r trafodaethau. Gobeithio y bydd y Ceidwadwyr, a feirniadodd y system, yn dweud hynny wrth eu cydweithwyr yn San Steffan i'w gwneud yn bosibl cyflwyno'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol hyn o Gymru ac er mwyn i'r cymwyseddau gyrraedd y Cynulliad, fel yr ydym yn dymuno'i weld yn digwydd.

Bydd mwyafrif y Mesurau hyn—deddfwriaeth sylfaenol a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol—os bydd y gwrthbleidiau'n cytuno—yn cael y Cydsyniad Brenhinol, fel y gwnaethant, er enghraifft, yn 2004-05, pan oeddwn yn Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, a phan gyraeddodd 20 o Fesurau unigol y llyfrau statud. Ar hyn o bryd, yr ydym yn sôn am ryw 14 hyd yma.

Fy neges, wrth ddiolch ichi am fy ngwahodd yma heddiw i gyflwyno'r Araith hon gan y Frenhines, yw hyn: mae dyfodol Cymru yn y fantol. O bleidleisio dros y Democratiaid Rhyddfrydol, byddwch yn cael y Torïaid; o bleidleisio dros Blaid Cymru, byddwch yn cael y Torïaid. Yr unig ffordd i beidio â chael y Torïaid yw drwy bleidleisio dros y Blaid Lafur. Dyna yw hanfod yr Araith hon gan y Frenhines. Mae'n golygu atgyfnerthu gwerthoedd y Blaid Lafur a gwerthoedd Cymru er mwyn symud Cymru yn ei blaen, fel yr ydym wedi ei wneud mewn partneriaeth rhwng San Steffan a Chaerdydd, a sicrhau Cymru fwy ffyniannus lle bydd mwy o swyddi, gwell gwasanaethau iechyd, gwell addysg, mwy o dai a mwy o gymorth drwy wasanaeth gofal gwladol. Bydd yr holl faterion hanfodol hyn nid yn unig yn cael eu

savagely cut, as the Tories plan to do, the Welsh budget that your Welsh Assembly Government depends upon to deliver high-quality services for a high-quality, world-class Wales. Thank you for allowing me to deliver my speech.

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I thank all those who have contributed to this afternoon's debate. A number of clichés were used during the course of the debate—this is a Queen's Speech for a Government that has 'run out of steam' or 'run out of ideas' and that it is a 'political' Queen's Speech.

6.30 p.m.

Of course it is a political Queen's Speech; it reflects the kind of politics that is important to the people of Wales: the politics of fairness, justice and opportunity. If we look at the Bills proposed in the speech, there are Bills to improve equality, tackle child poverty, get to grips with the problem of crime, deal with our future energy needs, and promote the digital economy. Yes, there are politics in this Queen's Speech; it is ridden through with politics: the kind of politics that delivers. Therefore, I very much welcome the Queen's Speech, and I am sure that the people of Wales will welcome it, too.

I listened carefully to the points that were made by speakers around the Chamber; I even listened carefully to Mark Isherwood on this occasion. However, I was amazed to hear him complain about the delays that he perceives in the LCO process. Let us not forget that, if the Tories had had their way, there would not be an LCO process, and we would not have legislative competence Orders coming before this Chamber or before either House of Parliament, because the Conservatives voted against the Government of Wales Bill that became the Government of Wales Act 2006. We know that Cheryl Gillan, in her comments to the Welsh Grand Committee, said that it would be a good thing

peryglu gan Lywodraeth Doriáidd, ond yn cael eu difetha'n llwyr gan Lywodraeth Doriáidd, a fydd yn dadwneud popeth yr ydym wedi'i gyflawni ac yn cyflwyno toriadau llym, fel y bwriada'r Toriáid, yng nghyllideb Cymru y mae eich Llywodraeth yn y Cynulliad Cenedlaethol yn dibynnu arni i ddarparu gwasanaethau o safon ar gyfer Cymru o safon ac o fri. Diolch ichi am ganiatáu imi gyflwyno fy araith.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Diolchaf i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Defnyddiwyd llawer o ystrydebau yn ystod y ddadl—mae'r Araith hon gan y Frenhines yn araith ar gyfer Llywodraeth nad oes ganddi 'ragor o egni' neu 'ragor o syniadau', ac y mae'n Araith 'wleidyddol' gan y Frenhines.

Wrth gwrs y mae'n Araith wleidyddol gan y Frenhines; mae'n adlewyrchu'r math o wleidyddiaeth sy'n bwysig i bobl Cymru: gwleidyddiaeth tegwch, cyfiawnder a chyfle. O edrych ar y Mesurau a gynigir yn yr araith, mae yma Fesurau i wella cydraddoldeb, mynd i'r afael â thlodi plant, mynd i'r afael â phroblem trosedd, ymdrin â'n hanghenion ynni yn y dyfodol, a hyrwyddo'r economi ddigidol. Oes, mae gwleidyddiaeth yn yr Araith hon gan y Frenhines; mae gwleidyddiaeth ynddi drwyddi draw: y math o wleidyddiaeth sy'n sicrhau canlyniadau. Felly, yr wyf yn croesawu Araith y Frenhines yn gynnes iawn, ac yr wyf yn siŵr y bydd pobl Cymru yn ei chroesawu hefyd.

Gwrandewais yn ofalus ar y pwyntiau a wnaed gan siaradwyr o amgylch y Siambr; gwrandewais yn ofalus hyd yn oed ar Mark Isherwood y tro hwn. Fodd bynnag, synnais o'i glywed yn cwyno am yr oedi a wêl yn y broses Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Ni ddylem anghofio na fyddai proses o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol pe bai'r Toriáid wedi cael eu ffordd, ac na fyddai Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn dod gerbron y Siambr hon na'r un o'r ddau dŷ yn Senedd y DU, oherwydd pleidleisiodd y Ceidwadwyr yn erbyn Mesur Llywodraeth Cymru a ddaeth yn Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gwyddom fod Cheryl Gillan, yn ei sylwadau

for Parliament to be able to scrutinise an Assembly Measure.

What is it about devolution that Conservatives do not get? As I have said before in this Chamber, I am willing to accept that there are Conservative Members on the benches opposite who are keen on devolution, and who would work in good faith for further powers for this Assembly. However, it is a message that is lost on their colleagues at Westminster, and it is Westminster, as far as the Tories are concerned, that calls the shots.

I listened to Mark's economic views, but let us not forget that, if the Tories had been in power at Westminster, they would have done nothing. Theirs is the only major political party in western Europe whose response to the economic crisis in 2007 was to suggest that we did nothing whatsoever. If that policy had been followed, the situation would have been much worse: fewer jobs, fewer hopes, fewer homes for people. Then Mark criticised Government borrowing, and said that it was reckless, yet it is that borrowing that has enabled us to recover from the crisis of 2007, and has put the economy on a firmer footing. I remember that, before the general election in 1987, Nigel Lawson borrowed recklessly in order to fund a pre-election boom; that had nothing to do with stimulating the economy, and everything to do with getting the Conservatives re-elected in 1987. What the Labour Government has done is to borrow prudently to ensure that people's jobs and homes are preserved.

I listened carefully to Kirsty, but what I heard from her was nine and a half minutes of constitutional obsession. I heard nothing about jobs. I heard nothing about homes. I heard nothing about the need to promote social justice, and nothing about equality. What I heard was a message about constitutional change. I take the view—as do many on these benches—that constitutional change has but one purpose, which is to deliver positive change within society. It is not an end in itself. It was even suggested by the Liberal Democrats, including Eleanor

i'r Uwch-bwyllgor Cymreig, wedi dweud y byddai'n dda i Senedd y DU allu craffu Mesur Cynulliad.

Beth nad yw'r Ceidwadwyr yn ei ddeall am ddatganoli? Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen yn y Siambr hon, yr wyf yn fodlon derbyn bod Aelodau Ceidwadol yn eistedd ar y meinciau gyferbyn â ni sy'n frwd dros ddatganoli, ac a fyddai'n gweithio'n ddifffuant i gael rhagor o bwerau i'r Cynulliad hwn. Fodd bynnag, mae'n neges nad yw eu cydweithwyr yn San Steffan yn ei deall, ac yn achos y Toriaid San Steffan sydd â'r gair olaf.

Gwrandewais ar safbwyntiau Mark ar yr economi, ond ni ddylem anghofio na fyddai'r Toriaid wedi gwneud dim pe baent mewn grym yn San Steffan. Hwy yw'r unig blaid wleidyddol o bwys yng ngorllewin Ewrop a ymatebodd i'r argyfwng economaidd yn 2007 drwy awgrymu na ddylem wneud dim byd. Pe baem wedi dilyn y polisi hwnnw, byddai'r sefyllfa wedi bod lawer yn waeth: llai o swyddi, llai o obeithion, llai o gartrefi i bobl. Yna, beirniadodd Mark y Llywodraeth am fenthyca, a dywedodd ei bod yn ymddwyn yn ddiotal, ond y benthyca hwnnw sydd wedi ein galluogi i adfer yr economi ar ôl yr argyfwng yn 2007 ac wedi gosod yr economi ar sylfaen gadarnach. Cyn etholiad cyffredinol 1987 cofiaf fod Nigel Lawson wedi benthyca'n ddiotal i gyllido ffyniant cyn yr etholiad; nid oedd a wnelo hynny ddim â sbarduno'r economi, yr oedd a wnelo'n gyfan gwbl â sicrhau ailethol y Ceidwadwyr yn 1987. Yr hyn y mae'r Llywodraeth Lafur wedi'i wneud yw benthyca'n ofalus i sicrhau diogelu swyddi a chartrefi pobl.

Gwrandewais yn ofalus ar Kirsty, ond yr hyn a glywais ganddi oedd naw munud a hanner o obsesiwn amy cyfansoddiad. Ni chlywais ddim am swyddi. Ni chlywais ddim am gartrefi. Ni chlywais ddim am yr angen i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, ac ni chlywais ddim am gydraddoldeb. Yr hyn a glywais oedd neges am newid cyfansoddiadol. Fy marn i—a llawer ar y minciau hyn—yw mai un diben sydd i newid cyfansoddiadol, sef sicrhau newid cadarnhaol mewn cymdeithas. Nid yw newid cyfansoddiadol yn nod ynddo'i hun.

Burnham—who described herself as a former Liberal; that is perhaps something that we will be told about later—that somehow the Labour Party is the block to devolution in Wales. Historically, the Liberal Democrats have never managed to deliver their voters at devolution referendums; they did not do so in 1997, and they did not do so in 1979. I grant you that it is different for the Conservatives: they cannot deliver their voters and they cannot deliver their party, either. At the end of the day it is Labour that has delivered devolution, and Labour that will take devolution forward.

I listened to William Graham, who quoted eloquently and at length from the Queen's Speech of 1997. I suppose that if he had quoted John Redwood's attempt at singing the national anthem, his contribution would have been much shorter. Let me tell you this: we do not fear the general election. We do not fear the judgment of the people of Britain. We do not fear the judgment of the people of Wales. The people of Glasgow North East have shown us that when a decision has to be taken between a Labour Government that delivers hope, and a vision to take us forward, and a Conservative Party that wants to take us backward and destroy the public sector, health and education—when people have to take that choice, they will choose to re-elect a Labour Government. The people of Glasgow North East have shown the way, and the opinion polls are beginning to reflect that as well. You will find, on the benches opposite, as the general election draws closer, that people will make the decision to stick with the party that offers them hope, not one that wants to destroy the economy and all the things that we hold dear.

I listened to Angela Burns. The one point that I would make to you, Angela, is that I cannot agree that having 11 pieces of legislation dealing purely with MPs' expenses would have been a good use of parliamentary time. Nor would it have been a good way of explaining to people that Parliament is working for them. There are a number of things happening at Westminster to deal with

Awgrymodd y Democratiaid Rhyddfrydol hyd yn oed, gan gynnwys Eleanor Burnham—a'i disgrifiodd ei hun fel cyn-Ryddfrydwraig; efallai y cawn wybod am hynny'n ddiweddarach—mai'r Blaid Lafur rywsut sy'n rhwystro datganoli yng Nghymru. Yn hanesyddol, nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol erioed wedi llwyddo i gael cefnogaeth eu pleidleiswyr mewn refferenda ar ddatganoli; ni wnaethant hynny yn 1997, ac ni wnaethant hynny yn 1979. Cytunaf fod y sefyllfa'n wahanol i'r Ceidwadwyr: ni allant sicrhau cefnogaeth eu pleidleiswyr ac ni allant sicrhau cefnogaeth eu plaid ychwaith. Yn y pen draw, y Blaid Lafur sydd wedi sicrhau datganoli, a'r Blaid Lafur a fydd yn symud datganoli yn ei flaen.

Gwrandewais ar William Graham, a ddyfynnodd yn huawdl ac yn faith o Araith y Frenhines yn 1997. Pe bai wedi efelychu ymgais John Redwood i ganu'r anthem genedlaethol, mae'n debyg y byddai ei gyfraniad wedi bod dipyn yn fyrrach. Gadewch imi ddweud hyn wrthyh: nid ydym yn ofni'r etholiad cyffredinol. Nid ydym yn ofni barn pobl Prydain. Nid ydym yn ofni barn pobl Cymru. Mae pobl Gogledd-ddwyrain Glasgow wedi dangos inni, pan fydd angen penderfynu rhwng Llywodraeth Lafur sy'n sicrhau gobaith, a gweledigaeth i'n symud ymlaen, a Phlaid Geidwadol sydd am fynd â ni'n ôl a dinistrio'r sector cyhoeddus, iechyd ac addysg—pan fydd yn rhaid i bobl wneud y dewis hwnnw, byddant yn dewis ailethol Llywodraeth Lafur. Mae pobl Gogledd-ddwyrain Glasgow wedi dangos y ffordd, ac y mae'r polau piniwn yn dechrau adlewyrchu hynny hefyd. Ar y meinciau gyferbyn, wrth i'r etholiad cyffredinol nesáu, gwelwch y bydd pobl yn penderfynu cadw at y blaid sy'n cynnig gobaith iddynt, nid y blaid sydd am ddistrio'r economi a phopeth sy'n annwyl inni.

Gwrandewais ar Angela Burns. Y pwynt yr hoffwn ei wneud wrth ymateb i chi, Angela, yw na allaf gytuno y byddai cael 11 darn o ddeddfwriaeth i ymdrin â threuliau Aelodau Seneddol yn unig wedi golygu defnyddio amser Senedd y DU yn dda. Ni fyddai ychwaith wedi bod yn ffordd dda i egluro wrth bobl fod y Senedd yn gweithio drostynt. Mae llawer o bethau'n digwydd yn San

the problems that have occurred over the last year, and I do not think that 11 pieces of primary legislation on the subject would be a good use of parliamentary time, nor would it be good for the people of Britain.

On what Mohammad Asghar said, I have one point to make, which is that the criminal justice system is not devolved in Northern Ireland. The plan is to devolve it, but it is the difficulties involved in devolving criminal justice and policing that are causing the present difficulties in the Northern Ireland Executive. I am sure that all of us in the Chamber want to see those difficulties resolved in the future.

Before us today, to my mind, is a Queen's Speech of vision; it is a Queen's Speech of ideas and of hope. Above all, it delivers for the people of Wales and the people of Britain a bold and radical programme that will help all those who need help in our society. It will help to develop our economy, it will help to ensure that our energy needs are met and it will also help to deliver greater equality in society. In spring next year, when the general election comes, we on these benches will be proud to put our programme before the people of Wales, as will our colleagues at Westminster. I have no doubt that when that time comes, the people of Wales and the people of Britain will want to re-elect a Labour Government.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Is there any objection? I see that there is. Therefore, all voting will be deferred until voting time.

The allocated voting time was 5 p.m.; it is now slightly past that. [*Laughter.*] Therefore we will move straight to the vote. Does anyone wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Steffan i ymdrin â'r problemau sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ni chredaf y byddai 11 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol ar y mater wedi defnydd amser y Senedd yn dda, nac yn dda i bobl Prydain.

O ran yr hyn a ddywedodd Mohammad Asghar, mae gennyf un pwynt i'w wneud, sef nad yw'r system cyfiawnder troseddol wedi'i datganoli yng Ngogledd Iwerddon. Bwriedir ei datganoli, ond yr anawsterau wrth geisio datganoli cyfiawnder troseddol a phlisma sy'n peri'r anawsterau presennol yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn y Siambr am weld datrys yr anawsterau hynny yn y dyfodol.

Yn fy marn i, mae'r Araith sydd ger ein bron yma heddiw yn araith o weledigaeth; mae'n cynnwys syniadau a gobaith. Yn anad dim, i bobl Cymru a phobl Prydain, mae'n cynnig rhaglen eofn a radical a fydd yn helpu pawb y mae arnynt angen help yn ein cymdeithas. Bydd yn helpu datblygu ein heconomi, bydd yn helpu sicrhau diwallu ein hanghenion ynni, a bydd hefyd yn helpu sicrhau mwy o gydraddoldeb mewn cymdeithas. Yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf, pan ddaw'r etholiad cyffredinol, byddwn ni ar y meinciau hyn yn falch rhoi ein rhaglen gerbron pobl Cymru, fel y bydd ein cydweithwyr yn San Steffan. Nid oes gennyf ddim amheuaeth, pan ddaw'r adeg honno, na fydd pobl Cymru a phobl Prydain am ailethol Llywodraeth Lafur.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn bob pleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

Yr amser penodedig ar gyfer pleidleisio oedd 5 p.m.; mae ychydig wedi hynny erbyn hyn. [*Chwerthin.*] Felly, bwriadaf symud ymlaen yn syth i'r bleidlais. A oes unrhyw un yn dymuno bod y gloch yn cael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4333: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 22.
Amendment 1 to NDM4333: For 26, Abstain 0, Against 22.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Evans, Nerys
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lloyd, David
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4333: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
Amendment 2 to NDM4333: For 14, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin

Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4333: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
 Amendment 3 to NDM4333: For 13, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Davies, Paul
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4333: O blaid 17, Ymatal 9, Yn erbyn 23.
 Amendment 4 to NDM4333: For 17, Abstain 9, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lloyd, David
Randerson, Jenny
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Bourne, Nick
Burns, Angela
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4333: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
Amendment 5 to NDM4333: For 14, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina

Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM4333: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
 Amendment 6 to NDM4333: For 14, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Paul
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.

Gwelliant 7 i NDM4333: O blaid 5, Ymatal 9, Yn erbyn 35.
Amendment 7 to NDM4333: For 5, Abstain 9, Against 35.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Bourne, Nick
Burns, Angela
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.

Gwelliant 8 i NDM4333: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 8 to NDM4333: For 49, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Gwelliant 9 i NDM4333: O blaid 40, Ymatal 9, Yn erbyn 0.
Amendment 9 to NDM4333: For 40, Abstain 9, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Bourne, Nick
Burns, Angela
Davies, Paul

Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment agreed.*

*Gwelliant 10 i NDM4333: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 34.
 Amendment 10 to NDM4333: For 14, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Paul
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn

Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

*Gwelliant 11 i NDM4333: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
 Amendment 11 to NDM4333: For 14, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Bates, Mick
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Paul
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment not agreed.*

Motion NDM4333 as amended: that

the National Assembly for Wales:

notes the content of the UK Government's legislative programme 2009/2010;

condemns the UK Government for failing to address the problems faced by the people of Wales and the UK in its legislative programme for 2009/2010;

believes that there must be an effort to ensure that Welsh broadband provision keeps apace of English provision in the Digital Economy Bill;

believes that the Digital Economy Bill should establish an independently financed news consortium in Wales and that commissioning decisions relating to this must be made by a Welsh body.

Cynnig NDM4333 fel y'i diwygiwyd: bod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2009/2010;

yn condemnio Llywodraeth y DU am fethu rhoi sylw i'r problemau a wynebir gan bobl Cymru a'r DU yn ei rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2009/2010;

yn credu bod yn rhaid ymdrechu i sicrhau bod darpariaeth band eang yng Nghymru cystal â'r ddarpariaeth yn Lloegr yn y Mesur Seneddol ynghylch yr Economi Ddigidol;

yn credu y dylai'r Mesur Seneddol ynghylch yr Economi Ddigidol sefydlu consortiwm newyddion a gyllidir yn annibynnol yng Nghymru ac y dylai corff yng Nghymru wneud y penderfyniadau comisiynu sy'n berthnasol i hyn.

Cynnig NDM4333 fel y'i diwygiwyd: O blaid 18, Ymatal 5, Yn erbyn 26.

Motion NDM4333 as amended: For 18, Abstain 5, Against 26.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lloyd, David
Randerson, Jenny
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Bourne, Nick

Burns, Angela
 Davies, Paul
 Melding, David
 Ramsay, Nick

*Gwrthodwyd cynnig NDM4333 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4333 as amended not agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Ar y Trywydd Cywir? Gwasanaethau Trenau yng Ngorllewin Cymru On the Right Track? Train Services in West Wales

Paul Davies: I am delighted to use my short debate today to highlight the need for vast improvements in train service provision in west Wales. Angela Burns, Jenny Randerson and Nerys Evans have asked for a minute each of my time, and I am pleased for them to have that.

Members may recall that I have raised the issue of the inadequate transport infrastructure that affects west Wales, including my constituency of Preseli Pembrokeshire, on a number of occasions. People in the area are forced to use transport services that are not particularly accessible or convenient to get them to where they want to go. In such difficult economic times, it is vital that people can easily access transport to get to work. Areas of Pembrokeshire are not only limited by their rurality, but classified as areas of deprivation. Improving the transport infrastructure would undoubtedly increase the area's chances of attracting investment and development, which is much needed in Pembrokeshire and, indeed, in west Wales generally.

It would also help to support the tourism industry, which is one of the main industries in Pembrokeshire. Improved rail service provision would also provide enhanced connectivity with other regions, help to achieve environmental benefits by providing a viable alternative to the car and facilitating modal shift from road to rail, and increase healthy and sustainable travel choices.

Paul Davies: Yr wyf yn falch cael defnyddio fy nadl fer heddiw i dynnu sylw at yr angen am welliannau mawr yn y ddarpariaeth gwasanaethau trenau yn y gorllewin. Mae Angela Burns, Jenny Randerson a Nerys Evans wedi gofyn am gael munud yr un o'm hamser, ac yr wyf yn hapus iddynt gael hynny.

Efallai y bydd Aelodau'n cofio fy mod wedi codi mater y seilwaith trafniadaeth annigonol sy'n effeithio ar y gorllewin, gan gynnwys fy etholaeth i, Preseli Sir Benfro, droeon. Caiff pobl yn yr ardal eu gorfodi i ddefnyddio gwasanaethau cludiant nad ydynt yn arbennig o hwylus na chyfleus i fynd â hwy lle maent yn dymuno mynd. Ar adeg mor anodd yn economaidd, mae'n hanfodol i bobl allu cael cludiant yn rhwydd i gyrraedd y gwaith. Nid yn unig y mae rhai ardaloedd o Sir Benfro wedi'u cyfyngu gan eu natur wledig, ond maent hefyd wedi'u dynodi'n ardaloedd o amddifadedd. Nid oes amheuaeth na fyddai gwella'r seilwaith cludiant yn cynyddu gobeithion yr ardal o ddenu buddsoddiad a datblygiad y mae eu hangen yn ddybryd ar Sir Benfro, ac yn wir ar y gorllewin yn gyffredinol.

Byddai'n helpu cefnogi'r diwydiant twristiaeth hefyd, sef un o brif ddiwydiannau Sir Benfro. Byddai gwell darpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd hefyd yn fodd i sicrhau bod yr ardal wedi'i chysylltu'n well â rhanbarthau eraill, byddai'n helpu sicrhau manteision amgylcheddol drwy ddarparu dewis ymarferol arall yn lle'r car a hwyluso newid o ddefnyddio'r ffyrdd i ddefnyddio'r rheilffyrdd, a byddai'n cynyddu dewisiadau teithio iach a chynaliadwy.

To date, the Deputy First Minister and the Assembly Government have refused to dual the A40 into the county. As the Deputy First Minister is aware, I still feel strongly that this would benefit the area greatly, even if the Assembly Government chooses to disagree. Given that the Welsh Assembly Government will not consider dualling the A40 into Pembrokeshire, I hope that the Deputy First Minister will now look more kindly on rail improvements. This is why I very much support the enhancement of rail services to Fishguard. It makes sense environmentally and economically.

I accept that, since devolution, north Pembrokeshire has seen some improvements in other transport modes, with the exception of its extremely restricted rail service. We have seen some improvement in integrated bus and community services, linked to an expansion in walking and cycling facilities. Therefore, there is an extremely strong case for improvements and enhancements to the rail services to and from Fishguard. Let us not forget that Fishguard port is of major national importance. It also plays a key role in the local economy, and it is therefore essential that it is included in any transport improvement plans. Fishguard's importance is absolutely clear from the evidence being presented to the Enterprise and Learning Committee's current inquiry into the future railway infrastructure in Wales.

It is vital that rail connections to ports such as Fishguard and Milford Haven are improved to maximise the opportunity for onward carriage of goods by rail. As the Deputy First Minister is aware, the South West Wales Integrated Transport Consortium, SWITCH, and the South West Wales Community Rail Partnership commissioned the Fishguard rail study, which was carried out by Jacobs Consultancy in 2007. The study recommended provision of an additional five trains per day between Fishguard and Carmarthen. At a time when funds are going to be limited, the Fishguard improvements would provide a moderately priced quick win in an area widely

Hyd yma, mae'r Dirprwy Brif Weinidog a Llywodraeth y Cynulliad wedi gwrthod gwneud yr A40 i mewn i'r sir yn ffordd ddeuol. Fel y gŵyr y Dirprwy Brif Weinidog, yr wyf yn teimlo'n gryf o hyd y byddai'r ardal yn elwa'n fawr o hynny, hyd yn oed os yw Llywodraeth y Cynulliad yn dewis anghytuno. O gofio nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn barod i ystyried gwneud yr A40 i mewn i Sir Benfro yn ffordd ddeuol, gobeithio y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn edrych yn fwy ffafriol yn awr ar wella'r rheilffyrdd. Dyna pam yr wyf yn gefnogol iawn i'r alwad am wella'r gwasanaethau rheilffordd i Abergwaun. Mae'n gwneud synnwyr yn amgylcheddol ac yn economaidd.

Yr wyf yn derbyn bod gogledd Sir Benfro, ers datganoli, wedi gweld rhai gwelliannau mewn dulliau eraill o deithio, ac eithrio'i gwasanaeth rheilffordd eithriadol o gyfyngedig. Gwelsom ychydig welliant mewn gwasanaethau bws a gwasanaethau cymunedol integredig, yn gysylltiedig ag ehangu cyfleusterau cerdded a beicio. Felly, mae achos eithriadol o gryf dros wella a chynyddu'r gwasanaethau rheilffordd i Abergwaun ac oddi yno. Rhaid inni beidio ag anghofio bod Abergwaun yn borthladd o bwysigrwydd cenedlaethol mawr. Mae hefyd yn allweddol yn yr economi leol, ac y mae'n hanfodol felly i'r dref gael ei chynnwys mewn unrhyw gynlluniau i wella trafnidiaeth. Mae pwysigrwydd Abergwaun yn hollol amlwg o'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno i ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Menter a Dysgu i ddyfodol y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

Mae'n hanfodol i gysylltiadau rheilffyrdd i borthladdoedd megis Abergwaun ac Aberdaugleddau gael eu gwella er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddefnyddio'r rheilffyrdd i gludo nwyddau ymlaen o'r porthladdoedd. Fel y gŵyr y Dirprwy Brif Weinidog, comisiynodd Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru, SWITCH, a Phartneriaeth Rheilffordd Gymunedol De-orllewin Cymru astudiaeth o reilffordd Abergwaun, a gwnaed yr astudiaeth gan Jacobs Consultancy yn 2007. Yr oedd yr astudiaeth yn argymhell y dylid darparu pum trên ychwanegol y dydd rhwng Abergwaun a Chaerfyrddin. Ar adeg pan fydd arian yn gyfyngedig, byddai'r

acknowledged to be in need of a better rail service. The additional train services could be put in place immediately, with a shuttle service to link with the current Milford mainline service.

It is worth making the important point that the additional train services to Fishguard should not be dependent on the proposed line redoubling west of Swansea. The proposals would also provide additional services to stations along the routes, at Clarboston Road, Clunderwen and Whitland. Furthermore, the proposed services have a benefit to cost ratio of 2.36 for the proposed services, demonstrating good value for money for any Welsh Assembly Government investment. SWWITCH has subsequently included the extra Fishguard services among its priority 1 rail projects in its regional transport plan. Indeed, I am given to understand that SWWITCH is also in favour of introducing the improvements to Fishguard before the line redoubling west of Swansea takes place.

The value of this to the people of Pembrokeshire and those visiting, for business or pleasure, cannot be underestimated. At the moment, Fishguard and north Pembrokeshire are not regarded as destinations. Unfortunately, the present rail service merely serves as a funnel through which people just pass to and from Ireland. Additional train services will allow people to travel to Pembrokeshire and the west to enjoy the area as a destination.

I recently had the honour of accepting a petition, which has now been formally submitted to the Assembly's Petitions Committee, from two young people from my constituency, Sam Faulkener and Joanne Griffiths who, I am delighted to say, are with us today in the public gallery. I am pleased to welcome them to the Senedd. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Hear, hear.'] Their petition calls upon the Assembly to urge the Welsh Assembly Government to provide funding for the additional five trains per day to

gwelliannau hyn yn Abergwaun yn ateb cyflym, rhesymol ei bris i ardal lle cydnabyddir yn eang fod angen gwell gwasanaeth rheilffyrdd. Gellid cyflwyno'r gwasanaethau trenau ychwanegol ar unwaith, gyda gwasanaeth gwennol i gysylltu â'r gwasanaeth presennol ar y brif linell i Aberdaugleddau.

Mae'n werth gwneud y pwynt pwysig na ddylai darparu gwasanaethau trên ychwanegol i Abergwaun fod yn ddibynnol ar y gwaith arfaethedig i ailddyblu'r llinell i'r gorllewin o Abertawe. Byddai'r cynigion hefyd yn darparu gwasanaethau ychwanegol i orsafoedd ar hyd y llwybrau, yn Clarboston Road, Clunderwen a Hendy-gwyn. At hynny, mae gan y gwasanaethau arfaethedig gymhareb budd-cost o 2.36, sy'n dangos gwerth da am yr arian am unrhyw fuddsoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad. Ers hynny, mae SWWITCH, yn ei gynllun trafniadaeth rhanbarthol, wedi cynnwys y gwasanaethau ychwanegol i Abergwaun ymhlith ei brosiectau rheilffordd yng nghategori blaenoriaeth 1. Yn wir, deallaf fod SWWITCH hefyd o blaid cyflwyno'r gwelliannau yn Abergwaun cyn ailddyblu'r llinell i'r gorllewin o Abertawe.

Ni ellir bychanu gwerth hyn i bobl Sir Benfro a pobl sy'n ymweld â'r ardal i fwynhau neu at ddibenion busnes. Ar hyn o bryd, nid yw Abergwaun a gogledd Sir Benfro'n cael eu hystyried yn gyrchfannau. Yn anffodus, nid yw'r gwasanaeth rheilffordd sydd gennym ar hyn o bryd yn ddim mwy na thwndis i bobl lifo drwyddo ar eu ffordd yn ôl ac ymlaen i Iwerddon. Bydd gwasanaethau trên ychwanegol yn caniatáu i bobl deithio i Sir Benfro a'r gorllewin a mwynhau'r ardal fel cyrchfan.

Yn ddiweddar, cefais y fraint o dderbyn deiseb, sydd bellach wedi'i chyflwyno'n ffurfiol i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad, gan ddau unigolyn ifanc o'm hetholaeth, Sam Faulkener a Joanne Griffiths, ac yr wyf yn falch iawn dweud bod y ddau gyda ni yma heddiw yn yr oriel gyhoeddus. Mae'n bleser gennyf eu croesawu i'r Senedd. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Clywch, clywch']. Mae eu deiseb yn galw ar y Cynulliad i annog Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu cyllid ar gyfer y pum trên ychwanegol y dydd i

Fishguard. The petition has already received over 1,300 signatures. The lack of service provision hits non-drivers, like young people, very hard. For young people like Sam and Joanne, it is difficult to travel to meet with friends and get around the area without being dependent on their parents or others who can drive them. They both have concerns about how this will impact on their opportunities to access employment after completing full-time education. I take this opportunity to commend their hard work in arranging this petition. I believe that they are a credit to all of us.

As I have already mentioned, the benefits of increasing the services would be felt across the area. Funding for enhanced rail services would enable the railway to play a full role in the economic and social regeneration of the Fishguard and north Pembrokeshire area. It would also provide enhanced connectivity with other regions.

I will now turn to other parts of west Wales and some of the improvements that could be made to rail services and the rail infrastructure. West Wales is the doorway to southern Ireland with regular ferry services from Fishguard and Pembroke Dock. I have already outlined potential improvements for Fishguard, and I believe that Pembroke Dock would also benefit greatly from enhancement. Currently, there is no train service to meet the late ferry into Pembroke Dock. There is a significant wait for services in the evening and it does not seem logical when there are people arriving, who could find a new service very beneficial. We cannot hope to encourage people to use these services and visit the area if we cannot offer them adequate onward transport to continue with their journey.

The upkeep of Tenby train station also sparks concerns. Obscene graffiti and litter can be seen on the old track. While this does not affect the operation of the line, it is certainly no advert for rail travel in west Wales. Is that the impression that we want to give people using our rail services?

Similarly, a significant number of trains

Abergwaun. Mae dros 1,300 o bobl eisoes wedi llofnodi'r ddeiseb. Mae'r diffyg darpariaeth gwasanaethau yn effeithio'n ofnadwy ar bobl nad ydynt yn gyrru, megis pobl ifanc. I bobl ifanc fel Sam a Joanne, mae'n anodd teithio i gwrdd â ffrindiau a mynd o le i le heb orfod dibynnu ar eu rhieni neu bobl eraill i'w cludo. Mae'r ddau'n pryderu sut y bydd hynny'n effeithio ar eu cyfleoedd i gael gwaith ar ôl iddynt orffen mewn addysg amser llawn. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ganmol y ddau am eu gwaith caled yn trefnu'r ddeiseb hon. Credaf eu bod yn glod inni i gyd.

Fel yr wyf eisoes wedi sôn, byddai'r ardal gyfan yn gweld y manteision o gynyddu'r gwasanaethau. Byddai darparu cyllid ar gyfer gwell gwasanaethau rheilffordd yn galluogi'r rheilffordd i fod yn rhan lawn o adfywiad economaidd a chymdeithasol ardal Abergwaun a gogledd Sir Benfro. Byddai'n fodd hefyd i sicrhau bod gwell cysylltiad rhwng yr ardal a rhanbarthau eraill.

Trof yn awr at rannau eraill o orllewin Cymru, a rhai o'r gwelliannau y gellid eu gwneud yn y gwasanaethau rheilffordd a'r seilwaith rheilffyrdd. Y gorllewin yw'r porth i dde Iwerddon, gyda gwasanaethau fferi rheolaidd o Abergwaun a Doc Penfro. Yr wyf eisoes wedi amlinellu gwelliannau posibl i Abergwaun, a chredaf y byddai Doc Penfro hefyd yn elwa'n fawr o welliannau. Ar hyn o bryd, nid oes gwasanaeth trên ar gael i gwrdd â'r fferi hwyr i mewn i Ddoc Penfro. Rhaid aros cryn amser am wasanaethau gyda'r hwyr, ac nid yw hynny'n ymddangos yn rhesymegol pan fydd pobl yn cyrraedd a allai elwa'n fawr iawn o wasanaeth newydd. Nid oes gobaith inni annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn ac ymweld â'r ardal os na allwn gynnig cludiant digonol iddynt o'r porthladd i'w galluogi i barhau eu taith.

Mae cyflwr gorsaf drenau Dinbych-y-pysgod hefyd yn peri gofid. Mae graffiti anwedus a sbwriel i'w gweld ar yr hen drac. Er nad yw hynny'n amharu ar y gwasanaeth ar y llinell, mae'n sicr nad yw'n hysbyseb dda ar gyfer teithio ar drenau yn y gorllewin. Ai dyna'r argraff y dymunwn ei rhoi i bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau rheilffordd?

Yn yr un modd, mae nifer sylweddol o'r

travelling to and from the region are older models and the carriages are not particularly comfortable. They are noisy and do not have good facilities. I frequently travel from the constituency to the Assembly by train, and often the train will consist of only two carriages for services travelling as far as Manchester, and they are full to the brim.

The necessity is there but unfortunately there is not the capacity to provide adequate services. Clearly, there is significant room for improvement. It is absolutely clear that, where train services have been improved or lines even reopened, demand has increased. Arriva Trains has seen a 13 per cent increase in passenger numbers in the last five years where services have been reintroduced. This just proves that people will use the services if they are made available.

Pembrokeshire and west Wales as a whole often face shortfalls in essential services—dentistry, orthodontic treatment and reliable broadband provision being just some of the services that spring to mind. It is vitally important that the region does not miss out when the Assembly Government makes its decisions on funding for the transport infrastructure.

In closing, I would urge the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport to give the rail infrastructure in west Wales the support that it deserves and I hope that he will give the issues that I have mentioned today full consideration when he and the Welsh Assembly Government make their decisions.

Jenny Randerson: Thank you, Paul, for allowing me to speak. Paul has outlined an economic and social need for an improved railway service in west Wales and he has also referred to the importance of freight and freight facilities. However, I will use this opportunity to ask the Deputy First Minister, in his response, to address the issue of the powers that we have over the railway infrastructure.

trenau sy'n teithio i mewn ac allan o'r rhanbarth yn fodolau hŷn, ac nid yw'r cerbydau'n arbennig o gyfforddus. Maent yn swllyd ac nid oes cyfleusterau da ynddynt. Byddaf yn teithio'n fynych ar y trŷn o'm hetholaeth i'r Cynulliad, ac yn aml dau gerbyd yn unig fydd ar drenau ar gyfer gwasanaethau sy'n mynd mor bell â Manceinion, ac y maent yn orlawn.

Mae'r angen yno, ond yn anffodus nid yw'r gallu yno i ddarparu gwasanaethau digonol. Yn amlwg, mae cryn le i wella. Mae'n hollol amlwg, lle mae gwasanaethau trŷn wedi'u gwella neu lle mae llinellau hyd yn oed wedi'u hailagor, fod y galw wedi cynyddu. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Trenau Arriva wedi gweld cynnydd o 13 y cant yn nifer y teithwyr lle mae gwasanaethau wedi'u hailgyflwyno. Mae hynny'n profi y bydd pobl yn defnyddio'r gwasanaethau os cânt eu darparu.

Yn aml, bydd Sir Benfro a'r gorllewin yn gyffredinol yn wynebu diffygion mewn gwasanaethau hanfodol—mae gwasanaethau deintyddol, triniaeth orthodontig a darpariaeth band eang ddibynadwy ymysg rhai o'r gwasanaethau sy'n dod i'r meddwl. Mae'n hollbwysig i'r rhanbarth beidio â bod ar ei golled pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ei phenderfyniadau ar gyllido'r seilwaith trafndiaeth.

I gloi, byddwn yn annog y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i sicrhau bod y seilwaith rheilffyrdd yn y gorllewin yn cael y gefnogaeth y mae'n ei haeddu, a gobeithio y bydd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r materion a grybwyllais heddiw pan fydd ef a Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud eu penderfyniadau.

Jenny Randerson: Diolch, Paul, am ganiatáu imi siarad. Mae Paul wedi amlinellu angen economaidd a chymdeithasol am well gwasanaeth rheilffordd yn y gorllewin, ac y mae hefyd wedi cyfeirio at bwysigrwydd cludo nwyddau a chyfleusterau cludo nwyddau. Fodd bynnag, hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog roi sylw, yn ei ymateb, i'r pwerau sydd gennym dros y seilwaith rheilffyrdd.

6.50 p.m.

You will be well aware that at the time of the passing of the Railways Act 2005, Wales had the potential to be granted the same powers as Scotland. Scotland has found having those powers to be very successful. We heard persuasive evidence in the committee last week from representatives of the transport consortia in Wales, who unanimously backed the idea of more powers, and who said, tellingly, that they had the impression that, for Network Rail, Wales was a bit of an afterthought, and that it did not give Wales the attention or the financial investment that it deserved. I would be interested, Deputy First Minister, to hear your comments on that.

Angela Burns: I thank Paul for his drive to try to bring sustainable rail travel to west Wales. I want to raise not only the subject of better railways—as Paul has covered that and all the arguments so well—but also the desire for new railway stations. In St Clears we are after a new railway station. We used to have one; it was closed, and we have looked again at the benefits of having a railway station. Those benefits stack up. Paul talks of modal changes and of how it is far more sustainable to get us out of cars and onto trains. Many people in St Clears work in either Carmarthen or Swansea. St Clears is developing as a town at a great pace because of all the houses that are now being developed. The children in St Clears either go to the Whitland primary or secondary school, or into Carmarthen to Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin or Queen Elizabeth High School. Children and young people are frustrated and bored in the evenings and at weekends, as they are trapped in St Clears. There is not a lot to do there, and they want to go to Carmarthen. They want to see their friends and to socialise, but the bus stops at 9 p.m. We have put together all the facts and figures as to why we need it, we have talked to Arriva Trains Wales and to Network Rail, and we have the backing of Carmarthenshire County Council. Deputy First Minister, I do not expect you to give your support to something on which you have not been fully briefed, but I would like to ask you to come to St Clears to meet the people of the town, who are so keen on this. You could then have

Byddwch yn ymwybodol iawn fod posibilrwydd, adeg pasio Deddf Rheilffyrdd 2005, y gallai Cymru gael yr un pwerau â'r Alban. Mae cael y pwerau hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn yn yr Alban. Clywsom dystiolaeth argyhoeddiadol yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf gan gynrychiolwyr y consortia trafnidiaeth yng Nghymru, a oedd yn unfryd o blaid y syniad o gael mwy o bwerau. Dywedasant, yn ddadlennol, eu bod yn cael yr argraff fod Network Rail yn ystyried pobman arall cyn Cymru, ac nad oedd yn rhoi i Gymru y sylw na'r buddsoddiad ariannol yr oedd yn eu haeddu. Hoffwn glywed, Ddirprwy Weinidog, eich sylwadau ar hynny.

Angela Burns: Diolch i Paul am ei ymdrech i geisio dod â gwasanaethau trên cynaliadwy i'r gorllewin. Yr wyf am dynnu sylw nid yn unig at yr angen am well rheilffyrdd—gan fod Paul wedi ymdrin cystal â hynny a'r holl ddadleuon—ond y dymuniad hefyd i gael gorsaf reilffordd newydd. Yr ydym am gael gorsaf reilffordd newydd yn Sanclêr. Yr oedd un yn arfer bod gennym; cafodd ei chau, ac yr ydym wedi edrych eto ar fanteision cael gorsaf reilffordd. Mae'r manteision hynny'n gwneud synnwyr. Mae Paul yn sôn am newidiadau yn ein dulliau teithio, a chymaint yn fwy cynaliadwy yw cael pobl allan o'u ceir ac i mewn i drenau. Mae llawer o bobl yn Sanclêr yn gweithio yng Nghaerfyrddin neu Abertawe. Mae Sanclêr yn datblygu'n gyflym iawn fel tref oherwydd yr holl dai sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y plant yn Sanclêr yn mynd i'r ysgol gynradd neu'r ysgol uwchradd yn Hendy-gwyn, neu i Gaerfyrddin i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin neu Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth. Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n rhwystredig ac yn ddiflas gyda'r hwyr ac ar benwythnosau, gan nad oes modd iddynt fynd i unman o Sanclêr. Nid oes llawer i'w wneud yno, ac y maent am fynd i Gaerfyrddin. Maent am weld eu ffrindiau a chymdeithasu, ond y mae'r gwasanaeth bws yn dod i ben am 9 p.m. Yr ydym wedi rhoi'r holl ffeithiau a'r ffigurau at ei gilydd i ddangos pam mae arnom angen yr orsaf, yr ydym wedi siarad â Threnau Arriva Cymru a Network Rail, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ein cefnogi yn hyn. Ddirprwy

a look at this issue and see whether you can also give it your support, which we would need to help us to get Network Rail firmly on side.

Nerys Evans: Diolch, Paul, am ddod â'r pwnc pwysig hwn gerbron y Cynulliad. Hoffwn gysylltu fy hun â sylwadau Jenny Randerson ynglŷn â datganoli'r pwerau dros y rheilffyrdd i Gymru. Yr ydym wedi clywed llawer o dystiolaeth bwysig yn y pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Dirprwy Brif Weinidog i'r dystiolaeth honno. Mae'r sawl ohonom sy'n byw yn y gorllewin ac yn cynrychioli'r ardal yn llawn ystyried pa mor bwysig yw'r pwnc hwn. Mae'r Llywodraeth yn blaenoriaethu datblygu economaidd cynaliadwy, a chredaf fod y mater hwn wrth galon hynny.

Fel mae Paul wedi sôn, mae'r consortia trafniadaeth lleol yn cefnogi'r cais i ddatblygu gwasanaethau i'r gorllewin, ac mae hynny'n gam cyntaf pwysig iawn inni.

Ategaf y llongyfarchiadau i Sam Faulkener a Joanne Griffiths ar eu gwaith caled yn casglu enwau ar gyfer y ddeiseb. Mae hynny wedi dangos pwysigrwydd datblygu gwasanaethau nid yn unig i ni sy'n gweithio, ond i bobl ifanc, gan eu bod yn fodd pwysig iddynt gymdeithasu. Edrychaf ymlaen at ymateb Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Brif Weinidog i hynny, er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): It has been a long day. I congratulate Paul on securing the debate and for the way in which he presented his arguments. This is the second debate that I have responded to that Paul has raised. The first was on the A40 and was held quite early in the third Assembly. He has decided to use his two short debates, to which I have responded, to raise important transport issues. I also thank other Members who have contributed.

Brif Weinidog, nid wyf yn disgwyl ichi roi eich cefnogaeth i rywbeth nad ydych wedi cael gwybodaeth lawn amdano, ond hoffwn ofyn ichi ddod i Sanclêr i gwrdd â phobl y dref, sydd mor frwd dros hyn. Gallech wedyn edrych ar y mater ac ystyried a allwch hefyd ei gefnogi, oherwydd byddai angen hynny arnom i'n helpu i gael Network Rail yn gadarn o'n plaid.

Nerys Evans: I thank Paul for bringing this important issue before the Assembly. I should like to associate myself with Jenny Randerson's comments on the devolution of powers over railways to Wales. We have heard a lot of important evidence in the committee, and I look forward to hearing the Deputy First Minister's response to that evidence. Those of us who live in west Wales and represent the area are well aware of the importance of this issue. The Government is giving priority to sustainable economic development, and I believe that this issue is at the heart of that.

As Paul mentioned, the local transport consortia supports the bid to develop services to west Wales, and that is a very important first step for us.

I echo the congratulations to Sam Faulkener and Joanne Griffiths on their hard work in collecting names for the petition. That has shown the importance of developing services, not only for those of us who work, but for young people, since it is an important means for them to socialise. I look forward to the response by the Welsh Government and by the Deputy First Minister to that, in order to ensure that this work continues.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Mae wedi bod yn ddiwrnod hir. Yr wyf yn llongyfarch Paul ar gael y ddadl ac am y modd y cyflwynodd ei ddadleuon. Dyma'r eildro imi ymateb i ddadl y mae Paul wedi'i chodi. Yr oedd y ddadl gyntaf yn ymwneud â'r A40, a digwyddodd yn lled gynnar yn y trydydd Cynulliad. Mae wedi penderfynu defnyddio'i ddwy ddadl fer i godi materion pwysig am drafnidiaeth, ac yr wyf wedi ymateb i'r ddwy. Yr wyf yn diolch hefyd i'r Aelodau eraill sydd wedi cyfrannu.

Before I address the points that Paul has made, I will briefly address those that Jenny and Nerys raised in relation to the transfer of more powers to the Assembly. I have heard from you today that the committee on which you sit is considering this matter. If your committee were to make a particular recommendation, I assure you that the Government would consider it carefully. I have given an indication of where I would stand on that issue, but we need to see what the committee says.

On the new railway stations—Angela referred to St Clears—it may be a little early to have a meeting at this time, but station improvements are a part of our national transport plan. My department has submitted a major bid to the Welsh European Funding Office seeking a substantial grant, under convergence funding, to enhance and accelerate the national stations improvement programme. I cannot give you a list of those stations today, but we are seeking further funding to enable us to take the national stations improvement programme onwards. If you would like to write to me regarding the station that you mentioned, we can give you a reply regarding where we are in relation to that funding. I am not saying that St Clears is part of the package because I am not currently aware of it. However, I think that you will be comforted by the fact that we are looking at station improvements.

I will turn to the points raised by Paul in his debate. Before I deal with the issue of west Wales, particularly Fishguard in Pembrokeshire, I would like to make the more general point that we understand the importance of improving the rail network. I am sure that we all welcome the Department for Transport's announcement on the electrification of the Great Western main line between Paddington and Swansea, which is something that many people did not expect us to be able to deliver. That is a significant step in recognising the importance of rail travel. That will also help people travelling further west, because if you can have a much quicker service going from Paddington to Swansea, then services linking in to Swansea from further west will benefit substantially from that.

Cyn imi roi sylw i'r pwyntiau y mae Paul wedi'u gwneud, rhoddaf sylw'n gyflym i'r rhai a gododd Jenny a Nerys am drosglwyddo mwy o bwerau i'r Cynulliad. Clywais gennych heddiw fod y pwyllgor yr ydych yn aelodau ohono yn ystyried y mater hwn. Pe bai eich pwyllgor yn gwneud argymhelliaid penodol, gallaf eich sicrhau y byddai'r Llywodraeth yn ei ystyried yn ofalus. Yr wyf wedi awgrymu beth fyddai fy safbwynt i ar y mater, ond y mae angen inni weld beth sydd gan y pwyllgor i'w ddweud.

O ran y gorsafoedd rheilffordd newydd—cyfeiriodd Angela at Sanclêr—efallai ei bod braidd yn gynnar i gael cyfarfod ar hyn o bryd, ond y mae gwella gorsafoedd yn rhan o'n cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Mae fy adran wedi cyflwyno cais mawr i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am grant sylweddol, dan gyllid cydgyfeirio, i ehangu a chyflymu'r rhaglen genedlaethol i wella gorsafoedd. Ni allaf roi rhestr o'r gorsafoedd hynny ichi heddiw, ond yr ydym yn chwilio am gyllid pellach i'n galluogi i symud ymlaen y rhaglen genedlaethol i wella gorsafoedd. Pe hoffech ysgrifennu ataf am yr orsaf y cyfeiriech ati, gallem roi ateb ichi ynghylch ble'r ydym arni o ran y cyllid hwnnw. Nid wyf yn dweud bod Sanclêr yn rhan o'r pecyn, oherwydd nid wyf yn ymwybodol o hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, credaf y bydd y ffaith ein bod yn edrych ar wella gorsafoedd yn gysur ichi.

Trof at y pwyntiau a gododd Paul yn ei ddadl. Cyn ymdrin â'r gorllewin, ac Abergwaun yn Sir Benfro yn benodol, hoffwn wneud y pwynt mwy cyffredinol ein bod yn deall pwysigrwydd gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn croesawu cyhoeddiad yr Adran Drafndiaeth am drydaneiddio prif linell Great Western rhwng Paddington ac Abertawe, rhywbeth yr oedd llawer o bobl yn amau na fyddem yn gallu'i gyflawni. Mae hwnnw'n gam sylweddol i gydnabod pwysigrwydd teithio ar drenau. Bydd hynny hefyd yn helpu pobl sy'n teithio ymhellach i'r gorllewin, oherwydd os oes gennych wasanaeth llawer cynt yn teithio o Paddington i Abertawe, yna bydd y gwasanaethau sy'n cysylltu ag Abertawe o gyfeiriad y gorllewin yn elwa'n sylweddol o hynny.

I should also make it clear that I am meeting the chair of High Speed 2 fairly soon. Getting the electrification of that line is something that we now know is on the stocks. I hope that, if there were to be a change of Government in Westminster, that programme would continue. High-speed rail will be crucial. Paul, you quite rightly mentioned the significance of Fishguard as a national port, not just a regional port. If we can secure high-speed rail in addition to electrification to south Wales, then ports like Fishguard will benefit from that.

On the point about freight being transferred to rail, many of the companies in the logistics sector tell me—as they tell others—that the cost to them of switching from road to rail is difficult and that it does not make sense for short journeys. For longer journeys, it does make sense. We have to work with logistics companies and those carrying goods over long distances to see whether we can shift that as well. In the current set-up for railways, increasing the amount of traffic on the track will enhance its viability for passenger services.

I know, Paul, that you said that we could be introducing new services to Fishguard without the redoubling of the Gowerton to Loughor section, but I would not want to underestimate the importance of securing that project. Like the project between Wrexham and Chester, the redoubling of that section will allow us to enhance services to west Wales. I know that points have been made by Jenny and others about Network Rail; this is a programme that we have agreed with Network Rail, both in north Wales and south Wales. My department has agreed with Network Rail a programme of improvements across north and south Wales. Let us remember that this is not just between Holyhead and Cardiff, but between Cardiff and Fishguard as well. Many improvements are being planned. Very often, you need improvements to infrastructure before you can deliver new services. I agree with you that it would be possible to have some services to Fishguard without that redoubling, but it is difficult to deliver the whole package proposed by SWITCH without doubling. We have to see whether we can look at the

Hoffwn egluro hefyd y byddaf yn cyfarfod â chadeirydd High Speed 2 cyn hir. Gwyddom erbyn hyn fod y gwaith o drydaneiddio'r llinell honno ar y gweill. Gobeithio y byddai'r rhaglen honno'n parhau pe bai'r Llywodraeth yn San Steffan yn newid. Bydd trenau cyflym iawn yn hollbwysig. Paul, soniech yn gywir ddigon am bwysigrwydd Abergwaun fel porthladd cenedlaethol, nid fel porthladd rhanbarthol yn unig. Os gallwn ddod â threnau cyflym iawn, yn ogystal â gwaith trydaneiddio i'r de, bydd porthladdoedd megis Abergwaun yn elwa o hynny.

O ran cludo nwyddau ar y rheilffordd yn hytrach na'r ffyrdd, mae nifer o'r cwmnïau yn y sector logisteg yn dweud wrthyf—ac wrth eraill—fod y gost o newid o'r ffordd i'r rheilffordd yn broblem ac nad yw'n gwneud synnwyr ar gyfer teithiau byr. Mae'n gwneud synnwyr ar gyfer teithiau hwy. Rhaid inni weithio gyda chwmnïau logisteg a'r rheini sy'n cario nwyddau dros bellter mawr i weld a allwn symud ar hynny hefyd. Dan y drefn bresennol ar gyfer rheilffyrdd, bydd cynyddu nifer y trenau ar y trac yn gwella hyfywedd gwasanaethau i deithwyr.

Gwn ichi ddweud, Paul, y gallem gyflwyno gwasanaethau newydd i Abergwaun heb ailddyblu'r rhan o Dre-gŵyr i Gasllwchwr, ond ni fyddwn am fychanu pwysigrwydd sicrhau bod y prosiect hwnnw'n digwydd. Fel gyda'r prosiect rhwng Wrecsam a Chaer, bydd ailddyblu'r rhan honno'n caniatáu inni wella gwasanaethau i'r gorllewin. Gwn fod pwyntiau wedi'u gwneud am Network Rail gan Jenny a phobl eraill; mae hon yn rhaglen yr ydym wedi ei chytuno â Network Rail, yn y gogledd a'r de. Mae fy adran wedi cytuno â Network Rail ar raglen o welliannau ar draws y gogledd a'r de. Cofiw'n nad rhwng Caergybi a Chaerdydd yn unig y mae hon, ond rhwng Caerdydd ac Abergwaun hefyd. Mae nifer o welliannau'n cael eu cynllunio. Yn aml iawn, mae angen gwella'r seilwaith cyn y gellir cyflwyno gwasanaethau newydd. Cytunaf â chi y byddai'n bosibl cael rhai gwasanaethau newydd i Abergwaun heb y gwaith ailddyblu, ond y mae'n anodd sicrhau'r pecyn cyfan sy'n cael ei gynnig gan SWITCH heb y gwaith ailddyblu. Rhaid inni ystyried a allwn edrych ar y pecyn cyfan.

whole package.

7.00 p.m.

I will now deal with the specific points that you raised, including the SWWITCH priorities. You rightly pointed out that SWWITCH's first priority is proposals for improvements to rail services west of Swansea. These proposals are obviously quite significant. There is the redoubling scheme that I have referred to, the three trains per hour between Swansea, Gowerton, Llanelli and Carmarthen, the hourly service between Carmarthen and Milford Haven and the five trains a day to Fishguard harbour. These are quite significant investments. The redoubling will of course require capital spending, but the new services, because they are outside the current franchise, will require revenue commitments. I have agreed with all the regional transport consortia that when those plans are finally put to me, I will be happy to talk to them about their priorities and how we can take them forward.

The assurance that I can give you today is that when I receive the proposals formally from SWWITCH and the other transport consortia, I will look carefully at how I can take forward some of their priorities. Although the transport consortia may expect it, they probably know that they will not see all their plans brought to fruition, but I am very happy to look at specific proposals and to discuss what their priorities are within the programmes that they put to me. I am happy to give you that assurance today, without making a firm commitment, because I have no revenue streams currently that I can identify. However, I will want to look at it very carefully in the light of their particular projects.

The programme that we set out in our national transport plan is important in the sense that we have begun to shift the spending away from roads towards more integrated transport. For the first time ever, the Welsh Assembly Government is now spending more on integrated transport than it

Ymdriniaf yn awr â'r pwyntiau penodol a godwyd gennych, gan gynnwys blaenoriaethau SWWITCH. Yr oeddech yn dweud, yn gywir ddigon, mai blaenoriaeth gyntaf SWWITCH yw cynigion ar gyfer gwelliannau yn y gwasanaethau rheilffordd i'r gorllewin o Abertawe. Mae'n amlwg fod y cynigion hyn yn rhai sylweddol. Maent yn cynnwys y cynllun ailddyblu yr wyf wedi cyfeirio ato, y tri thrên bob awr rhwng Abertawe, Tre-gŵyr, Llanelli a Chaerfyrddin, y gwasanaeth bob awr rhwng Caerfyrddin ac Aberdaugleddau a'r pum thrên bob dydd i borthladd Abergwaun. Mae'r rhain yn fuddsoddiadau eithaf sylweddol. Wrth gwrs, bydd angen gwariant cyfalaf ar y cynllun ailddyblu, ond bydd angen ymrwymadau refeniw ar y gwasanaethau newydd gan eu bod y tu allan i'r fasnachfaint bresennol. Yr wyf wedi cytuno â'r holl gonsortia trafniadaeth rhanbarthol y byddaf, ar ôl cyflwyno'r cynlluniau hynny derfynol imi, yn fodlon siarad â hwy am eu blaenoriaethau a'r modd y gallwn eu gweithredu.

Y sicrwydd y gallaf ei roi ichi heddiw yw y byddaf, pan gaf y cynigion yn ffurfiol gan SWWITCH a'r consortia trafniadaeth eraill, yn edrych yn ofalus ar y modd y gallaf weithredu rhai o'u blaenoriaethau. Er bod y consortia trafniadaeth yn disgwyl hynny efallai, mae'n debyg eu bod yn gwybod na fydd eu holl gynlluniau'n cael eu gwireddu, ond yr wyf yn barod iawn i edrych ar gynigion penodol ac i drafod beth yw eu blaenoriaethauo fewn y rhaglenni a gyflwynant imi. Yr wyf yn barod i roi'r sicrwydd hwnnw ichi heddiw, heb wneud ymrwymiad pendant, gan nad oes gennyf, ar hyn o bryd, ffrydiau refeniw y gallaf eu nodi. Fodd bynnag, yr wyf am edrych ar y mater yn ofalus iawn yng ngoleuni eu prosiectau penodol.

Mae'r rhaglen a gyflwynwyd gennym yn ein cynllun trafniadaeth cenedlaethol yn bwysig yn yr ystyr ein bod wedi dechrau symud gwariant oddi wrth ar ffyrdd ac at gludiant drafnidiaeth fwy integredig. Am y tro cyntaf erioed, mae Llywodraeth y Cynulliad bellach yn gwario mwy ar drafnidiaeth integredig nag

is on roads. That is a major shift. It is taking time for us to make that shift, but we will continue along that path. I have already referred to the possible improvements to stations. I very much hope that that bid will be successful and that we will then be able to make some announcements about that.

I want to refer briefly to some other matters, but before I do that, I think that it is important for me to congratulate Sam and Joanne on their petition. I am pleased that they were able to come to the Assembly today. I assure them that we very much understand the priority that they attach to the development of these services, and I repeat the assurance that I gave that I will be looking very carefully at the proposals that are coming to me through SWWITCH.

I want to make a few more points that I think are important. We are not talking only about rail; we are also talking about other modes of transport. The Sustainable Travel Towns initiative is now proceeding, in the sense that I have identified Cardiff, nominated it and agreed that it will be the first of four such towns. There will be up to three other locations, and I hope to be making an announcement on those soon. The way that I have done it is to ask the regional transport consortia to put forward nominations. They are in the process of making those nominations and I hope that I will be able to agree them and make an announcement on those locations. I expect that there will be one sustainable travel town in south-west Wales because SWWITCH will be making a proposal. What I particularly want to do is to discuss with it how we can take that forward. It is not just about trains; it is also about buses, park-and-ride services and how we respond to the demand for services according to people's travel patterns. I will want to work closely with SWWITCH and the relevant local authorities when that announcement is made to make sure that we do this properly.

The other matter that I wanted to mention was TrawsCambria, which is an important service on the bus network. I have appointed a network manager to work closely with

ar ffyrdd. Mae hynny'n newid mawr. Mae'n cymryd amser inni wneud y newid hwnnw, ond byddwn yn parhau ar y trywydd hwnnw. Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at y gwelliannau posibl mewn gorsafoedd. Yr wyf yn gobeithio'n fawr y bydd y cais hwnnw'n llwyddiannus ac y gallwn wneud rhai cyhoeddiadau ynghylch hynny.

Hoffwn gyfeirio'n fyr at rai materion eraill, ond cyn gwneud hynny, credaf ei bod yn bwysig imi longyfarch Sam a Joanne ar eu deiseb. Yr wyf yn falch eu bod wedi gallu dod i'r Cynulliad heddiw. Yr wyf yn eu sicrhau ein bod yn deall yn iawn fod datblygu'r gwasanaethau hyn yn flaenoriaeth iddynt, ac yr wyf yn ailadrodd y sicrwydd a roddais, sef y byddaf yn edrych yn ofalus iawn ar y cynigion a gyflwynir imi drwy SWWITCH.

Hoffwn wneud ambell bwynt arall sy'n bwysig. mi gredaf. Nid sôn am y rheilffyrdd yn unig yr ydym; yr ydym yn sôn hefyd am ddulliau eraill o deithio. Mae'r fenter Trefi Teithio Cynaliadwy yn mynd rhagddi erbyn hyn, yn yr ystyr fy mod wedi dewis ac enwebu Caerdydd, ac wedi cytuno mai Caerdydd fydd y gyntaf o bedair tref o'r fath. Bydd hyd at dri lleoliad arall yn rhan o'r cynllun, ac yr wyf yn gobeithio gwneud cyhoeddiad am y rheini cyn hir. Yr hyn a wneuthum oedd gofyn i'r consortia trafndiaeth rhanbarthol gynnig enwebiadau. Maent wrthi'n gwneud yr enwebiadau hynny ar hyn o bryd, a gobeithio y gallaf eu cytuno a gwneud cyhoeddiad am y lleoliadau hynny. Yr wyf yn disgwyl y bydd un dref deithio gynaliadwy yn y de-orllewin oherwydd bydd SWWITCH yn cyflwyno cynnig. Yr hyn yr wyf am ei wneud yn benodol yw trafod gyda SWWITCH sut y gallwn symud hynny yn ei flaen. Nid trenau'n unig sydd dan sylw; mae'n golygu bysiau a gwasanaethau parcio a theithio, a sut yr ydym yn ymateb i'r galw am wasanaethau yn ôl patrymau teithio pobl. Byddaf yn awyddus i gydweithio'n agos â SWWITCH a'r awdurdodau lleol perthnasol pan gaiff y cyhoeddiad hwnnw ei wneud, i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn iawn.

Y mater arall yr oeddwn am ei grybwyll oedd TrawsCambria, sy'n wasanaeth pwysig ar y rhwydwaith bysiau. Yr wyf wedi penodi rheolwr rhwydwaith i weithio'n agos gyda'r

operators and local authorities to look at how we can improve and extend the network of services. I will be publishing detailed plans for taking that network forward by 2011. There is also the Bookabus service that has been developed by the Wales Transport Research Centre. It provides improved access to bus services in the Teifi valley area. The service is demand-responsive, allowing those living in the area to phone to arrange travel from home to one of five interchange locations. The service commenced in August and has been extremely well received. I hope to launch it officially in December.

If you take all that together, we are conscious of the transport needs of south-west Wales. I sympathise with the points that Paul made about the importance of Fishguard. I have stated that in other contexts, because I am aware of the importance of Holyhead as a port in north-west Wales. These are important locations in terms of the local economy and the wider economy. Therefore, I understand that, and I give you an assurance that when I formally receive the SWWITCH proposals, I will give them careful consideration.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's business to a close.

gweithredwyr a'r awdurdodau lleol i ystyried sut y gallwn wella'r rhwydwaith gwasanaethau a'i ehangu. Byddaf yn cyhoeddi cynlluniau manwl ar gyfer datblygu'r rhwydwaith hwnnw erbyn 2011. Mae yna'r gwasanaeth Bookabus hefyd, sydd wedi'i ddatblygu gan Ganolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru. Mae'n darparu gwell mynediad i wasanaethau bws yn ardal dyffryn Teifi. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i'r galw, gan ganiatáu i bobl sy'n byw yn yr ardal ffonio i drefnu cludiant o'u cartref i un o bum lleoliad cyfnewid. Dechreuodd y gwasanaeth ym mis Awst, ac y mae wedi cael croeso brwd iawn. Gobeithiaf lansio'r gwasanaeth yn ffurfiol ym mis Rhagfyr.

O ystyried hynny i gyd, yr ydym yn ymwybodol o anghenion trafndiaeth y de-orllewin. Yr wyf yn cydymdeimlo â'r pwyntiau a wnaeth Paul am bwysigrwydd Abergwaun. Yr wyf wedi dweud hynny mewn cyd-destunau eraill, oherwydd gwm mor bwysig yw Caergybi fel porthladd yn y gogledd-orllewin. Mae'r rhain yn lleoliadau pwysig o ran yr economi leol a'r economi ehangach. Yr wyf yn deall hynny, felly, a gallaf eich sicrhau, pan gaf y cynigion ffurfiol gan SWWITCH, y byddaf yn eu hystyried yn ofalus.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 7.06 p.m.
The meeting ended at 7.06 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)